Cofrestrfa Tir EM

**Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021-22**

# Cyflymu ein trawsnewid digidol



Cofrestrfa Tir EM

# Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2021-22

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022

Cyflwynir i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 14 Gorffennaf 2022

HC446



OGL

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd yn rhaid ichi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol. Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Ar gyfer ymholiadau am y cyhoeddiad hwn ffoniwch y tîm Cymorth Cwsmeriaid ar 0300 006 0411 neu anfonwch ebost i customersupport@landregistry.gov.uk; ar gyfer ymholiadau’r wasg ffoniwch Swyddfa’r Wasg ar 0300 006 3365.

ISBN 978-1-5286-3555-4

E02766181 07/22

Argraffwyd ar bapur gyda 40% o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu fan lleiaf.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

**Clawr: Stadiwm Tottenham Hotspur, Haringey, Llundain.** Mae’r clwb yn gweithio gyda Chyngor Haringey i ailddatblygu safle’r hen stadiwm, gan gynnwys tai a chyfleuster gofal iechyd newydd ar gyfer y gymuned leol. Mudodd Haringey i Gofrestr Pridiannau Tir Lleol Cofrestrfa Tir EM yn Rhagfyr 2021. Llun: Alamy/Brian Anthony

**Cynnwys: Pont Trafalgar yn Abertawe,** pont 300 troedfedd i gerddwyr a beicwyr, sy’n croesi afon Tywi rhwng yr Ardal Forol ac SA1 Glannau Abertawe. Abertawe oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ymuno â’r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol yn 2022. Llun: Shutterstock/ Leighton Collins

Lluniau o’r Cyfarwyddwyr: Ian Stone



# Cynnwys

**Adroddiad perfformiad**

**Trosolwg – Cipolwg ar Gofrestrfa Tir EM** 5
Ein rôl yn y farchnad eiddo 6
Cyfweliad â Michael Mire, Cadeirydd 8
Rhagair gan Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir 12

**Adroddiadau'r Cyfarwyddwyr**
Darparu cofrestru tir diogel ac effeithlon 16
Galluogi prynu a gwerthu eiddo yn ddigidol 20
Darparu gwybodaeth eiddo bron yn amser real 24
Darparu data cofrestr ddigidol hygyrch 28
Ymchwil, datblygu a chyflymu newid 34
Ein pobl 38

**Dadansoddiad perfformiad ac adolygiad ariannol**
Adolygiad ariannol 44
Cynllunio a pherfformiad strategol 48
Cynaliadwyedd 54
Gwybodaeth gorfforaethol arall 58
Deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus 59
Targed effaith busnes 59
Iechyd a diogelwch 59
Cwynion 59
Safonau gwasanaeth 60
Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir 60
Cynllun Iaith Gymraeg 60
Ymgysylltu cydlynus â'r llywodraeth a budd-ddeiliaid 61

**Geirfa** 62

**Adroddiad atebolrwydd** 65

**Adroddiad atebolrwydd seneddol** 76

**Datganiadau ariannol adrannol** 98

**Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM 2021-22** 121

**Datganiad ymddiriedolaeth**
Datganiadau ariannol 125

**Atodiad A** 131

**Atodiad B** 134

**Atodiad C** 134

**Atodiad Ch** 135

# Adroddiad perfformiad

## **Trosolwg** – Cipolwg ar Gofrestrfa Tir EM

### Ein pwrpas

Rydym yn gwarchod eich perchnogaeth tir ac yn darparu gwasanaethau a data sy'n cynnal marchnad eiddo effeithlon a gwybodus.

### Ein gweledigaeth

Marchnad eiddo fwyaf blaenllaw'r byd fel rhan o economi ffyniannus a dyfodol cynaliadwy.

### Ein hamcanion strategol

- Darparu cofrestru tir diogel ac effeithlon
- Galluogi prynu a gwerthu eiddo'n ddigidol
- Darparu gwybodaeth eiddo bron yn amser real
- Darparu data cofrestr ddigidol hygyrch
- Arwain ymchwil a chyflymu newid gyda phartneriaid yn y farchnad eiddo

### Ein gwerthoedd

- Rydym yn rhoi sicrwydd
- Rydym yn meddu ar unplygrwydd
- Rydym yn ysgogi arloesedd
- Rydym yn broffesiynol

### Ein prif rôl

Tir yw ased mwyaf ein cenedl a sylfaen ffisegol ein bywydau. Amcangyfrifir bod gwerth tir yng Nghymru a Lloegr tua £8 triliwn – mwy na hanner cyfoeth y genedl. Yn y flwyddyn ariannol 2020-21 yn unig, cafwyd gwerth £260 biliwn o drafodion eiddo yn y DU ac mae Cofrestrfa Tir EM wrth wraidd y broses drawsgludo.

Mae cadw cofnod diffiniol a gwarantedig o berchnogaeth tir yn hanfodol i farchnad eiddo weithredol ac yn caniatáu i drafodion fynd rhagddynt yn ddiogel ac yn hyderus.

Am 160 o flynyddoedd rydym wedi chwarae rôl allweddol yn sefydlogrwydd a thwf economaidd y DU.

Mae ein cofrestr, sy'n ddarn o Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol, yn cynnwys mwy na 26 miliwn o deitlau, sy'n darparu gwarantau perchnogaeth ar gyfer 88% o dir yng Nghymru a Lloegr, ac mae benthyciadau o tua £1-1.5 triliwn wedi eu gwarantu yn ei herbyn.

Mae mynediad i wybodaeth am dir yn golygu y gall unigolion, busnesau a'r Llywodraeth wneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ac ar yr un pryd wynebu heriau niferus heddiw gan gynnwys yr angen am dai, newid hinsawdd ac economi ffyniannus.

Mae miliynau o bobl a busnesau yn dibynnu ar Gofrestrfa Tir EM bob blwyddyn i gael gwybodaeth warantedig am berchnogaeth eiddo ac elfennau eraill sy'n effeithio ar ddefnydd tir, megis amodau cynllunio a statws adeilad rhestredig.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn adran anweinidogol ac yn gorff partner o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

## Cofrestrfa Tir EM – y ffigurau

**39.4m**
Ceisiadau gwasanaeth

**£318.9m**
Cyfanswm refeniw cydnabyddedig

**36.7m**
Ceisiadau digidol

**26,125,710**
Teitlau cofrestredig

**300,000**
Cyfanswm y chwiliadau Pridiannau Tir Lleol
(am ddim ac am dâl)

**20%**
Cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau
(o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)

**100,000**
Chwiliadau dyddiol
ar gyfer data tir ac eiddo

**71%**
Sgôr Mynegai Ymgysylltu
yn Arolwg Pobl 2021

**216,062**
Property Alert
cyfrifon wedi eu creu

**6,677**
Gweithwyr

**63%**
Boddhad cwsmeriaid
Da/rhagorol yn Ch4

**14**
Ein lleoliadau

# Ein rôl yn y farchnad eiddo

## Budd yn y farchnad



Tir ac eiddo sy'n werth **£8 triliwn** yn cael ei ddal




**100,000** o geisiadau dyddiol i weld y gofrestr, cynlluniau a dogfennau cysylltiedig





**Budd yn y farchnad.** Mae gennym un o'r cronfeydd data eiddo geo-ofodol trafodaethol mwyaf yn Ewrop, gan gynnwys yr holl fenthyciadau gwarantedig a hawliau eiddo eraill yng Nghymru a Lloegr. Er 1990 mae ein cofrestr wedi bod ar agor i'r cyhoedd. Derbyniwn tua 100,000 o geisiadau bob dydd i chwilio'r gofrestr, gyda'r mwyafrif yn cael eu hateb ar unwaith trwy'r e-wasanaethau busnes digidol.

Gall ein gwasanaeth **Pridiannau Tir** ddangos a oes cyfyngiadau ar ddefnyddio eiddo digofrestredig. Mae'r gwasanaeth yn gwarchod rhai buddion mewn tir digofrestredig ac rydym hefyd yn cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r Adran **Credydau Amaethyddol** yn rheoli cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar asedau amaethyddol.

## Trafodiad eiddo



**87,000** o ymholiadau gwarantedig bob dydd




**Trafodiad eiddo.** Cyn y gallwch brynu neu werthu unrhyw eiddo, mae'n hanfodol eich bod yn edrych ar y Gofrestr Tir am yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig ag ef. Mae ein chwiliad o'r map mynegai (SIM), copïau swyddogol a gwasanaethau chwiliadau swyddogol yn rhoi sicrwydd i weithwyr proffesiynol eiddo a dinasyddion trwy warchod trafodion wrth iddynt gael eu cwblhau.

## Ar ôl prynu



**446** o gofrestriadau twyllodrus wedi eu hatal er 2009





**25,000** o geisiadau bob dydd i newid y gofrestr





**Ar ôl prynu.** Derbyniwn tua 25,000 o geisiadau bob dydd i newid y gofrestr er mwyn adlewyrchu perchnogaeth eiddo yn gywir. Fel arfer mae hyn yn digwydd ar ddiwedd y trafodiad – ar ôl i eitemau fel treth tir y doll stamp gael eu talu ac mae'r eiddo wedi newid dwylo. Dim ond pryd hynny y byddwn yn diweddaru'r gofrestr gyda'r perchnogion newydd a manylion fel morgeisi neu fuddion eraill. Defnyddir y wybodaeth hon hefyd gan sefydliadau fel Banc Lloegr i gyfrifo cyfraddau llog.

**Property Alert** yw un o'n mesurau atal twyll mwyaf effeithiol, gan anfon rhybuddion e-bost at danysgrifwyr pryd bynnag y bydd gweithgarwch arwyddocaol ar eiddo y maent yn ei fonitro, fel morgais newydd yn cael ei gymryd. Yn ogystal, mae ein data'n cael eu defnyddio'n rheolaidd gan asiantaethau'r heddlu i frwydro yn erbyn twyll.

# Ceisiadau gwasanaeth




# Refeniw statudol




Nodyn: Nid yw refeniw yn cael ei gadw gan Gofrestrfa Tir EM, ond mae'n mynd trwy'r Datganiad Ymddiriedolaeth ac yna'n cael ei ildio i Drysorlys EM

Llun: Shutterstock/Matthew Dixon

# Rhagair

## Cyfweliad â **Michael Mire,** Cadeirydd



Mae **The Gables** yn ddatblygiad arobryn o 30 o dai teulu wedi eu lleoli ar hen safle ffatri yn Crosby, Lerpwl. Mae’r datblygiad yn cyfuno cartrefi fforddiadwy a marchnad agored mewn cymysgedd o unedau dwy, tair a phedair ystafell wely ac yn elwa o gyfleusterau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli gerllaw. Y nod oedd adeiladu datblygiad creadigol, llawn cymeriad oedd yn fasnachol gynaliadwy, gan ystyried dwysedd y boblogaeth, amgylchiadau byw gwahanol a llesiant preswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithio ar y ceisiadau trosglwyddo i gofrestru perchnogaeth teitl yr eiddo.

Llun: Daniel Hopkinson Photography/DK Architects



**Michael Mire** Cadeirydd Cofrestrfa Tir EM
Mae Michael yn Gyfarwyddwr Anweithredol Aviva PLC ac yn uwch gynghorydd yn Lazard hefyd.

"Fy ngweledigaeth i yw gweld Cofrestrfa Tir EM fel y lle i fynd ar gyfer yr holl ddata am eiddo gyda chofrestr sydd nid yn unig yn ddigidol ond yn 3D hefyd, sydd â gwybodaeth bron yn amser real am werthoedd eiddo a'r lle cyflymaf o ran galluogi a chofnodi newidiadau mewn perchnogaeth. Ni fydd ein huchelgais i fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd yn uchelgais mwyach ond bydd wedi troi'n realiti."

Penodwyd **Michael Mire** yn Gadeirydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn 2016, gan ddod â'i wybodaeth a'i brofiad fel Uwch Bartner gyda'r ymgynghorwyr rheoli McKinsey a Chyfarwyddwr Anweithredol y Comisiwn Ansawdd Gofal. Ar ôl chwe blynedd ac ail dymor yn y swydd, mae'n ein gadael ni yn Awst 2022. Fel Cadeirydd Anweithredol, mae Michael wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir i arwain datblygiad y sefydliad ar adeg hollbwysig a chyffrous yn ei hanes 160 o flynyddoedd. Yn ogystal â chymryd cyfrifoldeb dros lywodraethu a pherfformiad, mae ei rôl fel Aelod o'r Bwrdd hefyd wedi gweld Michael yn darparu arweiniad annibynnol, cymorth, a her adeiladol i'r Bwrdd Gweithredol.

Yn ystod deiliadaeth Michael, mae Cofrestrfa Tir EM wedi canolbwyntio ar ei hymrwymiad i drawsnewid digidol a gweithredol, darparu gwasanaeth a gofal cwsmeriaid a datblygu hynny. Mae wedi trawsnewid o brosesau papur i sefydliad ar gyfer yr 21ain ganrif sydd ar flaen y gad ym maes technoleg newydd. Wrth inni gyflymu ein cyfnod a chroesawu awtomeiddio, digideiddio a data, mae ein tîm arweinyddiaeth eang, gan gynnwys Aelodau Bwrdd Anweithredol o gwmnïau FTSE 100, yn eistedd wrth ein hochr gan fanteisio i'r eithaf ar ein harbenigedd ein hunain o bob rhan o'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach.

Fel Cadeirydd y grŵp eithriadol hwn, mae Michael wedi chwarae rhan hynod werthfawr wrth hyrwyddo nodau, amcanion a thrywydd Cofrestrfa Tir EM yn y dyfodol. Mae'n gadael ein sefydliad yn barod i gyflawni strategaeth a chynllun uchelgeisiol a fydd yn ein gweld yn cymryd ein lle fel y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd. Manteisiwyd ar y cyfle i holi Michael am ei uchafbwyntiau dros y chwe blynedd diwethaf yng Nghofrestrfa Tir EM.

**Sut ydych chi'n edrych nôl ar eich amser fel Cadeirydd Cofrestrfa Tir EM?**
Mae wedi bod yn fraint enfawr gwasanaethu fel Cadeirydd Cofrestrfa Tir EM. Mae pob un ohonom yng Nghofrestrfa Tir EM, ac mae hyn hefyd yn wir ar lefelau uchaf y llywodraeth, yn sylweddoli ei phwysigrwydd. Dyna pam y cawn ein disgrifio'n aml fel elfen hollbwysig o seilwaith cenedlaethol. Mae dinasyddion, datblygwyr, tirfeddianwyr a busnesau yn dibynnu ar Gofrestrfa Tir EM a'n miloedd o gydweithwyr arbenigol i'w galluogi i brynu a gwerthu eiddo, yn aml y buddsoddiad pwysicaf y byddant byth yn ei wneud, a sicrhau bod perchnogaeth yn cael ei chofnodi'n gywir. Ni allai banciau gymryd y risg o fenthyca yn erbyn eiddo heb Gofrestrfa Tir EM. Yn y pen draw ni sy'n penderfynu pwy sy'n berchen ar beth a ble. Felly mae bod yn Gadeirydd Cofrestrfa Tir EM yn cynnwys y cyfrifoldeb cenedlaethol hwn ac yn rôl sy'n dwyn cymaint o foddhad.



Cadeirydd Cofrestrfa Tir EM Michael Mire gyda'r Prif Weithredwr Simon Hayes a'r Aelod Bwrdd Anweithredol Ann Henshaw mewn cyfarfod o Fwrdd Cofrestrfa Tir EM yn Geovation, Llundain, yn 2022. Llun: Ian Stone

**Beth fu'r heriau mwyaf?**
Nid yw'n syndod dweud bod her y pandemig yn gyfnod unigryw i Gofrestrfa Tir EM. Bron dros nos aethom o sefydliad swyddfa i un lle roedd bron pawb yn gweithio gartref. Roedd sefydliadau eraill yn wynebu her debyg ond nid oedd ganddynt yr un ddyletswydd i gadw'r farchnad eiddo yn weithredol a chynnal cywirdeb ein cofrestr perchnogaeth. Roedd cydweithwyr Cofrestrfa Tir EM wedi delio â'r her yn wych. Lle roedd eraill yn cael trafferth, sicrhaodd ein pobl fod Cofrestrfa Tir EM yn parhau'n un mor ymatebol i anghenion cwsmeriaid ac yn cynnal ein henw da am y safonau cywirdeb uchaf. "Timau gwych" yng ngwir ystyr y geiriau hynny, fel y mae Cofrestrfa Tir EM yn galw ein cydweithwyr rheng flaen, ar waith bob dydd.

**Beth fu llwyddiannau pwysicaf Cofrestrfa Tir EM?**
Yn gyntaf, mae gallu recriwtio'r hyn y byddai llawer yn ei ddweud yw un o'r byrddau gorau yn y sector cyhoeddus ynddo'i hun yn dyst o bwysigrwydd cenedlaethol Cofrestrfa Tir EM. Pa sefydliad arall sydd wedi llwyddo i ddenu i'w bwrdd, er enghraifft, Pennaeth Amazon yn y DU, y Cwnsler Cyffredinol yn Aviva, y Prif Swyddogion Pobl yn Land Securities a British Land (cwmnïau eiddo mwyaf y DU), a'r Prif Swyddog Digidol yn M&S, i enwi ond ychydig o'n cyfarwyddwyr anweithredol rhagorol? Mae hyn wedi rhoi llywodraethu corfforaethol heb ei ail i Gofrestrfa Tir EM a ffynhonnell ddyddiol o arbenigedd doeth ar gyfer ein swyddogion gweithredol ac i minnau hefyd.

Yn ail, rhaid nodi ein mudo digidol. Pan ddechreuais i fel Cadeirydd, roedd 'Y Stryd Ddigidol', y rhaglen i wneud Cofrestrfa Tir EM yn gofrestrfa tir o'r radd flaenaf, yn ddyhead yn unig. Roeddem yn sefydliad papur a PDF, bron yn ddigyfnewid ers y diwrnod y sefydlwyd Cofrestrfa Tir EM. Nawr mae bron popeth a wnawn ar flaen y gad yn y maes digidol. Ac nid yn unig ar gyfer ein cwsmeriaid ond hefyd ar gyfer ein cydweithwyr sydd o'r diwedd yn cael y systemau sy'n caniatáu iddynt wneud y mwyaf o'u sgiliau a lleihau'r elfennau bob dydd a arferai fod yn rhan ddyddiol o'u gwaith. Arferai Cofrestrfa Tir EM ymweld â chofrestrfeydd tir eraill i weld arferion gorau; erbyn hyn mae cofrestrfeydd tir eraill yn dod atom ni.

**Beth sydd wedi bod yn fwyaf anodd am y trawsnewid?**
Mae unrhyw drawsnewid ar raddfa trawsnewid Cofrestrfa Tir EM yn wynebu anawsterau ar hyd y ffordd. Nid yw popeth yn gweithio y tro cyntaf. Ac nid oedd ein trawsnewid yn un mewnol yn unig. Roeddem yn gofyn i ddiwydiant cyfan newid y ffordd roedd yn trin trafodion eiddo a'r ffordd yr oedd yn benthyca yn erbyn eiddo. Ond er gwaetha'r heriau hyn, mae trawsnewid Cofrestrfa Tir EM wedi mynd rhagddo'n llawer mwy esmwyth nag y gallai unrhyw un fod wedi ei ragweld, sy'n deyrnged i bawb a gymerodd ran ac yn enwedig ein pobl ar y rheng flaen a oedd yn byw yn yr hen fyd a'r byd digidol ar yr un pryd.

**Beth yw dyfodol Cofrestrfa Tir EM yn eich barn chi?**
Mae peth o'r dyfodol gyda ni eisoes. Mae ein gwaith gydag awdurdodau lleol yn golygu bod Cofrestrfa Tir EM bellach yn ffynhonnell bron yr holl ddata pwysig ar eiddo o ganiatadau cynllunio, i gyfyngiadau ar sut y gellir defnyddio eiddo, i ddata bach ond hanfodol ar gyfer perchnogion tai unigol fel gorchmynion cadw coed yn eu gerddi. Ond yn fy meddwl i – dim ond y dechrau yw hyn. Fy ngweledigaeth i yw gweld Cofrestrfa Tir EM fel y lle i fynd ar gyfer yr holl ddata am eiddo gyda chofrestr sydd nid yn unig yn ddigidol ond yn 3D hefyd, sydd â gwybodaeth bron yn amser real am werthoedd eiddo a'r lle cyflymaf o ran galluogi a chofnodi newidiadau mewn perchnogaeth. Ni fydd ein huchelgais i fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd yn uchelgais mwyach ond bydd wedi troi'n realiti.

Trafodaethau yn y cyfarfod yn Geovation.




Llun: Ian Stone




**Warws Ocado, Purfeet**. Y warws mawr, newydd hwn yw pumed Canolfan Cyflawniad Cwsmeriaid ar gyfer Ocado Retail, y fenter 50-50 ar y cyd rhwng cwmni FTSE 100 Ocado Group a Marks & Spencer. Mae Swyddfa Croydon wedi cofrestru'r cytundeb i'w brydlesu ac mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i gwblhau'r broses o drosglwyddo'r gofrestr. Llun: Google Earth

# Trosolwg

## Rhagair y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir gan **Simon Hayes**



**Lincoln Square, Llundain**. Datblygiad preswyl newydd deg llawr, gwerth miliynau o bunnoedd, yn Ardal Gadwraeth y Strand, San Steffan. Mae cyfanswm o 230 o fflatiau, cyfleusterau i breswylwyr, a chwrt wedi ei dirlunio wedi cymryd lle adeilad swyddfa concrid gwag o'r 1960au ar ynys. Y safle oedd cyn bencadlys y Swyddfa Brisio a gyferbyn â chyn bencadlys Cofrestrfa Tir EM yn Lincoln's Inn Fields. Cwblhawyd y ceisiadau diweddaraf am brydlesi yn 2021 -22 gan arbenigwyr Cofrestrfa Tir EM yn Swyddfa Croydon. Llun: Pete Sim



**Simon Hayes** Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

"Bu'n flwyddyn gref i Gofrestrfa Tir EM. Rydym wedi gweld cynnydd o 20% yn y galw am ein gwasanaethau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond er hynny rydym wedi bodloni ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad cwsmeriaid, ymgysylltiad cydweithwyr a diogelu cywirdeb ein cofrestri."

Bu hon yn flwyddyn arall lle gwelwyd y galw mwyaf erioed yn y farchnad eiddo, rhywbeth sydd wedi parhau'n ddi-dor ers cyn y pandemig. Mae rôl ganolog y farchnad eiddo o ran cynnal yr economi yn rhoi pwysau arbennig ar Gofrestrfa Tir EM a'r sector eiddo cyfan.

## Cynnal sector eiddo ffyniannus

Bu'n flwyddyn gref i Gofrestrfa Tir EM. Rydym wedi gweld cynnydd o 20% yn y galw am ein gwasanaethau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond er hynny rydym wedi bodloni ein dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad cwsmeriaid, ymgysylltiad cydweithwyr a diogelu cywirdeb ein cofrestri.

Er nad ydym wedi cyrraedd lle rydym am fod o ran dangosyddion perfformiad allweddol eraill, yn enwedig cyflymder cyffredinol y gwasanaeth, mae'r hyn a gyflawnwyd eleni yn golygu ein bod mewn sefyllfa i roi sylw i'r materion hyn mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol.

Eleni, proseswyd oddeutu 156,000 o geisiadau gwasanaeth gan ein cwsmeriaid bob dydd, gan ddarparu profiad cwsmer cyflym ac effeithlon ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hynny sy'n golygu y gall eiddo newid dwylo yn ddi-oed. O'r ceisiadau a dderbyniwn bob dydd, mae 130,000 yn geisiadau a alwn yn wasanaethau gwybodaeth – megis chwiliad swyddogol, lle mae angen i gwsmeriaid weld pa ddata a gedwir ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae dros 90% o'r ceisiadau hyn yn awtomataidd ac ar gael yn syth. Mae angen rhywfaint o ymyrraeth â llaw ar gyfer y gweddill, a darparwn 95% o'r rhain o fewn ein safon gwasanaeth tri diwrnod.

Mae newidiadau i'r gofrestr yn digwydd ar ôl i drafodiad gael ei gwblhau fel arfer a chaiff pob cais ei ddiogelu o'r eiliad y caiff ei gyflwyno inni. Gellir delio â'r rhain trwy ddull carlam heb unrhyw dâl ychwanegol lle mae angen brys i gwblhau'r cofrestriad. Rydym yn prosesu tua 1,000 o'r ceisiadau brys hyn bob dydd, gyda 96% yn cael eu cwblhau o fewn deg diwrnod gwaith.

Gyda'i gilydd, mae hyn wedi sicrhau bod y farchnad eiddo yn parhau i ffynnu.

## Heriau allweddol mewn marchnad gyfnewidiol

Mae ceisiadau ôl-gwblhau eraill nad ydynt yn rhai brys (oddeutu 19,000 o geisiadau y dydd) yn cymryd mwy o amser nag yr hoffai ein cwsmeriaid. Heddiw, mae ein hallbwn cyffredinol yn uwch nag yr oedd dair blynedd yn ôl, cyn i'r pandemig daro, ond nid yw wedi gallu cadw i fyny o hyd â'r cynnydd cyflym yn nifer y ceisiadau a dderbyniwn.

Yn y tymor hwy, yr her sy'n ein hwynebu yw bod yn fwy hyblyg, gwydn ac ymatebol i farchnad a fydd bob amser yn gyfnewidiol. Mae sgiliau ac arbenigedd cofrestru tir yn cymryd amser i'w datblygu, felly nid mater hawdd yw ystwytho ein gallu i fodloni'r gweithgarwch anwadal yn y farchnad eiddo. Dim ond digideiddio ac awtomeiddio rhannau symlach o'n prosesau all ateb yr her honno. Bydd hyn yn fwy dibynadwy a rhagweladwy, yn darparu amseroedd gweithredu cyflymach o lawer ac yn lleihau'r gost i bob un ohonom o orfod gwneud ymholiadau (neu geisiadau am wybodaeth) y gellir eu hosgoi.

Ein nod, felly, yw awtomeiddio'r rhan fwyaf o'r ceisiadau syml. Yna byddwn yn gallu ail-ganolbwyntio ein gweithwyr achos ar y ceisiadau hynny sydd angen eu mewnbwn a'u barn arbenigol, gan leihau amseroedd gwasanaeth ymhellach.

Bydd ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol newydd ar borthol Cofrestrfa Tir EM yn cael ei gwblhau yn gynnar yn 2023. I gefnogi hyn, rydym wedi datblygu system gwaith achos mewnol newydd ac wedi ailstrwythuro llawer o'r Gofrestr Tir i'w gwneud yn ddarllenadwy gan beiriannau.

Rydym eisoes yn gweld bod y system gweithwyr achos newydd yn symleiddio prosesu, gan leihau'r amser a gymerir i brosesu cais gan tua 30%. Rydym hefyd wedi gweld gostyngiad o 30% yn y gwallau mwyaf syml, megis amrywiadau mewn enw, mewn ceisiadau a gyflwynir trwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Cofrestru Digidol.

## Mynd i'r afael â chynhyrchiant, perfformiad a phrosesau

Ochr yn ochr â'n cynnydd sylweddol wrth ddigideiddio ac awtomeiddio ein gwasanaethau, cwblhawyd ein hymarfer recriwtio mwyaf ers dros ddegawd hefyd, gan groesawu 390 o gydweithwyr newydd i'n timau gwaith achos, gyda chefnogaeth ein Hacademi Cofrestru Tir, i feithrin mwy o gapasiti a gallu i ateb anghenion cwsmeriaid.

Rydym wedi cryfhau ein gwybodaeth reoli er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gweithredol a strategol ar draws y sefydliad. Mae offer newydd bellach yn galluogi cydweithwyr i hunanwasanaethu gyda data amser real y gellir eu defnyddio i helpu i wneud penderfyniadau callach a chyflymach.

Rydym hefyd wedi cwblhau rhaglen fuddsoddi arwyddocaol i arfogi ein timau gwaith achos a'n harweinwyr â'r data, yr offer, y sgiliau a'r cymorth i arwain trafodaethau hyfforddi sy'n ysgogi perfformiad gweithredol gwell. Mae canlyniadau cynnar eisoes yn dangos gwelliant o 15% mewn cynhyrchiant, a disgwylir mwy wrth i'r rhaglen ymwreiddio'n llawn ym mhob tîm.

Er mwyn parhau â'n trawsnewid tuag at broses cofrestru tir fwy digidol ac yn y pen draw wella profiad ein cwsmeriaid, rydym wedi ailstrwythuro ein portffolio o 'raglenni newid'. Rydym hefyd wedi dechrau archwilio ad-drefnu ehangach o'r ffordd rydym yn gweithio, gan adolygu ein strwythur a'n swyddogaethau i sicrhau'r cydweithredu mwyaf posibl ac y gallwn barhau i gyflawni ein nodau strategol.

Rydym hefyd wedi parhau i foderneiddio ein diwylliant sefydliadol a ffyrdd o weithio. Cyflwynwyd dull gweithredu hybrid er mwyn i gydweithwyr allu gweithio mewn ffordd sy'n sicrhau eu cynhyrchiant, eu llesiant a'u cyfraniad ehangach mwyaf posibl i'r sefydliad.

Gallwch ddarllen mwy o fanylion am y mentrau hyn yn yr adroddiad hwn.

Cynhadledd Rhwydwaith Uwch Arweinwyr, Birmingham, 2021




## Cysylltiad, cydweithio a chapasiti mewn byd digidol

Nid oes gan y system bresennol o brynu a gwerthu tai y profiadau digidol sylfaenol y mae pobl yn eu disgwyl gan wasanaethau proffesiynol yn yr 21ain ganrif. Mae trafodion eiddo yn gymhleth, mae llawer o fudd-ddeiliaid a sectorau amrywiol yn rhan o'r broses, ac mae pobl yn ei gweld yn broses ddryslyd, llawn straen. Mae llawer o'r aneffeithlonrwydd wrth brynu a gwerthu eiddo preswyl hefyd yn bresennol pan fydd eiddo masnachol yn cael ei fasnachu.

Roedd ein strategaeth flaenorol wedi ein gosod ar y trywydd iawn i agor ein data ac ail-lunio ein systemau er mwyn moderneiddio ein gwasanaethau. Dechreuodd gyfnod o fuddsoddiad sylweddol yn ein pobl hefyd, gan ailadeiladu capasiti a gallu i gadw i fyny â'r newid yn y galw am wasanaethau.

Mae mwy o ddata a gwasanaethau digidol newydd wedi agor y drws i fabwysiadu gwirio hunaniaeth digidol a llofnodion electronig, gan ddileu'r gofynion llym olaf am bapur mewn trafodiad eiddo.

Mae'r buddion posibl i gwsmeriaid a sefydliadau a gynigir trwy awtomeiddio, ynghyd â buddion ehangach data eiddo i'r economi, yn llawer agosach at gael eu gwireddu erbyn hyn.

Yr hyn sy'n dod i'r amlwg yw gweledigaeth o blatfformau a gwasanaethau digidol cysylltiedig sy'n cynnig modd i brynwyr a gwerthwyr, eu banciau, cyfreithwyr ac eraill i ddod at ei gilydd bob tro y caiff eiddo ei brynu a'i werthu – pawb yn rhyngweithio'n hollol ddigidol. Mae cwsmeriaid yn dweud wrthym y byddai'r system ar ei mwyaf effeithiol pe bai'n cael ei bwydo gan wybodaeth safonol – data am yr eiddo dan sylw, y partïon dan sylw a chynnydd y trafodiad – sydd ar gael i bawb.

## Arweinyddiaeth ddigidol – newid ffocws

Credwn fod gan Gofrestrfa Tir EM rôl arweinyddiaeth glir i'w chwarae, o ystyried ei harbenigedd, ei swyddogaeth ganolog a'i data. Rydym hefyd am gefnogi gwelliannau yn y sector cyfan. Er enghraifft, gallwn osod gofynion o ran ymarfer a pholisi a fydd yn dylanwadu ar fabwysiadu technoleg ddigidol. Rydym eisoes wedi cael llwyddiant yn y maes hwn mewn perthynas â safonau adnabod digidol ac e-lofnod.

Mewn cydweithrediad ag eraill, rydym am wella'n ddramatig y profiad i bawb sy'n ymwneud â'r farchnad eiddo, gan gynnwys prynwyr a gwerthwyr tai, a datgloi gwerth mewn ffordd nad yw erioed wedi digwydd o'r blaen. Mae technoleg ddigidol yn rhoi'r cyfle i wneud hyn, mewn ffordd sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'r farchnad eiddo yn unig.

Mae ffocws y sefydliad a chydbwysedd ei ymdrech yn newid. Yn draddodiadol, mae Cofrestrfa Tir EM wedi canolbwyntio ar wasanaethau trafodaethol. Er y bydd y rheini'n parhau i fod yn hanfodol, bydd digideiddio llawer mwy o wybodaeth yn dod â manteision mawr i ystod eang o weithgareddau a diwydiannau. Mae data eiddo yn cefnogi'n uniongyrchol gynllunio defnydd tir, llunio polisïau amgylcheddol, yr ymdrech genedlaethol i gyflawni Sero Net a'r sector technoleg eiddo sy'n tyfu'n gyflym. Byddwn yn parhau i ysgogi arloesedd yn y defnydd o ddata eiddo, yn enwedig trwy ein rhaglen ymchwil a datblygu'r Stryd Ddigidol, a'n cyflymydd Geovation.

# Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

## Marchnad eiddo fwyaf blaenllaw y byd fel rhan o economi ffyniannus a dyfodol cynaliadwy


**Darparu cofrestru tir diogel ac effeithlon**

**Galluogi prynu a gwerthu eiddo'n ddigidol**

**Darparu gwybodaeth am eiddo bron yn amser real**

**Darparu data cofrestr ddigidol hygyrch**

**Arwain ymchwil a chyflymu newid gyda phartneriaid yn y farchnad eiddo**




Cynnal ffydd a hyder mewn perchnogaeth eiddo bob amser

Cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth cwbl ddigidol rhagorol a thrafodion eiddo bron yn hollol esmwyth, mwy ystyriol o ddefnyddwyr a mwy diogel

Y farchnad wedi ei llywio gan ddata digidol, gan ysgogi penderfyniadau gwell a chyflymach

Ein data eiddo digidol yn cynnal economi sefydlog, iach a dyfodol cynaliadwy

Cyd-greu newid llwyddiannus a pharhaol yn y farchnad eiddo trwy raglenni arloesol fel Y Stryd Ddigidol

### Trawsnewid cofrestru tir yng Nghymru a Lloegr

Rydym yn paratoi i gyhoeddi ein Strategaeth 2022+ newydd, a fydd yn amlinellu'n glir ein gweledigaeth a'n pwrpas ar gyfer y dyfodol. Rydym am i'r cam nesaf hwn o'n strategaeth drawsnewid y broses o gofrestru tir yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi cael cefnogaeth gref gan fudd-ddeiliaid allweddol ar draws y sector eiddo a thu hwnt.

Ochr yn ochr â'n Strategaeth, byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Cynllun Busnes 2022-25, a fydd yn amlinellu ein cynllun buddsoddi i fynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol gan wneud y sefydliad yn fwy gwydn i wrthsefyll cyfnewidioldeb y farchnad yn y tymor hwy.

Yn fwy cyffredinol, mae'n ceisio gwneud tri pheth:

— darparu cyflymder gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid trwy fuddsoddi mewn trawsnewid digidol a chapasiti gweithwyr achos. Bydd hyn yn ein galluogi i gadw i fyny â'r farchnad a gwneud ein darpariaeth gwasanaeth yn fwy gwydn i'r galw yn y dyfodol. Erbyn diwedd y tair blynedd, byddwn wedi dileu'r ôl-groniad o geisiadau sydd gennym heddiw ac wedi cynyddu'n sylweddol gyflymder ein gwasanaethau.
— gosod y sylfeini ar gyfer ein rôl yn y dyfodol mewn marchnad eiddo ddigidol a chael yr effaith fwyaf posibl ar yr economi ehangach. Bydd cofrestri digidol y dyfodol – gan gynnwys y Gofrestr Pridiannau Tir Lleol – yn helpu i gynnal marchnad eiddo fwy effeithlon a thryloyw. Rydym hefyd yn buddsoddi mewn hygyrchedd ein data a gallu data i ryngweithredu er mwyn helpu i gefnogi gweithgarwch economaidd ehangach ac arloesi.
— moderneiddio ein diwylliant sefydliadol a'n ffyrdd o weithio fel bod Cofrestrfa Tir EM yn parhau i fod yn lle gwych i weithio ar gyfer ein gweithlu nawr ac yn y dyfodol.

Mae ein setliad cyllideb o Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 2021 yn sicrhau bod gennym y gefnogaeth ariannol gan Drysorlys EM i fuddsoddi yn ein pobl a thrawsnewid digidol. Mae'r buddsoddiad hwnnw'n golygu ein bod yn creu ateb hirdymor i'r heriau a grëir gan farchnad gylchol, gan wneud ein darpariaeth gwasanaeth yn fwy cyson a chynaliadwy nag y mae heddiw.

# Darparu cofrestru tir diogel ac effeithlon

**Chris Pope** Prif Swyddog Gweithrediadau



**Prifysgol Leeds Beckett, Ysgol Chwaraeon Carnegie**. Mae adeilad newydd Prifysgol Leeds Beckett gwerth £45 miliwn, a ddyluniwyd gan y penseiri Sheppard Robson, yn uno cyfleusterau addysgu ac ymchwil arbenigol, a oedd wedi eu lledaenu dros bum adeilad cyn hynny, yn un cyfadeilad 8,300m$^2$. Yn gartref i gyfleusterau o'r radd flaenaf gan gynnwys Canolfan Athletau gyda thrac dan do 60m, tua 40 o labordai ymchwil ac addysgu, a dwy siambr amgylcheddol o safon fyd-eang a all drin tymheredd, lleithder ac uchder i fesur ymatebion ffisiolegol i amgylcheddau eithafol, mae'r ganolfan yn darparu ar gyfer clybiau chwaraeon cymunedol a phroffesiynol fel Leeds United a Leeds Rhinos, yn ogystal â'r brifysgol. Cwblhawyd y cofrestriad gan Swyddfa Durham. Llun: Andrew Heptinstall Photography



“Mae arbenigedd, unplygrwydd a phroffesiynoldeb ein pobl yn allweddol i gywirdeb a diogelwch ein cofrestri. Ochr yn ochr â’n rhaglen trawsnewid digidol uchelgeisiol, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein harbenigwyr cofrestru.”

**Chris Pope** Prif Swyddog Gweithrediadau

Mae cadw cofrestri cywir heb unrhyw dwyll, sy’n cynnal ffydd a hyder yn y farchnad eiddo, yn parhau i fod yn nod o’r pwys mwyaf inni nawr ac yn y dyfodol.

## Y capasiti i wella cyflymder gwasanaeth ar gyfer ein cwsmeriaid


Gyda bron 40 miliwn o geisiadau am wasanaeth yn 2021-22, mae bodloni galw cwsmeriaid mewn marchnad sydd wedi parhau’n fywiog wedi gofyn am wydnwch a hyblygrwydd sefydliadol.

Bob dydd derbyniwn tua 14,500 o chwiliadau a thua 25,000 o geisiadau i’n harbenigwyr newid y gofrestr. Rydym yn rhan hanfodol o bob trafodiad eiddo ac nid yw’r cynnydd yn y galw a welwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn dangos unrhyw arwydd o leihau.

Er ein bod wedi parhau i optimeiddio a datblygu ein capasiti, mae amseroedd aros yn rhy hir ar gyfer rhai ceisiadau i newid y gofrestr, ac mae angen inni wneud mwy i helpu cwsmeriaid.

Yn y cyfamser, fodd bynnag, rydym wedi bod yn ymateb i ateb anghenion cwsmeriaid trwy ein gwasanaeth carlam (brys) sydd wedi gweld y galw mwy na dyblu dros y flwyddyn a chan 335% ers inni lansio’r gwasanaeth yn 2020. Rydym wedi cynyddu ein capasiti gwaith achos gyda 390 o weithwyr achos newydd yn ymuno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan barhau â’n rhaglen bum mlynedd o recriwtio a chroesawu ymhell dros 1,000 o weithwyr achos yn y cyfnod hwnnw. Mae’r camau hyn wedi galluogi’r farchnad eiddo i ffynnu.

**Ceisiadau am wasanaeth – blwyddyn ariannol**




**Sgôr boddhad cwsmeriaid**



## Adeiladu gwasanaeth cwsmeriaid gwirioneddol ragorol

Rydym am adeiladu gwasanaeth cwsmeriaid gwirioneddol ragorol sy'n gallu gwrthsefyll ansefydlogrwydd yn nhrafodion y farchnad eiddo. Bydd awtomeiddio llwyr achosion symlach ac awtomeiddio rhannol o rai eraill yn ein galluogi i gynnal cyflymder gwasanaeth trwy amrywiadau yng ngweithgarwch y farchnad.

Mae'r porthol, ein prif sianel fusnes ar gyfer mwy nag 85% o gwsmeriaid sy'n gwneud ceisiadau i newid y gofrestr, wedi cael ei ailwampio'n sylweddol. Mae'r gwelliannau i'r sianel yn ei gwneud hi'n llawer symlach a mwy greddfol i'w defnyddio, gyda gwasanaethau a nodweddion newydd.

Yn dilyn cyfnod profi llwyddiannus, yn Ebrill 2021 roedd ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol (GCD) ar gael i bob un o'n cwsmeriaid sy'n cyflwyno ceisiadau trwy'r porthol. Mae'r gwelliant mawr hwn yn golygu y gall cwsmeriaid gyflwyno ceisiadau digidol i newid y gofrestr. Er ein bod yn gwella'r platfform yn barhaus, mae'r defnydd o'r GCD wedi cynyddu'n gyson trwy gydol y flwyddyn gyda bron 17% o geisiadau i ddiweddaru'r gofrestr yn cael eu cyflwyno trwy'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd. Mae'r gallu i ddilysu a gwirio gwybodaeth ymlaen llaw hefyd wedi arwain at geisiadau o safon uwch y gellir eu prosesu'n gyflymach – gyda gwallau sylfaenol wedi eu lleihau gan 30%. Roedd GCD wedi gwneud cryn argraff ar y beirniaid yn Real IT Awards 2022, gan ennill y categori Darparu Profiad Ardderchog i Gwsmeriaid. Gan y bydd angen cyflwyno pob cais yn ddigidol yn y dyfodol, naill ai trwy'r GCD neu system wedi ei galluogi gan Business Gateway, rydym yn gweithio i sicrhau bod pob cwsmer yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt.

Rydym hefyd wedi ychwanegu nodweddion pellach at y porthol sy'n cynnig modd i gwsmeriaid reoli eu ceisiadau. Mae'r gwasanaethau View My Applications, View Colleagues' Applications a Save and Resume i gyd wedi eu gwella i'w gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i gwsmeriaid gael mynediad i wybodaeth am gais a gyflwynwyd trwy'r porthol a rheoli'r wybodaeth honno. Mae ychwanegu Dyddiad Cwblhau Tybiedig hefyd yn rhoi rhyw syniad i drawsgludwyr pryd y gallant ddisgwyl i'r cais gael ei gwblhau.

Mae llawer o'n cwsmeriaid, yn enwedig y rhai sy'n cyflwyno nifer fawr o geisiadau i ddiweddaru'r gofrestr a cheisiadau am wybodaeth, yn integreiddio eu systemau rheoli achosion yn uniongyrchol â'n gwasanaethau ni. Rydym yn galluogi hyn trwy fuddsoddi yn ein sianel Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau, Business Gateway. Yn seiliedig ar adborth cwsmeriaid, rydym wedi ychwanegu gwasanaethau argaeledd copi swyddogol ac enwau perchnogion cofrestredig sy'n helpu ein cwsmeriaid i leihau gwallau y gellir eu hosgoi a defnyddio Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau sy'n haws i'w hintegreiddio. Rydym hefyd wedi ailgynllunio'r pecyn datblygwyr, gan ei gwneud hi'n haws i ddeall sut i integreiddio ein gwasanaethau, ac wedi lansio Business Gateway Community, lle gall cwsmeriaid gyfrannu at ein strategaeth a dylanwadu ar yr hyn rydym yn gweithio arno nesaf. Rydym wedi cael adborth gwych ar ba mor hawdd y bu ein gwasanaethau newydd i'w defnyddio, gydag enghreifftiau o gwsmeriaid yn cymryd ychydig oriau i ddechrau cyrchu ein Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau newydd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r sector i arloesi a hwyluso, gan sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael y gwasanaethau y maent yn eu gwerthfawrogi fwyaf.




Llun: Mike Lister

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi dechrau cyflwyno ein system prosesu gwaith achos newydd, sydd eisoes yn dechrau dod â gwelliannau effeithlonrwydd. Ym Mawrth 2022 yn unig, cafodd 88,000 o geisiadau eu prosesu, gydag achosion yn cael eu cwblhau tua 30% yn fwy effeithlon. Arwydd bach yn unig yw hwn o'r manteision a ddaw yn sgil y buddsoddiad yn ein systemau technoleg, y mae'r sylfeini ar eu cyfer wedi eu gosod dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hefyd yn rhoi hyder inni y byddwn yn gallu gweld gwelliannau gwirioneddol yn ein lefelau gwasanaeth cwsmeriaid fel y nodir yn ein Cynllun Busnes tair blynedd newydd.

Ers cyhoeddi ein strategaeth yn 2017, rydym bellach ar drothwy cyfnod newydd o brosesu bron yn syth trwy awtomeiddio o'r dechrau i'r diwedd. Nid yn unig bydd hyn yn ein galluogi i gyflymu'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwn i'n cwsmeriaid, ond bydd hefyd yn cynnig gwasanaethau trafodion mwy cyfannol a phersonol sy'n gweithio law yn llaw â'r trafodiad eiddo, y gallwch ddarllen amdanynt yn ein Strategaeth 2022+.

Mae arbenigedd, unplygrwydd a phroffesiynoldeb ein pobl yn allweddol i gywirdeb a diogelwch ein cofrestri. Ochr yn ochr â'n rhaglen trawsnewid digidol uchelgeisiol, rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein harbenigwyr cofrestru.

Mae ein gofynion hyfforddi wedi bod yn sylweddol o ganlyniad i gynyddu maint y gweithlu. Mae ein Hacademi Cofrestru Tir newydd wedi caniatáu inni ddatblygu ein cydweithwyr arbenigol a chynyddu eu gwybodaeth, ac ar yr un pryd rhoi'r cymorth gorau posibl y mae ei angen arnynt ac y maent yn ei haeddu i recriwtio, hyfforddi a datblygu.

Er gwaetha'r pwysau trwm y mae hyn wedi eu rhoi ar ein hadnoddau, rydym wedi cynnal ein hallbwn ac, yn chwarter olaf y flwyddyn, rydym wedi elwa ar ein buddsoddiad, gyda chynnydd o bron 15% mewn allbwn o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Trwy ein rhaglen Brilliant Teams, Inspiring Leaders, rydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn ein pobl, gan rymuso cydweithwyr i ddatrys problemau a chael sgyrsiau perfformiad wedi eu seilio ar ddata.

Trwy adeiladu sgiliau arweinyddiaeth a gwelliant parhaus yn ein timau ar bob lefel, ein nod yw helpu pawb i wella perfformiad ac ymgysylltiad i gyflawni mwy ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae ein cydweithwyr wedi cwblhau'r buddsoddiad cychwynnol, gyda gweithgarwch parhaus i wella'n barhaus, ac adeiladu aeddfedrwydd a gallu. Rydym eisoes yn dechrau gweld yr effaith gyda data diwedd blwyddyn yn dangos bod ein cynhyrchiant 15% yn uwch na'r un cyfnod y llynedd.

### Cynnal ffydd a hyder

Mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni i'n cwsmeriaid a pherchnogion cofrestredig ymddiried yng nghywirdeb ein cofrestri. Mae'r data a gedwir yn ein cofrestri wedi eu gwarantu gyda Chofrestrfa Tir EM yn ffurfio rhan o'r seilwaith cenedlaethol hollbwysig ac yn sail i'r farchnad eiddo fywiog a chyfnewidiol ar adegau.

Mae twyll teitl cofrestredig yn achosi niwed pellgyrhaeddol ac anadferadwy weithiau i'r rhai sy'n ei ddioddef. Rydym wedi ymrwymo i adnabod, atal a chanfod cofrestriad ceisiadau twyllodrus ac yn parhau i fuddsoddi yn y maes hwn.


Trwy ddefnyddio gwybodaeth helaeth a dulliau canfod yn fedrus, llwyddwyd i atal cofrestru 44 o geisiadau twyllodrus yn 2021-2022. Effeithiodd y rhain ar eiddo ar draws Cymru a Lloegr gyda gwerth amcangyfrifedig o ychydig dros £31m.

Rydym yn parhau i weithio gydag adrannau'r llywodraeth gan gynnwys Swyddfa'r Cabinet, gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau gwrth-dwyll allanol eraill i ddiogelu'r gofrestr a pherchnogion eiddo rhag y bygythiad cynyddol o dwyll teitl cofrestredig.

Mae diogelwch yn hanfodol i gynnal cywirdeb ac argaeledd y gofrestr. Er mwyn diogelu ein gwasanaethau a'n data rhag ymosodiadau seiber sy'n fwyfwy soffistigedig rydym wedi buddsoddi mewn datrysiadau sy'n amddiffyn y sefydliad, gan gynnwys diweddaru a gwella ein hamddiffyniad gwrth-feirws, maleiswedd a Microsoft Office 365 ar draws bron 10,000 o ddyfeisiau.

Rydym hefyd wedi ehangu'r defnydd o'n galluogrwydd ac offer Diogelwch a Monitro Digwyddiadau i atal ymdrechion maleisus i darfu ar ein gwasanaethau ar draws ein hystad dechnoleg, yn ogystal â gwella ein proses rheoli bregusrwydd. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu rhwystro nifer sylweddol o fygythiadau. Rydym hefyd wedi cyflwyno gwelliannau mewn technegau dilysu mwy modern a Rheoli Mynediad Breintiedig er mwyn gwella ein hamddiffynfeydd ymhellach.

**Hawliadau a dderbyniwyd yn erbyn y warant**




## Gwasanaeth brys

Mae proses brys – neu garlam – Cofrestrfa Tir EM ar gael ar gyfer ceisiadau, naill ai preswyl neu fasnachol, lle byddai oedi yn peryglu trafodiad eiddo. Erbyn diwedd y flwyddyn, roeddem wedi prosesu tua 1,000 o geisiadau brys bob dydd, a chafodd 96% ohonynt eu cwblhau neu eu prosesu cyn belled ag y gallant o fewn 10 diwrnod gwaith.

Daw ceisiadau am wasanaeth brys atom gan unigolion yn ogystal â chwmnïau trawsgludo, cyfreithwyr a chwmnïau datblygu eiddo, ac am ystod eang o resymau. Mae ein cydweithwyr Cymorth Cwsmeriaid yn llywio sefyllfaoedd llawn straen yn fedrus tuag at ddatrysiad llwyddiannus ac roedd hyn yn wir yn achos Dave Smith (nid ei enw iawn), a gysylltodd â ni yn ddiweddar.

Roedd Dave yn ceisio symud tŷ gyda'i ddau blentyn bach ond ar ôl gwerthu ei dy ei hun, cododd gymhlethdodau gyda'r eiddo roedd e am ei brynu, gan adael dewis anodd: caniatáu i'w werthiant gwympo trwyddo neu werthu a rhoi ei deulu mewn perygl o fod yn ddigartref. Fe gysylltodd â'n Canolfan Cymorth Cwsmeriaid am gymorth ac roedd wrth ei fodd pan lwyddodd, ar ôl gofyn am wasanaeth brys, i gwblhau prynu'r tŷ.

"Allwn i ddim fod wedi treulio mwy o amser mewn anecs nain 1 gwely gyda dau o blant … diolch yn fawr iawn!!!" meddai.

Roedd Jane Jones (nid ei henw iawn) wedi cael ei gorfodi ddwywaith i ganslo symud tŷ ar draws y wlad gyda menyw 86 oed. Roeddem ni'n gallu dweud wrthi fod y cais a oedd yn achosi oedi i'w chais hi wedi cael sylw brys a'i gwblhau, ynghyd â'i chais hi. "Pe bawn i'n gallu anfon siocledi atoch fe fyddwn i'n gwneud hynny," meddai. "Rydych chi wedi gwneud diwrnod heriol iawn yn un heulog, braf. Diolch."



# Galluogi prynu a gwerthu eiddo yn ddigidol

**Mike Harlow** Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir



Mae'r **Elizabeth Line** newydd yn ymestyn mwy na 100km o Reading a Heathrow yn y gorllewin trwy dwneli canolog ar draws i Shenfield ac Abbey Wood yn y dwyrain, gan ychwanegu tua 10% yn fwy o gapasiti i rwydwaith rheilffyrdd canol Llundain. Mae'n ffurfio rhan o'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol dan arweiniad y Comisiwn Geo-ofodol, gyda Chofrestrfa Tir EM yn un o chwe chorff partner. Roedd cwblhau'r gwaith yn cynnwys cofrestru teitlau tanddaearol cymhleth, megis un teitl ar gyfer darn o drac yn **Farringdon**, sydd â 72 o gyfeirnodau cynllun dros wahanol lefelau, wedi ei gofrestru gan ein Swyddfa Abertawe.
Llun: Crossrail Project



**Mike Harlow** Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir

"Rydym yn arwain trafodaethau i adeiladu gweledigaeth gyffredin o sector wedi ei gysylltu'n ddigidol lle mae gwerthwyr tai, rhoddwyr benthyg, cyfreithwyr, syrfewyr, datblygwyr, broceriaid a'u cleientiaid amrywiol i gyd yn rhyngweithio'n ddigidol – gan rannu'r un wybodaeth am yr eiddo a'r trafodion."

Mae'r farchnad eiddo yn gallu bod yn gyfnewidiol ac mae bob amser yn gymhleth. Mae'n cwmpasu anghenion economaidd a chymdeithasol amrywiol, o dai i eiddo masnachol a seilwaith cenedlaethol. Mae'n cynnwys llawer o broffesiynau a diwydiannau gwasanaeth.

Yng Nghymru a Lloegr mae mwy nag 1 miliwn o drafodion eiddo preswyl a thua 100,000 o drafodion eiddo masnachol yn cael eu cwblhau bob blwyddyn. Er bod llawer o sectorau, megis cyllid, wedi croesawu technoleg ddigidol, nid yw trafodion eiddo wedi gwneud hynny i'r un graddau eto. Mae'r amser y mae'n ei gymryd i symud tŷ wedi cynyddu mewn gwirionedd yn y degawdau diwethaf. Bydd creu marchnad eiddo ddigidol nid yn unig yn galluogi trafodion i fod yn gyflymach, ond hefyd yn datgloi'r potensial i bob rhan o'r farchnad drawsnewid yn sylweddol er budd busnesau a'r defnyddiwr.

## Gweledigaeth gyffredin

Bydd y trawsnewid mwyaf cyflym a llwyddiannus o'r farchnad yn digwydd dim ond os bydd y budd-ddeiliaid amrywiol yn dod at ei gilydd i weithio tuag at yr un nodau cytûn. Mae ein rôl unigryw yn dod â ni i gysylltiad â bron bob agwedd ar y farchnad eiddo. Mae hynny'n ein galluogi i weld y cyfleoedd a chefnogi'r sector mewn dull cydweithredol o ddatblygu'r farchnad.

Rydym yn arwain trafodaethau i adeiladu gweledigaeth gyffredin o sector wedi ei gysylltu'n ddigidol lle mae gwerthwyr tai, rhoddwyr benthyg, cyfreithwyr, syrfewyr, datblygwyr, broceriaid a'u cleientiaid amrywiol i gyd yn rhyngweithio'n ddigidol – gan rannu'r un wybodaeth am yr eiddo a'r trafodion.


Mae hyn yn addo cynnig profiad llawer gwell i'r defnyddwyr – y bobl a'r busnesau sydd am symud i mewn neu allan.

Mewn partneriaeth â'r holl sefydliadau allweddol, rydym yn ystyried opsiynau ar gyfer cyfres bosibl o ddigwyddiadau i ddod â'r prif sefydliadau o bob rhan o'r farchnad ynghyd i archwilio a manteisio ar y cyfleoedd a ddaw trwy gael gweledigaeth gyffredin o sut y gall y farchnad eiddo fod yn llawer mwy effeithlon a gwybodus.

## Gosod y safon

Wrth gwrs, mae sawl ffordd y gallwn gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu'r farchnad mewn modd cadarnhaol. Rydym wedi bod yn buddsoddi'n helaeth yn y gwaith o ddigideiddio gwybodaeth graidd am eiddo a'i darllenadwyedd gan beiriannau – y cofrestri perchnogaeth tir a phridiannau tir lleol, yn arbennig. Rydym wedi gosod safonau ar gyfer gwirio hunaniaeth digidol a llofnodion electronig ac wedi bod yn gweithio ar y cyd ar y cysyniad o weithredoedd digidol – trosglwyddiadau eiddo a morgeisi diogel, darllenadwy â pheiriant, wedi eu llofnodi'n electronig.

Arbenigwr cofrestru tir, Swyddfa Croydon



Llun: Ian Stone

Mewn symudiad pellach i dynnu papur allan o'r broses, rydym wedi cyflwyno ffordd hollol ddigidol o wneud cais i Gofrestrfa Tir EM, a fydd wedi ei chwblhau yn ddiweddarach eleni.

Mae nifer cynyddol o gwsmeriaid wedi defnyddio llofnodion electronig drwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi addasu ein canllawiau mewn sgwrs â'n cwsmeriaid ac erbyn hyn rydym yn rhedeg cynllun peilot ar sut y gallai trawsgludwyr ddefnyddio llofnodion electronig cymwysedig. Mae defnyddio'r math hwn o lofnod yn effeithiol yn dileu'r angen am dyst gan ddarparu lefelau hyd yn oed yn fwy o ddiogelwch yr un pryd. Gan ei bod yn dechnoleg newydd, rydym yn gweithio gyda thrawsgludwyr a datblygwyr technoleg i sicrhau y gall prynwyr eiddo deimlo manteision proses llofnodi dogfennau gyflymach a mwy diogel.

## Chwarae ein rhan

Wrth gwrs, er mwyn gwneud marchnad eiddo ddigidol yn realiti mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn cyflenwi'r holl gydrannau angenrheidiol i sicrhau y gall cofrestru tir gyfrannu at weledigaeth o farchnad gysylltiedig.


Mae hyn yn golygu bod angen i bob cais a dderbyniwn fod yn ddigidol. Trwy ein gwasanaeth cofrestru digidol newydd gall cwsmeriaid ddewis defnyddio ein gwasanaethau trwy ein porthol ar-lein rhad ac am ddim, neu gysylltu trwy Ryngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau â'n gwasanaethau trwy gyflenwyr meddalwedd trydydd parti.

Mae hyn yn golygu y gellir dilysu'r wybodaeth a dderbyniwn yn haws yn erbyn cofrestr ddigidol sy'n ddarllenadwy â pheiriant ac yna ei phrosesu'n fwy effeithiol gyda system gwaith achos digidol newydd.

Strwythurwyd 58% o'r wybodaeth yn y Gofrestr Tir, gan ei gwneud yn ddarllenadwy gan beiriant ar gyfer ein gwasanaethau digidol ac fel cam dros dro tuag at greu cofrestr ddigidol sy'n cyfateb i dros 158 miliwn o gofnodion cofrestr. Rhwng Tachwedd 2021 a Mawrth 2022, pan gafodd ceisiadau swmpus eu galluogi a defnyddwyr sylweddol eu cyflwyno bob dydd, cafodd 272,264 o geisiadau eu prosesu trwy ein peiriant prosesu newydd, sydd â'r gallu i brosesu'n awtomataidd yn y dyfodol. Mae ein taith ddigidol wedi hen ddechrau bellach.

Ni allwn ddatgloi awtomeiddio yn llawn, fodd bynnag, heb ymddiried yn llawn yn y wybodaeth a ddarperir inni. Rydym yn treulio amser yn gwirio ceisiadau gan drawsgludwyr ar hyn o bryd a gall hynny greu ychydig o fynd yn ôl ac ymlaen yn ddiangen. Er mwyn awtomeiddio ein gwasanaethau mae angen gweithwyr cyfreithiol proffesiynol arnom i roi sicrwydd dibynadwy inni ynghylch yr hyn y maent yn ei wybod am y trafodiad.

Wrth i fwy o geisiadau gael eu derbyn yn ddigidol, y sicrwydd hwn yw'r allwedd olaf i ddatgloi ffurf wirioneddol ddigidol ac awtomataidd o gofrestru tir – gan newid y ffordd rydym yn delio â'n cwsmeriaid a'r modd rydym yn rhyngweithio â nhw yn y dyfodol.




# Un cam bach ar gyfer llofnodion, un naid enfawr ar gyfer trawsgludo

Yn Awst 2021, Hugh James oedd y cwmni trawsgludo cyntaf i gwblhau trafodiad gyda Chofrestrfa Tir EM trwy ddefnyddio llofnod electronig cymwysedig. Yn ôl DocuSign, yr oedd ei dechnoleg wedi hwyluso'r trafodiad, roedd defnyddio llofnod electronig cymwysedig yn golygu bod y broses trosglwyddo teitl wedi cymryd 24 awr yn unig yn hytrach na'r chwech i wyth wythnos arferol.

Dywedodd **Nicola Evered**, a arweiniodd y prosiect trawsnewid digidol ar gyfer Hugh James:

"Roedden ni wedi achub ar y cyfle hwn yn syth, ac rydym yn croesawu'r cyfle i fod ar flaen y gad mewn newid mor arloesol i'r diwydiant cyfan. Mae ganddo'r potensial i gyflymu trafodion yn ddramatig a gwneud y broses gyfan yn symlach. Mae'n gyffrous inni, ein cleientiaid a chwsmeriaid y dyfodol."

Dywedodd **Doug Luftman**, Dirprwy Gwnsler Cyffredinol yn DocuSign:

"Mae ein partneriaeth â'r Gofrestrfa Tir a Hugh James yn dangos sut mae asiantaeth arloesol o'r llywodraeth wedi croesawu llofnodion electronig ac yn gallu cael effaith gadarnhaol ar ddiwydiant cyfan ar ei daith trawsnewid digidol."

DocuSign

# Yr allweddi i awtomeiddio cofrestru tir

**Gwybodaeth â Sicrwydd Cyfreithiol**
Eleni, cynhaliwyd cynllun treialu i brofi'r cysyniad o Wybodaeth â Sicrwydd Cyfreithiol gyda gweithwyr proffesiynol cyfreithiol a reoleiddir

**Ceisiadau digidol**
Derbyniom dros **225,000** o geisiadau digidol trwy borthol Cofrestrfa Tir EM

Mae'r **gofrestr ddigidol** yn cynnwys 60% o'n data cofrestr wedi eu mudo gyda dros **158 miliwn** o bwyntiau data

**Systemau gwaith achos digidol**
Dros **30,000** o geisiadau wedi eu prosesu gan ein systemau gwaith achos newydd

# Sut rydym yn derbyn ceisiadau i newid y gofrestr

**Ystafell Bost Rithwir**
(post yn cael ei dderbyn a'i sganio oddi ar y safle)
8%

**Porthol**
(rhyngwyneb gwe berchnogol ar gyfer gweithwyr proffesiynol eiddo)
40%
27% (Gwasanaeth Cofrestru Dogfen, Gwasanaethau Rhwydwaith, E-DS1)

**Rhyddhadau Electronig**
(Rhyddhad morgais yn cael ei anfon yn uniongyrchol o'r rhoddwr benthyg)
8%

**Business Gateway**
(Mynediad Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau uniongyrchol i wasanaethau gan ddarparwyr trydydd parti)
16%

**Electronig/wedi ei sganio**
**Angen gwirio a phrosesu â llaw**

**Data digidol**
**Galluogi dysgu peiriannyddol ac awtomeiddio**

# Darparu gwybodaeth eiddo bron yn amser real

**Karina Singh** Cyfarwyddwr Trawsnewid



Mae **95 Peckham Road** yn Ne Llundain wedi creu 33 o fflatiau cost isel gyda chwrt y tu ôl iddynt. Enillodd y dyluniad y wobr Tai yn y New London Awards a'r RIBA London Award yn 2021. Cofrestrwyd nifer o fflatiau a werthwyd o dan y cynllun Cymorth i Brynu gan Swyddfa Croydon.
Llun: Morley von Sternberg

**87,000**
**Ymholiadau gwarantedig dyddiol cyfartalog Ebrill 2021 – Mawrth 2022**



**Karina Singh** Cyfarwyddwr Trawsnewid

> "Rydym wedi cwblhau bron 87,000 o ymholiadau gwarantedig y dydd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac mae tua 90% yn awtomataidd. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhai sydd angen ymyrraeth â llaw yn cael eu prosesu o fewn tridiau."

Gwybodaeth yw anadl einioes y farchnad eiddo. Mae cael mynediad i'r data cywir am eiddo ar yr adeg gywir yn hanfodol i brynwyr tai wrth iddynt brynu'r hyn sydd yn aml y peth mwyaf arwyddocaol yn eu bywydau. Gwyddom y gall diffyg gwybodaeth ymlaen llaw achosi i hyd at 8% o drafodion eiddo fethu, a all gostio hyd at £2,700 fesul trafodiad i'r prynwr.

### Gwybodaeth ar gyfer trafodion eiddo

Mae ein gwybodaeth warantedig yn elfen hanfodol o'r broses drawsgludo. Mae ymholiadau gwarantedig yn darparu canlyniadau y gellir eu defnyddio fel tystiolaeth yn y llys ac mae ganddynt warant anghyfyngedig gan Lywodraeth EM. Fel arfer, y gwasanaethau hyn yw rhai o'r camau ffurfiol cyntaf wrth brynu neu werthu tir neu eiddo. Mae ymholiadau gwarantedig yn cynnwys copïau swyddogol (o'r gofrestr, cynllun neu ddogfen), chwiliadau swyddogol (o'r cyfan ac o ran), a chwiliadau o'r map mynegai. Rydym wedi cwblhau bron 87,000 o ymholiadau gwarantedig y dydd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac mae tua 90% yn awtomataidd. Mae mwyafrif helaeth o'r rhai sydd angen ymyrraeth â llaw yn cael eu prosesu o fewn tridiau, oherwydd yr effaith y mae hyn yn ei chael ar sicrhau bod y farchnad eiddo yn rhedeg yn esmwyth a deall gwybodaeth benodol yn ymwneud ag eiddo.

### Gwybodaeth perchnogaeth eiddo dryloyw i bobl a busnesau


Mae'r Gofrestr Tir wedi bod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio er 1996. Eleni cafodd ein gwasanaeth ar-lein digidol gwaddol ei ddisodli gan ein gwasanaeth newydd 'Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo'.

Mae ein data prisiau tai wedi parhau i ysgogi sgyrsiau cenedlaethol a chefnogi'r farchnad dai. Mae ein setiau data Mynegai Prisiau Tai y DU a Data Pris a Dalwyd wedi cael sylw mewn dros 2,000 o erthyglau gwahanol ar draws cyfryngau ar-lein, print a darlledu gan gyrraedd dros 100,000,000 o ddarllenwyr (cynnydd o 17%). Mae amrywiaeth o ddefnyddwyr wedi chwilio'r setiau data hyn am wybodaeth gan ddefnyddio ein hoffer.

Gwelodd diddordeb mewn eiddo tramor gynnydd triphlyg yng nghyfanswm nifer y lawrlwythiadau o'n data ar gwmnïau tramor sy'n berchen ar eiddo yng Nghymru a Lloegr, o ychydig dros 5,000 yn 2020-21 i bron 15,000 yn 2021-22. Cynyddodd lawrlwythiadau o'n data ar gwmnïau sy'n berchen ar eiddo yng Nghymru a Lloegr hefyd, gan godi o ychydig dros 10,000 yn 2020-21 i bron 20,000 yn 2021-22.

## Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo

Mae ein gwasanaeth blaengar i ddinasyddion, Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo, yn bodloni safonau hygyrchedd y llywodraeth ac yn darparu siop un stop ar gyfer y rhan fwyaf o'r wybodaeth y mae ei hangen ar ddefnyddwyr achlysurol, gan gynnwys mynediad i brynu cynlluniau teitl a chofrestri. Gall defnyddwyr chwilio yn ôl rhif adnabod neu nodweddion map. Ers mynd yn fyw yn Chwefror 2020, mae defnyddwyr wedi gweld y gofrestr am ddim mwy na 3 miliwn o weithiau ac wedi prynu bron 22,000 o gynlluniau a chopïau o'r gofrestr yn syth ac yn ddidrafferth.



# Astudiaeth achos y Gofrestr Endidau Tramor

Gweithredodd Cofrestrfa Tir EM yn gyflym fel rhan o ymateb Llywodraeth y DU i ymosodiad Rwsia ar yr Wcráin. Wrth i sancsiynau yn erbyn unigolion penodol o Rwsia gael eu cyhoeddi, gweithiodd ein timau cyfreithiol gyda chydweithwyr ar draws y llywodraeth i sicrhau bod y cyfyngiadau priodol yn cael eu gosod ar eiddo perthnasol. Cyfeiriwyd at ddata a gedwir gan Gofrestrfa Tir EM ar draws y cyfryngau wrth i drafodaethau am sancsiynau ddominyddu'r penawdau.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn y llywodraeth, megis Tŷ'r Cwmnïau, i adeiladu'r Gofrestr Endidau Tramor newydd. Roedd y data a gedwir yn ein cofrestri, a'n profiad o weithio gyda chyfreithwyr eiddo cofrestredig ar draws Cymru a Lloegr, yn golygu ein bod yn gallu arwain a chefnogi datblygiad yr elfen hollbwysig hon o dryloywder ar berchenogaeth eiddo ar adeg o ddiddordeb cenedlaethol mawr.

## Gwybodaeth syth am bridiannau tir lleol

Mae bron miliwn o brynwyr tai yn dibynnu ar wybodaeth am bridiannau tir lleol bob blwyddyn er mwyn tynnu sylw at unrhyw gyfyngiadau neu rwymedigaethau sy'n effeithio ar dir neu eiddo. Mae hyn yn cynnwys gorchmynion cadw coed, statws adeilad rhestredig a chaniatadau cynllunio. Trwy'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol, mae Cofrestrfa Tir EM yn parhau i gydweithio â'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i ddigideiddio a chanoli eu gwasanaethau Pridiannau Tir Lleol. Mae hyn yn rhoi un ffynhonnell i gwsmeriaid gael darnau hanfodol o wybodaeth am eiddo yn syth.


Y rhaglen hon yw'r trawsnewidiad data geo-ofodol mwyaf uchelgeisiol yn hanes llywodraeth y DU. Yn y flwyddyn ariannol 2021-22, trosglwyddwyd 21 o awdurdodau lleol i'r gofrestr genedlaethol, gan ddod â chyfanswm y pridiannau a drosglwyddwyd i dros ddwy filiwn. Ers i'r gwasanaeth gael ei lansio yn 2018, mae boddhad cwsmeriaid yn parhau i fod yn uchel, gyda dros 300,000 o chwiliadau'n cael eu gwneud (am dâl ac am ddim). Ar gyfartaledd mae cwsmeriaid yn arbed 9 diwrnod a £9 fesul chwiliad.

Mae trawsnewid data testunol yn gofnodion geo-ofodol gyda mapiau digidol o'r tir yn gwneud y wybodaeth am bridiant yn fwy tryloyw. Mae'r ffurf safonol yn gwneud y wybodaeth yn haws i'w deall, ei chwilio, ei chymharu a'i chyfuno â setiau data eraill, gan alluogi penderfynwyr i wneud penderfyniadau cyflymach a mwy gwybodus am eu prosiectau.

Rydym wedi bod yn mireinio'n barhaus sut rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i asesu, cywiro, safoni a thrawsnewid eu data. Mae hyn yn caniatáu inni drosglwyddo gwasanaethau Pridiannau Tir Lleol mewn ffordd effeithlon ac ailadroddadwy. Po fwyaf o awdurdodau lleol rydym yn gweithio gyda nhw, y mwyaf y byddwn yn ei ddysgu ac y gallwn rannu arferion gorau ag eraill. Eleni rydym wedi cynnal saith gweminar a digwyddiad hyfforddi gydag awdurdodau lleol i'w helpu i baratoi ar gyfer y broses o lanhau a mudo data. Mae eiriolwyr awdurdodau lleol yn parhau i weithio gyda'r rhaglen a helpu cynghorau cyfagos i ragweld a mynd i'r afael â phroblemau.

Yn gyffredinol, bydd gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol wedi ei foderneiddio yn ysgogi tryloywder ac arloesi yn sector eiddo yn y DU trwy gynnig mynediad cynharach i ddata geo-ofodol o safon uchel. Mae'r manteision yn y dyfodol yn ddifesur, gyda data Pridiannau Tir Lleol yn darparu platfform i arloeswyr allu creu datrysiadau nad ydym wedi meddwl amdanynt eto.

**Map o awdurdodau lleol yn ôl statws o 1 Mehefin 2022**



## Enillydd gwobr geo-ofodol

Mae'r gwobrau Digital Leaders 100 yn dathlu'r rhai sy'n dangos dull arloesol a chynaliadwy at drawsnewid digidol yn y DU.

Enillodd y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol wobr Arloesedd Geo-ofodol y Flwyddyn 2021 Digital Leaders 100.

Mae ymgysylltu cydweithredol â'n budd-ddeiliaid wedi uno llywodraeth ganolog a lleol â'r sector preifat. Trwy harneisio adnoddau ar draws y rhaglen, rydym wedi creu nifer o offer dadansoddol pwrpasol i ddadansoddi, gwerthuso a thrwsio data. Mae hyn yn darparu arbedion amser sylweddol ar gyfer pob awdurdod lleol sy'n mudo ac yn cyflymu ein capasiti cyflawni. Rydym hefyd wedi cynnal ymchwil defnyddwyr i wella'r gwasanaeth, er enghraifft trwy ymgorffori swyddogaeth hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr â nam ar y golwg a symudedd.

Roedd y ffactorau hyn a mwy yn golygu bod y beirniaid wedi cydnabod y rhaglen fel un arloesol. Rydym yn hynod falch bod diwydiant wedi cydnabod pwysigrwydd a manteision hirdymor y rhaglen a'r gofrestr genedlaethol.




Aelodau o'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn dathlu cydnabyddiaeth diwydiant yn seremoni wobrwyon Digital Leaders 100. Dyma wobr gyntaf Pridiannau Tir Lleol ac yn garreg filltir bwysig i'r rhaglen.

"Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld newid graddol mewn prosesu chwiliadau trawsgludo. Mae Cofrestr Pridiannau Tir Lleol digidol Cofrestrfa Tir EM yn galluogi meddalwedd InfoTrack i ddilysu, gwneud cais yn electronig a chael canlyniadau o fewn eiliadau i'r trawsgludwr yn dewis 'archebu'. Mae'n golygu y gellir cyfnewid gwybodaeth eiddo yn ddiogel, yn gywir ac yn syth."

**Christina Varidel** (Dadansoddwr Cynghreiriau InfoTrack)

"Mae gan Tameside wasanaeth gwirioneddol ddigidol erbyn hyn, sy'n helpu i symleiddio prosesau trawsgludo a phrynu cartrefi lleol. Mae hyn yn ein rhoi ar flaen y gad o ran newid yn y ddinas, y rhanbarth a'r wlad.

"Erbyn hyn gall unrhyw un gael mynediad i gofnodion Pridiannau Tir Lleol yn syth ar-lein trwy chwiliad digidol ar fap. Mae hyn yn golygu y gallwn wneud penderfyniadau buddsoddi cynharach, pwysig, sydd o fudd i 225,000+ o ddinasyddion Tameside, ein heconomi leol a'r farchnad dai.

"Mae'n enghraifft wych o sut y gall technoleg drawsnewid a darparu gwasanaethau gwell, lleihau costau a chefnogi uchelgeisiau economaidd."

**Y Cynghorydd Ged Cooney**, Aelod Gweithredol o Gyngor Tameside



**Ynys Wyth** oedd y 37ain awdurdod lleol i ymuno â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol, un o chwech i ymuno yn ystod Ebrill 2022. Mae hyn yn dyst i sut mae'r rhaglen yn cyflymu a chryfder y cydweithio rhwng y rhaglen ac awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr.
Llun: Shutterstock/Alexey Fedorenko

# Darparu data cofrestr ddigidol hygyrch

## **Jon Parry** Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg




**Toronto Square, Leeds**. Mae'r adeilad nodedig hwn, a adnewyddwyd yn ddiweddar, yn darparu mwy na 88,000 troedfedd sgwâr o le swyddfa cyfoes delfrydol yng nghanol ardal fusnes fywiog y ddinas. Daeth y rhydd-ddaliad yn drydydd caffaeliad rhanbarthol Grosvenor yn 2021 pan gafodd ei werthu i'r datblygwr eiddo a'r buddsoddwr, sy'n enwog am ei rôl hanesyddol wrth greu Mayfair a Belgravia yn Llundain. Eleni, cofrestrodd Swyddfa Caerlŷr brydles rhan o'r llawr gwaelod i Reed, y mae ei dîm recriwtio arbenigol yn paru unigolion â swyddi ar draws Gorllewin Swydd Efrog mewn sectorau o addysg, iechyd ac adnoddau dynol i awyrofod, seiberdroseddu ac amddiffyn. Llun: Grosvenor




"Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mynediad agored i gymaint o'n data â phosibl er mwyn cyfrannu at economi sy'n arwain y byd ac yn seiliedig ar ddata."

**Jon Parry** Cyfarwyddwr Dros Dro Data, Digidol a Thechnoleg

Mae data digidol yn sail i'n gallu i wneud gwasanaethau cofrestru tir digidol ac awtomataidd yn bosibl (gweler tudalennau 22 a 25). O'n mentrau cynnar i forgeisi digidol, mae'r gwaith a wneir gan ein timau Digidol, Data a Thechnoleg yn sicrhau bod y weledigaeth o wasanaethau cofrestru tir bron yn syth ar gael i'n cwsmeriaid o fewn y flwyddyn nesaf.

Mae'r data sydd gennym am leoedd, a elwir yn ddata geo-ofodol, yn rhan hollbwysig o seilwaith ein cenedl. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu mynediad agored i gymaint o'n data â phosibl er mwyn cyfrannu at economi sy'n arwain y byd ac yn seiliedig ar ddata.

## Rhyddhau gwerth ein data

Mae gan ddata geo-ofodol mwy hygyrch lawer o ddefnyddiau posibl a phwysig – fel sylfaen allweddol i economi sy'n seiliedig ar ddata, mae'n wybodaeth hanfodol wrth gynllunio defnydd tir a'r ymateb i dargedau Sero Net.

Rydym bob amser wedi gwybod yn reddfol bod ailddefnyddio ein data yn creu gwerth economaidd arwyddocaol ond ni fu modd inni fesur faint yw'r gwerth hwnnw yn wrthrychol o'r blaen. Mewn ymateb i'r her hon, mae ein tîm data ac economegwyr wedi datblygu methodoleg arloesol i amcangyfrif y gwerth economaidd a grëwyd gan ein data, sydd wedi denu sylw a chanmoliaeth ar draws y llywodraeth gan y rhai sy'n ceisio datrys yr un broblem. Amcangyfrifodd prisiad cychwynnol o bedair yn unig o'n 12 set ddata gyhoeddedig eu bod yn ychwanegu tua £300 miliwn at yr economi bob blwyddyn.

Rhaid inni gofio hefyd ein bod yn rhan o dirwedd data llawer mwy cynhwysfawr. Mae'r Strategaeth Ddata Genedlaethol a'r Strategaeth Geo-ofodol Genedlaethol yn nodi uchelgais y Llywodraeth i adeiladu economi ddata sy'n arwain y byd ar draws pob sector. Mae'r strategaethau'n canolbwyntio ar sicrhau bod y llywodraeth yn gallu darparu cynhyrchion, gwasanaethau a thechnolegau sy'n cynhyrchu gwerth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Maent hefyd yn nodi bwriad y Llywodraeth i ddatgloi gwerth y data sydd ganddi, gan ei wneud yn agored, yn dryloyw ac yn hawdd ei ddefnyddio. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi bod ar flaen y gad o ran cyhoeddi data agored yn y sector cyhoeddus a bydd ein Strategaeth 2022+ newydd yn sicrhau ein bod yn aros felly.

## Mwy hygyrch a haws ei ddefnyddio

Mae ein setiau data cyhoeddedig ar gael trwy ein gwasanaeth platfform cyhoeddi arloesol 'Defnyddio data tir ac eiddo'. Rhwng lansio'r platfform ym Mawrth 2020 a Mawrth 2022, mae data wedi eu lawrlwytho mwy na 420,000 o weithiau.

Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Geo-ofodol y DU yn 2020, buom yn ymchwilio sut y gallwn wella ansawdd ein data geo-ofodol. Trwy werthuso Ansawdd, Canfyddadwyedd, Hygyrchedd, Rhyngweithredoldeb ac Ailddefnyddioldeb ein data cyhoeddedig ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid a chwsmeriaid i ddeall eu hanghenion, rydym wedi ystyried pa welliannau y gallem eu gwneud. Erbyn hyn rydym wedi amlinellu ymrwymiad uchelgeisiol i wneud gwelliannau i'n data dros y tair blynedd nesaf yn ein cynllun busnes.

## Dod o hyd i'r genhedlaeth nesaf o ddefnyddiau data

Rydym yn parhau i hyrwyddo arloesedd yn y maes data trwy'r Rhaglen Cyflymydd Geovation, mewn cydweithrediad â'r Arolwg Ordnans. Ers ei sefydlu, mae Geovation wedi hyrwyddo gwerth arloesi agored yn y sector cyhoeddus, gan weithio gyda chymuned o fwy na 1,500 o entrepreneuriaid, buddsoddwyr, datblygwyr, academyddion, myfyrwyr ac arloeswyr corfforaethol.

Am y pum mlynedd diwethaf rydym wedi croesawu carfannau newydd o fusnesau technoleg eiddo newydd, gan annog a chefnogi cwmnïau technoleg eiddo sy'n chwyldroi'r diwydiant eiddo gyda chynhyrchion a gwasanaethau newydd. Mae busnesau newydd yn derbyn hyd at £20,000 o gyllid grant a'r hyn sy'n cyfateb i dros £100,000 mewn buddiannau ar y rhaglen.

Hyd yma, mae Cofrestrfa Tir EM wedi darparu cyllid grant o £483,000 i 30 o fusnesau newydd technoleg eiddo. Mae'r rhain wedi mynd ymlaen i godi mwy na £39 miliwn mewn cyllid ychwanegol ac wedi creu 140 o swyddi.

Mae nifer o'n cwmnïau noddedig bellach yn cael eu defnyddio gan gwmnïau cyfreithiol, rhoddwyr benthyg, cwmnïau eiddo ac awdurdodau lleol, fel HomeFinder a Skyroom (gweler astudiaethau achos).

Edrychwn ymlaen at weld pa ffyrdd creadigol a buddiol pellach y gall y sector technoleg eiddo ddefnyddio ein data er budd y farchnad eiddo a thu hwnt.

## Knight Frank

“Mae cael y mathau hyn o setiau data yn rhoi mewnwelediad amser real inni i amodau’r farchnad ar y pryd, gan ein helpu i wneud penderfyniadau gwell yn seiliedig ar ddata a darparu o dan arweiniad deallusrwydd i’n cleientiaid a’n cwsmeriaid.”

**Adem Certel**, Partner, Arweinydd Peirianneg Data, Knight Frank


Mae **Knight Frank** yn asiantaeth eiddo annibynnol fyd-eang sy’n rhoi cyngor proffesiynol ar unrhyw beth o gartrefi gwledig i swyddfeydd dinesig, manwerthu, y sector cyhoeddus, cynllunio a datblygu. Mae ganddo gleientiaid a chwsmeriaid ar draws y sectorau masnachol, preswyl a gwledig, ac ar hyn o bryd mae’n cynnwys rhwydwaith rhyngwladol o 384 o swyddfeydd mewn 51 o wledydd a thiriogaethau.

Maent yn defnyddio nifer o setiau data Cofrestrfa Tir EM gan gynnwys y Gwasanaeth Polygon Cenedlaethol, cwmnïau’r DU sy’n berchen ar eiddo yng Nghymru a Lloegr, cwmnïau tramor sy’n berchen ar eiddo yng Nghymru a Lloegr, Data Pris a Dalwyd, Prydlesi Cofrestredig a Mynegai Prisiau Tai y DU.

Gan ddefnyddio’r setiau data hyn ar wahân ac ar y cyd â setiau data trydydd parti, gallant ddadansoddi tueddiadau’r farchnad megis nifer y gwerthiannau, prisiau cyfartalog, tueddiadau prisiau, hyd cyfartalog prydlesi, mathau o berchnogaeth gorfforaethol a dadansoddiad geo-ofodol o eiddo.

Yn ddiweddar, defnyddiodd Knight Frank ein data pan ddaeth Eglwys Loegr ato i’w helpu i arwain trwy esiampl wrth ddatrys yr argyfwng tai.

Gan ddefnyddio Set Ddata Ofodol Genedlaethol Cofrestrfa Tir EM a Data Perchnogaeth Fasnachol a Chorfforaethol, mapiodd Knight Frank yr holl dir yr oedd Eglwys Loegr yn berchen arno. Mae’r gallu i adnabod y tir y mae’n berchen arno yn golygu bod yr Eglwys yn gallu cyflwyno gweledigaeth glir o sut mae’r asedau hyn yn cefnogi anghenion tai, addysg a chymunedol.




## SEARCH ACUMEN

“Rydym yn gweithio’n agos gyda Chofrestrfa Tir EM a sefydliadau blaengar eraill i chwyldroi’r profiad o brynu a gwerthu eiddo.”

**Christian Woodhouse**, Rheolwr Prosiectau Strategol

Mae Search Acumen yn ddarparwr mewnwelediad a thechnoleg data eiddo i drawsgludwyr a chyfreithwyr eiddo masnachol yng Nghymru a Lloegr. Ei weledigaeth yw trawsnewid y farchnad eiddo trwy ddata wedi eu digideiddio ymlaen llaw a chael pobl yn barod ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gyfraith eiddo.

“Tair o setiau data Cofrestrfa Tir EM rydym yn eu defnyddio yw’r Gwasanaeth Polygon Cenedlaethol, cwmnïau yn y DU sy’n berchen ar eiddo yng Nghymru a Lloegr a chwmnïau tramor sy’n berchen ar eiddo yng Nghymru a Lloegr. Trwy gysylltu’r tair set ddata â’i gilydd, gallwn ddarparu arfarniad cychwynnol o safle neu deitl cyn i’r broses brynu hyd yn oed ddechrau. Mae hyn yn darparu dangosyddion rhybudd cynnar a risgiau ymlaen llaw yn ogystal â chynnig trosolwg o strwythur perchnogaeth unrhyw deitl, gan gynnwys sut mae teitlau wedi eu lleoli’n ofodol mewn perthynas â theitlau eraill o’u cwmpas.


“Mae cael mynediad i setiau data Cofrestrfa Tir EM yn ein galluogi i greu cynhyrchion arloesol, fel ein Map Esboniadol, map digidol cwbl ryngweithiol â chod lliw sy’n dangos teitlau unigol yn ôl Perchennog neu Ddosbarth, a’n Cipolwg Data Rhyngweithiol, adroddiad eiddo di-oed sy’n golygu y gall cleientiaid gydweithio ar faterion risg tir ac eiddo cyn i chwiliad gael ei archebu. Yn 2021, cofnodwyd tua 95,000 o ymweliadau unigryw ar ein platfform technoleg, yn cyrchu’n benodol ddata y Gwasanaeth Polygon Cenedlaethol trwy ein datrysiadau mapio. Mae hyn yn nodi awydd diwydiant am ddatblygiadau o’r fath.

“Mae ein partneriaeth â Chofrestrfa Tir EM yn berthynas uchel ei pharch a hirsefydlog, gyda gweledigaeth ar gyfer digideiddio ac arloesi o ran meddwl yn y dyfodol.”




# Y genhedlaeth nesaf o ddefnyddiau data

## Carfan hydref 2021





### HomeFinder

Marchnad ar-lein sy'n ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i gartrefi a datblygiadau newydd sydd ar werth. Mae HomeFinder yn chwilio am y cartrefi a'r datblygiadau newydd gorau yn Llundain gan gynnwys eiddo oddi ar y farchnad. Gan ddefnyddio algorithmau, mae'n teilwra chwiliadau yn unol â hoffterau a chas bethau cleientiaid.




### Urban R+D

Platfform rheoli datblygu sy'n helpu tirfeddianwyr safleoedd trefol bach i ddatblygu'r tir hwnnw. Mae Urban R+D yn cynnig pecyn cyfan o'r dechrau i'r diwedd er mwyn i dirfeddianwyr ddarparu cartrefi o safon ar dir nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol. Ei broses datblygu eiddo datganoledig™ yw'r unig lwybr mynediad i'r farchnad ar gyfer tirfeddianwyr heb eu hariannu sydd heb unrhyw brofiad o ddatblygu eiddo.





### Propalt

Trwy gyfuno dros 200 o bwyntiau data ar 27 miliwn o gartrefi'r DU mewn un lle, mae Propalt yn helpu prynwyr, gwerthwyr a buddsoddwyr. Mae'n gallu helpu'r rhai sy'n symud ac yn buddsoddi i wneud chwiliadau eiddo clyfrach trwy ddefnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial er mwyn deall gwerthoedd a chyfleoedd, yna troshaenu hyn gyda pha eiddo sydd ar y farchnad mewn amser real.

# Cwrdd â'r garfan Geovation newydd

## Carfan gwanwyn 2022





### Pluto

Gan ddarparu'r dechnoleg sy'n cynnig modd i unrhyw gwmni eiddo tiriog gynnig datrysiadau rhentu rhannol, prynu rhannol, mae Pluto yn paratoi'r ffordd i filiynau mwy o bobl ledled y byd alw eu hunain yn berchnogion tŷ flynyddoedd yn gynharach.




### Zero Down Lease

Gan gynnig yr unig estyniad prydles pris gwarantedig, mae Zero Down Lease yn delio â'r broses o'r dechrau i'r diwedd. O brisio i negodi mae'n rhoi pris sefydlog i gwsmeriaid am y broses gyfan, a hyd yn oed yn rhoi benthyg yr arian iddynt dalu amdano.




### Collaborative Conveyancing

Gwneud y cymhleth yn syml, er mwyn gwella'r broses drawsgludo i bawb. Trwy'r defnydd arloesol o ddeallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio llif gwaith, mae Collaborative Conveyancing yn ceisio hwyluso cydweithrediad gwell rhwng cynrychiolwyr cyfreithiol sy'n ymwneud â cham ymholiadau'r broses drawsgludo i wella effeithlonrwydd, cydymffurfiaeth a gwasanaeth cwsmeriaid.



Llun: Shutterstock/Apostolis Giontzis

# Straeon llwyddiant Geovation

## HOME FINDER

**"Mae manteision rhaglen Geovation yn ddiddiwedd – mae'r cysylltiadau, yr enw da, y cyllid heb ecwiti a'r gweithdai yn amhrisiadwy. Ond yn y pen draw fy hoff ran yw'r bobl – mae pawb am ichi greu cwmni anhygoel ac yn mynd yr ail filltir i helpu i wireddu hyn. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi bod yn amhrisiadwy gyda'i chefnogaeth."**

**James Nightingall**, sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol HomeFinder

Mae **HomeFinder** yn wasanaeth ar-lein sy'n ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i gartrefi a datblygiadau newydd sydd ar werth yn Llundain. Mae prynwyr yn derbyn awgrymiadau personol gan arbenigwyr sydd â mynediad i gronfa ddata helaeth o eiddo.

Arferai James Nightingall, sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol HomeFinder, weithio fel asiant prynwr ar gyfer enwogion, gan gynnwys chwaraewyr pêl-droed Chelsea, actorion ac ambell i biliwnydd i enwi rhai yn unig.

Er mwyn helpu James i ddechrau ei fusnes ymunodd â thrac technoleg eiddo y Rhaglen Cyflymydd Geovation yn hydref 2021. Roedd bod yn rhan o'r rhaglen yn rhoi cyfle i James gychwyn ei fusnes gyda chyllid grant heb ecwiti a mynediad i arbenigwyr diwydiant, rhywbeth oedd yn amhrisiadwy ar adeg mor gynnar.




## SKYROOM

**"Roedd cymryd rhan yn Rhaglen Cyflymydd Geovation yn golygu ein bod yn elwa o gyllid a chwe mis o gymorth dwys gan roi cyfle inni gyflymu ein twf."**


Prif Swyddog Gweithredol Skyroom, **Arthur Kay**

Mae **Skyroom** yn gwmni technoleg, dylunio a datblygu gofod awyr a'i genhadaeth yw darparu cartrefi fforddiadwy, cynaliadwy i weithwyr allweddol Llundain. Fe gymerodd ran yn Rhaglen Cyflymydd Geovation yn 2018.

Gan weithio mewn partneriaeth â phrif landlordiaid Llundain, nod Skyroom yw darparu 10,000 o gartrefi i weithwyr allweddol erbyn 2030.

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol Arthur Kay:

"Mae data Cofrestrfa Tir EM yn ein helpu i ganfod adeiladau ym mhortffolio tirfeddiannwr sy'n addas ar gyfer datblygu gofod awyr. Yna rydym yn helpu perchnogion tir i greu, dylunio a darparu cartrefi yn y gofod hwnnw. Trwy adeiladu i fyny yn hytrach nag allan, rydym yn creu model mwy cynaliadwy o ddatblygiad trefol ac atal blerdwf trefol."






# Ymchwilio, datblygu a chyflymu newid



Mae **100 Liverpool Street** yn Broadgate yn gymdogaeth 32 erw yng nghanol Llundain. Mae 19 miliwn o bobl yn ymweld â Broadgate bob blwyddyn i weithio, siopa, ciniawa a mynychu digwyddiadau, gyda £1.5 biliwn yn cael ei fuddsoddi yn ei ddyfodol. Mae'r datblygiad yn cynnwys 433,000 troedfedd sgwâr o ofod swyddfa golau ac awyrog a adeiladwyd i gefnogi llesiant a chynhyrchiant, 90,000 troedfedd sgwâr o fannau manwerthu newydd, 20,000 troedfedd sgwâr o derasau awyr agored ar bum lefel, bwytai, a mannau awyr agored. Adeiladwyd yr adeilad ecogyfeillgar i fod yn ynni effeithlon, arbed dŵr a lleihau gwastraff a chynnal bywyd gwyllt lleol. Cwblhaodd Swyddfa Croydon brydles o'r 6ed llawr ar gyfer Banc Montreal. Llun: Alamy/Robert Evans

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cydweithio a phartneriaethau wedi bod yn rhan hanfodol o'n cynnydd parhaus, ochr yn ochr â datblygu a gwella ein gwasanaethau diolch i fewnwelediad gan filoedd o gwsmeriaid. Rydym hefyd wedi llunio partneriaeth â channoedd o awdurdodau lleol, arbenigwyr eiddo a thechnoleg, ac adrannau eraill o'r llywodraeth, ar faterion yn ymwneud ag eiddo.

Yn ogystal, mae cefnogi a chydweithio ag arweinwyr arloesi, entrepreneuriaid ac aflonyddwyr creadigol wedi ein helpu i wthio ffiniau disgwyliadau'r farchnad eiddo.

Rydym yn ganolog i bob trafodiad eiddo ac mae ein hymgysylltiad ar draws y farchnad a thu hwnt wedi rhoi mewnwelediad a dylanwad unigryw inni. Mae ein strategaeth newydd yn ein grymuso i chwarae rôl allweddol wrth arwain, dylanwadu ac ysgogi arloesedd a newid yn y farchnad eiddo, gan weithredu lle mae Cofrestrfa Tir EM yn y sefyllfa orau i gyflwyno newid cadarnhaol.

### Arbenigwyr diwydiant yn ymgynnull i ateb anghenion cenhedlaeth newydd o gwsmeriaid

Mae ein strategaeth newydd yn adlewyrchu cydweithio arwyddocaol â chwsmeriaid a budd-ddeiliaid, gan gynnwys y rheini yn y farchnad eiddo ac ar draws sefydliadau'r llywodraeth. Ymgynghorwyd yn eang â lleisiau diwydiant, gan gynnwys aelodau Fforwm Diwydiant y Gofrestrfa Tir a Chyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir. Rydym wedi gweithio'n agos â chydweithwyr ar draws y llywodraeth, gan gynnwys yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Comisiwn Geo-ofodol, i sicrhau aliniad â pholisïau ehangach y llywodraeth.

Mae cyd-ddealltwriaeth o arferion, disgwyliadau a heriau'r sector yn golygu y gall Cofrestrfa Tir EM roi mesurau ar waith sy'n cefnogi cwsmeriaid, budd-ddeiliaid a'r farchnad eiddo ehangach. Gyda'n gilydd, rydym wedi archwilio gwahanol atebion megis e-lofnodion, technoleg gweithred ddigidol ac awtomeiddio i wneud trawsgludo yn symlach, yn gyflymach ac yn rhatach yn y tymor hwy.

Nid yw trawsnewid digidol bob amser yn gofyn am ddatblygu gwasanaethau newydd Cofrestrfa Tir EM, ac rydym wedi parhau i weithio gyda darparwyr technoleg, fforwm y diwydiant a'n gweithgor e-lofnodion ar ddatblygiadau i'n harferion sy'n galluogi'r defnydd ehangach o lofnodion digidol ac annog mabwysiadu gwiriadau hunaniaeth ddigidol sy'n bodloni ein safon.

## Cyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir

Mae 13 aelod o'n cyngor cynghori yn cynrychioli trawstoriad o lais y diwydiant sy'n gweithredu fel fforwm allweddol ar gyfer sefydliadau cynrychioliadol sy'n ymwneud â'r farchnad eiddo. Mae'r cyngor cynghori yn gweithio gyda'i gilydd i nodi cyfleoedd i alinio strategaethau a pholisïau ar draws ei aelodaeth i sicrhau bod buddion budd-ddeiliaid yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau a sianeli Cofrestrfa Tir EM.

Cyfarfu'r cyngor deirgwaith yn ystod 2021-2022. Roedd y drafodaeth ddiweddaraf wedi canolbwyntio ar y strategaeth newydd a'r farn am ryngweithiadau Cofrestrfa Tir EM â'r farchnad eiddo, data agored, symud tuag at gymwysiadau digidol, awtomeiddio a dileu rhwystrau i arloesi.

**Aelodau'r cyngor yw:**

- Cymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu
- Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol
- Rheoleiddio CILEx
- Y Gymdeithas Drawsgludo
- Cyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig
- Cyngor Sefydliadau Chwilio Eiddo
- Cymdeithas y Gyfraith
- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Propertymark
- Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
- Cymdeithas y Trawsgludwyr Trwyddedig
- Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr
- UK Finance

Cyfarfod o Gyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir, Pencadlys Geovation




Llun: Ian Stone

### Partneriaethau ar draws y llywodraeth

Rydym wedi gweithio’n agos ac yn gydweithredol â’r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i ymchwilio i’r hyn y gellid ei wneud i wella’r broses prynu a gwerthu cartrefi. Mae’r gwaith hwn wedi darparu dadansoddiad strategol o holl system economaidd-gymdeithasol prynu a gwerthu cartrefi heddiw, gan nodi mapiau trywydd posibl ar gyfer gweithredu gan y llywodraeth, yn seiliedig ar ymgysylltu helaeth ag ystod eang o fudd-ddeiliaid.

Rydym wedi cydweithio fel partner strategol y Comisiwn Geo-ofodol ar sawl menter. Mae’r rhain wedi cynnwys datblygu methodoleg safonol ar gyfer prisio data geo-ofodol ar draws y llywodraeth, a gwerthuso ein data yn erbyn safonau Ansawdd, Canfyddadwyedd, Hygyrchedd, Rhyngweithredoldeb ac Ailddefnyddioldeb. Rydym yn parhau i gydweithio i ystyried sut y gallai data geo-ofodol a gasglwyd gan gyrff y llywodraeth fod ar gael yn fwyaf effeithiol i helpu i ddatgloi cyfleoedd a gwerth posibl.

Rydym wedi parhau i alinio’n agos â Strategaeth Ddata Genedlaethol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Datgloi gwerth data ar draws yr economi, gan archwilio’r cyfleoedd posibl ar gyfer y farchnad eiddo a allai godi trwy ddefnyddio dilysu hunaniaeth ddigidol a llofnodion electronig cymwysedig.

Department for Digital, Culture, Media & Sport

Geospatial Commission

Department for Levelling Up, Housing & Communities

## Adeiladu cymuned o gwsmeriaid i rannu syniadau

“Mae steil a lefel yr ymgysylltiad y mae Cofrestrfa Tir EM wedi dechrau gyda Business Gateway yn rhywbeth y dylai llawer o sefydliadau anelu ato.”

**Access Group,** aelod o Business Gateway Community

Rydym wedi creu Business Gateway Community ar gyfer y cwmnïau a’r datblygwyr meddalwedd sy’n defnyddio ein Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau i gael mynediad i wasanaethau a data Cofrestrfa Tir EM. Mae bron i 300 o gwsmeriaid yn rhan o’r gymuned. Mae’n cwrdd bron bob dau fis fel fforwm agored lle mae Cofrestrfa Tir EM yn rhannu diweddariadau sy’n berthnasol i ddefnyddwyr Business Gateway. Gall cwsmeriaid rannu eu problemau a’u syniadau ar gyfer gwella gwasanaethau. Fel rhan o’r gymuned, mae cwsmeriaid yn gallu awgrymu a phleidleisio dros syniadau gwasanaeth newydd i lywio ein cynllunio a blaenoriaethu gwaith. Yn fwy nag erioed o’r blaen, mae Cofrestrfa Tir EM yn gallu rhoi rhybudd ymlaen llaw o newidiadau arfaethedig a datblygiadau gwasanaeth newydd a sicrhau cyfranogiad cynnar cwsmeriaid mewn ymchwil a phrofi cynlluniau gwasanaeth a sgema. Mae hyn yn golygu ein bod yn fwy tebygol o ddarparu gwasanaethau sy’n ateb anghenion cwsmeriaid a’u bod yn gallu cynllunio ac amserlennu eu gwaith datblygu eu hunain.

Enghraifft dda o lwyddiant y gymuned yw ein newid i dechnoleg newydd ar gyfer ein Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau diweddaraf. Dywedodd cwsmeriaid wrthym ei fod yn anodd adeiladu gyda’r dechnoleg y buom yn ei defnyddio yn Business Gateway ac yn atal rhai ohonynt rhag defnyddio ein Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau. Ar ôl gweithredu’r dechnoleg newydd, fodd bynnag, roedd ein gwasanaeth newydd cyntaf wedi gweld un cwsmer yn dysgu am y gwasanaeth newydd, gwneud rhywfaint o brofion cychwynnol a gwneud ei gais cyntaf yn erbyn ein gwasanaeth byw mewn dim ond tair awr!



## Tanio arloesedd trwy'r Stryd Ddigidol

Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi parhau i gefnogi'r diwydiant technoleg eiddo trwy ein Rhaglen Cyflymydd Geovation, gan groesawu busnesau newydd i'r rhaglen bob blwyddyn (gweler tudalen 32).

Yn 2017, lansiwyd y Stryd Ddigidol, ein rhaglen ymchwil a datblygu arloesol. Rydym wedi ymgysylltu â dros 250 o gyfranogwyr y farchnad i archwilio'r defnydd o dechnolegau bloc-gadwyn a defnyddio talebau mewn perchnogaeth eiddo ac roedd yr ymateb a'r diddordeb ledled y byd yn syfrdanol (manylion yn Adroddiad Blynyddol 2018-19). Bwriadwn adeiladu ar y Stryd Ddigidol a'i hailfywiogi. Bydd hyn yn ein helpu i ystyried sut y gallai cyfranogwyr y farchnad barhau i fanteisio ar dechnolegau newydd a chynnig atebion a modelau busnes gwirioneddol aflonyddgar a all ddarparu profiadau trawsnewidiol, personol i gwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn.











# Ein pobl

## **Simon Morris** Cyfarwyddwr AD

















Lluniau: Simon Russell, Mike Lister, Pete Sim



**Simon Morris** Cyfarwyddwr AD

"Mae sicrhau bod ein pobl yn gallu gwneud cynnydd a datblygu wedi hyrwyddo a gwella ein perfformiad sefydliadol, o fewn amgylchedd cefnogol a hyblyg. Ein dull gweithredu fu grymuso timau ac unigolion i ddarparu gwasanaeth eithriadol ar gyfer ein cwsmeriaid."

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran creu lle gwych i weithio trwy ganolbwyntio ar ddiwylliant uchelgeisiol ac iach lle gall ein pobl ffynnu a datblygu. Mae ein strategaeth pobl newydd yn adeiladu ar ein llwyddiannau ac yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer ein Strategaeth Fusnes newydd. Mae sicrhau bod ein pobl yn gallu gwneud cynnydd a datblygu wedi hyrwyddo a gwella ein perfformiad sefydliadol, o fewn amgylchedd cefnogol a hyblyg. Ein dull gweithredu fu grymuso timau ac unigolion i ddarparu gwasanaeth eithriadol ar gyfer ein cwsmeriaid.

## Ystwythder a hyblygrwydd sefydliadol

Er mwyn canolbwyntio ar berfformiad ac anghenion ein cwsmeriaid, mae angen inni sicrhau bod gan ein cydweithwyr yr offer a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i addasu i ofynion newidiol cwsmeriaid a gallu symud yn gyflym.

Rydym wedi croesawu gweithio hybrid trwy drafodaethau tîm cydweithredol a defnyddio fframwaith clir i gefnogi gwneud penderfyniadau. Mae'r fframwaith yn pwysleisio cyfraniad tîm ac unigol effeithiol i ateb anghenion busnes gyda ffocws ar berfformiad a chanlyniadau cwsmeriaid.

Mae ein dull gweithredu yn cyfuno'r elfennau gorau o weithio yn y swyddfa ac o bell a'i nod yw trawsnewid ein mannau gwaith, ein technoleg a'n harferion, gan roi ein cwsmeriaid, ein pobl a'n diwylliant wrth wraidd pob dim.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar feithrin gallu sgiliau digidol, gan gefnogi cydweithwyr gyda phecyn dysgu cynhwysfawr i gyrraedd nod y sefydliad o fod yn weithlu sy'n rhugl yn ddigidol.

Mae ein rhaglen Brilliant Teams, Inspiring Leaders, wedi gweld trawsnewidiad mawr yn y modd y mae ein timau gwaith achos yn gweithredu ac yn cael eu harwain. Dyma'r buddsoddiad mwyaf a mwyaf sylweddol mewn Gweithrediadau ers dros ddegawd, ac mae'n ein rhoi ni mewn lle da i sicrhau bod y sgiliau a'r gallu gennym i gynnig gwasanaeth cofrestru tir diogel ac effeithlon ymhell i'r dyfodol. Mae'r pwyslais ar ddatrys problemau a chydweithio lleol, sgyrsiau perfformiad sy'n seiliedig ar ddata a chreu diwylliant iach yn unol â'n dyheadau, ac mae'r meddylfryd perfformiad uchel hwn, sy'n seiliedig ar y cwsmer yn ganolog i'n dull o reoli a datblygu ein pobl.

Mae cynhyrchiant gweithredol rhwng Ionawr a Mawrth 2022 15% yn uwch nag ar gyfer yr un cyfnod y llynedd ac mae lefelau ymgysylltu wedi dangos cynnydd yn y swyddfeydd hynny sydd wedi cwblhau ac ymgorffori egwyddorion y rhaglen.



**Cynhyrchiant gweithredol**

**↑15%**

(Ionawr-Mawrth 2022 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)

Brilliant teams

Inspiring leaders

## Denu a chadw doniau

Mae ein canolfan ragoriaeth genedlaethol, yr Academi Cofrestru Tir, yn addysgu hanfodion yr hyn a wnawn, a'r sgiliau hynny sy'n sail i'r gwasanaethau arbenigol a ddarparwn. Fe'i lansiwyd yn 2021 ac erbyn hyn mae gennym rwydwaith cenedlaethol o hyfforddwyr a chyfres gynhwysfawr o ymyriadau dysgu a fydd yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei sicrhau a'i throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn canolbwyntio ar achredu ar gyfer ein hyfforddwyr, cynnig cyrsiau dilyniant gwaith achos, datblygu llwybrau gyrfa a datblygiad, ac ehangu ein dull gweithredol at hyfforddiant technegol cyfreithwyr hefyd.

Mae gennym ffocws diwylliannol cryf ar amrywiaeth a chynhwysiant. Yn Ebrill 2021, cyhoeddwyd ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn seiliedig ar dair thema: gwella cynrychiolaeth, creu diwylliant cynhwysol a gwreiddio amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae ein rhwydweithiau cynhwysiant hynod weithgar yn darparu cymorth i'r rhai sy'n dymuno ymuno â nhw, yn ogystal â darparu ffordd i ffrindiau a chefnogwyr ymgysylltu ar bynciau cynhwysiant. Gyda'i gilydd maent yn cefnogi amcan Cofrestrfa Tir EM i fod yn gyflogwr hollol gynhwysol o ddewis ac ysgogi ystod eang o weithgareddau sefydliadol. Er enghraifft, mae'r rhwydwaith anabledd wedi bod yn cefnogi profion defnyddwyr ar gyfer technoleg gynorthwyol wrth i systemau busnes newydd gael eu datblygu fel rhan o raglenni a phrosiectau digideiddio a thrawsnewid. Codwn ymwybyddiaeth o gynhwysiant trwy straeon a blogiau ar bynciau sy'n amrywio o'r menopos, galar ac awtistiaeth. Mae'r rhwydweithiau yn datblygu hyb cynhwysiant digidol i annog mwy o ymgyrchoedd cydweithredol a darparu cymorth i bob cydweithiwr a rheolwr llinell. Maent i gyd wedi cefnogi ein hymgyrch i goladu data amrywiaeth cywir a chynhwysfawr i sicrhau bod y wybodaeth gywir gennym i gynllunio polisïau a chamau gweithredu cynhwysiant effeithiol.

Rydym yn parhau i wthio i wella cynrychiolaeth trwy ein harferion recriwtio. Rydym yn recriwtio mor eang â phosibl i ddenu'r bobl fwyaf dawnus ar gyfer y swydd ac yn defnyddio dulliau safonol i leihau tuedd, megis dileu enwau ymgeiswyr ac unrhyw ffactorau adnabod eraill yn y camau llunio rhestr fer a dewis ar gyfer cyfweliad. Cynigiwn y cynllun gwarantu cyfweliad Hyderus o ran Anabledd ac yn sicrhau bod ein holl aelodau panel wedi eu hyfforddi ar gefnogi cydweithwyr anabl a niwroamrywiol. Mae fideo recriwtio wedi ei gynhyrchu i ategu blogiau'r gweithwyr ynghyd â phecynnau ymgeiswyr sy'n amlygu'r rhwydweithiau a'r cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Mae gennym raglen waith barhaus i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae mesurau yn cynnwys defnyddio iaith gynhwysol yn ein swyddi gwag, cynnig hyblygrwydd o ran oriau a phatrymau gwaith fel mater o arfer, ac ymateb yn gadarnhaol i her COVID-19 trwy bolisïau sy'n cefnogi rhieni sy'n addysgu gartref. Yn 2021 gostyngodd ein bwlch cyflog canolrif rhwng y rhywiau (y pwynt canol rhwng ein cyflogau uchaf ac isaf) o 13.7% i 0% a gostyngodd ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau (neu ein cyflog cyfartalog yn gyffredinol) o 8.5% i 7.5%. Er bod angen gwneud mwy o waith ar arallgyfeirio ein gweithlu, mae ein bwlch cyflog ethnigrwydd dangosol yn galonogol, gyda bwlch canolrif o 0% a bwlch cymedrig o 2.1%.

Cydnabuwyd ein hymrwymiad at degwch a chynhwysiant yn ein Harolwg Pobl diweddaraf gyda sgôr cadarnhaol o 88% ar gyfer mesurau cynhwysiant, cynnydd o 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym hefyd wedi cadw ein statws arweinydd Hyderus o ran Anabledd.


## Gwneud Cofrestrfa Tir EM yn lle gwych i weithio

Llwyddwyd i gynnal ein sgorau ymgysylltu uchaf erioed yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2021 a gynhaliwyd trwy gydol Hydref 2021. Yn gyffredinol, roedd ein sgôr Mynegai Ymgysylltu o 71% yn golygu ein bod wedi codi o'r 20fed i'r 17eg safle o blith y 101 o sefydliadau Gwasanaeth Sifil a gymerodd ran, a ni oedd yn y sefydliad Gwasanaeth Sifil â ffocws ar weithredu sy'n perfformio orau o faint tebyg.


Mae ein hagwedd at arweinyddiaeth weledol a hyrwyddo llais y gweithiwr, llesiant a datblygiad, cysylltiadau cryf â gweithwyr a meithrin diwylliant iach i gyd wedi cyfrannu at ein sefyllfa gadarn.

Rydym wedi rhagori'n rheolaidd ar y targedau ymgysylltu uchelgeisiol a osodwyd i'n hunain dros gyfnod ein Strategaeth Pobl flaenorol 2017-2022, ac ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheoli Newid rydym wedi gweld ein sgorau'n dyblu o 33% yn 2016 i 62% yn 2021.

**Sgôr Mynegai Ymgysylltu**




**Arweinyddiaeth a Rheoli Newid**




**Sgôr Mynegai PERMA 74%**

*(Cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil 74%)*

## Yr Academi Cofrestru Tir – trosglwyddo arbenigedd i genedlaethau'r dyfodol


Llun: Simon Russell

Mae lansio'r Academi Cofrestru Tir y llynedd wedi darparu fframwaith a seilwaith hyfforddiant technegol cenedlaethol newydd i sicrhau gwybodaeth arbenigol ein gweithwyr achos ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Eleni mae 950 o gydweithwyr wedi derbyn hyfforddiant.

Ymunodd **Becky Davis (uchod)** â Chofrestrfa Tir EM fel Prentis yn 2016 ac mae newydd ddechrau gweithio fel hyfforddwr academi yn Abertawe. Dywedodd:

"Rydw i am helpu i ddarparu'r un lefel o hyfforddiant o safon uchel a gefais ers imi ddechrau yma yn 2016. Mae'r academi bellach yn darparu hyfforddiant cyson ar draws yr adran gan ddefnyddio maes llafur a deunydd cymorth safonol, ond hefyd yn annog gwelliant parhaus gan yr hyfforddwyr er mwyn darparu hyfforddiant effeithiol ar gyfer ein cydweithwyr newydd."

**Tracey Cutler (isod)** yw un o'n hyfforddwyr academi newydd. Dywedodd:

"Fel gweithiwr achos profiadol er 30 o flynyddoedd mae'n bwysig trosglwyddo'r hyn rydw i wedi ei ddysgu. Dyna pam rydw i wedi bod wrth fy modd yn cymryd rhan mewn hyfforddi, addysgu a mentora. Yn ddiweddar, gofynnwyd imi adolygu ychydig o ddeunyddiau hyfforddi a chan imi fwynhau gymaint fe wnes i gais llwyddiannus ar gyfer rôl Hyfforddwr Hyfforddiant. Erbyn hyn rwy'n cyfrannu deunyddiau i gefnogi cyrsiau yn y dyfodol."



## Rhaglenni Datblygu Cyflym

Lansiwyd dwy raglen beilot doniau arweinyddiaeth yn 2021: 'Camu i Arweinyddiaeth Tîm' ar gyfer ein darpar arweinwyr tîm a 'Chamu i Uwch Arweinyddiaeth' ar gyfer ein huwch arweinwyr. Roedd tri deg pump o gydweithwyr wedi llwyddo i gael lle ar y rhaglenni hyn a bydd y ddwy raglen yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau i gyfranogwyr fod yn arweinwyr gwych. Maent yn cynnig cyfle unigryw i gyfranogwyr gamu y tu allan i'w sefyllfa gyffyrddus fel rhan o'u haddysg ac yn eu hannog i ddeall yn well eu hunain, eraill a'r cydweithio sydd ei angen i fod yn rhan o dîm llwyddiannus.

## Cymorth iechyd meddwl arobryn

Mae cefnogi iechyd meddwl a llesiant yn parhau i fod yn gonglfaen i'n diwylliant iach yma yng Nghofrestrfa Tir EM ac eleni fe enillon ni wobr Aur ym Mynegai Llesiant Gweithle MIND 2020-2021. Roedd y wobr yn cydnabod ein hymrwymiad hirdymor at iechyd meddwl a chryfder ein polisïau a'n harferion – o'n rhwydwaith ffyniannus o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl i'n dull cyfannol at helpu ein pobl i berfformio a chadw'n iach. Roeddem yn 14eg o'r 114 o sefydliadau a gymerodd ran ac yn un ddim ond tri sefydliad y Gwasanaeth Sifil i gael ei gydnabod.








# LR Leisure: meithrin ymdeimlad o gymuned

“Mae gennym ni grŵp anhygoel o bobl yma ac arweinyddiaeth hynod gefnogol yng Nghofrestrfa Tir EM. Gyda’n gilydd rydym wedi llwyddo i fynd i’r afael â chyfnod nas gwelwyd erioed o’r blaen, gan sicrhau bod pawb wedi’u cysylltu â’i gilydd a gobeithio wedi llywio ein ffordd drwodd i ddyfodol cyffrous.”

**Paul Hayden**, Ysgrifennydd LR Leisure

Mae ein trefnwyr chwaraeon a chymdeithasol, LR Leisure, wedi chwarae rôl bwysig wrth feithrin ymdeimlad o gymuned ar-lein a wyneb yn wyneb, gyda dwsinau o ddigwyddiadau’n cael eu cynnal i ddod â phobl ynghyd o dwrnameintiau pêl-droed i gystadlaethau talent ar-lein. Dim ond diolch i rwydwaith o wirfoddolwyr sydd wedi helpu i’w trefnu y mae’r digwyddiadau hyn wedi cael eu cynnal.











# Cefnogi ein teulu Cofrestrfa Tir EM a’r gymuned ehangach

Mae symud i weithio hybrid wedi ei adlewyrchu gan ein rhwydwaith cymdeithasol a chwaraeon ysbrydoledig, LR Leisure. Mae wedi cefnogi ein cymuned trwy gymysgedd o ddigwyddiadau rhithiol a bywyd go iawn gan sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod wedi ei gynnwys.

Eleni cyflwynodd LR Leisure Council wobrau pinnau llabed i gydnabod cyflawniad eithriadol gan ein gwirfoddolwyr diflino. Mae hyn yn ychwanegol at ein Gwobrau Pobl blynyddol, sy’n dathlu’r gwaith y mae ein pobl yn ei wneud i ddatblygu ac annog ein hysbryd cymunedol. Daeth y seremoni wobrwyo hefyd yn ddigwyddiad hybrid, gyda’r digwyddiad byw yn cael ei ategu gan ffrydio rhithiol. Yn wir, mae wedi bod yn flwyddyn doreithiog ar gyfer gweithgareddau o’r fath, gyda pharhad digwyddiadau rhithiol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig yn cael eu hategu gan ein cystadlaethau chwaraeon byw yn dychwelyd.

Derbyniodd nifer fach o gydweithwyr gymorth ariannol tymor byr gan Gronfa Les Cofrestrfa Tir EM, sydd wedi bod yn gwbl ddibynnol ar gyfraniadau gan weithwyr am yr 83 mlynedd diwethaf. Roedd deuddeg cais am grantiau neu fenthyciadau yn cefnogi unigolion â dyled bersonol, ac effaith barhaus pandemig COVID-19 ar incwm aelwydydd a threfniadau byw.

Mae ein pwyllgorau swyddfa lleol wedi parhau i gefnogi a diddanu pawb trwy eu hamrywiaeth o ddigwyddiadau elusennol a chymdeithasol, cystadlaethau chwaraeon a chelf, a gwaith gwirfoddolwyr a phwyllgorau elusennol. Yn 2021, codwyd £21,571 at achosion da, a chyflwynwyd haen genedlaethol newydd i’n hymdrechion elusennol eleni gan gynnal digwyddiadau codi arian cenedlaethol rhithiol ar gyfer achosion fel Comic Relief a Macmillan. Rydym yn falch o’r gwaith y mae ein pobl yn ei wneud i sicrhau bod pob un yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i fod yn aelod o’n teulu.

O’r brig i’r gwaelod: Gwobrau LR Leisure, Caerlŷr 2021; Rhedwyr 5km LR Leisure, Parc Battersea, 2022; Alix Jones, Swyddfa Telford, enillydd cystadleuaeth canu L’euRovision; Pencampwyr golff o Swyddfa Durham, 2021

# Gweithio POD yn dwyn ffrwyth yng Nghaerlŷr

Mae'r rhaglen Brilliant Teams, Inspiring Leaders yn newid y ffordd y mae ein timau o weithwyr achos yn cael eu trefnu a'u harwain. Gelwir y timau yn PODS a gyda ffocws ar ddatrys problemau lleol, mae mwy o bwyslais ar sgyrsiau dyddiol effeithiol am dasgau, perfformiad a chefnogaeth.

Dywedodd **Sarah MacLeod** (isod), Swyddog Cofrestru OS1 Tîm Chwiliadau, Swyddfa Caerlŷr

"Rydym ni'n cael trafodaethau rheolaidd am adnoddau a pherfformiad ond yn gymysg â dathlu ein cyflawniadau a'n llesiant. Rydym yn cymryd amser i ofyn i bobl sut maen nhw'n teimlo ac i ddathlu llwyddiannau tîm ac unigol. Mae'n syrpreis hyfryd gweld 'seren' yn cael ei hychwanegu at ein bwrdd llwyddiant gan gydweithiwr."



# 700 o brentisiaid mewn 7 mlynedd

Dros y saith mlynedd diwethaf, mae Cofrestrfa Tir EM wedi cynnig dros 32 o wahanol brentisiaethau. Erbyn hyn mae ein rhaglen brentisiaeth arobryn wedi cyrraedd carreg filltir arall. Mae **Caroline Walters (isod)**, ein 700fed prentis, yn cwblhau Prentisiaeth Gweithiwr Proffesiynol Hyfforddi Lefel 5. Dywedodd:

"Gydag anogaeth a chefnogaeth fy nghydweithwyr gwnes i gais a chael fy nerbyn ar y rhaglen. Pan fydda i'n ei chwblhau, bydda i wedi ennill cymhwyster cydnabyddedig, wedi gwella fy ymarfer hyfforddi ac yn gallu cynnig hyfforddiant i eraill yn y sefydliad.






# Undod a chryfder trwy gynhwysiant

Mae ein Rhwydwaith Gweithwyr Anabl wedi parhau i'n cefnogi trwy brofi ein systemau gan ddefnyddwyr i sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb, ac archwilio anghenion cydweithwyr niwroamrywiol. Mae aelodau wedi gweithio gyda'r Rhwydwaith Menywod i ystyried sut mae niwroamrywiaeth yn effeithio ar fenywod yn benodol. Mae'r Rhwydwaith Menywod hefyd wedi bod yn weithgar wrth sicrhau ein bod wedi gwneud cynnydd da gyda'n camau gweithredu i gau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Creodd ein Rhwydwaith Pride ddigwyddiadau a gwybodaeth ar gyfer Mis Hanes LHDTRh+ ar y thema hanes celf LHDTRh+, gan gynnwys llinell amser celf gydweithredol, rhestr chwarae cerddoriaeth a thrafodaeth bord gron. Ymunodd ei aelodau â'n Rhwydwaith Ffydd a Chred hefyd i archwilio'r berthynas gymhleth rhwng rhywioldeb a chrefydd. Mae'r Rhwydwaith Ffydd a Chred wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau gyda siaradwyr allanol amlwg i ddatblygu dealltwriaeth rhwng pobl o bob ffydd a heb ffydd.

Mae ein rhwydwaith ar gyfer cydweithwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi parhau â'i ymgyrch i wella amrywiaeth y gweithlu. Mae cydweithwyr wedi cael eu cefnogi i fynychu gweithdai allanol a mewnol i godi ymwybyddiaeth o ffyrdd o wneud recriwtio a dilyniant mewnol yn agored ac yn deg i bawb.

Mae'r rhwydweithiau oedran a gofalwyr wedi ymuno â'u cymheiriaid gan weithio i sicrhau bod pob cydweithiwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi i gynnal sgyrsiau rhagweithiol gyda'i reolwyr llinell i ddileu rhwystrau, gan alluogi pawb i gyrraedd ei botensial llawn yng Nghofrestrfa Tir EM.







Mae Cofrestrfa Tir EM wedi cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n dathlu amrywiaeth fel Mis Ymwybyddiaeth Awtistiaeth a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, yn ogystal â straeon personol i gyflwyno a dathlu gwahaniaeth.

# Dadansoddiad perfformiad ac adolygiad ariannol

## **Iain Banfield** Prif Swyddog Ariannol



**Argae Caban Coch** ar Afon Elan yng Nghymru, wedi ei adeiladu dros 100 mlynedd yn ôl i gyflenwi dŵr i Birmingham. Diwygiodd ein tîm Ceisiadau Swmpus y gofrestr ar gyfer hwn a dros 4,000 o eiddo eraill i ddangos cyfeiriad newydd y perchennog Dŵr Cymru.
Llun: Shutterstock/Allen Paul Photography



“Ein prif nod ariannol ar gyfer 2021-22 oedd parhau i fuddsoddi yn y capasiti a’r galluoedd tymor byr y mae eu hangen arnom i wasanaethu’r galw o ddydd i ddydd am ein gwasanaethau mewn marchnad dai fywiog.”

**Iain Banfield** Prif Swyddog Ariannol

## Adolygiad ariannol

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi ei hariannu trwy’r broses Amcangyfrifon Seneddol ers i’r statws cronfa fasnachu gael ei ddirymu ar 1 Ebrill 2020. Mae costau Cofrestrfa Tir EM wedi eu nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cyfunol ac mae ein Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn amlinellu ein mantolen ar 31 Mawrth 2022. Mae’r holl ffïoedd, taliadau ac incwm masnachol yn cael eu dal trwy ein Datganiad Ymddiriedolaeth a’u hildio i Drysorlys EM. Gellir gweld datganiadau ariannol manwl ar gyfer y ddau ar dudalennau 98 i 101 a thudalennau 125 i 127.

Er mai hon yw ail flwyddyn ein fframwaith adrodd newydd, gwelwyd rhai newidiadau cyfrifyddu sylweddol o hyd yn 2021-22 yn dilyn cyflwyno safon adrodd ariannol ryngwladol dechnegol newydd (IFRS 16). Mae’r safon newydd yn golygu bod pob prydles, yn ei hanfod, yn cael ei chydnabod fel prydlesi ariannol ac felly’n cael eu cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol Cofrestrfa Tir EM. Mae’r driniaeth gyfrifyddu hon wedi arwain at wariant Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf untro o £67.7m yn 2021-22, a oedd yn ymwneud yn bennaf ag eiddo rhydd-ddaliol a phrydlesol hir a drosglwyddwyd i Asiantaeth Eiddo’r Llywodraeth yn 2020-21.

## Crynodeb ariannol

Ein prif nod ariannol yn 2021-22 oedd parhau i fuddsoddi yn y capasiti a’r galluoedd tymor byr y mae eu hangen arnom i wasanaethu’r galw o ddydd i ddydd am ein gwasanaethau mewn marchnad dai fywiog, ochr yn ochr â’r trawsnewid tymor hwy sydd ei angen i wneud yn siwr bod y gwasanaethau hynny’n fwy gwydn yn wyneb anwadalrwydd y farchnad.

Yn ystod y flwyddyn gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am ein gwasanaethau gyda 5m o geisiadau wedi eu cyflwyno i ddiweddaru neu newid y gofrestr, cynnydd o 24% ers y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Rydym wedi buddsoddi’n helaeth yn ein capasiti a’n gallu er mwyn ceisio cadw i fyny â’r galw hwn. Rydym wedi cynyddu ein capasiti gwaith achos gan 390 dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi gwella effeithiolrwydd ein systemau trwy arloesiadau megis y Gwasanaeth Cofrestru Digidol £4m a Phrosesu Ceisiadau £9.7m. Bydd y systemau hyn yn gwella cywirdeb ceisiadau a dderbynnir gan Gofrestrfa Tir EM, yn cynyddu effeithlonrwydd eu prosesu, ac yn gosod y sylfeini ar gyfer mwy o awtomeiddio o’r dechrau i’r diwedd o’n gwasanaethau. Rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi mewn hyfforddi a datblygu ein pobl trwy raglenni fel Brilliant Teams, Inspiring Leaders a datblygu gyrfa 180 o weithwyr achos i’w galluogi i fynd i’r afael ag achosion mwy cymhleth.

Rheolwyd y buddsoddiad hwn o fewn ein cyfansymiau rheolaeth seneddol cyffredinol gyda thanwariant yn erbyn terfynau gwariant adrannol adnoddau a therfynau gwariant adrannol cyfalaf. Y prif resymau am hyn yw rhywfaint o oedi wrth recriwtio, tanwariant yn dilyn mabwysiadu’r safon cyfrifyddu dechnegol newydd IFRS 16, newidiadau yn oes economaidd ddefnyddiol rhai asedau sefydlog a rhai newidiadau i’r rhestr o awdurdodau lleol sy’n mudo i’r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi tanwario yn erbyn cyfansymiau rheoli terfyn gwariant adrannol adnoddau a therfyn gwariant adrannol cyfalaf gan £14.2m a £19.4m. Fodd bynnag, roedd ein halldro arian parod terfyn gwariant adrannol adnoddau, ein cyllideb fwyaf sy’n cyfrif am ein gwariant gweithredol o ddydd i ddydd, o fewn 1% i’n cyllideb.

| Tabl crynodeb 2021-22 | Alldro | Amcangyfrif |
|---|---|---|
| **Mewn £000** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | |
| Adnoddau – arian parod | 352,819 | 356,044 |
| Adnoddau – heb fod yn arian parod | 11,774 | 22,710 |
| Cyfanswm adnoddau | 364,593 | 378,754 |
| Cyfalaf | 109,507 | 128,868 |
| **Cyfanswm** | 474,100 | 507,622 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | |
| Adnoddau | (307) | 12,000 |
| Cyfalaf | - | - |
| **Cyfanswm** | (307) | 12,000 |

## Adolygiad ariannol o'r Cyfrifon Adnoddau

| | 2021-22 £m | 2020-21 £m |
|---|---|---|
| **Costau staff** | 269.2 | 243.7 |
| **Prynu nwyddau a gwasanaethau** | 76.6 | 70.5 |
| **Taliadau dibrisio ac amorteiddio*** | 11.8 | 11.8 |
| **Taliadau indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol**** | 5.8 | 5.6 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | 363.8 | 331.6 |
| **Incwm/treuliau ariannu** | 1.2 | 0.6 |
| **(Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol** | - | - |
| **Gwariant adnoddau net am y flwyddyn** | 364.6 | 332.2 |
| **Darpariaethau eraill a ddefnyddiwyd** | - | 0.5 |
| **Cyfanswm adnoddau terfyn gwariant adrannol** | 364.6 | 332.7 |


* Heb gynnwys amhariad a godir ar wariant a reolir yn flynyddol.

** Heb gynnwys symudiadau yn y ddarpariaeth indemniad (wedi eu dosbarthu fel gwariant a reolir yn flynyddol).

### Costau staff

Rydym wedi recriwtio mwy o gydweithwyr arbenigol ac ariannu goramser cynyddol i helpu i reoli'r galw am ein gwasanaethau. Cynyddodd ein cyfrif pennau cyfwerth ag amser llawn cyfartalog o 5,503 i 6,072 ar 31 Mawrth 2022. Cyfrannodd hyn at gynnydd mewn costau staff ar gyfer ein gweithgarwch busnes fel arfer, gan godi o £243.7m yn 2020/21 i £269.2m yn 2021-22.

### Prynu nwyddau a gwasanaethau




Y meysydd gwariant allweddol a'u symudiadau o 2021-22 oedd:

— gwasanaethau TG, gan gynnwys cynnal a chadw offer a thrwyddedau, wedi cynyddu o £16.1m i £19.9m yn 2021-22, gan adlewyrchu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno ein rhaglen drawsnewid a sicrhau y byddai systemau cefn swyddfa yn cefnogi ein cydweithwyr ar y rheng flaen;

— gwasanaethau proffesiynol, sydd wedi cynyddu o £10.2m i £11.5m yn 2021-22 yn unol â gweithgareddau trawsnewid ychwanegol. Mae hyn yn ymwneud i raddau helaeth â gwariant trwy ein partneriaid cyflenwi digidol; a

— gostyngiad mewn costau llety o £3.5m o £17.3m sy'n ymwneud â newid yn IFRS 16 a chydnabod pob prydles fel prydles ariannu yn hytrach na phrydles weithredu.

### Dibrisiant, amorteiddio, costau ariannu a thaliadau indemniad

Cynyddodd dibrisiant gan £3.3m o ganlyniad i brydlesi newydd Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ochr yn ochr â buddsoddiad parhaus yn ein systemau a'n hasedau sefydlog. Gostyngodd amorteiddio gan £3.3m o ganlyniad i effaith net adolygu Oes Economaidd Defnyddiol ein hasedau anniriaethol. Cafwyd costau o £1.3m hefyd yn ymwneud â llog ar brydlesi ariannu fel rhan o fabwysiadu IFRS 16. Yn olaf, mae ein costau nad ydynt yn gostau staff hefyd yn cynnwys effaith ein gwarant teitl gyda chefnogaeth y wladwriaeth, sy'n helpu i ategu cywirdeb y gofrestr. Mae'n diogelu dioddefwyr rhag twyll neu wallau. Yn 2021-22, talwyd £5.7m (gan gynnwys costau cyfreithiol Cofrestrfa Tir EM) yn erbyn 598 o hawliadau, cynnydd bach o £0.2m o'i gymharu â 2020-21.

### IFRS 16 Gweithredu Prydlesi Ariannu

Mabwysiadodd Cofrestrfa Tir EM y safon cyfrifyddu prydlesi newydd IFRS 16 o 1 Ebrill 2021. Mae'r safon hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob prydles sy'n bodloni'r meini prawf cydnabod gael ei dwyn i'r fantolen, ochr yn ochr â'r rhwymedigaeth brydles gysylltiedig.

Mae'r effeithiau ar ein datganiadau ariannol eleni fel a ganlyn.

— Mae pedair o'n prydlesi gweithredu presennol wedi eu cydnabod fel prydlesi ariannu, gan ddod â £4.6m o asedau prydles i'n Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Dangosir y balans hwn fel ailddatganiad i'n datganiadau ariannol gan ddefnyddio'r 'dull dal i fyny cronnus'. Mae hyn yn golygu nad yw cymariaethau'r flwyddyn flaenorol yn cael eu hailddatgan, a dangosir y newid trwy addasu balansau agoriadol. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith gyllidebol yn unol â chanllawiau gweithredu IFRS 16 Trysorlys EM.

— Ar 31 Mawrth 2021, lluniodd Cofrestrfa Tir EM gytundeb gydag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth i drosglwyddo ein heiddo rhydd-ddaliol a phrydlesol am ddim cydnabyddiaeth ond gan ddileu asedau dilynol gwerth £52.7m o Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol Cofrestrfa Tir EM. Mae'r eiddo hyn bellach yn cael eu prydlesu gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth gyda thaliadau rhent yn dechrau ar 1 Ebrill 2021. Mae'r prydlesi newydd yn cael eu cydnabod fel prydlesi ariannu sy'n dod ag asedau 'hawl defnyddio' o £67.7m i'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Dangosir cyfalafu'r prydlesi hyn fel ychwanegiad yn ystod y flwyddyn a darparwyd y cyllid cyfalaf ar gyfer hyn gan Drysorlys EM.

— Mae rhwymedigaeth brydles gyfatebol o £74.2m wedi ei chydnabod sy'n ymwneud â'r prydlesi presennol a'r prydlesi Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth newydd a amlinellir uchod.

Mae'r gwariant a gydnabyddir o dan IFRS 16 ar gyfer y prydlesi hyn yn cynnwys tâl dibrisiant o £6.1m yn ymwneud â'r asedau hawl defnyddio a thâl ariannu o £1.3m.

## Gwariant cyfalaf (terfyn gwariant adrannol cyfalaf)

Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2021-22 oedd £109.5 miliwn. Mae cyfanswm o £67.7m o hyn yn ymwneud â phrydlesi newydd ar gyfer yr eiddo a drosglwyddwyd i'r GPA ym Mawrth 2021.


Y gwariant cyfalaf sy'n weddill oedd £41.8m, gan gynnwys £35.9m ar y rhaglen drawsnewid. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â TG, meddalwedd a chyfalafu costau datblygu Pridiannau Tir Lleol.

## Gwariant a reolir yn flynyddol

Yn 2021-22 cafwyd credyd o £0.3m yn ymwneud ag ailbrisiad am i lawr o'r ddarpariaeth indemniad gan wrthbwysiad Adran Actiwari'r Llywodraeth, yn rhannol, gan amhariad yn erbyn ased prif ffrâm TG.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am hawliadau heb eu talu a darpariaethau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR) – gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n adlewyrchu natur amcangyfrifedig y rhwymedigaeth IBNR a thueddiad y ddarpariaeth i amrywio – yn nodyn 14 i'r cyfrifon.

## Ffïoedd a thaliadau




Mae Cofrestrfa Tir EM yn casglu'r holl ffïoedd a thaliadau ac yn eu hildio i Drysorlys EM ar ôl cwblhau'r gwaith. Yn unol â chyfarwyddyd gan Drysorlys EM, mae'r incwm hwn bellach yn cael ei adrodd mewn Datganiad Ymddiriedolaeth blynyddol ar wahân. Roedd y farchnad eiddo yng Nghymru a Lloegr wedi parhau'n fywiog trwy gydol 2021-22 yn dilyn COVID-19 a'r newidiadau i'r rheolau treth tir toll stamp. Yn 2021-22 casglwyd ffïoedd o £366.1m gan gwsmeriaid gyda cheisiadau sy'n werth £314.7m wedi eu prosesu yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, dros 2021-22, mae balans y Ffïoedd a Dderbynnir Ymlaen Llaw (FREDA) wedi cynyddu gan £51.4m, gan ddod â'r cyfanswm i £148.4 miliwn ar 31 Mawrth 2022. Bydd y balans hwn yn cael ei weithio i lawr wrth inni gynyddu ein capasiti dyddiol na uwchlaw nifer y ceisiadau a dderbynnir bob dydd.

Roedd 54.5% o'n ffïoedd yn ymwneud â diweddariadau i deitlau presennol yn y gofrestr (er enghraifft newid perchnogaeth), a oedd yn cyfrif am £173.9m. Roedd 14.9% yn ymwneud â chreu cofnodion cofrestr newydd (megis cofrestriadau cyntaf, trosglwyddiadau o ran a phrydlesi newydd) a oedd yn cyfrif am £47.4m.

Eleni cynyddwyd rhai o'n ffïoedd cofrestru tir am y tro cyntaf er 2009. Ar 31 Ionawr 2022 cynyddodd ffïoedd ar gyfer cofrestriad cyntaf ac ar gyfer ceisiadau cofrestru trosglwyddiadau, prydlesi a morgeisi eiddo (graddfeydd 1 a 2). Yn y mwyafrif o achosion cynyddodd y ffi gan 11% ar gyfer y rhai a gyflwynwyd yn electronig a 21% ar gyfer y rhai a gyflwynwyd trwy'r post.

Daeth ein prif lif incwm arall o wasanaethau ymholiadau gwarantedig, sy'n gamau hanfodol ym mhob trafodiad eiddo a lle y gwelwn y galw mwyaf. Mae'r rhain yn wasanaethau cyn cwblhau sy'n hanfodol i redeg y farchnad eiddo ac yn cael eu darparu yn syth ar y cyfan. Yn 2021-22, roedd gwasanaethau ymholiad gwarantedig yn cyfrif am £64.7m.

Mae gwasanaethau gwybodaeth yn golygu y gall defnyddwyr fynd ar-lein i gael braslun o unrhyw lain o dir neu eiddo cofrestredig. Cynhyrchodd y rhain £21.0m yn 2021-22.

Darparwn wasanaethau tir ac eiddo eraill hefyd. Mae ein gwasanaeth Pridiannau Tir digidol yn gwarchod buddion mewn tir digofrestredig ac rydym yn cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae ein Hadran Credydau Amaethyddol yn cynnal cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill. Gyda'i gilydd cynhyrchodd y rhain £7.3m. Yn ogystal, darparodd Pridiannau Tir Lleol £0.4m o incwm yn 2021-22.

## Incwm arall

Yn ogystal, cynigiwn wasanaethau data masnachol i gwsmeriaid yn y farchnad eiddo a'r economi ehangech. Cynhyrchodd incwm o ryddhau ein data'n fasnachol £4.2m yn 2021-22.

Ar wahân i'r incwm sy'n deillio o'n gwasanaethau, derbyniwn incwm rhent o £2.7m o eiddo buddsoddi a ddelir gan Gofrestrfa Tir EM. Adroddir ar yr incwm hwn yn ein cyfrifon adnoddau, ond caiff ei ildio i Drysorlys EM yn hytrach na'i gadw gan Gofrestrfa Tir EM.

## 2022-23 ymlaen

Yn dilyn ymlaen o Adolygiad Gwariant yr Hydref mae Cofrestrfa Tir EM wedi derbyn setliad tair blynedd ar gyfer terfynau gwariant adrannol adnoddau a chyfalaf. Mae'r sicrwydd tymor hwy yn caniatáu i Gofrestrfa Tir EM barhau i fuddsoddi mewn capasiti rheng flaen a thrawsnewid ac ar yr un pryd cyflymu'r broses o gyflwyno'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi derbyn terfyn gwariant adrannol adnoddau (ac eithrio dibrisiant) o £393.5m yn 2022-23, £389.2m yn 2023-24 a £383.7m yn 2024-25. Terfyn gwariant adrannol cyfalaf yr adran fydd £65.6m yn 2022-23, £60m yn 2023-24 a £59.1m yn 2024-25.

### Gwella ein gwasanaethau – Trawsnewid

Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau, mae ein strategaeth yn dibynnu ar fuddsoddi mewn trawsnewid y gwasanaethau a ddarparwn a sut rydym yn eu darparu. Yn 2021-2022, buddsoddwyd £24.8m (ac eithrio Pridiannau Tir Lleol) o derfyn gwariant adrannol adnoddau yn ein rhaglen newid uchelgeisiol, cynnydd o £2.1m o'i gymharu â 2020-21. Yn ogystal, gwariwyd £25.1m ar drawsnewid terfyn gwariant adrannol cyfalaf.

Mae'r mwyafrif o'r gwariant hwn yn ymwneud â pharhad ein rhaglenni digidol a data. Nod cyffredinol y rhain yw moderneiddio ein gwasanaethau a gwella amrediad ein data, a mynediad i'r data hwnnw. Bydd yn cynnig modd inni ddarparu gwasanaethau gwell, cyflymach, a mwy effeithlon am gost is.

Fe wnaethom barhau i gyflymu cynnydd y rhaglen Pridiannau Tir Lleol gydag 21 o awdurdodau lleol newydd yn mudo i'r gwasanaeth (fel y nodir ar dudalen 26) gan greu costau o £8.8m (terfyn gwariant adrannol adnoddau) a £10.8m (terfyn gwariant adrannol cyfalaf). Mae'r rhaglen yn parhau i ddarparu mwy, yn unol ag uchelgais y Llywodraeth, ac yn anelu at fudo'r awdurdodau lleol sy'n weddill dros y tair blynedd nesaf.

# Crynodeb cynllunio busnes 2021-22

Yn dilyn yr heriau digynsail a grëwyd gan bandemig COVID-19 i Gofrestrfa Tir EM a'r farchnad eiddo, sefydlwyd Cynllun Busnes 2021 i gefnogi adferiad economaidd y DU a chyflawni ein huchelgais tymor hwy i wella safonau gwasanaeth.

Yn gyffredinol, rydym wedi llwyddo i gyflawni 17 o'n 27 o dargedau cyflawnadwy allweddol mewn pryd yn ystod y flwyddyn. I'w nodi:

- rydym wedi cynyddu gallu ein gweithwyr achos;
- enillodd ein Canolfan Cymorth Cwsmeriaid achrediad gan y Sefydliad Cymorth Cwsmeriaid ar gyfer rhagoriaeth gwasanaeth cwsmeriaid;
- fe wnaethom barhau i fuddsoddi yn ein pobl trwy lansio strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a chyflwyno'r rhaglen Brilliant Teams, Inspiring Leaders;
- rydym wedi sicrhau bod mwy o ddata ar gael i'n timau i wella sgyrsiau a arweinir gan berfformiad ac ysgogi gwelliant parhaus; a
- strwythurwyd 60% o'n data teitl cofrestr, gan osod y sylfeini ar gyfer awtomeiddio yn y dyfodol.

Rydym wedi cario drosodd/symud ymlaen â'r 10 targed cyflawnadwy sy'n weddill trwy'r cylch cynllunio busnes ar gyfer 2022-23+ lle rydym yn disgwyl cyflawni'r gweddill yn ystod misoedd cyntaf 2022-23.



Arbenigwyr Cofrestrfa Tir EM, Swyddfa Abertawe
Llun: Simon Russell

# Fframwaith perfformiad corfforaethol

**Iechyd mewnol y sefydliad**

**Ffocws y sefydliad ar ganlyniadau**

Mae ffydd a hyder mewn perchnogaeth tir

Mae'r broses drawsgludo yn gyflym, yn hawdd ac yn ddiogel

Mae data eiddo yn cefnogi economi sefydlog ac arloesol yn y DU

DPAau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

**1 Ffydd cwsmeriaid yng nghywirdeb a manylder y cofrestri**

Oes gan ein cwsmeriaid ffydd yn y wybodaeth a gedwir yn y Gofrestr Tir?

**2 Boddhad cwsmeriaid**

Ydym ni'n darparu gwasanaeth sy'n cyfateb ag anghenion ein cwsmeriaid?

DPAau sy'n canolbwyntio ar allbwn

**3 Ymgysylltiad staff**

Pa mor gysylltiedig ydy ein cydweithwyr yn teimlo tuag at eu gwaith a'n sefydliad?

**4 Cost ein gwasanaethau**

Pa mor effeithlon ydy ein sefydliad yn cael ei redeg?

**5 Cywirdeb cofnodion newydd yn y gofrestr**

Sut mae newidiadau i'r gofrestr yn effeithio ar gywirdeb y gofrestr?

**6 Ceisiadau wedi eu cwblhau**

Oes gan Gofrestrfa Tir EM y capasiti a'r gallu priodol i ddarparu ei gwasanaethau mewn modd amserol?

**7A Cyflymder ein gwasanaethau**

Faint o amser ydy ceisiadau yn eu treulio yng Nghofrestrfa Tir EM (heb gynnwys yr amser a dreulir yn aros am ymateb gan gwsmer a gweithredu arall gan drydydd parti)?

**7B Yr amser a gymerir i newid y gofrestr**

Faint o amser ydy hi'n cymryd i'r gofrestr adlewyrchu perchnogaeth yn gywir?




**Pentref Edenbrook yn Fleet**. Cofrestrwyd nifer o dai newydd gan Swyddfa Weymouth eleni. Pan fydd wedi ei gwblhau, bydd y datblygiad yn cynnwys 600 o gartrefi newydd, parc gwledig 82 erw, canolfan hamdden newydd sbon, caeau chwaraeon a thrac BMX.
Llun: Alamy/Sam Oaksey

# Cynllunio a pherfformiad strategol

## Asesiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae perfformiad wedi bod yn gryf eleni ar y cyfan. Rydym wedi darparu'r gwasanaethau angenrheidiol yn gyson i sicrhau bod y farchnad yn parhau i symud a chynyddu ein hallbwn o wasanaethau ôl-gwblhau (diweddaru neu newid y gofrestr) dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cyflwynwyd fframwaith perfformiad corfforaethol newydd ar ddechrau'r flwyddyn hon i sicrhau ein bod yn monitro cerdyn sgorio cytbwys o ddangosyddion perfformiad. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae ein perfformiad diwedd blwyddyn yn cymharu â'r disgwyliadau a nodir yn ein Cynllun Busnes. Roedd perfformiad o fewn (neu'n well na) disgwyliadau ar gyfer saith o'n wyth Dangosydd Perfformiad Allweddol, y mae manylion amdanynt wedi eu nodi isod.



| | |
|---|---|
| **DPA 1**<br>**Ffydd cwsmeriaid yng nghywirdeb a manylder cofrestri tir** | Cafodd ein gallu i sicrhau cywirdeb a manylder y cofrestri ei raddio'n dda i ragorol gan 77% o gwsmeriaid (Ch4 2021-22). Mae hyn o fewn yr amrediad taflwybr a nodir yn ein Cynllun Busnes. Mae perfformiad yn erbyn y DPA hwn yn gryf ac wedi bod yn weddol gyson dros y blynyddoedd, 80% ar gyfer 2020-21 a 78% ar gyfer 2019-20. |
| **DPA 2**<br>**Boddhad cwsmeriaid** | Cafodd ein gwasanaeth ei raddio'n dda i ragorol gan 63% o'n cwsmeriaid (Ch4 2021-22) ac o fewn yr amrediad taflwybr a nodir yn ein Cynllun Busnes. Mae hyn 7% yn is na'r un cyfnod y llynedd, er bod boddhad yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn cael ei effeithio'n sylweddol ar hyn o bryd gan gyflymder ein gwasanaethau (gweler isod) ar gyfer ceisiadau i ddiweddaru neu newid y gofrestr, ac mae hynny'n hollbwysig i'w nodi. Mae lefelau boddhad cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau cyn-gwblhau yn unig, gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth, yn parhau'n uchel ar 85%. |
| **DPA 3**<br>**Ymgysylltiad staff** | Mae canlyniadau ein Harolwg Pobl ymhlith y gorau yn Whitehall gyda sgôr ymgysylltu o 71%. Mae'r canlyniadau hyn yr un fath â'r rhai a gafwyd y llynedd ac wedi dangos gwydnwch sylweddol dros gyfnod COVID, sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad yn ein pobl dros y pum mlynedd diwethaf. |
| **DPA 4**<br>**Cost ein gwasanaethau** | Cost ein gwasanaethau dros gyfnod treigl o 12 mis oedd £47.90, gostyngiad o £4.70 ers y llynedd. Mae'r gwelliant cadarnhaol yn ein hallbwn dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gyrru i lawr cost gyfartalog darparu ein gwasanaethau, er ei fod yn parhau i fod y tu allan i'r amrediad taflwybr a osodwyd yn ein Cynllun Busnes gan nad oedd allbwn yn cyrraedd y lefelau a ragwelwyd (gweler yr esboniad isod o dan DPA 6). |
| **DPA 5**<br>**Risg i gywirdeb y gofrestr** | Mae'r DPA hwn yn edrych ar ansawdd cofnodion newydd yn y gofrestr ac yn meintioli effaith unrhyw wallau a ganfuwyd o ran eu hamlder a'u heffaith. Ein huchelgais bob amser yw lleihau'r proffil risg, gyda gwaelodlin o 1.0 ar ddechrau bob blwyddyn. Mae gweithgareddau gwella parhaus ar y pwyntiau gwirio hanfodol wedi cyfrannu at sgôr diwedd blwyddyn o 0.95, gyda gostyngiad cadarnhaol mewn risgiau i gywirdeb y gofrestr ac o fewn yr amrediad taflwybr a nodir yn y Cynllun Busnes. |
| **DPA 6**<br>**Ceisiadau wedi eu cwblhau** | Dros y cyfnod cyfan o 12 mis, rydym yn allbynnu 97.9% o'r ceisiadau a dderbyniwn i ddiweddaru neu newid y gofrestr, sydd y tu allan i'r amrediad taflwybr ond i fyny 0.3% ar y llynedd. Cododd lefelau allbwn drwy gydol y flwyddyn, ac yn y chwarter diwethaf roedd allbwn yn cyfateb i 99.8% o'r ceisiadau a dderbyniwyd. Mae sawl rheswm pam fod perfformiad yn y maes hwn yn is na'r disgwyl. Y cyntaf yw bod y farchnad wedi bod yn fywiog eleni, ac er bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu'n bennaf â llaw heddiw, mae ein gallu i olrhain newidiadau yn y galw yn y farchnad yn gyfyngedig. Dylai ein cynlluniau awtomeiddio gyfyngu ar y math hwn o effaith yn y dyfodol. Roedd cynnydd gyda thrawsnewid digidol yn arafach na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn, gan effeithio ar ein cynhyrchiant cyffredinol. Cynyddodd ein capasiti gweithredu gan yr hyn sy'n cyfateb i 145 o staff cyfwerth ag amser llawn dros y flwyddyn ddiwethaf, a buddsoddwyd mewn datblygu sgiliau 978 o weithwyr achos, gan ganolbwyntio ar wasanaethau ôl-gwblhau mwy cymhleth. Wrth inni adeiladu gallu ein pobl, rydym wedi gweld amrywiadau mewn effeithlonrwydd gwaith achos, ond mae cynhyrchiant cyffredinol wedi gwella dros y chwarter diwethaf yn arbennig. |
| **DPA 7a**<br>**Cyflymder ein gwasanaethau** | Prosesodd Cofrestrfa Tir EM dros 134,000 o geisiadau gwasanaeth bob dydd yn 2021-22. Roedd tua 85% yn geisiadau gwasanaethau gwybodaeth. Dyma'r gwasanaethau cyn-gwblhau sy'n hanfodol cyn i drafodion tai gael eu cwblhau a gall pobl symud i'w cartrefi newydd. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain yn awtomataidd gyda chwsmeriaid yn derbyn ymateb ar yr un diwrnod, ac mae'r gweddill yn cael eu cwblhau o fewn tri diwrnod. Ceisiadau i newid neu ddiweddaru'r Gofrestr Tir sy'n ffurfio'r 15% arall o geisiadau. Mae'r rhain yn geisiadau ôl-gwblhau ac er eu bod yn bwysig i gywirdeb cyffredinol y Gofrestr Tir, nid ydynt yn achosi oedi i drafodion tai. Yr amser cyfartalog ar gyfer prosesu cais dros y chwe mis diwethaf oedd 27 diwrnod gwaith, sydd o fewn yr amrediad taflwybr a nodir yn ein Cynllun Busnes. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth brys gyda dros 95% o geisiadau am wasanaeth brys yn cael eu cwblhau o fewn deg diwrnod. Er bod amseroedd prosesu cyfartalog yn parhau'n gyson â diwedd y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn ymwybodol bod y cyfartaledd yn rhy uchel a bod ystod eang o brofiadau cwsmeriaid sy'n golygu bod rhai ceisiadau yn cymryd bron ddeg gwaith yn hwy na'r cyfartaledd. Nod y flwyddyn ddiwethaf oedd cynyddu ein capasiti gweithredu fel bod allbwn yn cyrraedd y ceisiadau a dderbynnir (DPA 6), a bydd y blynyddoedd i ddod yn canolbwyntio ar wella cyflymder gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid fel yr amlinellir yn ein Cynllun Busnes 2022-25. |
| **DPA 7b**<br>**Yr amser a gymerir i newid y gofrestr** | Mae ein mesur gweithredol olaf yn adlewyrchu cywirdeb y gofrestr fel set ddata ar adeg benodol. Ar ddiwedd Ch4, roedd yn cymryd 206 diwrnod gwaith i'r gofrestr adlewyrchu 95% o'r holl newidiadau hysbys (sef y rhai a gyflwynir gan drawsgludwr), gan gynnwys yr amser y mae cais yn ei dreulio yn ôl gyda chwsmeriaid i gywiro gwallau. Bydd y metrig hwn yn fwyfwy pwysig wrth inni geisio cynyddu gwerth ein data i'r eithaf fel y nodir yng Nghynllun Busnes 2022-25. Mae gennym nifer fawr o fetrigau a mesurau sy'n cefnogi'r fframwaith perfformiad hwn, a darperir diweddariadau ar hyn i Fyrddau Gweithredol ac Anweithredol Cofrestrfa Tir EM (yn ogystal â phwyllgorau eraill) yn rheolaidd. |

# Targedau cyflawnadwy cynllunio busnes 2021-22

## Cyflawni'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud wrthym y mae ei angen fwyaf arnynt ar hyn o bryd

| Targed cyflawnadwy | Cyflawnwyd 2021-22 | Wedi ei gario drosodd 2022-23 |
|---|---|---|
| Gweithredu'r Cynllun Adnoddau Gweithrediadau cytunedig, gan gynnwys recriwtio, dilyniant a datblygiad yn y radd er mwyn cynyddu gallu a chapasiti (capasiti gweithiwr achos ychwanegol net o 320 cyfwerth ag amser llawn erbyn Mawrth 2022). | ● | |
| Parhau i ddatblygu'r Academi Cofrestru Tir, gan ddylunio a gweithredu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol hygyrch o ansawdd uchel er mwyn meithrin gallu allweddol/hanfodol erbyn Mawrth 2022, a darparu ystod o opsiynau datblygiad parhaus i wella arbenigedd cofrestru tir erbyn Mawrth 2024. Cytuno ar ddull arfaethedig ar gyfer achrediad proffesiynol erbyn Mawrth 2022. | ● | |
| Gwella Gwybodaeth Reoli i gefnogi gwneud penderfyniadau gweithredol a strategol, trwy ddatblygu argaeledd data mewn ffordd fwy gronynnog er mwyn inni allu deall cynhyrchiant a defnydd, a thrwy ddatblygu offer i awtomeiddio mwy o'n cynnyrch gwybodaeth rheoli. Datblygu offer i alluogi rheolwyr i hunanwasanaethu ac ail-gyfuno ystod eang o ddata, gan gefnogi penderfyniadau sy'n cael eu seilio ar ddata ar draws y sefydliad trwy sefydlu offer i alluogi argaeledd amser real a lleihau amser ar ddatblygu pecynnau gwybodaeth rheoli erbyn Ionawr 2024. | | ● |
| Ennill achrediad ServiceMark i'r Ganolfan Cymorth Cwsmeriaid gan y Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan ddangos arferion gorau yn y DU erbyn Medi 2021. | ● | |
| Cwblhau'r cyflwyniad cychwynnol o Brilliant Teams, Inspiring Leaders, menter i fuddsoddi mewn datblygu ein pobl, gan roi'r sgiliau i reolwyr ac arweinwyr i ddyfeisio diwylliant hyfforddi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ysgogi ymgysylltiad, perfformiad a phrofiad cadarnhaol cwsmeriaid, ar draws 13 o leoliadau erbyn diwedd Mawrth 2022 a phob swyddfa erbyn diwedd Mai 2022. Datblygu gallu rhagoriaeth weithredol fewnol a gwreiddio Brilliant Teams, Inspiring Leaders. | ● | |
| Datblygu'r Strategaeth Cofrestru Cynhwysfawr, gan greu cofnod mwy pendant o berchnogaeth eiddo yng Nghymru a Lloegr erbyn 2030. | ● | |
| Pedwar deg y cant o'r holl geisiadau yn cael eu derbyn trwy'r Gwasanaeth Cofrestru Digidol erbyn diwedd Mawrth 2022. | | ● |
| Chwe deg y cant o'r holl geisiadau i ddiweddaru'r gofrestr yn cael eu prosesu yn ein system Prosesu Cais newydd, gan ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon a chefnogi digideiddio a chyfleoedd ar gyfer awtomeiddio gwaith achos yn y dyfodol erbyn Mawrth 2022. | | ● |
| Datblygu'r Gofrestr Ddigidol, sy'n ceisio galluogi digideiddio ac awtomeiddio prosesau mewnol trwy wneud data yn ddarllenadwy gan beiriant, gyda 60% o ddata teitl wedi ei strwythuro erbyn diwedd 2021-22. | ● | |
| Wyth deg y cant o geisiadau i ddiweddaru'r gofrestr yn cael eu trin trwy lif gwaith; ein teclyn dyrannu gwaith mewnol, erbyn Ionawr 2022. | ● | |
| Lansio'r teclyn 'Chwilio am dir ac eiddo' (mewn beta preifat ar hyn o bryd), gan alluogi cwsmeriaid i wneud cais am gopïau swyddogol a monitro eiddo o fewn ein gwasanaeth newydd, gan ddileu'r angen am Property Alert erbyn 2021-22. | ● | |
| Cyflwyno Porth Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau newydd i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid gael mynediad i wasanaethau busnes-i-fusnes a'u defnyddio erbyn diwedd 2021-22. | | ● |

## Galluogi a sbarduno newid, cyflymder ac arloesedd yn y farchnad eiddo

| Targed cyflawnadwy | Cyflawnwyd 2021-22 | Wedi ei gario drosodd 2022-23 |
|---|---|---|
| Cydweithio â'r Comisiwn Geo-ofodol i ddeall sut y gallwn wella ansawdd, canfyddadwyedd, hygyrchedd, rhyngweithredoldeb ac ailddefnyddioldeb (egwyddorion ACHRhA) ein data, i alluogi datblygiadau yn y dyfodol ac achosion defnydd newydd ar gyfer datgloi gwerth ychwanegol. Adolygiad i'w gwblhau yn 2021-22 | | |
| Mudo data awdurdod lleol (ALl) i'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn unol â'r amserlen isod: | | |
| 2021-22 – mudo dros 30 o awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr | | |
| 2022-23 – mudo dros 70 o awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr | | |
| 2023-24 – mudo dros 70 o awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr | | |
| Cyhoeddi tair set ddata bellach a gwella setiau data presennol yn unol ag egwyddorion CHRhA (data CHRhA yw Canfyddadwyedd, Hygyrchedd, Rhyngweithredoldeb ac Ailddefnyddioldeb) a'u hadolygu erbyn Ebrill 2023. | | |
| 75-85% o setiau data cyhoeddadwy cymeradwy ar gael ar ein gwasanaeth cyhoeddi data newydd, gan ei gwneud hi'n haws i'n cwsmeriaid gael mynediad i'n data erbyn Ebrill 2024. | | |
| Treialu cynllun ardystio cyfreithwyr newydd yn 2021-22 i gefnogi ei gyflwyno ar draws pob math o gais i newid y gofrestr (allwedd i awtomeiddio). | | |
| Cyflwyno Llofnodion Digidol Cymwysedig, a fydd yn lleihau'r baich ar ein cwsmeriaid trwy wneud y broses lofnodi yn symlach erbyn diwedd 2021-22. | | |
| Darparu setliad Adolygiad Gwariant sy'n sicrhau'r gyllideb a'r hyblygrwydd y mae ei angen ar Gofrestrfa Tir EM er mwyn cyflawni yn erbyn ei blaenoriaethau dros y cyfnod cynllunio, sef hydref 2021. | | |
| Cyflwyno codiad ffi cynyddrannol yn ôl yr angen o fewn setliad SR20 Cofrestrfa Tir EM, Ch2 2021. | | |
| Cwblhau adolygiad tymor hwy o'r strategaeth ffïoedd a chodi tâl, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus sydd wedi ei gynllunio ar gyfer Rhagfyr 2021. | | |

## Moderneiddio ein diwylliant sefydliadol a ffyrdd o weithio

| Targed cyflawnadwy | Cyflawnwyd 2021-22 | Wedi ei gario drosodd 2022-23 |
|---|---|---|
| Lansio ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2021, wedi ei fesur yn erbyn llywodraethu cysylltiedig a'i gyflawni yn erbyn cynlluniau gweithredu cysylltiedig cytunedig. | | |
| Datblygu a gwreiddio rhaglenni prentisiaeth sy'n darparu llwybrau mynediad a rhaglenni datblygu o ansawdd uchel sy'n cefnogi amcanion ein Strategaeth Busnes a'n Strategaeth Pobl erbyn Hydref 2023. | | |
| Lansio Model Diwylliant gan ddefnyddio'r Grŵp Arweinyddiaeth fel y llwybr lledaenu allweddol ar gyfer gwreiddio egwyddorion a sicrhau bod cynlluniau gweithredu tîm a chyfarwyddiaeth yn eu lle erbyn Mehefin 2021 ac yn fesuradwy o Ch2, gyda sicrwydd ac adrodd ymlaen i'r Pwyllgor Pobl ac Ystadau. | | |
| Bwrw ymlaen â'r Rhaglen Gweithio'n Gallach, sy'n ceisio sefydlu dull hybrid o ran y modd y bydd ein pobl yn gweithio yn y dyfodol. Bydd hon yn broses ailadroddus, gan alluogi ein pobl arbenigol i ateb anghenion ein cwsmeriaid a sbarduno effeithlonrwydd yr un pryd. Bydd y gallu mewnol i gyflawni hyn yn cael ei sefydlu erbyn diwedd 2021-22. | | |
| Galluogi ein pobl i weithio'n ddi-dor ac yn hyblyg ar draws lleoliadau, gan gynnwys yn y cartref, trwy roi gliniaduron yn lle pob cyfrifiadur personol bwrdd gwaith a buddsoddi mewn technolegau gweithle modern erbyn diwedd 2021-22. | | |
| Cau holl ganolfannau data Cofrestrfa Tir EM a weithredir yn breifat fel rhan o symudiad strategol tuag at letya a rennir gan y llywodraeth dros y tair blynedd nesaf. | | |

Er na chyflawnwyd holl dargedau cyflawnadwy ein cynllun busnes yn ystod 2021-2022, cawsant naill ai eu hail-flaenoriaethu ac ni chawsant effaith ar ein huchelgeisiau gweithredol ar gyfer y flwyddyn (gan lansio ein teclyn 'Chwilio am Dir ac Eiddo', gohirio'r ail gyfnod o waith ar ein ffïoedd, rhyddhau setiau data mwy cyhoeddadwy) neu wedi cael eu cario drosodd a chânt eu cyflawni trwy ein Cynllun Busnes 2022-25.

# Cynaliadwyedd

**Carbon**
**42%** o ostyngiad

**Dŵr**
**49%** o ostyngiad

**Gwastraff**
**66%** o ostyngiad

**Papur**
**31%** o ostyngiad

**Gwastraff wedi ei ailgylchu**
**71%**

**Proses troi gwastraff yn ynni**
**29%**



## Llywodraethu cynaliadwyedd

Mae cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yn cael ei reoli trwy'r System Rheoli Amgylcheddol a chyfarfodydd mewnol o fewn Cofrestrfa Tir EM a gyda'r darparwr rheoli cyfleusterau. Gweinyddir hyn gan y Rheolwr Cynaliadwyedd ar y cyd â'n huwch bartneriaid busnes cyfleusterau a'n darparwr Rheoli Cyfleusterau Cyflawn.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi penodi Pennaeth Cynaliadwyedd newydd i oruchwylio pob agwedd ar gyflawni.

## Cyflawni gofynion ychwanegol Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth

Mae targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth yn parhau i ysgogi llywodraeth ganolog i fod yn fwy cynaliadwy a sicrhau gofyniad Deddf Newid Hinsawdd (2008) sef bod gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael ei gyflawni erbyn 2024.

## Addasu i newid hinsawdd

Mae effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried yn ystod gwaith a phrosiectau adeiladu. Defnyddiwn y wybodaeth a gesglir yn yr arolygon cyflwr adeiladau a blaengynlluniau cynnal a chadw fel rhan o'n strategaeth lleihau cynaliadwyedd pan fyddwn yn gwneud gwaith adnewyddu mawr, adleoli neu'n cael offer adeiladu mawr newydd. Bwriedir cynnal adolygiad o addasu i newid hinsawdd yn 2022.

Mae cyflwyno rhaglen Sero Net y Llywodraeth yn ffurfio rhan o'r ystyriaethau ar draws sawl maes cyflawni busnes yng Nghofrestrfa Tir EM, gan gynnwys Masnachol, Digidol, Data a Thechnoleg a Rheoli Cyfleusterau. Mae Rheoli Cyfleusterau yn sicrhau gostyngiadau fel rhan o benderfyniadau cynnal a chadw a rheoli eiddo ehangach. Mae gweithgarwch wedi parhau trwy Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar nifer o brosiectau Sero Net mawr. Rydym yn gweithio ar draws y sefydliad i ddarparu cynllun Sero Net yn unol ag Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Caiff asesiadau risg a chynlluniau gweithredu eu hadolygu a'u rhoi ar waith lle bo angen yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

## Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Cydnabyddwn bwysigrwydd bioamrywiaeth i'r amgylchedd adeiledig. Mae cynlluniau bioamrywiaeth wedi cael eu creu ac yn cael eu gweithredu yn Telford a Weymouth. Bydd y broses hon yn parhau wrth i safleoedd gael eu neilltuo fel rhai a fydd yn elwa ar welliannau yn y dyfodol.

| | Cyflawnwyd | Targed ar gyfer 2022 | Ar darged/wedi ei gyflawni? |
|---|---|---|---|
| **Carbon** | 42% o ostyngiad | 62% o ostyngiad | Ar darged |
| **Gwastraff yn codi** | 66% o ostyngiad yn y gwastraff a gynhyrchir<br>71% wedi ei ailgylchu 0% i safle tirlenwi<br>29% proses Troi Gwastraff yn Ynni<br>49% o ostyngiad | Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25%<br>Ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o wastraff ac anfon llai na 10% o'r gwastraff i safle tirlenwi | Cyflawnwyd |
| **Defnydd o ddŵr** | 31% o ostyngiad | Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 8% | Cyflawnwyd |
| **Defnydd o bapur** | 31% o ostyngiad | Lleihau'r papur a ddefnyddiwn gan 50% o waelodlin 2017/18 | Ar darged |



Llun: Shutterstock/Nuttawut Uttamaharad

| Maes | | Perfformiad | |
|---|---|---|---|
| | | Gwirioneddol (£'000) | Targed gostyngiad 2022 |
| Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas | allyriadau carbon (tunelli) | 3,416 | 4,834 |
| | gwariant (£) | 1,626 | |
| Gwastraff | defnydd (tunelli) | 354 | 979 |
| | gwariant (£) | 84 | |
| Dŵr | defnydd (m) | 20,978 | 39,645 |
| | gwariant (£) | 100 | |

## Carbon

Rydym wedi cynyddu'r defnydd o drydan yn erbyn defnydd y llynedd gan 48% ac wedi ei leihau gan 4361 KWh yn erbyn y flwyddyn sylfaen 2017/18. Mae hyn yn adlewyrchu'r defnydd llai o'n hadeiladau, gan barhau i fod ar agor i ddarparu gwasanaethau hanfodol yr un pryd.

Mae'r defnydd o nwy wedi parhau i gynyddu, gan 1,075 KWh eleni o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf a chynyddodd yn erbyn y flwyddyn sylfaen gan 1,325 KHz sy'n gynnydd o 17%.

Mae ein hallyriadau carbon cyffredinol wedi lleihau er 2017/18 ac yn 3,416 tunnell, sef gostyngiad yn erbyn y flwyddyn sylfaen o 42%. Gweler Atodiad C am ddata tueddiadau hanesyddol.

Mae carbon o hediadau domestig i'w leihau gan 30% erbyn diwedd Mawrth 2025 yn darged newydd a osodwyd yn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth presennol. Yn y flwyddyn sylfaen, cafodd Cofrestrfa Tir EM gyfanswm o 351 o hediadau domestig gydag effaith carbon o 18.03 tunnell. Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol cafwyd 25 o hediadau domestig gydag effaith carbon o 2.44 tunnell gan arwain at ostyngiad carbon o 86%.

Ni aeth cydweithwyr ar unrhyw hediadau rhyngwladol yn y flwyddyn ariannol hon.

Bydd adolygiad a diweddariad o'r Polisi Teithio yn cynnwys y gofyniad i ddefnyddio opsiynau carbon is ar gyfer pob rheswm dros deithio fel y nodir yng ngofynion Ymrwymiadau'r Glasu'r Llywodraeth.

## Gwastraff

Y targed a osodwyd yw lleihau cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan 15% o waelodlin 2017/18 a cheisio ei leihau ymhellach, ei ailgylchu neu ei gompostio gan 70%, ac anfon llai na 5% o wastraff i safle tirlenwi.

Mewn partneriaeth â'n darparwyr gwastraff rydym wedi symud dros y flwyddyn i gyflawni dim gwastraff yn cael ei anfon i safle tirlenwi ac mae hyn wedi parhau trwy gydol y flwyddyn ariannol hon.

Ar hyn o bryd rydym yn cyrraedd y targedau uchod, gyda swm y gwastraff a gynhyrchir wedi ei leihau gan 66%, ac mae 100% o'r holl wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei losgi i'w droi'n ynni (29%) yn hytrach na mynd i safle tirlenwi.

Rheolir gwastraff trwy ddau lwybr. Rheolir papur trwy gontract gwaredu cyfrinachol y tu allan i'r trefniadau rheoli cyfleusterau. Mae gwastraff arall yn cael ei drin trwy'r contract rheoli cyfleusterau.

Mae papur yn cyfateb i 58% o'r gwastraff sy'n codi ac anfonwyd 130 tunnell i'w ailgylchu. Ein gostyngiad cyffredinol mewn gwastraff a gynhyrchwyd er 2017/18 yw 66%. Gweler Atodiad C am ddata tueddiadau hanesyddol.

Mae targedau Ymrwymiadau'r Glasu'r Llywodraeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gael gwared ar blastigau untro defnyddwyr o ystad y llywodraeth. Mae Cofrestrfa Tir EM yn bwriadu gosod y defnydd sylfaen o blastigau untro defnyddwyr ar draws yr ystad yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Nid yw cyflenwyr deunydd ysgrifennu wedi rhoi gwybod eto ynghylch nifer yr eitemau a ddefnyddiwyd ym mlwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r contractwr Rheoli Cyfleusterau wedi dweud bod 28,385 o eitemau o blastigau untro defnyddwyr wedi eu defnyddio ar draws yr ystad yn y flwyddyn ariannol.

## Defnydd o ddŵr

Y targed yw lleihau'r ddŵr a ddefnyddir gan 8% o waelodlin 2017/18.

Cafwyd gostyngiad o 49% yn y defnydd o ddŵr yn erbyn targed o 8%. Mae'r gostyngiad hwn yn parhau i gael ei fesur yn erbyn deiliadaeth is nag oedd yn amlwg yn y flwyddyn sylfaen oherwydd bod cyfyngiadau COVID dal mewn grym am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a'r symud tuag at weithio hybrid o Fedi 2021.

## Defnydd o bapur

Mae targed Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth ar gyfer lleihau'r papur a ddefnyddiwn gan 50% o flwyddyn sylfaen 2017/18 yn dangos gwelliant cyfredol o 31% o'r defnydd o bapur cyfwerth ag A4. Mae ein rhaglen gwasanaethau digidol a symud tuag at argraffu ar gais yn parhau i gael effaith arwyddocaol. Mae defnydd o bapur wedi cynyddu o'i gymharu â'r defnydd yn 2020/21 gan adlewyrchu galw uwch am wasanaethau Cofrestrfa Tir EM a mwy o argraffu ar y safle gan gydweithwyr wrth i bresenoldeb yn y swyddfa gynyddu.

## Caffael cynaliadwy

Mae polisi prynu Cofrestrfa Tir EM yn rhoi ystyriaeth briodol i gynaliadwyedd, gan gynnwys materion amgylcheddol, ac yn dal i sicrhau'r gwerth gorau am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi,

gan leihau difrod i'r amgylchedd yr un pryd. Trwy ein dewisiadau buddsoddi mewn technoleg a'r gweithle byddwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth. Bydd manylion unrhyw ofynion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol y mae angen i gyflenwyr fod yn ymwybodol ohonynt bob amser yn cael eu cynnwys yn ein dogfennau gwahoddiad i dendro, ac rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cyflenwyr i sicrhau eu bod yn cydnabod ac yn deall eu rôl wrth gefnogi cynaliadwyedd.

## Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a digidol

Mae ein hymrwymiad at ofynion carbon Sero Net y Llywodraeth yn cynnwys sicrhau bod unrhyw offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac offer digidol sy'n cynnal neu'n cefnogi seilwaith mecanyddol a thrydanol yn cael eu huwchraddio neu eu hadnewyddu, a bod yn rhaid iddynt berfformio'n well na'r offer sy'n cael eu disodli. Rydym yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol ac amcanion allweddol y Llywodraeth, gan gynnwys adrodd yn flynyddol i'r Tîm Cyngor ac Adrodd ar Dechnoleg Gynaliadwy (STAR). Rydym yn sicrhau bod 100% o'r holl offer TGCh a ddatgomisiynir yn cael eu hailddefnyddio, eu hailgylchu neu eu gwaredu'n amgylcheddol ac yn foesegol.

Ceisiwn redeg ein canolfannau data mor effeithlon â phosibl. Ar hyn o bryd rydym yn rhedeg mewn Pŵer Effeithiolrwydd Defnydd blynyddol o 1.8 ar draws ein hystad canolfan ddata ar y safle. Mae hyn yn welliant dros y 12 mis diwethaf o Bŵer Effeithiolrwydd Defnydd blynyddol o 2.2. Cyflawnwyd hyn trwy ddefnyddio cymysgedd o ddefnyddio offer TGCh ynni-effeithlon a gwneud defnydd callach o ofod neuadd ddata, gan gynnwys codi tymheredd gweithredu ystafelloedd y ganolfan ddata yn unol ag arferion gorau ASHRAE (Cymdeithas Peirianwyr Gwresogi, Rheweiddio ac Aer-dymheru America). Rydym wedi lleihau ein defnydd o bŵer TGCh gan fwy na 15% dros y 12 mis diwethaf.

Mae ein model lletya TGCh a digidol yn rhithiol ac yn ffisegol. Ar gyfer ein model lletya rhithiol, ein nod yw bod yn gwmwl yn gyntaf. Yn ogystal ag asesu'r gofyniad TGCh, rydym yn asesu'r effeithiau busnes, economaidd ac amgylcheddol. Rydym hefyd yn ystyried ailddefnyddio ac adleoli TGCh presennol ar y safle. Ar gyfer ein model lletya ffisegol, ein strategaeth yw symud i ffwrdd o ganolfan ddata ar y safle i fodel canolfan ddata a letyir gan y goron. Y llynedd mudwyd un o'n tair canolfan ddata i gyfleuster a letyir gan y goron sydd â Pŵer Effeithiolrwydd Defnydd blynyddol o 1.2, gan leihau ein heffaith amgylcheddol a dangos ymrwymiad Cofrestrfa Tir EM i darged Carbon Sero Net y Llywodraeth.

**Plasdwr, Caerdydd**. Byw yn yr 21ain ganrif wedi ei ysbrydoli gan yr egwyddorion gardd-ddinas wreiddiol o 'awyr iach, golau'r haul, lle i anadlu ac ystafell chwarae'. Wedi ei hadeiladu ar yr ystad hanesyddol Ystad Plymouth, mae'r ardd-ddinas newydd wedi ei dylunio gyda chynaliadwyedd a llesiant wrth ei gwraidd. Mae mwy na 40% o'i 900 erw wedi ei neilltuo ar gyfer mannau gwyrdd i helpu trigolion i fabwysiadu ffyrdd iachach o fyw a ffordd lanach a gwyrddach o fyw a cherdded neu feicio yw'r ffyrdd hawsaf, mwyaf diogel a mwyaf effeithlon o symud. Mae nifer o gofrestriadau yn Pentrebane Drive, Sain Ffagan, wedi cael eu cofrestru eleni gan Swyddfa Abertawe.
Llun: Plasdwr



# Gwybodaeth gorfforaethol arall




**Plymouth** oedd y 30ain awdurdod lleol i ymuno â'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol ar 7 Ionawr 2022. Erbyn hyn mae gan brynwyr eiddo yn yr ardal fynediad syth a hawdd at ddata Gofrestr Pridiannau Tir Lleol, sy'n cyflymu cam hollbwysig yn y broses prynu cartref.
Llun: Shutterstock/Ian Woolcock

## Deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus, rôl a gymerwn o ddifrif, trwy ddilyn deddfwriaeth diogelu data'r DU a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi ei heithrio rhag dilyn rhai hawliau diogelu data unigol lle y byddai dilyn y ddeddfwriaeth yn groes i Ddeddf a Rheolau Cofrestru Tir. Mae'r Tîm Hawliau Gwybodaeth yn arwain rhaglen cydymffurfio preifatrwydd i helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

Derbyniwyd 477 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn 2021-22, ac atebwyd 415 ohonynt o fewn yr amserlen statudol o 20 diwrnod gwaith.

Mae ein strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd newydd wedi cyflwyno Polisi Rheoli Gwybodaeth newydd sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion Cofrestrfa Tir EM trwy alluogi a chynnal y gwaith o greu, trefnu a manteisio ar wybodaeth a hysbysrwydd corfforaethol. Mae ein gweithgareddau sicrwydd yn cefnogi'r rheolaeth effeithiol o asedau gwybodaeth a risgiau cysylltiedig â gwybodaeth trwy'r gofrestr asedau gwybodaeth gorfforaethol.

Wrth ddarparu ein gwasanaethau data, mae Cofrestrfa Tir EM yn cydymffurfio â Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2015.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Cafodd tri digwyddiad cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Penderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r digwyddiadau a adroddwyd.

## Targed effaith busnes

Mae'r sgôr targed effaith busnes yn cynnwys effaith economaidd gweithgarwch rheoleiddio lle bydd y baich neu'r budd yn effeithio ar fusnesau sy'n uwch na'r trothwy o £5m. Mae Cofrestrfa Tir EM yn adolygu ei gweithgareddau yn rheolaidd er mwyn asesu'r effaith ar ei chwsmeriaid busnes o ran cydymffurfio â'i phrosesau a gofynion rheoleiddio. Rydym yn parhau i ddatblygu ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol fel rhan o'n gweledigaeth ar gyfer awtomeiddio ceisiadau i'w gwneud hi'n haws ac yn rhatach i ddelio â ni.

## Iechyd a diogelwch

Rydym wedi parhau i ddarparu dull ystwyth a rhagweithiol o reoli iechyd a diogelwch gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod ein swyddfeydd yn parhau i fod yn ddiogel o ran COVID-19. Penodwyd Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd newydd ar ddiwedd y flwyddyn i ganolbwyntio ar symud tuag at fusnes fel arfer a chefnogi ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Darparwyd amrywiaeth o gymorth i'r rhai sy'n gweithio o gartref, ochr yn ochr â sicrhau bod y rhai yr oedd angen iddynt fynd i'n swyddfeydd yn gweithio mewn amgylchedd COVID-19 diogel. Rydym wedi parhau i ddilyn canllawiau llywodraeth Cymru a Lloegr drwy'r amser, gan ymateb i'r newidiadau cenedlaethol a lleol i sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant ein cydweithwyr a defnyddwyr eraill yr adeilad yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Wrth inni symud tuag at fwy o bobl yn ein swyddfeydd a chyflwyno model gweithio hybrid newydd, rydym wedi canolbwyntio ar addasu polisi, canllawiau a'n trefniadau iechyd a diogelwch i gefnogi ffyrdd newydd o weithio.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gydymffurfio â phob agwedd ar ddeddfwriaeth ac wedi llwyddo i gynnal ein hachrediad i safon ISO 45001 yn dilyn archwiliadau allanol.

Mae ein cyfres o bolisïau a threfniadau iechyd a diogelwch wedi eu darparu gyda chymorth ein darparwr rheoli cyfleusterau i sicrhau bod cydymffurfiaeth, asesiadau risg, ymchwiliadau i ddigwyddiadau niweidiol a hyfforddiant a gwybodaeth yn cael eu cwblhau ar bob agwedd ar weithgareddau gwaith.

Darperir trefniadau iechyd a diogelwch ar y cyd â'n budd-ddeiliaid a'n grwpiau hyrwyddo, ac mewn ymgynghoriad â'n grwpiau undeb llafur. Mae hyn wedi gwneud cyfraniad allweddol at gynnal proffil cadarnhaol a rhagweithiol ym maes iechyd a diogelwch.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22, cofnodwyd cyfanswm o 20 o ddamweiniau, a chafodd dau ohonynt eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus. Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

**Gweithle swyddfa**

- 16 damwain yn ymwneud â chydweithwyr Cofrestrfa Tir EM
- 0 damwain yn ymwneud â chontractwyr.
- 0 damwain yn ymwneud ag ymwelwyr

**Gweithle cartref**

- 4 damwain yn ymwneud â chydweithwyr Cofrestrfa Tir EM
- 0 damwain yn ymwneud â chontractwyr
- 0 damwain yn ymwneud ag ymwelwyr

Y ddau ddigwyddiad Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus oedd:

1. Llithro ym maes parcio'r swyddfa – wedi arwain at anaf asgwrn/toriad i'r arddwrn.
2. Cwymp o gadair – wedi arwain at anaf asgwrn/toriad i'r fraich.

## Cwynion

Cofnodwyd 9,566 o gwynion yn 2021-22 o'i gymharu ag 5,169 yn 2020-21, sef cynnydd o 85%. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd yn nifer y cysylltiadau cwsmeriaid a cheisiadau yn gyffredinol o ganlyniad i'r gwyliau treth tir toll stamp a gynyddodd gweithgarwch yn y farchnad dai. Ffactorau ychwanegol oedd hyfforddiant mewnol ac ymgysylltu ynghylch cwynion a chamau pellach i ganoli datrys cwynion a chyswllt â chwsmeriaid. Mae'r rhain wedi arwain at fwy o gysondeb wrth nodi a chofnodi cwynion.

Ffactor arwyddocaol arall yn y cynnydd oedd adborth a gofnodwyd cyn diwedd y cyfraddau gostyngol dros dro dilynol treth tir toll stamp ar gyfer pryniannau preswyl ar 30 Mehefin 2021 a 30 Medi 2021. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â chynnydd y cais lle roedd angen cwblhau trafodiad dibynnol cyn y dyddiad cau treth tir toll stamp. Hefyd, yn dilyn atal ein polisi dileu ar ddechrau pandemig y coronafeirws er mwyn rhoi amser ychwanegol i gwsmeriaid ymateb i geisiadau am wybodaeth, ailgyflwynwyd y polisi yn raddol gan arwain at fwy o adborth yn y maes hwn.

O ran y cwynion a gofnodwyd, cafodd 48% eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Adborth cwsmeriaid am yr oedi wrth brosesu ceisiadau cofrestru ac ymholiadau cwsmeriaid cysylltiedig oedd y maes mwyaf cyffredin

o gwynion a gadarnhawyd, sef 27% o'r cyfanswm a gadarnhawyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai o'n hamseroedd prosesu ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn awtomataidd yn parhau i achosi oedi hir.

Roedd y prif feysydd eraill o gwynion a gadarnhawyd yn ymwneud â'r ceisiadau am wybodaeth (ymholiadau) y gofynnwn i gwsmeriaid amdani pan nad yw eu ceisiadau yn cynnwys y wybodaeth ofynnol (7% o'r cyfanswm a gafodd eu cadarnhau).

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd i ddwy gŵyn Cofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn, ond ni chawsant eu cadarnhau.

Cynhaliwn ddadansoddiad o'r holl gwynion a dderbynnir trwy gydol y flwyddyn er mwyn dal a gweithredu ar bwyntiau dysgu. Er enghraifft, dywedodd ein cwsmeriaid yr hoffent gael:

- gwasanaeth gwell ar gyfer ceisiadau carlam lle mae angen ystyried neu gwblhau ceisiadau cynharach heb eu cwblhau yn gyntaf. Rydym wedi gwella ein prosesau ar gyfer ceisiadau carlam, gan gynnwys monitro'r ceisiadau hyn yn well a bod yn fwy rhagweithiol wrth ymdrin â cheisiadau cynharach sydd heb eu cwblhau ac sy'n achosi oedi;
- wrth gydymffurfio â chyfyngiadau – cofnod yn y gofrestr a allai atal neu reoleiddio gwneud cofnodion pellach penodol – mae'r cydsyniadau trydydd parti neu'r tystysgrifau a ddarperir inni yn aml yn ddiffygiol ac mae cwsmeriaid yn cael anhawster wrth ddiwygio y rhain gan drydydd partïon er mwyn bodloni ein gofynion. Rydym wedi cyflwyno ffurflen RXC dewisol y gall ymgeiswyr ei defnyddio wrth ddarparu cydsyniadau neu dystysgrifau. Mae'r ffurflen RXC yn helpu cwsmeriaid i egluro i drydydd partïon pa gydsyniad neu dystysgrif y mae angen iddynt ei darparu ac yn osgoi gwneud ymholiadau trwy gael pethau'n iawn y tro cyntaf;
- mwy o eglurder yn ein canllawiau ar ddefnyddio llofnodion electronig. Rydym wedi mabwysiadu tystysgrif sengl ar gyfer pob gweithred a dogfen a lofnodir trwy ddefnyddio llofnod electronig ardystiedig trawsgludwr. Mae'r canllawiau yn y maes hwn wedi eu cydgrynhoi yn y cyfarwyddyd newydd Cyfarwyddyd Ymarfer 82: Llofnodion electronig;
- cyfathrebu gwell pan fydd ceisiadau cofrestru wedi mynd y tu hwnt i'r Cyfrifiad Dyddiad Cwblhau Rhagamcanol a ddarparwn. Dywedodd cwsmeriaid wrthym am broblem gyda'r broses ddilynol ar geisiadau sydd wedi mynd y tu hwnt i'r Cyfrifiad Dyddiad Cwblhau Rhagamcanol, a gafodd hyn ei datrys i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybod am y sefyllfa pan fydd ceisiadau'n cael eu hoedi, ac mae eu disgwyliadau yn cael eu rheoli;
- ein Gwasanaeth Cofrestru Digidol sydd ar gael i gwsmeriaid e-wasanaethau Busnes i'w ddatblygu a'i wella ymhellach er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid i wella ansawdd ceisiadau a lleihau ceisiadau am wybodaeth (ymholiadau). Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan nifer cynyddol o gwsmeriaid sydd eisoes yn gallu cyflwyno ystod eang o geisiadau i newid y gofrestr. Disgwylir iddo ddisodli ein Gwasanaeth Cofrestru Dogfennau electronig yn Nhachwedd 2022;
- datrys problem lle nad yw cwsmeriaid yn derbyn ein ceisiadau a'n nodiadau atgoffa trwy'r ebost a all arwain at ddileu ceisiadau. Rydym wedi sefydlu gweithgor sy'n nodi ac yn delio â'r rhesymau pam mae hyn yn digwydd, gan gynnwys trwsio problemau system, ac yn sicrhau bod unrhyw faterion yn parhau i gael eu hadrodd a'u hystyried;
- cadw cofnodion gohebiaeth digonol pan fydd ceisiadau'n cael eu dileu er mwyn inni allu ateb ymholiadau dilynol cwsmeriaid. Cyhoeddwyd erthygl fewnol i gydweithwyr ar bwysigrwydd cadw gohebiaeth ar ôl dileu a chyfeirio at y canllawiau mewnol perthnasol ar gadw dogfennau; a
- chysylltu â chwsmeriaid dros y ffôn i ddatrys problemau syml gyda chais. Mae'r pwyntiau hyn yn aml yn syml i'w datrys ac nid oes angen gwneud cais ysgrifenedig am wybodaeth (ymholiad) bob amser. Rydym wedi rhoi gwybod i gwsmeriaid ein bod yn treialu ymholiadau ffôn ac yn monitro'r canlyniadau.

Mae ein Hadolygydd Cwynion Annibynnol yn darparu gwasanaeth adolygu a datrys cwynion rhad ac am ddim a diduedd ar gyfer unrhyw gwsmer sy'n anhapus â'r modd rydym wedi delio â'i gŵyn. Drwy gydol y flwyddyn, mae ei hadroddiadau a'i hargymhellion sy'n deillio o'r cwynion y mae wedi eu hadolygu wedi parhau i ddarparu ffynhonnell werthfawr o fewnwelediad a nodi meysydd lle y gallai fod angen inni wella. Mae'r Adolygydd Cwynion Annibynnol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol hefyd.

Rydym yn parhau i adolygu ein prosesau adborth cwsmeriaid gan geisio gwella'r ffordd rydym yn cydnabod ac yn delio â chwynion a'n helpu i nodi'n fwy effeithiol mewnwelediadau a gwelliannau sy'n deillio o adborth cwsmeriaid. Cafodd y newid arfaethedig i ddarparwr meddalwedd masnachol ein system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ei roi ar waith yn Nhachwedd 2021 a bwriadwn gynnwys gwelliannau pellach yn y system honno.

## Caethwasiaeth fodern

Cefnogwn fesurau i sicrhau nad oes lle i gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu pobl, yn ein sefydliad nac yn ein cadwyni cyflenwi. Rydym yn parhau i ddefnyddio gweithdrefnau cadarn yn ein contractau a'n prosesau recriwtio. Yn ogystal, rydym yn hwyluso codi pryderon gan gydweithwyr, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n ymwneud â'n cadwyni cyflenwi.

## Crynodeb blynyddol o weithgareddau'r Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir

Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheol Cofrestru Tir o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 ac mae Swyddfa'r Cabinet wedi cadarnhau ei ddosbarthiad fel Pwyllgor Arbenigol. Rôl ein pwyllgor yw rhoi cyngor a chymorth, i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol, ond erbyn hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffi o dan y Ddeddf.

Yn Ebrill a Medi, bu'r pwyllgor yn craffu ac yn cynghori ar orchymyn ffi newydd Cofrestrfa Tir EM, a newidiodd rai ffïoedd cofrestru tir. Gosodwyd y gorchymyn gerbron y Senedd ar 2 Tachwedd 2021 a daeth i rym ar 31 Ionawr 2022.

Ar ôl 12 mlynedd fel Cadeirydd y Pwyllgor, ymddeolodd Syr Paul Morgan o'r rôl ac yn Rhagfyr croesawyd Mr Ustus Edwin Johnson fel y Cadeirydd newydd. Yn Rhagfyr 2021, daeth Jenny Holt i ddiwedd ei hail dymor a'i thymor olaf o bedair blynedd fel aelod o'r pwyllgor materion defnyddwyr. Mae Anne Pardoe o Gyngor ar Bopeth wedi cymryd y rôl am dymor o bedair blynedd.

## Safonau gwasanaeth

Mae manylion y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym i'w gweld ar ein gwefan: https://www.gov.uk/government/publications/hm-land-registry-service-standards.cy.

## Cynllun Iaith Gymraeg

Parhawn i fod yn ymrwymedig i'n rhwymedigaethau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru. Chris Pope, y Prif Swyddog Gweithrediadau, yw'r uwch swyddog â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Cymeradwywyd ein cynllun cyfredol sy'n cynnwys ein cynllun gweithredu pedair blynedd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 27 Medi 2019. Ar ôl i wasanaeth Mynegai Prisiau Tai y DU fynd yn fyw yn Ionawr 2021, cawsom sawl llwyddiant yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo'r cynllun gweithredu, gan gynnwys cyflwyno dau wasanaeth Cymraeg:

- Chwilio am Bridiannau Tir Lleol yn Ebrill 2021; a
- Cyfrif dinasyddion Chwilio am wybodaeth am dir ac eiddo yn Nhachwedd 2021.

Aeth y fersiwn Gymraeg o LLC Maintain (sy'n galluogi awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill i gofrestru pridiannau tir lleol newydd a diwygio pridiannau presennol ar ein Cofrestr Pridiannau Tir Lleol) yn fyw ym Mawrth 2022.

Mae'r cysylltau pennawd ar ein hafan GOV.UK ar gael yn Gymraeg erbyn hyn ac yn arwain yn uniongyrchol at dudalennau Cymraeg.

Mae gennym dîm ymroddedig ar gyfer y Gymraeg yn Swyddfa Abertawe a llinell ffôn Gymraeg ar gyfer ymholiadau cyffredinol – 0300 006 0422. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau Cymraeg i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme.cy

## Ymgysylltu cydlynus â'r llywodraeth a budd-ddeiliaid

Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau i gynnal enw da Cofrestrfa Tir EM gyda'r llywodraeth a budd-ddeiliaid allweddol.

Mae Swyddfa'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gydlynu a rheoli llywodraethu corfforaethol Cofrestrfa Tir EM gan gynnwys Ysgrifenyddiaeth ei Bwrdd a darparu cymorth i uwch dimau gweithredol ac anweithredol. Mae Swyddfa'r Pennaeth yn arwain ein perthynas bartner â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a ategir gan Fframwaith cyhoeddedig sydd hefyd yn sefydlu'r perthnasoedd ffurfiol â Thrysorlys EM a'r Comisiwn Geo-ofodol. Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir yn cydweithio'n agos ag UK Government Investments sy'n gweithredu fel asiant yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gan gynrychioli budd y Llywodraeth yn llywodraethu a pherfformiad Cofrestrfa Tir EM fel sefydliad. Adlewyrchir llawer o weithgareddau llywodraethu corfforaethol Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir mewn man arall yn yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod Cofrestrfa Tir EM yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni polisi ehangach y llywodraeth mewn ffordd gydlynus. Mabwysiadwn ddull gweithredol at sganio gorwelion polisi er mwyn galluogi ymgysylltu amserol. Manteisiwyd ar wybodaeth arbenigol am gofrestru tir i gefnogi nifer o fentrau polisi. Cefnogwyd adrannau gweinidogol gyda chwestiynau seneddol gan gynnwys drafftio atebion i un ar ddeg o gwestiynau seneddol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a chafodd dros 50 o ymgynghoriadau gan y llywodraeth ac ymgynghoriadau eraill eu hystyried. Mae uchafbwyntiau polisi cydweithredol penodol dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- gweithio gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Thŷ'r Cwmnïau ar y Mesur sydd wedi arwain at Ddeddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodaeth) 2022, gan droedio'r ffordd ar gyfer y Gofrestr Endidau Tramor newydd;
- gweithio'n agos gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar amrywiaeth o fentrau i wella'r dirwedd dai bresennol, gan gynnwys eu cynigion i wella tryloywder y mecanweithiau cytundebol a ddefnyddir i arfer rheolaeth dros dir; diwygio cynllunio; diwygio lesddaliad; a nodi sut y gellid gwella'r broses prynu a gwerthu cartrefi;
- sicrhau cyfle i arddangos ein gwaith sy'n arwain y diwydiant ar wella data (ACHRhA) gyda'r Comisiwn Geo-ofodol;
- alinio ein harloesi ym maes hunaniaeth ddigidol â pholisi ehangach ar hunaniaeth ddigidol a'r strategaeth ddata genedlaethol trwy gydweithio'n effeithiol â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon;
- cyfrannu at weithgor diwydiant ar lofnodion digidol a hwylusir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder; ac
- ymuno â grŵp traws-lywodraethol i rannu gwybodaeth am stiwardiaeth Amgylcheddol fel rhan o'n ffocws datblygol ar Sero Net.

Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir yn cydlynu perthnasoedd budd-ddeiliaid allanol ar gyfer Cofrestrfa Tir EM i sicrhau bod ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan annatod o ddarpariaeth cwsmeriaid Cofrestrfa Tir EM, gyda mewnwelediad a phrofiad yn cael eu rhannu'n eang. Manteisiwn ar gyfleoedd i asesu sut mae pobl yn teimlo, gan gasglu a rhannu gwybodaeth i lywio cynllunio a darpariaeth effeithiol ar draws y sefydliad yn ogystal â llywio datblygiad polisi ac ymyriadau. Mae Cyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir yn dod â sefydliadau cynrychioliadol allweddol sy'n ymwneud â'r broses drawsgludo at ei gilydd, ac mae wedi cwrdd deirgwaith i rannu barn a chyfrannu at ddarpariaeth strategol Cofrestrfa Tir EM trwy rannu safbwyntiau ar draws y diwydiant.

Mae Fforwm Diwydiant y Gofrestrfa Tir, a sefydlwyd gyntaf yn Ebrill 2020, yn rhoi darlun cyflawn inni o brofiadau ein budd-ddeiliaid a'n cwsmeriaid o drawstoriad o leisiau'r diwydiant. Mae'n chwarae rôl bwysig wrth nodi a phrofi dulliau o ymdrin â newidiadau gweithredol ac mae'n hwyluso datblygiad cydweithredol cynlluniau trawsnewid posibl yn y dyfodol. Mae'r fforwm hefyd yn archwilio materion ehangach y farchnad eiddo a pha atebion allai wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y farchnad eiddo. Mae'r fforwm yn un o'n mecanweithiau ymgysylltu allweddol ac rydym yn parhau i weithio gydag aelodau i benderfynu ar y ffordd orau o gefnogi ein cwsmeriaid, budd-ddeiliaid a'r farchnad eiddo ehangach.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi cynnal cysylltiad pwysig â chofrestrfeydd tir yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon ac Ynys Manaw trwy gynnal tri chyfarfod ar-lein. Mae Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd wedi sicrhau bod gan Gofrestrfa Tir EM bresenoldeb rhyngwladol priodol i rannu arfer gorau, gan gynnwys trwy gymryd rhan yn y Gynhadledd Cofrestrfeydd Teitlau flynyddol yn Nhachwedd 2021 ac fel aelod o Weithgor Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Gweinyddu Tir. Mae'r gweithgor wedi cwrdd ar-lein drwy gydol y flwyddyn, gan gyfrannu at weminarau ac astudiaethau ar bynciau dethol ym maes gweinyddu a rheoli tir. Mae Swyddfa'r Prif Weithredwr hefyd wedi cydlynu ymgysylltiad Cofrestrfa Tir EM â'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu wrth ddarparu gwasanaethau ymgynghorol i gefnogi ymrwymiadau datblygu rhyngwladol.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **Academi Cofrestru Tir** | Canolfan ragoriaeth hyfforddi staff Cofrestrfa Tir EM. |
| **Arolwg Ordnans** | Asiantaeth fapio genedlaethol Prydain Fawr. |
| **Bloc-gadwyn** | Cyfriflyfr cyhoeddus wedi ei ddosbarthu a'i ddatganoli. |
| **Business Gateway** | Mae Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau Business Gateway yn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad di-dor i'n gwasanaethau o fewn eu systemau rheoli achosion nhw ac awtomeiddio prosesau ailadroddus. |
| **Cais** | Gwneud cais i gofrestru tir digofrestredig, diweddaru tir cofrestredig neu deitlau eiddo, neu wneud cais am wybodaeth gan Gofrestrfa Tir EM. |
| **Cais creu cofrestr** | Unrhyw gais sy'n arwain at greu cofrestr hollol newydd, fel trosglwyddo rhan o deitl sy'n bodoli eisoes, prydles newydd neu gofrestru tir am y tro cyntaf. |
| **Cenhedloedd Unedig** | Sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd ym 1945. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys 193 o aelod-wladwriaethau, ac mae'r Cenhedloedd Unedig a'u gwaith yn cael ei arwain gan y dibenion a'r egwyddorion a nodir yn ei siarter sefydlu. |
| **Cofrestr Credydau Amaethyddol** | Cofrestr sy'n darparu dull o sicrhau gwarant ar gyfer benthyca dros asedau fferm fel da byw ac offer. |
| **Cofrestr Endidau Tramor** | Cofrestr gyhoeddus o berchnogion buddiol endidau o'r tu allan i'r DU sy'n berchen ar dir yn y DU neu'n ei brynu, a weithredir gan gofrestrydd Tŷ'r Cwmnïau. |
| **Cofrestr Pridiannau Tir** | Cofrestr sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol: cofrestr o bridiannau tir, cofrestr o weithredoedd arfaethedig a chamau arfaethedig mewn methdaliad, cofrestr gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a gwritiau a gorchmynion mewn methdaliad, cofrestr o weithredoedd cymodi sy'n effeithio ar dir a chofrestr blwydd-daliadau. |
| **Cofrestr Pridiannau Tir Lleol** | Cofrestr statudol sy'n cynnwys gwybodaeth awdurdodau lleol am ddefnyddio a mwynhau eiddo. Mae'n cynnwys pethau fel statws adeilad rhestredig, gorchmynion cadw coed a mesurau diogelu'r amgylchedd eraill. |
| **Cofrestr Tir** | Cofnodion perchnogaeth tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr. |
| **Cofrestriad cyntaf** | Y gofyniad i gofrestru ystadau rhydd-ddaliol a phrydlesol digofrestredig mewn tir. |
| **Copi swyddogol** | Copïau o weithredoedd a dogfennau sy'n cael eu ffeilio gyda ni, gan gynnwys cofrestri teitl a chynlluniau teitl, y gwarantir eu bod yn gywir ac y gellir eu cyflwyno fel tystiolaeth fel pe baent yn ddogfennau gwreiddiol. |
| **Cwsmeriaid** | Unigolion a busnesau sy'n defnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys trawsgludwyr, sefydliadau ariannol, cyfryngwyr, busnesau eiddo, perchnogion tir ac eiddo a defnyddwyr data. |
| **Cyfamod cyfyngu** | Cytundeb rhwng dau dirfeddiannwr. Mae un tirfeddiannwr yn addo i'r tirfeddiannwr arall beidio â chyflawni gweithredoedd penodol ar ei dir ei hun. |
| **Cyfyngiad** | Cofnod sy'n cyfyngu Cofrestrfa Tir EM rhag diweddaru'r gofrestr oni bai bod amodau penodol yn cael eu bodloni. |
| **Cyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir** | Bwrdd ymgynghorol sy'n sicrhau bod buddion budd-ddeiliaid yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau, gwasanaethau a chynhyrchion. Mae'n rhoi cyfle i gyfnewid gwybodaeth a thrafod, gan dynnu ar wybodaeth ac arbenigedd cyfunol yr aelodau. |
| **CHRhA** | Data canfyddadwy hygyrch, rhyngweithredoldeb ac ailddefnyddiadwy. |
| **Chwiliad swyddogol** | Yn cynnig modd i bobl fel prynwyr tai neu roddwyr benthyg morgeisi gael blaenoriaeth ar gyfer cwblhau eu pryniant, prydles neu bridiant cyn ceisiadau a gyflwynir wedi hynny. |
| **Darllenadwy gan beiriant** | Data wedi eu strwythuro a'u codio mewn ffordd sy'n golygu y gellir eu darllen a'u prosesu gan gyfrifiadur. |

| | |
|---|---|
| **Data agored** | Data y gellir eu defnyddio, eu hailddefnyddio a'u hailddosbarthu gan unrhyw un yn rhad ac am ddim. |
| **Data defnydd o dir ac eiddo** | Setiau data am yr holl dir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr. |
| **Deallusrwydd artiffisial (AI)** | Deallusrwydd a dysgu a arddangosir gan beiriannau. |
| **Defnyddio talebau** | Creu cynrychiolaeth ddigidol (taleb) wedi ei seilio ar floc-gadwyn o ased go iawn megis eiddo. |
| **Digideiddio** | Y broses o droi gwybodaeth yn ffurf ddigidol (darllenadwy gan gyfrifiadur). |
| **Diweddaru cofrestr** | Unrhyw gais i newid cofrestr y cyfan o deitl eiddo sy'n bodoli, gan gynnwys morgeisi newydd, newid enwau, trosglwyddiadau a rhyddhadau. |
| **Dysgu peirianyddol** | Astudio algorithmau cyfrifiadurol sy'n gallu gwella'n awtomatig trwy brofiad a thrwy ddefnyddio data. |
| **Economi data** | Ecosystem ddigidol fyd-eang lle mae data'n cael eu casglu, eu trefnu a'u cyfnewid gan rwydwaith o werthwyr er mwyn cael gwerth o'r wybodaeth a gasglwyd. |
| **Fforwm Diwydiant y Gofrestrfa Tir** | Trawstoriad o gwsmeriaid a budd-ddeiliaid yn y farchnad eiddo sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella'r broses drawsgludo. |
| **Geo-ofodol** | Data a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â lleoliad neu le penodol. |
| **Geovation** | Yr arfer o ddefnyddio data a gwybodaeth lleoliad i helpu i nodi cyfleoedd a chreu atebion. |
| **Gwasanaeth Cofrestru Digidol** | Gwasanaeth porthol Cofrestrfa Tir EM sy'n caniatáu i geisiadau gael eu cyflwyno'n ddigidol lle mae'r data'n cael eu gwirio'n awtomatig cyn eu cyflwyno. |
| **Gwasanaethau brys** | Gall cwsmeriaid wneud cais i Gofrestrfa Tir EM brosesu cais ar frys. |
| **Gweld cofrestr** | Gweld y fersiwn cyfredol o'r gofrestr. |
| **Hunaniaeth ddigidol** | Ffurf rithiol o hunaniaeth sy'n lleihau'r amser, yr ymdrech a'r gost y gall rhannu dogfennau ffisegol ei gymryd pan fydd angen i bobl ddarparu prawf cyfreithiol o bwy ydyn nhw. |
| **Ôl troed CO2/carbon** | Cyfanswm y nwyon tŷ gwydr (gan gynnwys carbon deuocsid a methan) a gynhyrchir gan ein gweithredoedd. |
| **Pridiannau Tir** | Buddion mewn tir digofrestredig a all gael eu gwarchod gan gofnod yn y Gofrestr Pridiannau Tir. |
| **Rhaglen Cyflymydd Geovation** | Cynllun a gefnogir gan Gofrestrfa Tir EM a'r Arolwg Ordnans sy'n darparu cyllid grant, mynediad i ddata, arbenigedd geo-ofodol a mewnwelediad eiddo i ddata lleoliad a busnesau newydd technoleg eiddo. |
| **Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau** | Mae'n galluogi cwmnïau i agor eu data cymwysiadau a swyddogaethau i ddatblygwyr trydydd parti allanol, partneriaid busnes ac adrannau mewnol o fewn eu cwmnïau. |
| **Safonau data cyffredin** | Mae safonau data yn gosod dealltwriaeth glir a chyffredin o sut mae'n rhaid i'r llywodraeth ddisgrifio, cofnodi, storio, rheoli a chael mynediad i ddata mewn ffyrdd cyson. |
| **Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol** | Term a ddefnyddir i ddisgrifio prosesau, systemau, cyfleusterau, technolegau, rhwydweithiau, asedau a gwasanaethau sy'n hanfodol i iechyd, diogelwch, neu lesiant economaidd y genedl a gweithrediad effeithiol y llywodraeth. |
| **Sero Net** | Sicrhau cydbwysedd rhwng faint o allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir a faint sy'n cael eu tynnu o'r atmosffer. |
| **Set ddata** | Casgliad o setiau cysylltiedig o wybodaeth sy'n cynnwys elfennau ar wahân ond y gellir eu trin fel uned gan gyfrifiadur. |

| | |
|---|---|
| **Strategaeth Ddata Genedlaethol** | Strategaeth uchelgeisiol, sy'n annog ac yn sbarduno'r DU i adeiladu economi ddata sy'n arwain y byd gan sicrhau ffydd y cyhoedd yn y defnydd o ddata yr un pryd. |
| **Strategaeth Geo-Ofodol Genedlaethol** | Yn hyrwyddo ac yn diogelu'r defnydd o ddata lleoliad i ddarparu barn yn seiliedig ar dystiolaeth o werth marchnadol data lleoliad, gosod canllawiau clir ar fynediad i ddata, preifatrwydd, moeseg a diogelwch, a hyrwyddo'r defnydd gwell o ddata lleoliad. Mae'r Comisiwn Geo-ofodol yn berchen ar y strategaeth. |
| **Technoleg eiddo** | Defnyddio technoleg i helpu unigolion a chwmnïau i ymchwilio, prynu, gwerthu a rheoli eiddo tiriog. |
| **Teitl** | Tystiolaeth o hawl rhywun i eiddo. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf** | Buddsoddiad mewn meddalwedd a gynhyrchir yn fewnol, offer TG ac ystadau. |
| **Trawsnewid digidol** | Mabwysiadu technoleg ddigidol gan gwmni. Y nodau cyffredin ar gyfer ei gweithredu yw gwella effeithlonrwydd, gwerth neu arloesedd. |
| **View Applications** | Gwasanaeth rhad ac am ddim o fewn porthol Cofrestrfa Tir EM sy'n cynnig modd i ddefnyddwyr weld yr holl geisiadau a wneir trwy ddefnyddio'r porthol, ynghyd â gwirio'r statws a lawrlwytho'r holl ddogfennau perthnasol sy'n ymwneud â phob cais. |
| **Y Comisiwn Geo-ofodol** | Pwyllgor arbenigol, a noddir gan Swyddfa'r Cabinet, sy'n gosod strategaeth geo-ofodol y DU ac yn hyrwyddo'r defnydd gorau o ddata geo-ofodol. |
| **Y Stryd Ddigidol** | Dull ymchwil a datblygu sy'n bodoli eisoes, gan gydweithio â chymuned gref o arweinwyr arloesedd, entrepreneuriaid ac aflonyddwyr creadigol i wthio ffiniau disgwyliadau'r farchnad eiddo. |
| **Ymholiad/cais am wybodaeth** | Lle mae'n rhaid i Gofrestrfa Tir EM wneud ymholiadau i'r ceisydd ynghylch cais oherwydd bod gwybodaeth neu dystiolaeth yn eisiau neu'n anghywir ac felly ni ellir ei brosesu. |
| **Ymholiadau gwarantedig** | Gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth a chanlyniadau sy'n dod gyda gwarant y wladwriaeth. |
| **Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth** | Y camau y bydd adrannau llywodraeth y DU a'u hasiantaethau yn eu cymryd i leihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd yn y cyfnod 2021 i 2025. |
| **Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol** | Yr adran weinidogol sy'n arwain y gwaith o drawsnewid yr economi gyfan trwy gefnogi menter a thwf hirdymor, gan gynhyrchu ynni rhatach, glanach, yn y wlad hon a lansio'r DU fel un o bwerau mawr gwyddoniaeth trwy arloesi. |
| **Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** | Yr adran weinidogol sy'n gyfrifol am ysgogi twf, cyfoethogi bywydau a hyrwyddo'r DU dramor. |
| **Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau** | Yr adran weinidogol sy'n gyfrifol am helpu cymunedau ar draws y DU i ffynnu, gan eu gwneud yn lleoedd gwych i fyw a gweithio. |
| **Ystwyth** | Dull o reoli prosiect sy'n defnyddio ymdrechion cydweithredol i ddatblygu atebion sy'n cyflawni ei nodau. |

Simon Hayes

**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
8 Gorffennaf 2022

# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Yn yr adran hon nodir aelodau ein pwyllgorau a'n byrddau cyfarwyddwyr allweddol ac eglurir eu cyfrifoldebau.


#### Ein strwythur llywodraethu

Mae system lywodraethu dwy haen gan Gofrestrfa Tir EM:

– Bwrdd Cofrestrfa Tir EM (yn cynnwys aelodau bwrdd anweithredol a chyfarwyddwyr gweithredol)

– Bwrdd Gweithredol Cofrestrfa Tir EM (yn cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol)

Mae'r strwythur hwn yn galluogi aelodau'r bwrdd anweithredol i ddarparu her briodol i'r Bwrdd Gweithredol gan ganiatáu i'r aelodau gweithredol wneud penderfyniadau effeithiol ynghylch gweithrediad Cofrestrfa Tir EM o ddydd i ddydd.




#### Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

Amlinellir rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn y Fframwaith a gytunwyd gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Pwrpas y Bwrdd yw cefnogi, herio'n adeiladol a rhoi cyngor ac arweiniad i'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i dîm uwch reolwyr ar berfformiad, gweithrediad a datblygiad. Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn helpu uwch reolwyr i osod gweledigaeth strategol Cofrestrfa Tir EM, yn sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael gwybodaeth briodol, ac yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ei gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn gofynion statudol a gweinyddol ac o fewn terfynau ei awdurdod ac unrhyw awdurdod dirprwyedig.

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet, mae gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM y dasg o gynghori ar bum prif faes, eu herio a'u goruchwylio:

- Eglurder strategol
- Pobl dalentog
- Gwybodaeth rheoli
- Synnwyr masnachol
- Canolbwyntio ar ganlyniadau

Gyda chymorth ei Bwyllgor Archwilio a Risg, mae'r Bwrdd hefyd yn sicrhau bod Cofrestrfa Tir EM yn gweithio o fewn fframwaith o drefniadau a rheolaethau llywodraethu darbodus ac effeithiol sy'n golygu bod modd asesu a rheoli risg yn briodol. Yn rhan o'r swyddogaeth honno, cytuna'r Bwrdd ar y gweithgareddau allweddol y bydd angen i Gofrestrfa Tir EM eu cyflawni er mwyn bodloni ei hamcanion strategol fel y'u nodir yn ei Strategaeth Fusnes gyhoeddedig. Mae'r Bwrdd yn cefnogi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir trwy sicrhau bod yr adnoddau dynol ac ariannol angenrheidiol yn eu lle er mwyn gallu bodloni ein hamcanion. Mae'n cytuno ar archwaeth risg Cofrestrfa Tir EM, yn cymeradwyo'r gyllideb flynyddol a'r cynllun busnes ac yn adolygu'n rheolaidd perfformiad mewn perthynas â thargedau cytunedig.

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cynnwys cymysgedd o gyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau bwrdd anweithredol. Mae aelodau bwrdd anweithredol y Bwrdd yn fedrus iawn, gyda phrofiad priodol yn y meysydd perthnasol i gefnogi a herio'r Bwrdd Gweithredol. Yn dilyn proses recriwtio ymunodd dau aelod bwrdd anweithredol newydd ym Mehefin 2021. Yn ogystal, bu newid yng nghynrychiolaeth yr aelodau bwrdd anweithredol sy'n cynrychioli UK Government Investments (UKGI).

Mae'r aelodau bwrdd anweithredol yn annibynnol ar reolaeth. Mae gofyn i bob aelod o'r bwrdd lofnodi datganiad blynyddol sy'n cofnodi unrhyw wrthdaro buddion posibl a datgan unrhyw fuddion newydd yn y cyfamser. Cedwir cofnod 'Cofrestr Buddion' canolog. Gweler nodyn 17 i'r cyfrifon ar dudalen 120 am ddatgeliadau parti cysylltiedig.

Rhwng Chwefror a Mawrth 2022, cafodd y Bwrdd asesiad allanol annibynnol o'i effeithiolrwydd. Trafodwyd y canlyniadau mewn cyfarfod Bwrdd ym Mawrth. Mae'r asesiad hwn yn dangos bod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn effeithiol ar y cyfan, ond bod cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus o ran blaengynllunio strategol a chryfhau deinameg y Bwrdd yn dilyn y ddwy flynedd ddiwethaf o weithio o bell yn bennaf. Daeth i'r casgliad hefyd fod gan bwyllgor a gweithgorau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM rôl werthfawr i'w chwarae o ran galluogi'r Bwrdd i gyflawni ei rôl. Bydd y Bwrdd yn ystyried a yw'r rhain yn parhau i fod â'r meysydd ffocws cywir wrth symud ymlaen. Bydd camau gweithredu o'r adroddiad terfynol yn cael eu rhoi ar waith drwy gydol 2022-23.

# Bwrdd Cofrestrfa Tir EM



**Michael Mire**

**Cadeirydd Anweithredol**

Mae Michael yn gyn Uwch Bartner yn McKinsey, lle yr arbenigodd ym maes gwasanaethau ariannol ac e-fasnach, ac erbyn hyn mae'n gyfarwyddwr anweithredol yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Aviva. Mae hefyd yn Uwch Ymgynghorydd yn Lazard. Cafodd Michael ei addysgu ym Mhrifysgol Rhydychen ac Ysgol Fusnes Harvard lle yr enillodd radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes (MBA) a lle bu'n Ysgolhaig Baker.



**Kirsty Cooper**

**Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol**

Mae Kirsty yn Gwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd Cwmni ar gyfer Aviva. Sefydlodd dîm arweinyddiaeth byd-eang cyntaf Aviva ac mae ganddi gyfrifoldeb am bolisi cyhoeddus a chyfrifoldeb corfforaethol. Mae Kirsty ar y General Counsel Legal 500 Powerlist ac mae hefyd yn ymddiriedolwr y Tŷ Opera Brenhinol.



**Elliot Jordan**

**Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg**

Elliot yw Prif Swyddog Ariannol ac aelod o Fwrdd Gweithredol Farfetch, y platfform byd-eang blaenllaw ar gyfer ffasiwn foethus. Mae'n gyfrifol am y timau cyllid, cyfreithiol, strategaeth ac adnoddau dynol ar draws y gweithrediad byd-eang. Mae hefyd yn noddwr gweithredol Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cyn ymuno â Farfetch, mae Elliot wedi gweithio yn ASOS plc, J Sainsbury plc, Credit Suisse a KPMG.



**Ann Henshaw**

**Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau**

Mae gan Ann brofiad helaeth ym maes adnoddau dynol (AD), ar ôl gweithio mewn sawl cwmni mawr ar draws amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys eiddo, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n Gyfarwyddwr AD yn British Land ac yn aelod o'i Dîm Gweithredol. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys gwasanaethu fel Cyfarwyddwr AD Grŵp yn Clear Channel International a Chyfarwyddwr AD yn EDF Energy.



**Katy Baldwin**

**Aelod Bwrdd Anweithredol, UKGI (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol)**

Ymunodd Katy â'r Bwrdd yn 2021 fel Cyfarwyddwr Gweithredol yn UK Government Investments (UKGI), canolfan rhagoriaeth y Llywodraeth ar gyfer cyllid corfforaethol a llywodraethu corfforaethol. Mae hi'n was sifil, gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn flaenorol, gyda phrofiad sylweddol o wariant cyhoeddus, cyllid llywodraeth leol a pholisi tai a chynllunio.



**Jeremy Pee**

**Aelod Bwrdd Anweithredol**

Jeremy yw'r Prif Swyddog Digidol yn Marks & Spencer. Cyn hynny roedd yn Uwch Is-lywydd Loblaw Digital, uned ddigidol prif fanwerthwr Canada. Mae gan Jeremy radd Meistr mewn Gweinyddu Busnes (MBA) o Ysgol Fusnes Harvard a gradd mewn peirianneg o Brifysgol Waterloo.



**Angela Morrison**

**Aelod Bwrdd Anweithredol**

Mae Angela yn Brif Swyddog Gweithredol yn Cancer Research UK (CRUK) lle mae'n gyfrifol am Gyllid, AD, Technoleg a Gwasanaethau Corfforaethol. Cyn ymuno â CRUK roedd Angela yn Gyfarwyddwr Manwerthu, Cadwyn Gyflenwi a Thechnoleg yn Debenhams ac mae hefyd wedi cael rolau yn J Sainsbury plc, Direct Line Group ac ASDA Walmart.

# Y Bwrdd Gweithredol



**Simon Hayes**

**Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir**

Ymunodd Simon yn Nhachwedd 2019. Cyn hynny mae wedi gweithio mewn swyddi uwch yn y Swyddfa Gartref, gan gynnwys Cyfarwyddwr Rhanbarthol cyntaf Asiantaeth Ffiniau'r DU ar gyfer America, Cyfarwyddwr Rhyngwladol Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) ac yn olaf Cyfarwyddwr Fisâu a Dinasyddiaeth yn UKVI. Roedd cyfrifoldebau Simon yn cynnwys sefydlu Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar gyfer dinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yn y DU.



**Mike Harlow**

**Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir**

Ymunodd Mike yn Chwefror 2018. Graddiodd o Goleg Imperial mewn peirianneg fecanyddol cyn newid i'r gyfraith. Yna bu'n gweithio fel cyfreithiwr yn Llundain am 15 mlynedd, yn gweithredu ar ran cleientiaid eiddo masnachol, ac 11 mlynedd yn English Heritage fel ei Gyfarwyddwr Cyfreithiol ac Ysgrifennydd Corfforaethol. Cafodd brofiad ar lefel bwrdd o newid sefydliadol a'r gyfraith treftadaeth a diwygio polisi.



**Iain Banfield**

**Prif Swyddog Ariannol**

Ymunodd Iain yn Chwefror 2019. Cyn hynny fe dreuliodd dwy flynedd a hanner yn yr Adran Masnach Ryngwladol, yn gyntaf fel y Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyfer Cyllid Strategol ac yna fel Cyfarwyddwr Cyllid dros dro. Cyn hynny bu'n Gyfarwyddwr Cyllid ar gyfer UK Trade & Investment ac mae wedi cael rolau yn y Weithrediaeth Gyfranddalwyr a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.



**Chris Pope**

**Prif Swyddog Gweithrediadau**

Ymunodd Chris yn Hydref 2017. Treuliodd 27 o flynyddoedd fel swyddog y Peirianwyr Brenhinol. Yn dilyn profiad yn y sector preifat fel Cyfarwyddwr Prosiectau Grŵp yn Tribal Group ac fel Pennaeth Gwasanaethau Peirianneg Weithredol yn Laing O'Rourke, symudodd Chris i Gyngor Merton fel Cyfarwyddwr Trawsnewid. Bu'n Gyfarwyddwr Masnachol hefyd yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ac yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.



**Karina Singh**

**Cyfarwyddwr Trawsnewid**

Ymunodd Karen yn 2017. Mae ei gyrfa wedi cwmpasu amrywiaeth o rolau yng Nghyllid a Thollau EM a Thrysorlys EM, lle y bu'n Bennaeth y tîm Polisi TAW. Mae wedi gweithio ym maes cyflawni newid am y 15 mlynedd diwethaf gan arwain rhaglen drawsnewid genedlaethol ar gyfer cwmni peirianneg yn y sector preifat. Yn fwy diweddar, roedd Karina yn Gyfarwyddwr Trawsnewid yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio.



**Simon Morris**

**Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol**

Cafodd Simon ei benodi ym Mehefin 2020. Dechreuodd ei yrfa fel hyfforddai graddedig ar gyfer Boots cyn symud ymlaen i rolau rheoli ym Maes Awyr Heathrow, BUPA Health Insurance a Danone. Fe'i penodwyd yn Aelod Siartredig o Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu yn 2016. Ei rôl fwyaf diweddar oedd fel Cyfarwyddwr Grŵp AD ar gyfer DDD Limited.



**Jon Parry**

## Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg

Ymunodd Jon â Chofrestrfa Tir EM yn Awst 2021 fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg. Dechreuodd ei yrfa fel Peiriannydd Meddalwedd ar ôl graddio gyda gradd mewn Systemau Gwybodaeth Cyfrifiadura yn 1989. Ers hynny mae Jon wedi cael uwch swyddi fel Ymgynghorydd Rheoli i Ernst & Young a Capgemini ac fel Cyfarwyddwr e-fasnach ac Amlsianel ar gyfer Argos.

| **Aelodaeth Bwrdd Cofrestrfa Tir EM** | |
|---|---|
| **Anweithredol** | |
| Michael Mire | Cadeirydd Anweithredol |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) (o 6 Hydref 2021) |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol, Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau (RemCo) (hyd at 31 Mai 2021) |
| Ann Henshaw | Aelod Bwrdd Anweithredol (o 1 Mehefin 2021) |
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Jeremy Pee | Aelod Bwrdd Anweithredol (o 1 Mehefin 2021) |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) (hyd at 13 Awst 2021) |
| **Gweithredol** | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau |

## Blwyddyn mewn ffocws

Yn ystod 2021-22 roedd y materion a gafodd sylw gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cynnwys:

— ymateb i COVID-19 a'r effaith ar berfformiad, risg a chyllid;

— cynllunio busnes, cyllideb a fframwaith perfformiad, gan gynnwys adolygu blaenoriaethau drwy gydol y flwyddyn adrodd, trosolwg strategol o Adolygiad Gwariant 2021 a chynllunio busnes blynyddol;

— datblygu strategaeth fusnes uchelgeisiol newydd ar gyfer Cofrestrfa Tir EM i'w lansio yn 2022;

— hygyrchedd a photensial asedau data Cofrestrfa Tir EM;

— cyfraniad Cofrestrfa Tir EM at wella'r farchnad drawsgludo a phrofiad cwsmeriaid o'r farchnad honno;

— gwelliant gweithredol a pherfformiad;

— cynnydd trawsnewid, blaenoriaethu a chynllunio;

— ystyried archwaeth risg Cofrestrfa Tir EM;

— canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2021, gwerthuso diwylliant a datblygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol ar draws y sefydliad; a

— threfniadau llywodraethu mewnol.

## Cyfarfodydd Bwrdd

Cyfarfu Bwrdd Cofrestrfa Tir EM 13 gwaith yn 2021-22. Yn sgil pandemig COVID-19, cyfarfu'r Bwrdd yn rhithiol yn bennaf ac ad-drefnwyd amserlen cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn gallu cwrdd yn amlach a chadw i fyny â'r amgylchedd newidiol. Cynhaliwyd cyfarfodydd bwrdd hwy bob chwe wythnos, gyda chyfarfodydd byrrach, yn canolbwyntio ar berfformiad a risg, yn cael eu cynnal rhyngddynt. Wrth i sefyllfa'r pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig newid, roedd y Bwrdd yn teimlo'n hyderus i gyfuno'r cyfarfodydd byrrach a hwy a dychwelyd i'w amserlen flaenorol sef cwrdd bob chwe wythnos. Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, cyfarfu'r Bwrdd wyneb yn wyneb pan oedd yn ddiogel i wneud hynny.

Yn Nhachwedd cynhaliodd y Bwrdd ddigwyddiad holi ac ateb rhithiol ar draws y sefydliad gyda chydweithwyr. Gwelodd y digwyddiad lefel uchel o ymgysylltiad gan gydweithwyr ac mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnal digwyddiadau pellach yn 2022-23.

## Ymgysylltu â budd-ddeiliaid

Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn rhan allweddol o sicrhau bod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

— Parhaodd y Cadeirydd i ymgysylltu'n rheolaidd â'r Comisiwn Geo-ofodol ac mae aelodau'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd â chwe chorff partner craidd y Comisiwn Geo-ofodol.

— Mae'r Cadeirydd a Phrif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ymgysylltu'n rheolaidd â Gweinidog yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

— Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol rhwng y Cadeirydd, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Prif Swyddog Ariannol ac UK Government Investments (UKGI), gan gynnwys cyfarfodydd anffurfiol rhyngddynt, i drafod llywodraethu, perfformiad ariannol a materion perthnasol eraill, fel yr amlinellir yn y Fframwaith.

— Ymgysylltodd aelodau'r Bwrdd â'u swyddogion cyfatebol yn adrannau eraill o'r llywodraeth fel Trysorlys EM a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn ôl yr angen.

— Cyfarfu aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd â'r farchnad budd-ddeiliaid sy'n aelodau o Gyngor Cynghori'r Gofrestrfa Tir a Fforwm y Diwydiant gan elwa ar eu gwybodaeth a'u harbenigedd, profi syniadau, rhannu gwybodaeth a thrafod materion cysylltiedig â thir ac eiddo.

— Ymhlith llawer o'r cyfarfodydd y mae Cofrestrfa Tir EM yn eu cynnal gyda chofrestrfeydd tir eraill ledled y byd, roedd aelodau'r Bwrdd wedi cymryd rhan mewn sesiwn cyfnewid gwybodaeth rhithiol gyda chymheiriaid o Kadaster, sy'n darparu gwasanaethau cofrestru tir yn yr Iseldiroedd.

## Pwyllgorau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

### Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn 2021-22. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Swyddog Cyfrifyddu trwy adolygu a cheisio sicrhad ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheoli, llywodraethu, cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau, safonau allanol a gofynion statudol.

Mae'n adolygu Prif Risgiau'r sefydliad ac yn darparu goruchwyliaeth a her wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd gwaith y pwyllgor.

Ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gweld adroddiad risg cyffredinol sy'n ymgorffori'r gofrestr risg ac adroddiadau manwl ar faterion fel seiberddiogelwch. Mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiad rheoli risg manylach ar o leiaf un Brif Risg, fel bod yr holl Brif Risgiau yn cael adolygiad manwl dros amser.

Yn ystod 2021-22 roedd y materion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys:

- goruchwylio a mewnbwn i ddatblygiad y fframwaith risg a sicrwydd, cynlluniau aeddfedrwydd, tacsonomi risg a'r datganiad archwaeth risg;
- monitro a herio Prif Risgiau Cofrestrfa Tir EM;
- goruchwylio a chyfrannu at ddatblygu a monitro cynllun archwilio mewnol tair blynedd;
- goruchwylio a herio strwythurau llywodraethu mewnol;
- goruchwylio a herio ansawdd data a'r gofrestr;
- goruchwylio a herio'r ddarpariaeth cronfa indemniad;
- monitro a herio rheolaethau twyll a'r strategaeth gwrth-dwyll; ac
- ystyried a herio dyfarniadau ariannol allweddol.

| Aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Risg | |
|---|---|
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) (o 6 Hydref 2021) |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) |
| **Mynychwyr** | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Harnaik Dhillon | Pennaeth Archwilio Mewnol (o 5 Ebrill 2021) |
| Joanna Horrocks-Potts | Dirprwy Gyfarwyddwr, Risg a Sicrwydd |
| Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

**Y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau**

Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau ddwywaith yn 2021-22. Mae'r pwyllgor yn sicrhau bod trefniadau tâl ac enwebu yn ategu nodau Cofrestrfa Tir EM ac yn goruchwylio recriwtio, cadw a pherfformiad y tîm gweithredol ac Uwch Gweision Sifil eraill yn unol â pholisïau tâl y Gwasanaeth Sifil.

Yn ystod 2021-22 roedd y prif faterion a gafodd sylw gan y Pwyllgor Tal ac Enwebiadau yn cynnwys:

- perfformiad y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir;
- perfformiad a thâl yr Uwch Wasanaeth Sifil; a
- strwythur, datblygiad a chynllunio dilyniant yr uwch arweinyddiaeth.

| Aelodau'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau | |
|---|---|
| Kirsty Cooper | Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau (o 8 Ionawr 2021). Aelod Bwrdd Anweithredol |
| Ann Henshaw | Chadeirydd y Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau ac Aelod Bwrdd Anweithredol (o 1 Mehefin 2021). |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) (o 6 Hydref 2021) |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol, UK Government Investments (cynrychiolydd enwebedig Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol) (hyd at 13 Awst 2021) |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| **Mynychwyr** | |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |

## Manylion presenoldeb ar gyfer Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau

| Enw | Teitl | Cyfnod* | Bwrdd | Pwyllgor | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bwrdd Cofrestrfa Tir EM | Archwilio | Tâl |
| **Aelodau bwrdd anweithredol** | | | | | |
| Michael Mire | Cadeirydd Anweithredol | | 12/13 | – | – |
| Katy Baldwin | Aelod Bwrdd Anweithredol, cynrychiolydd UKGI | o 6 Hydref 2021 | 5/5 | 3/3 | 1/1 |
| Kirsty Cooper | Aelod Bwrdd Anweithredol ac Uwch Aelod Bwrdd Annibynnol | | 11/13 | – | 2/2 |
| Ann Henshaw | Aelod Bwrdd Anweithredol | o 1 Mehefin 2021 | 10/10 | – | 1/1 |
| Elliot Jordan | Aelod Bwrdd Anweithredol | | 12/13 | 4/4 | – |
| Angela Morrison | Aelod Bwrdd Anweithredol | | 12/13 | 4/4 | – |
| Jeremy Pee | Aelod Bwrdd Anweithredol | o 1 Mehefin 2021 | 10/10 | – | – |
| Ed Westhead | Aelod Bwrdd Anweithredol/ cynrychiolydd UKGI | hyd at 13 Awst 2021 | 5/6 | 1/1 | – |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | |
| Simon Hayes | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | | 13/13 | 4/4 | 2/2 |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol | | 13/13 | 4/4 | – |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | | 13/13 | 4/4 | – |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau | | 13/13 | – | – |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | | – | – | 2/2 |

* penodiad yn berthnasol i'r cyfan o'r flwyddyn adrodd oni nodir fel arall.

## Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol Cofrestrfa Tir EM. Trwy fecanwaith llythyrau dirprwyo unigol, mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn ymdrin â'r gwaith o redeg Cofrestrfa Tir EM o ddydd i ddydd. Yn ystod 2021-22 cyfarfu'r Bwrdd Gweithredu ddwywaith yr wythnos. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal yn rhithiol ond mae'r Bwrdd Gweithredol wedi gallu cwrdd wyneb yn wyneb ar sawl achlysur.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am arwain a rheoli'r gwaith o baratoi Strategaeth Fusnes gymeradwy Cofrestrfa Tir EM, y cynllun busnes blynyddol, amcanion a thargedau cytunedig ac am reolaeth weithredol y sefydliad o ddydd i ddydd, gan gynnwys cydymffurfio â'r Fframwaith.

Bob mis mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnal sesiwn â ffocws i fonitro cynnydd yn erbyn cyflawni'r portffolio trawsnewid. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw goruchwylio'r gwaith o sicrhau newid digidol a gweithredol o fewn y sefydliad trwy oruchwylio rhaglenni a phrosiectau cyflawni, eu cyfatebiaeth strategol, buddion, risgiau a chyllid. Mae'r Swyddfa Portffolio Trawsnewid yn goruchwylio'r rhaglenni a'r byrddau prosiect sy'n adrodd i'r sesiynau misol hyn. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ar draws meysydd rhaglen ar ddigidol a data, gwella gwasanaeth, cwsmeriaid, pridiannau tir lleol, seilwaith TG a datblygu pobl a thimau.

Bob chwarter bydd y Bwrdd yn adolygu prif risgiau'r sefydliad. Yna caiff canlyniadau'r trafodaethau hyn eu hadrodd i Bwyllgor Archwilio a Risg Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'u hystyried ganddo.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi parhau i weithio gyda'r 'Grŵp Arweinyddiaeth' ehangach i ddatblygu tîm arweinyddiaeth ehangach trwy sefydlu trafodaethau perfformiad wythnosol a sesiynau 'cinio a dysgu' i drafod pynciau penodol. Mae holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth ehangach wedi cymryd rhan mewn adborth 360 i lywio datblygiad. Wrth i gyfyngiadau'r pandemig leddfu, roedd y Grŵp Arweinyddiaeth yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb ddwywaith yn 2021-22.

Cynhaliodd y Bwrdd Gweithredol adolygiad mewnol yn 2021 i ystyried effeithiolrwydd ei strwythurau, gan gynnwys pwyllgorau a dulliau gweithredol. Arweiniodd canlyniad yr adolygiad at roi camau gweithredu ar waith i symleiddio'r gwaith o redeg y Bwrdd Gweithredol.

| **Aelodau'r Bwrdd Gweithredol** | |
|---|---|
| Simon Hayes (Cadeirydd) | Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir |
| Iain Banfield | Prif Swyddog Ariannol |
| Mike Harlow | Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| Simon Morris | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| Jon Parry | Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg (o 2 Awst 2021) |
| Chris Pope | Prif Swyddog Gweithrediadau |
| Karina Singh | Cyfarwyddwr Trawsnewid |
| Andrew Trigg | Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg (o 31 Gorffennaf 2021) |
| **Mynychwyr** | |
| Joanna Horrocks-Potts | Dirprwy Gyfarwyddwr, Risg a Sicrwydd (o 1 Mehefin 2021) |
| Cathy Jenkins | Pennaeth Staff |
| Ronal Patel | Pennaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol |
| Alastair Vella-Sultana | Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro, Risg a Sicrwydd (hyd at 31 Mai 2021) |

## Pwyllgorau a phaneli gweithredol eraill

Mae pedwar pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u hadnewyddu yn ystod 2021-22 i'w cysoni ag arferion gorau, gan sicrhau atebolrwydd clir ac ateb anghenion y Bwrdd Gweithredol yn well. Erbyn hyn maent yn cynnwys:

- Y Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid: Cynghori'r Bwrdd Gweithredol ar y fframweithiau masnachol ac ariannol cyffredinol a ddefnyddir gan Gofrestrfa Tir EM, gan gynnwys craffu a darparu cyngor ar achosion busnes, rheoli contractau a rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ar y Fframwaith Dirprwyo Ariannol.
- Y Pwyllgor Pobl ac Ystadau: Datblygu argymhellion ar gyfer y Bwrdd Gweithredol ar strategaethau a pholisïau pobl ac ystadau. Datblygu sicrwydd ar gymhwyso strategaethau a pholisïau pobl yn effeithiol, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu, effaith gronnol newid ar bobl, ymgysylltu, diwylliant ac iechyd a diogelwch.
- Y Pwyllgor Perfformiad a Data Perfformiad: Goruchwylio monitro gwybodaeth am berfformiad a rheoli perfformiad gan gynnwys gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer monitro perfformiad yn y dyfodol a dangosyddion perfformiad allweddol, a rhoi sicrwydd bod data sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn cael eu casglu a'u rheoli'n briodol.
- Y Pwyllgor Risg a Chywirdeb: Cefnogi amcan Cofrestrfa Tir EM o gynnal ffydd a hyder yn y data sydd gan Gofrestrfa Tir EM yn ei chofrestri a deall, monitro a chydlynu ymdrechion i reoli risgiau ar draws y sefydliad, gan gynnwys adolygu data risg, ystyried tueddiadau a risgiau sy'n dod i'r amlwg, cynnal adolygiadau cyfnodol o strategaethau ac adroddiadau archwilio a goruchwylio cynigion i newid arferion sydd ag effaith risg sylweddol.

Mae pob un o bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol yn cwrdd o leiaf deg gwaith y flwyddyn ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gweithredol ar ôl pob cyfarfod. Mae pob pwyllgor yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gweithredol ac mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr o bob rhan o'r sefydliad. Caiff pwyllgorau eu cefnogi gan nifer o weithgorau ar eitemau penodol megis amrywiaeth a chynhwysiant, iechyd a diogelwch, gwrth-dwyll a diogelwch a gwydnwch.

Yn ogystal â Phwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol, mae Grŵp Gweithredu Tactegol gan Gofrestrfa Tir EM hefyd. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn ôl yr angen, yn ôl cyfarwyddyd y Bwrdd Gweithredol, i gynllunio a gweithredu digwyddiadau/gweithgareddau y mae angen eu cydlynu ar draws y sefydliad y tu hwnt i'r hyn sy'n hawdd ei gyflawni trwy drefniadau rheoli arferol. Yn 2021-22 cyfarfu'r Grŵp mewn ymateb i ganllawiau newydd ar gyfer gweithio o gartref.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Cafodd tri digwyddiad cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Penderfynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r digwyddiadau a adroddwyd.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

## Cyfrifon Adnoddau

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EM i baratoi, ar gyfer bob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau sy'n rhoi manylion am yr adnoddau sy'n cael eu caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd o adnoddau gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes yr adran a'i hincwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

— dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

— llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol;

— datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;

— paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a

— chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldebau am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EM, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Cofrestrfa Tir EM yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad llywodraethu gan Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

## Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EM, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EM.

Cefais fy mhenodi'n Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir o 11 Tachwedd 2019. Rwyf wedi derbyn llythyr penodi gweinidogol yn unol â Deddf Cofrestru Tir 2002 a llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol i Drysorlys Ei Mawrhydi yn fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifyddu.

Newidiodd Cofrestrfa Tir EM i fod yn Adran Anweinidogol ar 1 Ebrill 2020. Nodir fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu yn Rheoli Arian Cyhoeddus, sef sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y cyfrifir yn briodol amdano ac y'i defnyddir yn ddiwastraff, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r prif ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â chynnal y cofrestri a ddelir gan Gofrestrfa Tir EM i'w gweld yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod Cofrestrfa Tir EM yn cyflawni ei dyletswyddau mewn modd sy'n bodloni'r safonau priodol o ran rheoli risg a rheolaeth fewnol yn effeithiol. Mae'r fframwaith yn seiliedig ar brosesau sy'n ceisio nodi a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni strategaeth Cofrestrfa Tir EM, ei hamcanion strategol a thargedau perfformiad. Mae'n cyfateb â'n dyletswyddau statudol ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi nodau strategol a llywodraethu adran nawdd Cofrestrfa Tir EM, sef yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae llywodraethu Cofrestrfa Tir EM a'i pherthynas â chyrff eraill y llywodraeth wedi ei nodi mewn Fframwaith y cytunwyd arno gyda'r Gweinidogion yn Nhachwedd 2020 ac a gyhoeddwyd ar GOV.UK ar 8 Ionawr 2021. Mae ein dull llywodraethu yn unol â Llywodraethu Corfforaethol Adrannau Llywodraeth Ganolog Trysorlys EM: Cod Arfer Da. Mae tîm llywodraethu Cofrestrfa Tir EM yn mynychu cyfarfodydd Rhwydwaith Llywodraethu Partneriaid yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i rannu a dysgu o arferion gorau.

## Rheolaethau canolog

Cyfeirir at fy rôl fel Prif Gofrestrydd Tir yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975. Mae'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn gyfrifol am gadw'r cofrestri hynny a sefydlwyd at ddibenion y Deddfau hynny, ac mae ganddo'r holl bwerau, cyfrifoldebau a dyletswyddau a roddir ac a orfodir ar y Cofrestrydd gan y Deddfau hynny a chan y rheolau ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir oddi tanynt. Wrth gyflawni'r swyddogaethau statudol penodol hynny nid yw'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn destun unrhyw reolaeth na chyfarwyddyd gweinidogol. Mae'r swyddogaethau hynny yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan y llys.

Wrth reoli ei busnes yn fwy cyffredinol, mae Cofrestrfa Tir

EM yn gweithredu o fewn y fframwaith dirprwyaethau fel y'i diffinnir gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyrff hyd braich a'r dirprwyaethau penodol a awdurdodir gan swyddogion yn yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Thrysorlys EM a'r Fframwaith. Mae'r Fframwaith yn nodi'r berthynas sydd gan Gofrestrfa Tir EM â'r Comisiwn Geo-ofodol. Ar wahân i hyn, mae gofyniad hefyd i weithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i sicrhau bod cynnyrch a ryddheir yn cydymffurfio â'r safonau o ran diogelwch, effeithiolrwydd a chysondeb.

Mae safonau swyddogaethol y llywodraeth yn arwain pobl sy'n gweithio i Lywodraeth y DU a gyda hi ac yn hyrwyddo ffyrdd cyson a chydlynol o weithio. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi sefydlu safonau swyddogaethol perthnasol y Llywodraeth ac wedi cyflwyno system i fonitro cydymffurfiaeth a gwelliant parhaus.

Yn 2021-22 rhoddodd archwiliad mewnol sicrwydd rhesymol o strwythurau llywodraethu sefydliadol Cofrestrfa Tir EM. Ystyriwyd bod y strwythurau hyn yn cydymffurfio ag arferion gorau ac yn effeithiol ar y cyfan. Mae gwaith i roi argymhellion ar gyfer gwella ar waith eisoes yn mynd rhagddo.

## Y Strategaeth Fusnes 2022+

Yn ystod 2021-22 gweithiodd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Bwrdd Gweithredol ar ailwampio Strategaeth Fusnes 2017-22 fel y nodir yn yr adroddiad Perfformiad.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi gosod Strategaeth Fusnes newydd uchelgeisiol i'w chyhoeddi eleni. Cofrestru tir diogel ac effeithlon fydd ein blaenoriaeth bob amser. Bydd strategaeth Cofrestrfa Tir EM dros y tair blynedd nesaf yn adeiladu ar hyn trwy geisio gwella cyflymder ein gwasanaeth a thrwy gyfrannu at drawsnewid y farchnad eiddo trwy fod yn batrwm o ddarparwr gwasanaeth ar gyfer data eiddo defnyddiol a defnyddiadwy a fydd yn cefnogi economi genedlaethol gynaliadwy ac arloesol.

## Rheoli risg a sicrwydd

### Ein dull rheoli risg

Er mwyn cyflawni ein hamcanion mae'n hanfodol ein bod yn rheoli ein prif risgiau a risgiau sefydliadol eraill yn effeithiol. Mae gan bawb yng Nghofrestrfa Tir EM, o lefel y bwrdd i lawr, rôl amlwg i'w chwarae o ran nodi a rheoli risgiau.

Y prif risgiau yw risgiau i reolaeth Cofrestrfa Tir EM a chyflawni ein hamcanion strategol. Rheolir y risgiau hyn ar draws pob lefel o Gofrestrfa Tir EM, o wneud penderfyniadau ar achosion unigol hyd at gyflawni newid ar raddfa fawr a llunio polisi strategol.

Rydym yn rheoli'r risgiau hyn trwy fframwaith risg a sicrwydd a thrwy broses dadansoddi data integredig gyda'n hamcanion perfformiad a strategol. Mae'r Pwyllgor Risg a Chywirdeb, y Bwrdd Gweithredol, Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r prif risgiau'n rheolaidd. Caiff risgiau eraill eu hadolygu gan bob cyfarwyddiaeth a phrosiectau a rhaglenni perthnasol ond eu huwchgyfeirio fel y bo'n briodol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi sicrwydd annibynnol i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch cywirdeb datganiadau ariannol a pha mor gynhwysfawr a dibynadwy yw'r sicrwydd ar draws Cofrestrfa Tir EM.

Mae pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol hefyd yn craffu ac yn rhoi sicrwydd. Mae gwybodaeth am y fframwaith risg a sicrwydd ar gael yng Nghofrestrfa Tir EM, gan alluogi diwylliant o lywodraethu integredig a gwelliant parhaus.

## Fframwaith risg a sicrwydd Cofrestrfa Tir EM

Rydym yn cymryd camau parhaus i wella'r ffordd rydym yn rheoli risgiau. Rydym yn mabwysiadu dull integredig o reoli risgiau trwy fframwaith rheoli sy'n seiliedig ar gymhwyso'r model sicrwydd 'tair llinell amddiffyn'. Mae'r model yn ceisio amlinellu'r rolau gwahanol sydd gan bobl a'r mathau o weithgareddau y gellir eu gweld wrth reoli risgiau. Mae'r Pwyllgor Risg a Chywirdeb, y Bwrdd Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd y Gofrestrfa Tir hefyd yn cael sicrwydd o amrywiaeth o weithgareddau ar draws ein 'tair llinell amddiffyn' bod Cofrestrfa Tir EM yn gallu cyflawni ei strategaeth a'i hamcanion cyffredinol.

**Tair llinell amddiffyn Cofrestrfa Tir EM**

| Llinell Gyntaf | Ail Linell | Trydedd Llinell |
|---|---|---|
| Rheolaethau yn eu lle i liniaru risgiau i amcanion strategol a phrosesau busnes | Sicrhau ac adrodd ar effeithiolrwydd rheolaethau yn y Llinell Gyntaf | Sicrhau effeithiolrwydd rheolaeth, rheoli risg a phrosesau sicrwydd yn annibynnol |

Mae'r fframwaith risg a sicrwydd yn dwyn ynghyd yr offer a'r safonau sy'n ein galluogi i reoli ein busnes yn well, gwneud penderfyniadau gwell, atal pethau rhag mynd o chwith a gwneud pethau'n haws i Gofrestrfa Tir EM. Mae hefyd yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud hyn mewn amgylchedd diogel gyda rheolaethau synhwyrol a chymesur yn eu lle. Mae'r fframwaith risg a sicrwydd yn cwmpasu:

- **llywodraethu**: sicrhau bod awdurdodau ac atebolrwydd yn glir a bod ein llwyddiant o ran gweithredu'r fframwaith yn cael ei adlewyrchu yn y datganiadau llywodraethu blynyddol;
- **rheoli prosesau**: cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod ein prosesau wedi eu diffinio a'u bod yn effeithiol, yn effeithlon ac wedi eu rheoli'n dda;
- **rheoli risg**: nodi, asesu, rheoli ac adrodd ar y risgiau i gyflawni ein hamcanion strategol a gweithgareddau;
- **rheolaethau**: ymgorffori rheolaethau effeithiol yn ein prosesau busnes i sicrhau bod amcanion Cofrestrfa Tir EM yn cael eu bodloni, a bod unrhyw risgiau'n cael eu lleihau;
- **sicrwydd rheoli**: sicrhau bod y rheolaethau sydd ar waith yn ddigonol ac yn gweithredu yn ôl y bwriad, a chymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau;
- **sicrwydd annibynnol**: archwilio mewnol ac allanol i herio neu gadarnhau canfyddiadau'r sicrwydd a ddarperir gan y Llinell Gyntaf a'r Ail Linell; a
- **data**: sicrhau bod y data y mae ein busnes yn dibynnu arnynt yn ddiogel ac yn gywir.

## Rheoli risgiau i'n darpariaeth

Er mwyn diogelu arian cyhoeddus, optimeiddio perfformiad a gwneud yn siwr ein bod yn debygol o gyflawni ein hamcanion strategol, rydym yn nodi ac yn rheoli'n agos ein portffolio o brif risgiau. Mae'r portffolio hwn yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau ein bod yn cadw i fyny â'n darpariaeth o system cofrestru tir fodern ac yn nodi ac yn ymateb i'r risgiau nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn sicrhau bod gennym reolaethau lliniaru i reoli ein risg o fewn yr archwaeth ac i lefelau targed. Mae'r effeithiau'n parhau i gael eu hasesu, rhai newydd yn cael

eu nodi, a'n risgiau yn cael eu haddasu i sicrhau portffolio strategol effeithiol.

Mae pob risg yn gysylltiedig â'r amcanion strategol a'r dangosyddion perfformiad allweddol, gan sicrhau bod y gweithgaredd lliniaru yn canolbwyntio'n effeithlon ar sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni. Lle nodir perfformiad is-optimaidd o fewn yr amcanion hynny, caiff y risgiau eu haddasu i ailafael yn y ffocws lliniaru priodol.

Mae crynodeb isod o bob un o'n 10 prif risg, gyda phob un yn cael ei harwain a'i pherchnogi gan gyfarwyddwr ar ran ein Bwrdd Gweithredol. Ategir y prif risgiau hyn gan risgiau cysylltiedig y gyfarwyddiaeth, y rhaglen a'r tîm, a chaiff pob un ohonynt eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch arweinwyr.

## Prif risgiau i gyflawni ein hamcanion strategol

| 10 prif risg Cofrestrfa Tir EM (Mawrth 2022) |
|---|
| Cywirdeb y gofrestr |
| Pobl a diwylliant |
| Gwydnwch technoleg |
| Cyflawni trawsnewid |
| Marchnad sy'n newid |
| Parhad Busnes |
| Capasiti a gallu prosesu |
| Y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol |
| Bygythiad/Ymosodiad Seiber |
| Gallu a Chapasiti i gyflawni amcanion strategol |

Gweithiom yn galed i gyflawni mesurau lliniaru cymesur ar gyfer ein prif risgiau drwy gydol y flwyddyn ariannol.

Mae mesurau lliniaru a buddsoddiad wedi canolbwyntio ar gynnal a diogelu cofrestr sy'n addas i'r diben. Mae buddsoddiad sylweddol wedi cael ei wneud hefyd mewn capasiti a gallu prosesu er mwyn mynd i'r afael â'r llwyth gwaith a darparu gwasanaethau cofrestru.

Mae risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â systemau TG gwaddol, bygythiadau seiber ac allanol yn cael eu lliniaru'n barhaus ac rydym yn parhau i fod yn effro i'r bygythiadau newydd ac esblygol yn y meysydd hyn.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar ein risgiau sy'n gysylltiedig â phobl yn ystod y flwyddyn heriol hon, gan gymryd camau i ysgogi newid diwylliannol a chadw ein pobl wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae gennym nifer o risgiau yn ymwneud â chyflawni ein pwrpas craidd a sut rydym yn cefnogi anghenion newidiol ein cwsmeriaid. Rydym yn parhau i gyfathrebu clir, yn rheolaidd ac yn gydweithredol â chyfranogwyr y farchnad.

Cynlluniwn a rhagwelwn er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau o fewn ein strategaeth fusnes, ac rydym yn parhau i flaenoriaethu trawsnewid ein gwasanaethau a'n rhaglenni allweddol.

Mae gan Gofrestrfa Tir EM bolisi chwythu'r chwiban cadarn yn ei le ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o wasanaeth cyhoeddus. Ni chafwyd unrhyw achosion newydd o chwythu'r chwiban yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae argyfwng cenedlaethol y coronafeirws (COVID-19) wedi parhau i gael effaith ar Gofrestrfa Tir EM ac ar y farchnad eiddo yn gyffredinol drwy gydol 2021-22. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi parhau i addasu ac ymateb i'r sefyllfa newidiol.

Mae wedi bod yn bwysig inni sicrhau fod Cofrestrfa Tir EM yn gallu cynnal y Gofrestrfa Tir gydag unplygrwydd a darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar gwsmeriaid, ond rydym wedi bod yn agored i arloesiadau a chyfleoedd yn deillio o arferion gwaith newydd. Rydym wedi bod yn myfyrio ar fodelau gweithio hybrid a monitro cynhyrchiant mewn amgylcheddau gwaith gwahanol. Wrth i swyddfeydd a mannau eraill agor dilynwyd canllawiau cadw pellter cymdeithasol a gweithio'n galed i sicrhau bod ein cydweithwyr sy'n dychwelyd i'r swyddfa yn teimlo'n ddiogel wrth wneud hynny, ac ar yr un pryd parhau i sicrhau bod yr holl staff yn teimlo'n gysylltiedig a'u bod yn cael eu cefnogi, sut bynnag a ble bynnag y maent yn gweithio.

## Adrodd am berfformiad

Derbyniaf adroddiadau ariannol misol gan y Prif Swyddog Ariannol. Yn ogystal, derbyniaf wybodaeth am berfformiad sefydliadol, a gyflwynir yn fisol i'r Bwrdd Gweithredol ac a luniwyd o'r data perfformiad ehangach a dderbyniaf ac a adolygir gan y Pwyllgor Perfformiad a Data Perfformiad. Fel y nodir yn adran Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol, mae ein fframwaith perfformiad yn cynnwys wyth dangosydd perfformiad allweddol sy'n darparu cerdyn sgorio cytbwys ar draws effeithiau gweithredol, ariannol, pobl a chwsmeriaid ar yr hyn a wnawn.

Mae gan Gofrestrfa Tir EM dîm dadansoddi penodedig sy'n dod o dan fantell y Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes sy'n sicrhau ansawdd y wybodaeth reoli a ddefnyddir trwy'r sefydliad cyfan. Bob pythefnos, mae'r Bwrdd Gweithredol yn derbyn data bron yn amser real ar ddarparu gwasanaethau ochr yn ochr â gwybodaeth reoli sy'n hanfodol i fusnes. Darperir lefelau priodol o wybodaeth reoli hefyd i bwyllgorau allweddol eraill ac i reolwyr ar draws y sefydliad.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu nifer o fodelau sy'n hanfodol i'w busnes craidd. Mae Grŵp Goruchwylio Modelu a Chymorth Gwneud Penderfyniadau yn darparu goruchwyliaeth a her berthnasol ar gyfer ein modelau busnes hanfodol, ac rydym wedi gweithredu strwythur perchnogaeth sy'n cydymffurfio ag Aqua Book a dogfennaeth sicrhau ansawdd. Yn yr un modd, mae ein harfarniad o brosiectau ac opsiynau cyflawni yn gyson â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd, ac rydym yn datblygu dulliau monitro a gwerthuso sy'n gyson â'r Llyfr Magenta.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro ac adroddir arno yn fisol. Ceir gweithdrefn ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol gan roi goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i'r Bwrdd Gweithredol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EM. Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn derbyn diweddariadau cyllid a pherfformiad cryno mewn cyfarfodydd pan na ddarperir diweddariadau chwarterol.

Rwyf wedi cynnal sesiynau holi ac ateb 'swyddfa' a 'chenedlaethol' drwy gydol y flwyddyn, fel y mae aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a'r dirprwy gyfarwyddwyr. Mae'r sesiynau wedi cynnig cyfleoedd hanfodol i ymgysylltu â staff ar bob lefel o'r sefydliad. Rwyf innau, ynghyd ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol, yn ysgrifennu blogiau rheolaidd ar y negeseuon allweddol

pwysig, sy'n cael eu cyhoeddi ar blatfform lle mae modd cyflwyno sylwadau a sgwrsio.

Dros y 12 mis diwethaf, rwyf wedi cynnal nifer o gyfarfodydd un-i-un â Chadeirydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM. Rwyf wedi cwrdd ag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid allanol hefyd trwy gyfarfodydd rheolaidd a grwpiau ymgysylltu ffurfiol â budd-ddeiliaid er mwyn deall eu pryderon a'r cyd-destun gweithredol. Mae'r cyfarfodydd hyn â'r Cadeirydd a budd-ddeiliaid eraill wedi cael eu cynnal yn rhithiol a wyneb yn wyneb.

Rwy'n adrodd bob tri mis i weinidogion yr Adran Busnes Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i drafod cynnydd Cofrestrfa Tir EM yn erbyn amcanion strategol a meysydd eraill sy'n peri pryder.

## Sicrwydd caffael

Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Ariannol, ynghylch caffaeliadau penodol, fod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau caffael a chyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r canllawiau hyn a chanllawiau caffael penodol Cofrestrfa Tir EM. Drwy gydol COVID-19, rydym wedi ystyried a chymhwyso cyfarwyddyd Swyddfa'r Cabinet, lle bo hynny'n berthnasol, ar ryddhau cyflenwyr rhag ymrwymiadau cytundebol a dulliau caffael mewn argyfwng. Rydym hefyd wedi mabwysiadu dulliau monitro gwell ar gyfer sefydlogrwydd ariannol cyflenwyr ar gyfer ein contractau sy'n fwyaf hanfodol i'n busnes.

Mae'r Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid yn un o bwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol a grëwyd yn 2020. Mae'r Pwyllgor Buddsoddi, Masnachol a Chyllid yn adrodd yn rheolaidd ar gymeradwyo contractau dros £1m, ac yn gyfrifol am hynny bellach, ac yn cynghori ar gymeradwyo achosion buddsoddi ar gyfer contractau dros £10m. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi ei gwblhau ar ehangu cylch gorchwyl y grŵp hwn i fod yn gyfrifol am oruchwylio sicrwydd rheoli contractau. Gall cylch gorchwyl y pwyllgor ehangu ymhellach i gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau ar Ffïoedd a Thaliadau.

## Archwilio Mewnol a barn

Mae gan Gofrestrfa Tir EM fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol i gefnogi cyflawni ei hamcanion busnes yn foddhaol, ac er mwyn rheoli risgiau allweddol yn effeithiol. Er bod ein gwaith wedi canfod rhai materion rheoli yn ystod ei archwiliadau, nid oedd unrhyw dueddiadau amlwg mewn methiannau rheoli. Mae gwelliannau i'r prosesau risg a sicrwydd dros y flwyddyn wedi arwain at y gallu i ddibynnu mwy ar weithgarwch sicrwydd ail linell ac er bod dull sicrwydd integredig yn dal i ddatblygu, bydd hyn yn cryfhau asesiad annibynnol o'r amgylchedd rheoli ymhellach wrth i weithgarwch trawsnewid allweddol barhau mewn busnes mwy digidol ac awtomataidd. Nid yw'r gyfradd gyffredinol wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.

Simon Hayes

**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
8 Gorffennaf 2022

# Adroddiad atebolrwydd seneddol

## 1. Adroddiad Tâl

### Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff;
- polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol;
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu yn ystyried y dystiolaeth a roddir iddo ynghylch ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae cyflog y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr yn cael ei osod gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae Pwyllgor Tâl ac Enwebiadau Cofrestrfa Tir EM, yn gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, yn ystyried argymhellion tâl a ddarperir gan reolwyr llinell ac yn nodi'r strategaeth dâl flynyddol (gan gynnwys cyflog sylfaenol, codiadau cyflog, bylchau cyflog a thâl perfformiad) ar gyfer y tîm gweithredol a staff eraill yr Uwch Wasanaeth Sifil o fewn Cofrestrfa Tir EM.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol ar gyfer uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn https://www.gov.uk/government/publications/senior-civil-service-performance-management.

Yn ystod y flwyddyn aelodau'r Pwyllgor Tâl oedd y cyfarwyddwyr anweithredol Kirsty Cooper, Ann Henshaw, Ed Westhead a Katy Baldwin, a Simon Hayes fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir. Mae Simon Morris, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr hefyd yn bresennol.

### Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr Cofrestrfa Tir EM nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng Cofrestrfa Tir EM a'r undebau cydnabyddedig, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

### Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae gan yr holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn benodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r swydd yn gynnar i'r cyfarwyddwyr sydd ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw am gamymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael ei ddigolledu fel y nodir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk

## Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol[1] 2021-22

| | Cyflog £'000 | Tâl perfformiad £'000 | Buddion mewn nwyddau I'r £100 agosaf | Buddion pensiwn[2] £ | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Simon Hayes<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 135 – 140 | – | – | 33,000 | 165 – 170 |
| Mike Harlow<br>Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 120 – 125 | – | – | 39,000 | 160 – 165 |
| Dr Andrew Trigg[3]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | 30 – 35 | – | – | 8,000 | 35 – 39 |
| Blynyddol cyfatebol | (90 – 95) | – | – | – | (90 – 95) |
| Jon Parry[4]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | 250 – 255 | – | – | – | 250 – 255 |
| Blynyddol Cyfatebol | (380 – 385) | | | | (380 – 385) |
| Simon Morris[5]<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr | 110 – 115 | – | – | 45,000 | 155 – 160 |
| Iain Banfield<br>Prif Swyddog Ariannol | 110 – 115 | 5 – 10 | – | 31,000 | 150 – 155 |
| Chris Pope<br>Prif Swyddog Gweithrediadau | 130 – 135 | – | – | 52,000 | 185 – 190 |
| Karina Singh<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 110 – 115 | 5 – 10 | – | 23,000 | 145 – 150 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn.
3. Daeth penodiad Dr Andrew Trigg fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg i ben ar 1 Awst 2021. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn berthnasol i'w benodiad fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg.
4. Dechreuodd penodiad Jon Parry fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg ar 2 Awst 2021. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn ymwneud â'r cyfnod 2 Awst 2021 a 31 Mawrth 2022.

## Cyflog a thâl perfformiad – cyfarwyddwyr gweithredol[1] 2020-21

| | Cyflog £'000 | Tâl perfformiad £'000 | Buddion mewn nwyddau I'r £100 agosaf | Buddion pensiwn[2] £ | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Simon Hayes<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 135 – 140 | – | – | 142,000 | 275 – 280 |
| Mike Harlow<br>Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 120 – 125 | 10 – 15 | – | 52,000 | 185 – 190 |
| John Abbott[3]<br>Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg | 10 – 15 | – | – | 0 | 10 – 15 |
| Blynyddol cyfatebol | (120 – 125) | – | – | – | (120 – 125) |
| Dr Andrew Trigg[4]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | 85 – 90 | – | – | 108,000 | 190 – 195 |
| Blynyddol cyfatebol | (90 – 95) | – | – | – | (90 – 95) |
| Simon Morris[5]<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr | 90 – 95 | – | – | 37,000 | 130 – 135 |
| Blynyddol cyfatebol | (110 – 115) | | | | (110 – 115) |
| Jon Cocking[6]<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr | 15 – 20 | 5 –10 | – | 36,000 | 60 – 65 |
| Blynyddol cyfatebol | (85 – 90) | – | – | – | (85 – 90) |
| Iain Banfield<br>Prif Swyddog Ariannol | 110 – 115 | 10 – 15 | – | 60,000 | 185 – 190 |
| Chris Pope<br>Prif Swyddog Gweithrediadau | 130 – 135 | – | – | 52,000 | 185 – 190 |
| Karina Singh<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 110 – 115 | – | – | 78,000 | 190 – 195 |

1. Wedi ei archwilio.
2. Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn fel (y gwir gynnydd mewn pensiwn wedi ei luosi 20 gwaith) a hefyd (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn dilyn trosglwyddo hawliau pensiwn.
3. Daeth penodiad John Abbott i ben ar 11 Mai 2020. Ei fuddion pensiwn yw 0 oherwydd nid oedd John yn y cynllun pensiwn yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021.
4. Dechreuodd penodiad Dr Andrew Trigg fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg ar 1 Mai 2020. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn berthnasol i'w benodiad fel Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg.
5. Dechreuodd penodiad Simon Morris fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr ar 8 Mehefin 2020.
6. Dechreuodd penodiad Jon Cocking fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr ar 5 Mehefin 2020. Mae'r symiau a ddatgelir uchod yn berthnasol i'w benodiad fel Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr.

## Tâl – cyfarwyddwyr anweithredol[1]

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Michael Mire<br>Cadeirydd Anweithredol | 55 – 60 | 55 – 60 |
| Ed Westhead[2]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | – | – |
| Katy Baldwin[3]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | – | – |
| Kirsty Cooper<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Angela Morrison<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 20 – 25 |
| Elliot Jordan<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 20 – 25 | 10 – 15 |
| (Blynyddol cyfatebol) | | 20 – 25 |
| Ann Henshaw[4]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15 – 20 | – |
| (Blynyddol cyfatebol) | (20 – 25) | – |
| Jeremy Pee[5]<br>Cyfarwyddwr Anweithredol | 15 – 20 | – |
| (Blynyddol cyfatebol) | (20 – 25) | – |

1. Wedi ei archwilio.
2. Mae Ed Westhead yn cynrychioli buddion UK Government Investments (UKGI) ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EM. Daeth penodiad Ed i ben ar 13 Awst 2021.
3. Mae Katy Baldwin yn cynrychioli buddion UK Government Investments (UKGI) ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EM. Dechreuodd penodiad Katy ar 6 Hydref 2021.
4. Dechreuodd penodiad Ann Henshaw ar 1 Mehefin 2021.
5. Dechreuodd penodiad Jeremy Pee ar 1 Mehefin 2021.

## Cyflog

'Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau neilltuedig i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n ddarostyngedig i drethiant y DU. Mae'r tablau ar dudalennau 77 i 79 yn seiliedig ar daliadau cronnus a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM ac felly wedi eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EM ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses adolygu perfformiad fel y trafodwyd ac a nodwyd yn y Pwyllgor Tâl ym Mai 2021. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn y cawsant eu talu i'r unigolyn. Roedd dau dâl perfformiad yn 2021-22. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn 2021-22 yn ymwneud â pherfformiad yn 2020-21.

## Buddion pensiwn[1]

| | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronnus Mawrth 2022 | | Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth | | Gwir gynnydd mewn gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn £'000 | Cyfandaliad £'000 | Pensiwn £'000 | Cyfandaliad £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 | £'000 |
| Simon Hayes<br>Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 0 – 2.5 | 0 | 45 – 50 | 80 – 85 | 759 | 706 | 11 |
| Mike Harlow<br>Cwnsler Cyffredinol, Dirprwy Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 0 – 2.5 | 0 | 35 – 40 | 0 | 562 | 512 | 19 |
| Dr Andrew Trigg<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | 0 – 2.5 | 0 | 35 – 40 | 110 – 115 | 895 | 840 | 2 |
| Jon Parry<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg | – | – | – | – | – | – | – |
| Simon Morris<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad y Sefydliad a Gweithwyr | 2.5 – 5 | 0 | 0 – 5 | 0 | 56 | 25 | 22 |
| Iain Banfield<br>Prif Swyddog Ariannol | 0 – 2.5 | 0 | 35 – 40 | 55 – 60 | 477 | 440 | 8 |
| Chris Pope<br>Prif Swyddog Gweithrediadau | 2.5 – 5 | 0 | 20 – 25 | 0 | 344 | 289 | 39 |
| Karina Singh<br>Cyfarwyddwr Trawsnewid | 0 – 2.5 | 0 | 55 – 60 | 50 – 55 | 973 | 912 | 6 |

1. Wedi ei archwilio

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yr un faint ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil newydd a benodwyd a'r mwyafrif o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae pedair adran i'r cynllun hwnnw: 3 adran sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (sef classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil oedd

o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y cynllun hwnnw ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae'r holl aelodau sy'n newid i alpha yn cael eu buddion cynllun wedi eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael y buddion hynny ar sail ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 naill ai ddewis y trefniadau buddion wedi eu diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o'r cynllun classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos y cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun classic plus yn hybrid, gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth â'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun, ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun alpha yn adeiladu mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (symud) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod) at gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os yw'n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau o nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalafog, wedi ei asesu gan actiwari, buddion y cynllun pensiwn y mae aelod wedi eu cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn priod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelodau o ganlyniad iddo brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir GTCAP yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Gwir gynnydd mewn GTCAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCAP a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# 2. Adroddiad staff

## Costau staff ar gyfer 2021-22[1]

| | Staff parhaol £'000 | Prentisiaid £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 196,598 | 760 | 1,390 | 198,748 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 19,887 | 46 | 123 | 20,056 |
| Costau pensiwn eraill | 49,888 | 200 | 295 | 50,383 |
| **Cyfanswm costau staff** | **266,373** | **1,006** | **1,808** | **269,187** |

1. Wedi ei archwilio

## Adroddiad staff ar 31 Mawrth 2022

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr parhaol (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol) | 6,677 | 6,393 |
| Cyfwerth ag amser llawn parhaol ar 31 Mawrth[1] | 6,077 | 5,800 |
| Nifer y prentisiaid ar 31 Mawrth | 75 | 57 |
| Nifer y staff dros dro/dan gontract ar 31 Mawrth[1] | 70 | 87 |
| Diwrnodau salwch cyfartalog fesul gweithiwr | 8.1 | 5.1 |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr | 6.5 | 5.8 |
| Diwrnodau hyfforddi fesul prentis | 51.9 | 53 |
| Gwariant hyfforddi fel canran o'r bil cyflogau | 0.25 | 0.42 |
| Gweithwyr benyw | 60.6% | 60.1% |
| Gweithwyr rhan-amser | 30.7% | 31.4% |
| Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig | 5.9% | 5.8% |
| Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt | 6.7% | 7.8% |
| Trosiant staff | 5.7% | 4.5% |
| Sgorau ymgysylltiad staff | 71% | 71% |
| Bwlch Cyflog Cymedrig rhwng y Rhywiau | 5.7% | 7.5% |
| Bwlch Cyflog Cymedrig Bonws rhwng y Rhywiau | 4.9% | 7.3% |


1. Wedi ei archwilio

## Dadansoddiad rhyw ar 31 Mawrth 2022

| | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr anweithredol | 3 | 4 | 7 |
| Cyfarwyddwyr gweithredol[1] | 6 | 1 | 7 |
| Uwch Wasanaeth Sifil – band 2[1] | 5 | 1 | 6 |
| Uwch Wasanaeth Sifil – band 1[1] | 9 | 12 | 21 |
| Gweithwyr parhaol (heb gynnwys Uwch Weision Sifil)[2] | 2,617 | 4,033 | 6,650 |
| Prentisiaid[2] | 33 | 42 | 75 |

1. Mae rhai gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil hefyd yn gyfarwyddwyr ac wedi eu cynnwys yn y ddau gategori.
2. Mae rhai prentisiaid hefyd yn weithwyr parhaol ac yn cael eu cynnwys yn y ddau gategori.

## Cyfwerth ag amser llawn cyfartalog yn ystod y flwyddyn



## Datgeliadau oddi ar y gyflogres

Cyflogiadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2022, ar gyfer mwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis:

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| **Cyflogiadau sy'n bodoli ar 1 Ebrill 2022** | **37** | **26** |
| O'r rhai sy'n bodoli: | | |
| — am lai na blwyddyn adeg adrodd | 29 | 22 |
| — rhwng blwyddyn a dwy flynedd adeg adrodd | 7 | 4 |
| — rhwng dwy a thair blynedd adeg adrodd | 1 | – |
| — rhwng tair a phedair blynedd adeg adrodd | – | – |
| — rhwng pedair neu ragor o flynyddoedd adeg adrodd | – | – |
| **Cyflogiadau newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis** | | |
| **Cyflogiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022** | **35** | **35** |
| O'r rhain y rhai: | | |
| — sydd wedi eu hasesu yn rhai o fewn IR35 | 35 | 34 |
| — sydd wedi eu hasesu yn rhai y tu allan i IR35 | – | 1 |
| — sydd wedi eu terfynu o ganlyniad i beidio â derbyn sicrwydd | – | – |
| Nifer a gyflogwyd yn uniongyrchol (trwy Gwmni Gwasanaeth Personol i adran) ac sydd ar gyflogres adrannol | – | – |
| Nifer y cyflogiadau a ailaseswyd at ddibenion cysondeb/sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 35 | 35 |
| Nifer y cyflogiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb | – | – |
| **Cyflogiadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022** | | |
| Nifer y cyflogiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol, yn ystod y flwyddyn ariannol | – | – |
| Cyfanswm yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres yr ystyrir eu bod yn 'aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol', yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyflogiadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres | 7 | 9 |

## Gwariant ar wasanaeth ymgynghori[1]

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gwasanaeth ymgynghori | 1,804 | 1,442 |
| **Cyfanswm** | **1,804** | **1,442** |

1. Wedi ei archwilio

## Adnoddau

Mae recriwtio yn allweddol i iechyd hirdymor Cofrestrfa Tir EM ac yn greiddiol i gyflawni ein Strategaeth Pobl yn llwyddiannus, yn enwedig wrth gefnogi twf gallu a chapasiti i ddarparu gwasanaethau craidd. Mae cynllun gweithlu strategol blynyddol yn ategu datblygiad cynlluniau adnoddau sy'n cyflwyno rhaglen recriwtio wedi ei chynllunio, sy'n rheolaidd ac yn rhagweithiol.

Eleni rydym wedi recriwtio'n allanol i sicrhau bod gan wasanaethau gweithredol a chymorth craidd y gallu i gyflawni swyddogaethau statudol i safonau gwasanaeth cytûn. Rydym wedi mynd i'r afael ag anghenion rheng flaen a chynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol trwy recriwtio dwy garfan o Swyddogion Cofrestru Gweithredol. Ochr yn ochr â hyn, ymgymerwyd â gweithgarwch

datblygu a hyfforddi mewnol sylweddol i sicrhau bod gan ein cydweithwyr y sgiliau hanfodol yn eu lle ar y lefel gywir.

Rydym wedi gwella meysydd galluogrwydd penodol, yn enwedig ym maes trawsnewid digidol a sgiliau datblygu ystwyth; trwy recriwtio ac ymgysylltu bob chwarter â phartneriaid cyflenwi trwy Fframweithiau'r Llywodraeth. Mae hyn wedi gwella'r capasiti digidol, i gyflawni ein nodau ar gyfer Cofrestr Tir ddigidol a helpu tuag at ailddiffinio rôl gweithwyr achos yn y dyfodol. Rydym wedi cefnogi'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol trwy gynyddu capasiti o fewn y tîm, gan gynnwys defnyddio llafur wrth gefn i gefnogi twf cyflym ac ehangiad y rhaglen.

Rydym wedi adeiladu ar ein llwybrau mynediad presennol ac mae ein cynlluniau prentisiaeth wedi cynnig y cyfle i bobl ennill cymhwyster ym maes y gyfraith, adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth a chyllid. Rydym hefyd wedi recriwtio Ffrwdwyr Cyflym y Gwasanaeth Sifil ar draws ystod o ddisgyblaethau ac wedi recriwtio lleoliadau myfyrwyr TG yn ein swyddogaeth Digidol, Data a Thechnoleg.

Fel rhan o'r cynllun gweithlu blynyddol, anogwyd mwy o gynrychiolaeth ar draws yr holl grwpiau amrywiol. Cawn ein llywodraethu gan Egwyddorion Recriwtio Comisiwn y Gwasanaeth Sifil sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddewis pobl i'w penodi ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored a chynnal cydymffurfiaeth. Mae pob un o'n cyfleoedd gwaith yn cael ei hysbysebu gan ddilyn y Cynllun Hyderus o ran Anabledd sy'n sicrhau y bydd pobl anabl yn symud ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Ein polisi yw sicrhau nad yw unrhyw brofion a ddefnyddir yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr anabl a bod addasiadau rhesymol digonol yn cael eu gwneud pan fo'n ofynnol.

## Recriwtio

Defnyddiwyd strategaethau marchnata a denu arloesol i ddod o hyd i ymgeiswyr ar gyfer rolau digidol anodd eu llenwi ac rydym wedi cryfhau ein brand cyflogwr trwy hysbysebu ar wahanol sianeli cymdeithasol gyda defnydd cynyddol o fideo, defnydd o flogiau gweithwyr a phecynnau ymgeiswyr wedi eu targedu. Mae rhoi gweithio hybrid ar waith wedi galluogi hysbysebu llawer mwy o swyddi gwag ym mhob un o'n 14 lleoliad swyddfa, gan ddefnyddio cyfweliadau o bell sy'n helpu i ddenu ymgeiswyr mewn marchnad gynyddol gystadleuol.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac amrywiaeth ac rydym wedi cyflwyno cynlluniau'r llywodraeth i gefnogi'r rhai y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i gael cyflogaeth megis y rhai sy'n gadael carchar a chyn-filwyr ac interniaeth amrywiaeth.

Ar hyn o bryd mae Cofrestrfa Tir EM yn defnyddio'r fframwaith Adnoddau Sector Cyhoeddus ar gyfer caffael contractwyr nad ydynt ar y gyflogres. Defnyddiwyd contractwyr i ateb anghenion tymor byr a/neu frys am adnoddau arbenigol neu fedrus, ac mae gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth a datgeliadau wedi ei chynnwys ar dudalen 83. Mae Cofrestrfa Tir EM yn cefnogi gofynion adrodd newydd ar gyfer defnyddio contractwyr er mwyn i'r Swyddfa'r Cabinet allu olrhain y defnydd ohonynt ar draws y Gwasanaeth Sifil.

## Iechyd a llesiant

### Y Strategaeth Cefnogi ein Pobl – Cynllun cyflenwi presenoldeb, iechyd a llesiant Cofrestrfa Tir EM

Nod ein cynllun cyflenwi presenoldeb, iechyd a llesiant yw creu diwylliant yng Nghofrestrfa Tir EM sy'n cydnabod pwysigrwydd iechyd a llesiant, ac adeiladu amgylchedd sy'n cefnogi ein llesiant ac sy'n ein helpu i ofalu am ein hiechyd ein hunain. Ein gweledigaeth yw creu amgylchedd lle mae arweinwyr yn ymgorffori llesiant yn eu strategaethau, eu prosesau gwneud penderfyniadau a rheoli newid, gan sicrhau bod mentrau'n cael eu teimlo, eu cefnogi a'u gweld ar draws y sefydliad. O ran iechyd meddwl, rydym am wneud gwir wahaniaeth yn y modd y byddwn yn ystyried iechyd meddwl, yn siarad amdano ac yn gweithredu yn ei gylch – er mwyn i Gofrestrfa Tir EM fod yn sefydliad lle mae materion iechyd meddwl yn cael eu deall yn gyffredinol a'u stigma'n cael ei chwalu; lle bydd ein pobl yn teimlo'n hyderus i siarad am eu hafiechyd meddwl; a lle bydd ein rheolwyr yn barod i adnabod a deall y sbectrwm o faterion iechyd meddwl y gallent ddod ar eu traws a gallu cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt. Mae ein cynllun yn cyfateb ag ysgogwyr allanol – 'Thriving at Work: the Stevenson/Farmer review of mental health and employers'; y safonau Ymrwymiad Iechyd Meddwl yn y Gwaith (cytunwyd ar yr ymrwymiadau hyn yn 2020); a Blaenoriaethau Strategol y Gwasanaeth Sifil ar gyfer Iechyd a Llesiant.

Eleni rydym wedi darparu amrywiaeth o fentrau i gefnogi ein cydweithwyr a'r sefydliad:

- enillodd Cofrestrfa Tir EM Wobr Aur ym Mynegai Llesiant yn y Gweithle MIND 2020-21. Dyma'r eildro i Gofrestrfa Tir EM gymryd rhan yn y Mynegai (y tro cyntaf yn 2018 pan enillom Wobr Arian). Mae derbyn Gwobr Aur yn golygu bod Cofrestrfa Tir EM wedi ei graddio fel sefydliad sy'n ymwreiddio iechyd meddwl yn llwyddiannus yn ei bolisïau a'i arferion, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau arfer gorau a dangos ymrwymiad hirdymor, cynhwysfawr i iechyd meddwl cydweithwyr. Yn ogystal â'r arolwg, gwahoddodd MIND gydweithwyr Cofrestrfa Tir EM i enwebu unigolion ar gyfer ei Wobrau Gweithwyr Mynegai Llesiant yn y Gweithle 2020-21. Roedd bron i 20 o unigolion wedi cael eu henwebu gan Gofrestrfa Tir EM, gyda dau gydweithiwr ar y rhestr fer a dau gydweithiwr yn cael canmoliaeth uchel;
- lansiwyd ein Hyb Llesiant y gellir cael mynediad iddo o hafan ein mewnrwyd ac sy'n darparu siop un stop ar gyfer gwybodaeth ymarferol, cyngor a chymorth ar gyfer llesiant unigolion;
- dyfeisiwyd a chyflwynwyd calendr o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd Iechyd a Llesiant i godi ymwybyddiaeth o wybodaeth a darparu cefnogaeth, cymorth a chyngor. Mae'r calendr yn ystyried data absenoldeb salwch; meysydd blaenoriaeth iechyd a llesiant y Gwasanaeth Sifil; ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol. Bob blwyddyn rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi Diwrnod Amser i Siarad; Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl; Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd (eleni rydym wedi canolbwyntio ar orweithio); Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd; ac Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth Galar;
- gwnaethom sicrhau bod arweiniad gweladwy ar gyfer iechyd a llesiant yn cael ei ddarparu trwy Hyrwyddwr Iechyd a Llesiant ein Bwrdd Gweithredol a oedd wedi arwain a chefnogi nifer o'r ymgyrchoedd

ac annog arweinwyr i fod yn fodelau rôl, gan hyrwyddo pwysigrwydd iechyd a llesiant, a herio mythau a stigma;

- mae gennym rwydwaith o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl ar draws y sefydliad. Eu rôl yw cefnogi cydweithwyr sydd â phryderon iechyd meddwl a hyrwyddo ymwybyddiaeth iechyd meddwl ar draws y sefydliad. Rydym wedi darparu hyfforddiant gloywi i'n holl swyddogion cymorth cyntaf sefydledig i sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn cael eu diweddaru. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl cynhaliodd y swyddogion dri sesiwn byr i godi ymwybyddiaeth o'u rôl, i roi sylw i leddfu'r pryderon ynghylch y cofnod clo a chodi proffil y Rhaglen Cymorth i Weithwyr trwy stori bersonol o sut oedd y gwasanaeth wedi helpu cydweithiwr â'i gyflwr iechyd meddwl;
- enillodd Swyddfa Abertawe Cofrestrfa Tir EM wobr o fri Cymru Iach ar Waith sy'n dathlu cyflogwyr ar draws Cymru sydd wedi dangos arloesedd, creadigrwydd ac ymroddiad i lesiant eu cydweithwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19. Cawsom ein hystyried yn y categori, Ymateb Gorau gan Gwmni i COVID-19 – cwmni mawr mewnol (cefnogi gweithwyr), a thrwy ennill y wobr cawsom gydnabyddiaeth am y gwaith a wnaeth y swyddfa i sicrhau bod ein pobl a llesiant ein pobl yn flaenllaw mewn unrhyw fentrau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig;
- rydym wedi helpu pobl i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith trwy sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Rhaglen Cymorth i Weithwyr (a'i gwmpas) yn cael ei hyrwyddo ar draws y sefydliad. Rydym yn monitro'r defnydd o'r gwasanaeth i dargedu ymyriadau, ac yn defnyddio'r gwasanaeth yn rhagweithiol i gefnogi ymgyrchoedd iechyd a llesiant; ac
- rydym wedi creu dangosfwrdd presenoldeb, iechyd a llesiant newydd i gofnodi a rhoi cyhoeddusrwydd i ddata iechyd a llesiant er mwyn helpu i wella cyfathrebu a thryloywder. Mae'r data hefyd yn cael eu holrhain fel rhan o'n DPA ymgysylltu mewnol.

## Galluogrwydd

Eleni mae blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu ein cydweithwyr wedi cynnwys:

- ffocws cynyddol ar sgyrsiau perfformiad effeithiol;
- datblygu a lansio Rhaglenni Doniau Arweinyddiaeth peilot;
- twf ein Hacademi Cofrestru Tir; a
- chynyddu ein galluogrwydd sgiliau digidol mewn amgylchedd gweithio hybrid.

Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn niweddariad Simon Morris yn yr Adroddiad Perfformiad sy'n dechrau ar dudalen 38.

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n anffurfiol ac yn ffurfiol â'n cydweithwyr a'u cynrychiolwyr.

Mae blogiau'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr wedi parhau i gael eu cyhoeddi bob wythnos yn ystod y flwyddyn ac mae ein cydweithwyr wedi cael eu hannog i ymateb iddynt gyda'r nod o greu deialog agored a gonest a chyfnewid barn. Ategwyd hyn gan sesiynau holi ac ateb rhithiol rheolaidd, gyda phresenoldeb uchel gan y gweithlu yn gyffredinol.

Mae'n ofynnol i reolwyr gael trafodaethau misol rheolaidd gydag aelodau tîm unigol i drafod yn agored berfformiad gweithwyr, syniadau am wella arferion gwaith, materion sefydliadol ehangach, newidiadau ac unrhyw bryderon sydd gan weithwyr. Mae ein buddsoddiad mewn Brilliant Teams, Inspiring Leaders wedi atgyfnerthu'r dull hwnnw. Yn ystod pandemig COVID a'r symud tuag at weithio o bell, bu mwy o ffocws ar lesiant gweithwyr sydd wedi arwain at drafodaethau a chefnogaeth fwy rheolaidd.

Rydym wedi cwrdd yn rheolaidd â'n hundebau llafur cydnabyddedig. Mae'r Prif Weithredwr ac aelodau o'i dîm yn cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr yng nghyfarfodydd Cyngor Adrannol Whitley ddwywaith y flwyddyn. Mae strwythurau yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd lleol Whitley, ac ymgynghorir â'r undebau ar faterion penodol.

Mae deialog rheolaidd anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac arweinwyr undebau llafur wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Mae gweithrediad cysylltiadau cyflogaeth o ddydd i ddydd yn cael ei reoli trwy gyfarfodydd Ymgysylltu ac Ymgynghori misol rhwng uwch reolwyr a chynrychiolwyr adrannol undebau llafur, ochr yn ochr â chyfarfodydd Trawsnewid a Newid bob pythefnos. Rydym wedi cyflwyno cyfarfod wythnosol anffurfiol ychwanegol hefyd o ganlyniad i gyflwyno gweithio o bell a'r angen i gyhoeddi arweiniad a chefnogaeth ychwanegol, ac i ddatrys materion a phryderon yn brydlon.

Rydym yn parhau i fonitro ar y cyd â chydweithwyr undeb sut mae amser cyfleuster yn cael ei ddefnyddio, ac rydym o fewn 0.1% i'r ffigur canllaw bil talu a osodwyd gan Swyddfa'r Cabinet ac a adroddir iddi.

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar aeddfedrwydd ein diwylliant yn unol â'n dyheadau diffiniedig. Roedd yr ymateb i bandemig COVID-19 yn golygu bod angen newid ein diwylliant yn gyflym ac mae ymateb parhaus y sefydliad wedi bod yn anhygoel. Roedd y ffocws ar lesiant ein pobl yn parhau i fod yn flaenllaw ym mhob ystyriaeth ac, o ganlyniad, rydym wedi gweld gwelliannau cadarnhaol pellach yn ein sgorau ymgysylltu yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Mae arolygon mewnol rheolaidd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi dangos bod y gwelliannau hyn wedi eu cynnal ac mae pobl yn cyfeirio'n gadarnhaol at y ffordd y mae Cofrestrfa Tir EM wedi ymateb. Rydym wedi ymrwymo i gynnal ac adeiladu ar yr hyn rydym wedi ei ddysgu o weithio a rheoli'n wahanol.

Mae ein model aeddfedrwydd diwylliant, a ddatblygwyd gyda chyfranogiad ystod eang o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, rhwydweithiau cydweithwyr a chydweithwyr undeb, wedi darparu strwythur gwerthfawr i fesur ein cynnydd.

Bydd y Pwyllgor Pobl ac Ystadau yn goruchwylio cynnydd yn erbyn y model a, thrwy linell ail-sylfaen flynyddol, yn sicrhau bod mentrau corfforaethol allweddol yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd sy'n gwneud gwahaniaeth. Mae ein prif risg a'n rheolaethau penodol wedi eu halinio ar y sail hon. Mae gweithgaredd tebyg yn cael ei efelychu a'i fonitro o fewn pob cyfarwyddiaeth.

Mae adborth gan gydweithwyr yn parhau i fod yn rhan allweddol o gynllunio ac asesu cynnydd tuag at ein diwylliant a ddymunir. Yn ogystal ag adborth i'r arolwg, mae trafodaethau adeiladol parhaus â'r undebau ar lefel adrannol a lleol, annog staff i gymryd rhan ar bwyllgorau eraill (gan gynnwys iechyd a llesiant, cymdeithasol a chwaraeon, amrywiaeth ac elusennol), ac ymweliadau cyfarwyddwyr gyda sesiynau holi ac ateb, i gyd yn hanfodol o ran sicrhau bod barn ein cydweithwyr yn cael ei chlywed a'i deall.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Yn Ebrill 2021, cyhoeddwyd ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2021-24 yn seiliedig ar dair thema: gwella cynrychiolaeth, creu diwylliant cynhwysol, a gwreiddio amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r strategaeth yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu sylfaenol sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau blwyddyn un i ddatblygu gwaelodlin o ddata, i fesur ein diwylliant cynhwysol a hoelio sylw ar ein rhwydweithiau a'n hyrwyddwyr cynhwysiant.

Mae gennym ffocws diwylliannol cryf ar amrywiaeth a chynhwysiant, gyda gweithgarwch cyfarwyddiaeth eang ac agwedd eang at gyfathrebu cynwysoldeb, gyda straeon am y menopos, galar, hunanladdiad, ac ati.

Ar hyn o bryd mae gan Gofrestrfa Tir EM rwydweithiau ar gyfer anabledd; lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol+; gofalwyr; oed; menywod; du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; a ffydd a chred sy'n darparu cefnogaeth i'r rhai sy'n rhannu eu nodwedd a'r rhai nad ydynt. Maent yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ar-lein yn amrywio o siaradwyr i sesiynau rhyngweithiol sy'n rhan o galendr digwyddiadau corfforaethol. Mae'r rhwydwaith anabledd yn cefnogi profion defnyddwyr ar gyfer technoleg gynorthwyol wrth i systemau busnes newydd gael eu datblygu fel rhan o raglenni a phrosiectau digideiddio a thrawsnewid.

Cydnabuwyd ein hymrwymiad at degwch a chynhwysiant yn ein Harolwg Pobl diweddaraf gyda sgôr cadarnhaol o 88% mewn mesurau cynhwysiant, cynnydd o 2% ar y flwyddyn flaenorol. Rydym hefyd wedi cynnal ein statws arweinydd Hyderus o ran Anabledd.

Rydym yn parhau i wthio i wella cynrychiolaeth trwy ein harferion recriwtio. Rydym yn recriwtio'n allanol yn ddiofyn ac yn defnyddio recriwtio enw-ddall. Rydym yn cynnig y cynllun gwarantu cyfweliad Hyderus o ran Anabledd ac yn sicrhau bod ein holl aelodau panel wedi eu hyfforddi ar gefnogi cydweithwyr anabl a niwroamrywiol. Mae fideo recriwtio wedi cael ei gynhyrchu i ategu'r blogiau gweithwyr a'r pecynnau ymgeiswyr sy'n tynnu sylw at y rhwydweithiau cydweithwyr a'r cynllun Hyderus o ran Anabledd.

## Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil ac eraill – pecynnau ymadael[1]

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 | 2021-22 | 2020-21 |
| £0–£10,000 | – | – | 4 | 1 | 4 | 1 |
| £10,001–£25,000 | – | – | 1 | 2 | – | 2 |
| £25,001–£50,000 | – | – | 1 | 2 | 2 | 2 |
| £50,001–£100,000 | – | – | 2 | 1 | 2 | 1 |
| £100,001–£150,000 | – | – | – | – | – | – |
| £150,001–£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| >£200,000 | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | – | – | **8** | **6** | **8** | **6** |
| **Cyfanswm cost** | – | – | **£184,641** | **£181,523** | **£184,641** | **£181,523** |

1. Wedi ei archwilio.

Gwnaethpwyd wyth taliad ex-gratia yn 2021-22 sef cyfanswm o £184,641.23 (2020-21: 6, £181,522.63).

## Digolledu ar gyfer colli swydd

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb contract i ymadael. Pan fo'n gymwys, mae costau ychwanegol budd pensiwn gostyngol am adael y cynllun yn cael eu talu gan Gofrestrfa Tir EM ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

## Lluosrifau tâl[1]

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a'r tâl ar gyfer y canolrif, y chwartel isaf a'r chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad.

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, lwfansau, goramser, taliadau cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000) | 250 – 255 | 135 – 140 |
| Canolrif (£) | 31,149 | 30,129 |
| Canolrif (cymhareb tâl) | 8.1 | 4.5 |
| Chwartel isaf (£) | 27,130 | 25,201 |
| Chwartel isaf (cymhareb tâl) | 9.3 | 5.4 |
| Chwartel uchaf (£) | 39,152 | 38,762 |
| Chwartel uchaf (cymhareb tâl) | 6.5 | 3.5 |

| | Cyflog a lwfansau | Tâl perfformiad a bonysau |
|---|---|---|
| Newid canrannol rhwng 2020-21 a 2021-22 ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf | 86% | 0% |
| Newid canrannol rhwng 2020-21 a 2021-22 ar gyfer y gweithwyr sy'n weddill | 5.5% | -49.1% |

1. Wedi ei archwilio.

Eleni mae'r cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf wedi newid oherwydd bod y Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg yn cael ei lenwi ar sail interim, gytundebol. Oherwydd y newid hwn gallwch weld cynnydd yn y cymarebau canolrif, chwartel isaf ac uchaf o 20-21 a chanran y newid cyflog a lwfansau.

Pe bai'r cyfrifiad wedi ei wneud yn erbyn y cyfarwyddwr parhaol â'r cyflog uchaf, byddai newid o 0% wedi bod o fewn cyflog a lwfansau'r cyfarwyddwr a byddai'r Canolrif (cymhareb tâl) wedi bod yn 4.4, y Chwartel Isaf (cymhareb tâl) 5.0 a'r Chwartel Uchaf (cymhareb tâl) 3.5, sy'n adlewyrchu gostyngiad yn y cymarebau o'i gymharu â 2020-21.

Mae'r tabl isod yn dangos yr ystodau cyflog cymharol ar gyfer tâl staff (ac eithrio buddion pensiwn).

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| Tâl Isaf (£'000) | 15 – 20 | 15 – 20 |
| Tâl Uchaf (£'000) | 250 – 255 | 135 – 140 |

Mae'r newidiadau canrannol ar gyfer gweithwyr sy'n weddill wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio gwerthoedd gweithwyr gweithredol ar 31 Mawrth ar gyfer bob blwyddyn berthnasol. Mae'r newid canrannol o gynnydd mewn cyflog a lwfansau ar gyfer gweddill y staff i'w briodoli i'r cynnydd yn nifer y gweithwyr cyflogedig yn 2021-22 o'i gymharu â 2020-21.

Mae'r gostyngiad o 49.1% mewn tâl perfformiad a bonysau oherwydd bod y gwerthoedd talu ar gyfer y tâl ar sail perfformiad yn is yn 2021-22 o'i gymharu â'r gwerthoedd a dalwyd yn 2020-21.

## Amser cyfleuster undeb llafur
## Cyfnod amser: 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022
**Misoedd: 12**

### Tabl 1: Swyddogion undeb perthnasol

| Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 110 | 100.12 |

### Tabl 2: Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

| Canran yr amser | Nifer y gweithwyr |
|---|---|
| 0% | 37 |
| 1 – 50% | 73 |
| 51 – 99% | 0 |
| 100% | 0 |
| **Cyfanswm** | **110** |

### Tabl 3: Canran y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster

| | Swm |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | £261,836 |
| Cyfanswm y bil tâl | £268,495,040 |
| Canran cyfanswm y bil tâl a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.098% |

### Tabl 4: Gweithgareddau am dâl undebau llafur

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl | 0.00 |
| Cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar amser cyfleuster â thâl | 114,439.76 |
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau am dâl undebau llafur yn ganran o gyfanswm yr oriau cyfleuster am dâl | 0.00% |

# 3. Y Datganiad Alldro yn Erbyn Cyflenwad Seneddol a nodiadau cysylltiedig (wedi ei archwilio) Am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

Yn ychwanegol at y datganiadau ariannol sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM baratoi Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol. Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig yn destun archwiliad, fel y manylir yn Nhystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r SoPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrifiad o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a dynnir yn bennaf o'r Gronfa Gyfunol), y mae'r Senedd yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn rhoi manylion y cyflenwad ac mae'r Senedd yn pleidleisio arno ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os yw endid yn gwario mwy na'r terfynau a osodir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd ei gyfrifon yn derbyn barn gymwysedig.

Mae ffurf y SoPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o Gyflenwad, a gyhoeddwyd ar GOV.UK, er mwyn gallu cymharu rhwng yr hyn y mae'r Senedd yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SoPS yn cynnwys tabl cryno, gyda manylion am berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae'r Senedd wedi pleidleisio arnynt, arian a wariwyd (mae cyllidebau'n cael eu llunio ar sail croniadau ac felly ni fydd yr alldro yn cyfateb yn union â'r arian a wariwyd) a gweinyddu.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: y llinell Alldro yn ôl llinell Amcangyfrifiad, gan ddarparu dadansoddiad manylach (nodyn SoPS 1); cysoni alldro â gwariant gweithredu net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, i gysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol (nodyn SoPS 2); cysoni alldro i'r gofyniad arian parod net (nodyn SoPS 3), a dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn SoPS 4).

Mae'r SoPS a'r Amcangyfrif yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu sy'n debyg, ond yn wahanol i IFRS. Mae dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o'r termau allweddol i'w gweld ar dudalen 45-47, yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad perfformiad. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS hefyd i'w gweld ym Mhennod 1 o'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar GOV.UK.

Mae'r SoPS yn rhoi darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y mae'r Senedd yn pleidleisio arni ac yn ei chydnabod. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad Perfformiad, yn darparu trafodaeth gryno o alldro yn erbyn amcangyfrif a swyddogaethau fel cyflwyniad i'r datgeliadau SoPS.

## Amcangyfrif o alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif a Bleidleisiwyd

### Tabl cryno 2021-22

| Math o wariant | SoPS Nodyn | Alldro | | | Amcangyfrif | | | Alldro yn erbyn Amcangyfrifiad arbedion/(tâl-dros-ben) | | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pleid-leisiwyd £'000 | Heb ei Bleidleisio £'000 | Cyfanswm £'000 | Pleid-leisiwyd £'000 | Heb ei Bleidleisio £'000 | Cyfanswm £'000 | Pleidleisiwyd £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm 2020-21 £'000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | 364,593 | – | 364,593 | 378,754 | – | 378,754 | 14,161 | 14,161 | 332,700 |
| Cyfalaf | 1.2 | 109,507 | – | 109,507 | 128,868 | – | 128,868 | 19,361 | 19,361 | 32,160 |
| **Cyfanswm** | | **474,100** | **–** | **474,100** | **507,622** | **–** | **507,622** | **33,522** | **33,522** | **364,860** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1.1 | (307) | – | (307) | 12,000 | – | 12,000 | 12,307 | 12,307 | (858) |
| Cyfalaf | 1.2 | – | – | – | – | – | – | - | - | – |
| **Cyfanswm** | | **(307)** | **–** | **(307)** | **12,000** | **–** | **12,000** | **12,307** | **12,307** | **(858)** |
| **Cyfanswm cyllideb** | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm adnoddau | | 364,287 | – | 364,287 | 390,754 | – | 390,754 | 26,467 | 26,467 | 331,842 |
| Cyfanswm cyfalaf | | 109,507 | – | 109,507 | 128,868 | – | 128,868 | 19,361 | 19,361 | 32,160 |
| **Cyfanswm gwariant cyllideb** | | **473,794** | **–** | **473,794** | **519,622** | **–** | **519,622** | **45,828** | **45,828** | **364,002** |
| **Gwariant heb fod yn gyllideb** | | – | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm cyllideb a heb fod yn gyllideb** | | **473,794** | **–** | **473,794** | **519,622** | **–** | **519,622** | **45,828** | **45,828** | **364,002** |

Mae'r ffigurau yn y mannau a amlinellir mewn llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd. Cyfeiriwch at y llawlyfr canllaw Amcangyfrifon o Gyflenwad, sydd ar gael yn GOV.UK, i gael manylion am y terfynau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd.

### Gofyniad arian parod net 2021-22

| | Nodyn SoPS | Alldro £'000 | Amcangyfrif £'000 | Alldro yn erbyn Amcangyfrifiad arbedion/(tâl-dros-ben) £'000 | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | 3 | 405,520 | 446,801 | 41,281 | 357,549 |

# Nodiadau i'r Datganiad o Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol 2021-22

## SoPS 1. Manylion alldro, yn ôl llinell amcangyfrif
## SoPS 1.1 Dadansoddiad o alldro adnoddau net fesul llinell amcangyfrif

| Math o wario (Adnoddau) | Alldro Adnoddau – Rhaglen – Gros £'000 | Incwm £'000 | Net £'000 | Cyfanswm £'000 | Amcangyfrif – Cyfanswm £'000 | Tros-glwyddiadau £'000 | Cyfanswm gan gynnwys tros-glwyddiadau £'000 | Alldro yn erbyn Amcan-gyfrifiad arbedion/(tâl-dros-ben) £'000 | 2020-21 Cyfanswm Alldro £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwario o fewn Terfynau Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | | |
| A. Gwariant Terfynau Gwariant Adrannol craidd Cofrestrfa Tir EM | 364,593 | – | 364,593 | 364,593 | 378,754 | – | 378,754 | 14,161 | 332,700 |
| **Cyfanswm gwario mewn Terfynau Gwariant Adrannol** | **364,593** | **–** | **364,593** | **364,593** | **378,754** | **–** | **378,754** | **14,161** | **332,700** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | | |
| B. Gwariant a Reolir yn Flynyddol craidd Cofrestrfa Tir EM | (307) | – | (307) | (307) | 12,000 | – | 12,000 | 12,307 | (858) |
| **Cyfanswm gwariant mewn Terfynau Gwariant Adrannol** | **(307)** | **–** | **(307)** | **(307)** | **12,000** | **–** | **12,000** | **12,307** | **(858)** |
| **Cyfanswm adnoddau** | **364,287** | **–** | **364,287** | **364,287** | **390,754** | **–** | **390,754** | **26,467** | **331,842** |

## SoPS 1.2 Dadansoddiad o alldro cyfalaf yn ôl adran

| Math o wario (cyfalaf) | Alldro – Gros £'000 | Incwm £'000 | Net £'000 | Amcangyfrif – Cyfanswm £'000 | Tros-glwyddiadau £'000 | Cyfanswm gan gynnwys tros-glwyddiadau £'000 | Alldro yn erbyn Amcan-gyfrifiad arbedion/(tâl-dros-ben) £'000 | 2020-21 Cyfanswm Alldro £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwario o fewn Terfynau Gwariant Adrannol** | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | |
| A. Gwariant Terfynau Gwariant Adrannol craidd Cofrestrfa Tir EM | 109,737 | (231) | 109,507 | 128,868 | – | 128,868 | 19,361 | 32,160 |
| **Cyfanswm gwario mewn Terfynau Gwariant Adrannol** | **109,737** | **(231)** | **109,507** | **128,868** | **–** | **128,868** | **19,361** | **32,160** |
| **Gwario mewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | |
| B. Gwariant a Reolir yn Flynyddol craidd Cofrestrfa Tir EM | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm gwariant mewn Terfynau Gwariant Adrannol** | – | – | – | – | **–** | – | – | – |
| **Cyfanswm cyfalaf** | **109,737** | **(231)** | **109,507** | **128,868** | **–** | **128,868** | **19,361** | **32,160** |

Mae colofnau cyfanswm Amcangyfrif yn cynnwys trosglwyddiadau. Trosglwyddiadau yw perthynas y ddarpariaeth yn yr Amcangyfrifon nad oes angen awdurdod seneddol ar eu cyfer (oherwydd nid yw'r Senedd yn pleidleisio i'r lefel honno o fanylion ac yn dirprwyo i Drysorlys Ei Mawrhydi). Mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddiadau ar gael yn y Llawlyfr Amcangyfrifon o Gyflenwad, sydd ar gael ar GOV.UK.

Mae'r golofn alldro yn erbyn amcangyfrifiad yn seiliedig ar y cyfanswm gan gynnwys trosglwyddiadau a wnaed. Mae cyfanswm yr amcangyfrif cyn trosglwyddiadau wedi ei gynnwys er mwyn i ddefnyddwyr allu cysylltu'r amcangyfrifiad yn ôl i'r Amcangyfrifon a roddwyd gerbron y Senedd.

**Gwariant Adnoddau a Chyfalaf o fewn Terfynau Gwariant Adrannol Cofrestrfa Tir EM**

**Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau**
Roedd y tanwariant Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau o £14.2m wedi ei ysgogi'n bennaf gan y tanwariant o £10.9m yn erbyn cyllideb dibrisiant neilltuedig Cofrestrfa Tir EM oherwydd bod Cofrestrfa Tir EM yn adolygu oesau economaidd defnyddiol ei hasedau anniriaethol yn ystod y flwyddyn. O fewn Terfynau Gwariant Adrannol Adnoddau heb eu neilltuo, y tanwariant oedd £3.3m, sydd o fewn 1% i'r alldro.

**Terfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf**
Y tanwariant Terfynau Gwariant Adrannol Cyfalaf yn 2021-22 yw £19.4m. Mae hyn yn cynnwys dwy elfen. Mae tanwariant o £11.7m yn y gyllideb sydd wedi ei neilltuo ar gyfer y rhaglen Pridiannau Tir Lleol oherwydd problemau amseru wrth i awdurdodau lleol fudo i'r Gofrestr Pridiannau Tir Lleol. Yr elfen arall yw tanwariant o £7.7m sy'n ymwneud yn bennaf â'r trawsnewid i'r safon prydlesi newydd, IFRS 16.

**Gwariant ar Adnoddau o fewn Gwariant a Reolir yn Flynyddol Cofrestrfa Tir EM**
Mae Cofrestrfa Tir EM hefyd yn dal darpariaeth Indemniad ar gyfer hawliadau. Mae gwerth y ddarpariaeth hon yn ansicr, a neilltuwyd cyllid ar gyfer unrhyw newid mewn gwerth. Yn ystod 2021-22, gostyngwyd y ddarpariaeth indemniad ac nid oedd angen y cyllid Gwariant a Reolir yn Flynyddol hwn.

## SoPS 2. Cysoni alldro i wariant gweithredu net

| | Nodyn | Alldro £'000 | 2020-21 Cyfanswm Alldro £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnoddau yn SoPS** | SoPS 1.1 | **364,287** | **331,842** |
| Ychwanegu: Ymchwil a Datblygu | | 22 | – |
| Ychwanegu: Cyfalaf grant mewn nwyddau | SoCNE | 231 | 52,752 |
| Llai: Incwm gweithredu arall | SoCNE | (2,704) | (2,780) |
| **Cyfanswm** | | **361,836** | **381,814** |
| **Gwariant gweithredu net yn y Datganiad Cyfunol o Wariant Cynhwysfawr Net** | SoCNE | **361,836** | **381,814** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, mae'r alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg, ond yn wahanol i, IFRS. Felly mae'r cysoni hwn yn trosi'r alldro adnoddau i wariant gweithredu net, gan gysylltu'r SoPS i'r Datganiadau Ariannol.

Mae grant cyfalaf mewn nwyddau yn adlewyrchu'r trosglwyddiad cyllideb mewn perthynas â throsglwyddo asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth. Yn 2020-21, roedd hyn yn ymwneud â throsglwyddo eiddo rhydd-ddaliol Cofrestrfa Tir EM a'r rhan fwyaf o'r eiddo ar brydles hir gyda chyfanswm gwerth o £52,752k. Yn 2021-22, roedd hyn yn ymwneud â throsglwyddo asedau gwaddol gyda chyfanswm gwerth o £231k.

## SoPS 3. Cysoni alldro adnoddau net i'r gofyniad arian parod net

| 2021-22 | Nodyn SoPS | Alldro £'000 | Amcangyfrif £'000 | Alldro yn erbyn Amcangyfrifiad arbedion/(tâl-dros-ben) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro adnoddau** | 1.1 | 364,287 | 390,754 | 26,467 |
| **Alldro cyfalaf** | 1.2 | 109,507 | 128,868 | 19,361 |
| | | **473,794** | **519,622** | **45,828** |
| *Addasiadau i ddileu eitemau heb fod yn arian parod:* | | | | |
| Dibrisiant ac amorteiddio (gan gynnwys ad-dalu prydles ariannu cyfalaf) | | (11,774) | (22,710) | (10,936) |
| Symudiad Darpariaeth Indemniad | | (4,980) | (12,000) | (7,020) |
| Ad-daliad cyfalaf o brydlesi | | 6,178 | | (6,178) |
| Amhariad o asedau anghyfredol | | (501) | – | 501 |
| Tâl yr archwilydd | | (106) | – | 106 |
| Ychwanegiadau Hawl Defnyddio (IFRS 16) | | (67,740) | – | 67,740 |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio* | | | | |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | | 7,357 | – | (7,357) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau taladwy | | (2,880) | (38,111) | (35,231) |
| Defnyddio darpariaethau | | 5,788 | – | (5,788) |
| Symudiadau mewn eitemau nad ydynt yn mynd trwy'r SoCNE | | 384 | – | (384) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **405,520** | **446,801** | **41,281** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, mae'r Alldro a'r Amcangyfrifon yn cael eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, nid ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoni hwn yn trosi'r alldro adnoddau a chyfalaf i'r gofyniad arian parod net.

## SoPS 4. Symiau incwm i'r Gronfa Gyfunol

## SoPS4.1 Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

| Mae'r incwm canlynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn llythrennau italig). | 2021-22 Cyfanswm Alldro | | 2020-21 Cyfanswm Alldro | |
|---|---|---|---|---|
| | Croniadau £'000 | Sail arian parod £'000 | Croniadau £'000 | Sail arian parod £'000 |
| Incwm y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrifon | 2,704 | *2,772* | 2,780 | *2,403* |
| Arian parod dros ben y gellir ei ildio i'r Gronfa Gyfunol | – | *868* | – | *377* |
| **Cyfanswm y symiau a dalwyd ac sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **2,704** | ***3,640*** | **2,780** | ***2,780*** |

## SoPS4.2 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn y Datganiad Ymddiriedolaeth Nodyn 4.1 yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan yr adran pan oedd yn gweithredu fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach na fel y brif adran. Adroddir ar y symiau a gasglwyd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol (sydd fel arall wedi eu heithrio o'r prif ddatganiadau ariannol) fel rhan o Ddatganiad Ymddiriedolaeth yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn.

# Datgeliadau atebolrwydd seneddol

## 1. Colledion a thaliadau arbennig (wedi eu harchwilio)

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig ar sail unigol neu gronnol y mae angen eu datgelu oherwydd eu maint neu eu natur yn ystod 2021-22 (2020-21: dim).

## 2. Ffïoedd a thaliadau (wedi eu harchwilio)

Cynhyrchir y wybodaeth ganlynol am brif weithgareddau Cofrestrfa Tir EM at ddibenion ffïoedd a thaliadau ac nid yw'n ffurfio adroddiad segmentau o dan IFRS 8 (gweler Cyfrif Adrannol Nodyn 2).

| | Statudol | | | Anstatudol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cofrestru teitl[2] | Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol[3] | Pridiannau Tir Lleol[4] | Incwm rhent | Incwm masnachol[5] | Cyfanswm |
| **2021-22** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Incwm | 307,023 | 7,279 | 408 | 2,704 | 4,219 | **321,633** |
| Cost y gwasanaeth | (320,404) | (190) | (6,975) | – | (1,718) | **(329,287)** |
| Treuliau gweinyddol | (33,095) | (31) | (18) | (337) | (265) | **(33,746)** |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu** | **(46,476)** | **7,058** | **(6,585)** | **2,367** | **2,236** | **(41,400)** |
| **2020-21** | | | | | | |
| Incwm | 226,042 | 6,268 | 225 | 2,780 | 3,857 | **239,172** |
| Cost y gwasanaeth | (294,768) | (163) | (3,178) | – | (2,412) | **(300,521)** |
| Treuliau gweinyddol | (26,460) | (27) | (3,610) | (329) | (373) | **(30,799)** |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu** | **(95,186)** | **6,078** | **(6,563)** | **2,451** | **1,072** | **(92,148)** |

1. Wedi ei archwilio
2. Cofrestru teitl – yn cynnwys dyletswyddau statudol Cofrestrfa Tir EM o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002.
3. Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol – cofrestr o fenthyciadau tymor byr wedi eu gwarantu ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill.
4. Pridiannau Tir Lleol – roedd Deddf Seilwaith 2015 wedi trosglwyddo cyfrifoldeb i Gofrestrfa Tir EM am gynnal cofrestr o Bridiannau Tir Lleol yn raddol. Rhoddwyd cymeradwyaeth i gyflwyno Pridiannau Tir Lleol fesul cam ac aeth gwasanaeth cam 1 yn fyw yng Ngorffennaf 2018.
5. Incwm Masnachol – yn cynnwys rhyddhau data Cofrestrfa Tir EM yn fasnachol.

## 3. Rhwymedigaethau digwyddiadol o bell

Mae'r barnau a luniwyd i roi gwerth ar y Gronfa Indemniad yn asesiad ar gyfer digwyddiadau ar yr adeg hon ac nid ydynt yn cynnwys asesiad ar gyfer digwyddiadau sy'n rhy ansicr neu'n rhy bell i'w cynnwys. Felly nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o'r newid posibl yng ngwerth y ddarpariaeth ar gyfer digwyddiadau ansicr a dim ond ar gyfer newidiadau yng ngwerth digwyddiadau hysbys y gwneir asesiad. Dangosir rhagor o fanylion am effaith newidiadau mewn digwyddiadau hysbys ar dudalennau 116 a 117.

Simon Hayes

**Simon Hayes**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
8 Gorffennaf 2022

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

— Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel ar 31 Mawrth 2022;

— Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r

— nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

— yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2022 a'i gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

— wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

— mae'r Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 ac yn dangos na wariwyd mwy na'r cyfansymiau hynny; ac

— mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (UK) (ISAs UK), y gyfraith sy'n gymwys, a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig*. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwyf yn annibynnol ar Gofrestrfa Tir EM yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cofrestrfa Tir EM o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth arwyddocaol ar allu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o ddyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cofrestrfa Tir EM wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na fy nhystysgrif ac adroddiad archwilydd. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall heblaw i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd trwy gynnal yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall honno, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staffio sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

— mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol

â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac

— mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yn sgîl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gofrestrfa Tir EM a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

— nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu

— nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan Gofrestrfa Tir EM neu nid yw manylion digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu

— nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a manylion cyfrifyddu; neu

— nid yw datgeliadau o dâl penodol a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM wedi eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

— nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y canlynol:

— cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;

— paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol cymwys ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;

— sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;

— rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall; ac

— asesu gallu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gwblheir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os yw'n rhesymol i ddisgwyl y gallant ddylanwadu, yn unigol neu ar y cyd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll**

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

**Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, cafodd y canlynol eu hystyried:

— natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM.

— holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EM a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cofrestrfa Tir EM mewn perthynas â:

  – nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  – canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; a'r
  – rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Cofrestrfa Tir EM sy'n ymwneud â'i chydymffurfiaeth â Deddf Adnoddau a Chyfrifon 2000 a Rheoli Arian Cyhoeddus

— trafodaethau'r tîm ymgysylltu a chynnwys arbenigwyr mewnol a/neu allanol perthnasol, gan gynnwys rhai yn ymwneud â Chronfa Indemniad Cofrestrfa Tir EM ynghylch sut a ble y gallai twyll godi yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Cofrestrfa Tir EM ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn debyg i bob archwiliad o dan ISAs (DU), mae hefyd yn ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o ddiystyru gan reolwyr.

Rwyf hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cofrestrfa Tir EM yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddio eraill y mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu sydd wedi cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Cofrestrfa Tir EM. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Deddf Rheoli Arian Cyhoeddus, Cyflenwi a Dyrannu (Prif Amcangyfrifon) 2021, Deddf Cofrestru Tir 2002, Rheolau Cofrestru Tir 2003, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir 1972 a deddfwriaeth cyflogaeth, pensiynau a deddfwriaeth dreth berthnasol.

**Ymateb archwilio i'r risg a nodwyd**
O ganlyniad i gyflawni'r uchod, roedd y gweithdrefnau a weithredais i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru'r rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a luniwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Hefyd, cyfathrebais ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu gan gynnwys arbenigwyr mewnol ac allanol gan barhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy nhystysgrif.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**
Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth briodol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro yn erbyn Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheoli Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Heb Fod yn Gyllideb (Adnoddau) a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae hefyd yn ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â chyfrifoldeb llywodraethu dros, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseru arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad
Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **11 Gorffennaf 2022**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol adrannol

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu arall | 3.1 | (2,704) | (2,780) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(2,704)** | **(2,780)** |
| Costau staff | 4.1 | 269,188 | 243,735 |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 3.2 | 76,670 | 70,497 |
| Dibrisio, amorteiddio a thaliadau amharu | 3.2 | 12,274 | 14,005 |
| Darpariaeth indemniad a thaliadau ar gyfer indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol | 3.2 | 4,960 | 3,049 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **363,092** | **331,286** |
| **Gwariant gweithredu net** | | **360,388** | **328,506** |
| Cyfalaf grant mewn nwyddau | 3 | 231 | 52,752 |
| Incwm cyllid: Llog | 5 | (51) | (19) |
| Treuliau ariannu: Prydlesi Ariannu | 6 | 1,280 | 575 |
| (Elw)/Colled ar waredu asedau anghyfredol | SoCF | (12) | – |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **361,836** | **381,814** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 7 | – | 2,484 |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **361,836** | **384,298** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102 i 120 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau Hawl Defnyddio | 10 | 66,233 | – |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu | 9 | 35,290 | 24,862 |
| Asedau anniriaethol | 8 | 46,169 | 21,750 |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 7 | 21,906 | 21,891 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 2,972 | 472 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **172,570** | **68,975** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 14,296 | 5,439 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 11 | 31,214 | 23,474 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **45,510** | **28,913** |
| **Cyfanswm asedau** | | **218,080** | **97,888** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 13 | 71,435 | 60,815 |
| Ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 10 | 5,765 | 310 |
| Darpariaethau tymor byr | 14.1 | 53 | 60 |
| Cronfa Indemniad | 14.2 | 69,800 | 70,600 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **147,053** | **131,785** |
| **Asedau anghyfredol a hefyd (rhwymedigaethau)/asedau cyfredol net** | | **71,027** | **(33,897)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 10 | 68,405 | 3,699 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **68,405** | **3,699** |
| **(Rhwymedigaethau)/asedau net** | | **2,622** | **(37,596)** |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | |
| Cronfa Gyffredinol | SoCTE | 2,622 | (37,596) |
| **Cyfanswm Ecwiti** | | **2,622** | **(37,596)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102 i 120 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

Simon Hayes

**Simon Hayes**
**Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir**
8 Gorffennaf 2022

# Datganiad o lifoedd arian parod am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Incwm/(gwariant) gweithredu net | SoCNE | (360,388) | (328,506) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | | | |
| Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar | 3.2 | 10,464 | 7,173 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 3.2 | 1,309 | 4,632 |
| Amhariad asedau anghyfredol | 3.2 | 501 | 2,200 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 10, 12 | (7,357) | 1,686 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill | 13 | 2,880 | (6,013) |
| Llai o symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r SoCNE | | 1 | (1) |
| Tâl yr archwilydd | 3.2 | 106 | 106 |
| Gostyngiad/(cynnydd) yn y Gronfa Indemniad | 14.2 | 4,980 | 3,029 |
| Defnydd o Ddarpariaeth y Gronfa Indemniad | 14.2 | (5,780) | (5,629) |
| Defnydd o ddarpariaethau eraill | 14.1 | (7) | (458) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(353,291)** | **(321,781)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | | (5,036) | (8,847) |
| Prynu asedau anniriaethol | | (36,708) | (23,316) |
| Enillion o waredu asedau diriaethol | | 496 | – |
| Llog a dderbyniwyd ar adneuon banc | 5 | – | 19 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(41,248)** | **(32,144)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – blwyddyn gyfredol | SoCTE | 413,327 | 380,650 |
| Ad-daliadau o elfen gyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 10 | (6,178) | (273) |
| Elfen llog ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 6 | (1,280) | (575) |
| Llog a dderbyniwyd ar brydlesi | 5 | 51 | – |
| **Ariannu net** | | **405,920** | **379,802** |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | 11,381 | 25,877 |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | (3,640) | (2,403) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | 7,741 | 23,474 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r cyfnod** | 11 | 23,474 | – |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y cyfnod** | 11 | **31,215** | **23,474** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102 i 120 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | Cronfa wrth gefn ailbrisio £'000 | Cronfa Gyffredinol £'000 | Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **24,981** | **(33,158)** | **(8,177)** |
| Cronfa Seneddol Net – wedi ei dynnu i lawr | | – | 380,650 | 380,650 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | – | (381,814) | (381,814) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | | – | (2,403) | (2,403) |
| Tâl yr archwilydd | 3.3 | – | 106 | 106 |
| Enillion a cholledion ailbrisio | SoCNE | (2,484) | – | (2,484) |
| Trosglwyddiad cronfa wrth gefn ailbrisio | | (22,497) | 22,497 | – |
| Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 11 | – | (377) | (377) |
| Addasiad cyflenwad (taladwy)/derbyniadwy | 11 | – | (23,097) | (23,097) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | | **–** | **(37,596)** | **(37,596)** |
| Cronfa Seneddol Net – wedi ei dynnu i lawr | | – | 436,801 | 436,801 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SoCNE | – | (361,835) | (361,835) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | | – | (3,640) | (3,640) |
| Tâl yr archwilydd | 3.3 | – | 106 | 106 |
| Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 11 | – | (309) | (309) |
| Symiau'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol am y flwyddyn | 11 | – | (30,905) | (30,905) |
| **Ecwiti Trethdalwyr ar 31 Mawrth 2022** | | **–** | **2,622** | **2,622** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 102 i 120 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon adrannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2021-22 ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y Llawlyfr yn dilyn Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u haddasir neu fel y'u dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Cofrestrfa Tir EM at ddibenion penodol rhoi darlun gwir a theg. Cymhwyswyd polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol o ran y datganiadau ariannol.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad o Gyflenwad Seneddol a nodiadau ategol i ddangos Alldro yn erbyn Amcangyfrif o ran gofyniad adnoddau net a gofyniad arian parod net.

Mae rhwymedigaeth gyfredol ar yr adran o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol mewn perthynas â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r adran yn y dyfodol. Yn yr un modd ag adrannau eraill o'r llywodraeth, mae ariannu rhwymedigaethau'r adran yn y dyfodol i'w talu gan grantiau Cyflenwad yn y dyfodol a chymhwyso incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan y Senedd. Ystyrir felly ei bod yn briodol paratoi'r cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol.

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Bydd *Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nad ydynt yn effeithiol eto IFRS 17 Contractau Yswiriant* yn dod i rym o 1 Ionawr 2023 ar gyfer sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Rhagwelir na chaiff y safon adrodd hon unrhyw effaith gyfrifyddu ar Gofrestrfa Tir EM oherwydd ni ddelir unrhyw gontractau yswiriant o'r fath.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi ei addasu ar gyfer ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddi, Asedau a Ddelir i'w Gwerthu ac Asedau Anniriaethol i werth teg fel y pennir gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Meysydd o amcangyfrif a barnau arwyddocaol

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Yr amcangyfrifon a'r barnau oedd â risg arwyddocaol o achosi addasiad sylweddol i'r symiau sy'n cario o asedau a rhwymedigaethau o fewn y cyfnod cyfrifyddu nesaf yw:

- Nodyn 9 – Prisiad ac oes economaidd ddefnyddiol yr asedau anniriaethol. Y prisiad yw cost amnewid uniongyrchol y gofrestr a'r data sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Mae'r gost amnewid yn cynnwys yr holl gostau sy'n cael eu mesur yn ddibynadwy ac mae'r oes economaidd yn cael ei hadolygu bob blwyddyn ariannol i benderfynu a yw digwyddiadau ac amgylchiadau yn parhau i gefnogi'r oes a ddewiswyd. Ar gyfer Asedau Anniriaethol, estynnwyd oes economaidd ddefnyddiol asedau data ac asedau a ddatblygwyd yn fewnol yn bwrpasol. Gwnaethpwyd y newid hwn i'r cyfrif yn rhagolygon, gan ei fod yn adlewyrchu newid yn yr amcangyfrif cyfrifyddu o ddechrau blwyddyn ariannol 2021-22.
- Nodyn 13.2 – amcangyfrif o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i setlo'r holl hawliadau indemniad y gwyddys amdanynt ac sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR) – lle y ceir ansicrwydd o ran cyfran yr hawliadau sy'n aros i'w prosesu a gaiff eu talu yn y pen draw, gwerth y taliadau hynny ac effaith unrhyw farnau cyfreithiol. Ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd, ni wyddys nifer yr hawliadau sydd heb eu hadrodd a hefyd yr adeg pan fydd gwall yn dod i'r amlwg a gwerth unrhyw hawliad posibl.

### 1.4 Incwm o gontractau gyda chwsmeriaid

Mae IFRS 15 *Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid* wedi cael ei fabwysiadu. Mae meini prawf cydnabod incwm o fewn IFRS 15 yn gyson â pholisi cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM. Mae'r holl ffïoedd a thaliadau statudol yn cael eu dal mewn Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM ar wahân. Mae incwm yn y Datganiad o Wariant Net yn ymwneud ag incwm rhenti eiddo a gydnabyddir wrth i'r symiau fod yn ddyledus.

### 1.5 Segmentau gweithredu

Segmentau gweithredu Cofrestrfa Tir EM yw'r cyfarwyddiaethau yr adroddir arnynt mewn modd sy'n gyson â'r adrodd mewnol a ddarperir i'r Prif Benderfynwr Gweithredu. Y saith segment busnes y gellir adrodd arnynt yw: Swyddfa'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir, Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Cyllid a Busnes, Gweithrediadau, Cyfreithiol, Trawsnewid a Digidol, Data a Thechnoleg. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadaeth fewnol a strwythur rheoli'r grŵp, a dyma'r brif ffordd y mae'r Prif Penderfynwr Gweithredu yn cael gwybodaeth ariannol. Prif Benderfynwr Gweithredu Cofrestrfa Tir EM yw Simon Hayes, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir.

### 1.6 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir y gost o ddarparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd Cofrestrfa Tir EM yn cael gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel gwariant yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynlluniau neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddiad gwirfoddol.

### 1.7 Pensiynau

Mae gweithwyr Cofrestrfa Tir EM yn weision sifil sydd â'r hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – sef alpha. Cynlluniau buddion wedi eu diffinio aml-gyflogwr heb eu hariannu yw'r rhain, ond ni all Cofrestrfa Tir EM nodi ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol ar sail resymol a chyson. Felly mae Cofrestrfa Tir EM wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i'r cynlluniau hyn o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 Buddion Gweithwyr fel petaent yn gynlluniau cyfraniad wedi ei ddiffinio. Mae atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei godi ar y cynllun PCSPS neu alpha.

### 1.8 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol gan briswyr eiddo allanol, annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn lleoliad a chategori'r eiddo a brisir. Cynhaliodd Montagu Evans (prisiwr cofrestredig Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)) brisiad bwrdd gwaith ym Mawrth 2021 i hwyluso'r broses o drosglwyddo asedau i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM ddatgelu asedau anghyfredol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am werth teg. Ar gyfer asedau sy'n cael eu defnyddio mae'r FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i asedau gweithredol gael eu mesur am eu gwerth teg trwy ddefnyddio'r gwerth cyfredol yn eu defnydd presennol, yn hytrach na gwerth y farchnad fel sy'n ofynnol gan IFRS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae manylion addasiadau FReM sy'n parhau i fod yn gymwys ar gyfer 2021-22 i'w gweld ar GOV.UK (chwiliwch 'Llawlyfr Adrodd Ariannol 2021-22').

Ar gyfer asedau oes fer heblaw eiddo, defnyddir cost hanesyddol yn fras amcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi eu cynnwys yn ôl ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Mae'r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys yn ôl cost hanesyddol llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Ar gyfer asedau eraill mae'r tâl dibrisiad yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu cost neu swm wedi ei ailbrisio, llai amcangyfrif o werth gweddillol asedau anghyfredol, yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio dull llinell syth.

Mae eiddo, offer a chyfarpar arall yn cynnwys cyfarpar a pheiriannau TG a swyddfa. Mae Cofrestrfa Tir EM yn cyfalafu gwariant dros £1,000 ar gyfer ased unigol. Lle y bo'n briodol, mae asedau unigol sy'n is na'r lleiafswm gwerth ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi Cofrestrfa Tir EM yw peidio â chyfalafu gwariant ar osodiadau neu ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn sylweddol.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Yn 2021-22, diwygiwyd y polisi ar gyfer dibrisio Oesau Economaidd Defnyddiol i adlewyrchu natur sylfaenol yr asedau sy'n cael eu caffael gan Gofrestrfa Tir EM, lle canfyddir bod amrediad o 3 i 5 mlynedd yn adlewyrchu'n well yr asedau sylfaenol newydd yn hytrach na chyfnod sefydlog o 5 mlynedd.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | Dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | Amcangyfrif o oes ddefnyddiol |
| Adeiladau prydlesol | Cyfnod y brydles neu amcangyfrif o oes ddefnyddiol |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 5 mlynedd |
| Cyfarpar swyddfa | 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron: Prif-ffrâm | 3 i 5 mlynedd |
| Cyfrifiaduron: personol | 5 mlynedd |
| Ceblau strwythuredig | 10 mlynedd |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 mlynedd |

### 1.9 Prydlesi

Arweiniodd mabwysiadu IFRS 16 *Prydlesi* ar 1 Ebrill 2021 at asedau a ddosbarthwyd yn flaenorol fel eiddo, peiriannau ac offer a ddelir o dan brydlesi ariannu yn cael eu hailddosbarthu fel asedau hawl defnyddio, a'u datgelu o dan Nodyn 10.1, gyda'r costau cysylltiedig yn cael eu cydnabod yn Nodyn 10.2. Nid yw'r asedau a'r rhwymedigaethau hyn yn cynnwys y rheini sydd â phrydles oes fer (llai na 12 mis), neu a ystyrir yn 'werth isel' o dan IFRS 16.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn dal prydles sengl y mae'n ei diffinio fel gwerth isel gan ei bod yn werth £6k. Ar gyfer y brydles benodol hon, mae'r meini prawf gwerth isel yn briodol gan ei fod yn ymwneud ag isbrydles fach iawn o fewn eiddo llawer mwy y llywodraeth.

*Cydnabyddiaeth gychwynnol*

Ar ddechrau'r brydles (neu ddyddiad IFRS 16, os yn hwyrach), mae Cofrestrfa Tir EM yn cydnabod ased hawl defnyddio a rhwymedigaeth prydles.

Mae'r rhwymedigaeth prydles yn cael ei mesur adeg y taliad am weddill cyfnod y brydles (fel y'i diffinnir uchod), yn glir o dreth ar werth anadferadwy, wedi ei disgowntio naill ai gan y gyfradd sydd ymhlyg yn y brydles, neu (lle na ellir pennu hyn) gyfradd fewnol ganolog benthyca Cofrestrfa Tir EM. Y taliadau sydd wedi eu cynnwys yn y rhwymedigaeth yw'r rhai sy'n sefydlog, neu yn sefydlog o ran eu sylwedd, heb gynnwys taliadau sy'n codi (hynny yw o adolygiadau rhent neu fynegeion yn y dyfodol). Mesurir yr ased hawl defnyddio ar werth y rhwymedigaeth, wedi ei addasu ar gyfer: unrhyw daliadau a wnaed neu symiau a gronnwyd cyn y dyddiad cychwyn; cymhellion prydles a dderbyniwyd; costau cynyddrannol wrth gael y brydles; ac unrhyw gostau gwaredu ar ddiwedd y brydles.

*Mesur dilynol*

Mesurir yr asedau hawl defnyddio gan ddefnyddio'r model cost.

Mae'r rhwymedigaeth yn cael ei haddasu ar gyfer ad-daliadau llog.

*Gwariant prydles*

Mae gwariant yn cynnwys llog, dibrisiant llinell syth ac unrhyw amhariadau ar asedau ac unrhyw newidiadau mewn taliadau prydles amrywiol nad ydynt wedi eu cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth yn ystod y cyfnod y cododd y digwyddiad sbarduno. Mae taliadau prydles yn cael eu debydu yn erbyn y rhwymedigaeth. Mae taliadau rhent ar gyfer prydlesi lle mae'r cyfnod yn 12 mis neu lai, neu lle mae'r brydles wedi ei dosbarthu fel gwerth isel, yn cael eu codi fel treuliau.

*Cyfradd benthyca*

Mae Cofrestrfa Tir EM yn defnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM fel ei chyfradd fenthyca gynyddrannol. Mae papur PES (2021) 10 Trysorlys EM yn nodi mai'r gyfradd fenthyca gynyddrannol (cyfradd nominal) ar gyfer prydlesi sy'n dechrau ym mlwyddyn galendr 2021 yw 0.91%.

*Trefniadau*

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi gwneud y penderfyniad i fabwysiadu IFRS 16 gan ddefnyddio'r dull dal i fyny cronnus. O ganlyniad, ni fydd cymariaethau'n cael eu hailddatgan a chydnabyddir mesur balansau asedau a rhwymedigaethau o 1 Ebrill 2021. O ganlyniad, mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar gyfer 2020-21 yn adlewyrchu gofynion IAS 17.

Ar gyfer prydlesi a gydnabuwyd yn flaenorol fel Prydlesi Ariannol, bydd gwerth cario yr ased prydles a'r rhwymedigaeth fel y'i mesurwyd yn union cyn ei

fabwysiadu gyntaf yn cael ei ddefnyddio fel y'i prisiwyd o dan IAS 17 i ddarparu gwerth cario'r ased hawl defnyddio a rhwymedigaeth prydles pan y'i mabwysiadir gyntaf.

Ar gyfer prydlesi a gydnabuwyd yn flaenorol fel Prydlesi Gweithredu, bydd yr ased hawl defnyddio a'r rhwymedigaeth gysylltiedig yn cael eu mesur trwy gyfrifo gwerth presennol y taliadau sy'n weddill, wedi eu disgowntio fel y nodir uchod yn 'Cydnabyddiaeth Gychwynnol'.

*Cyfrifyddu ar gyfer prydlesi o dan IAS 17 (2020-21)*
Os yw Cofrestrfa Tir EM yn cadw holl risgiau a gwobrwyon bod yn berchen ar ased sy'n ddarostyngedig i brydles o dan IAS 17, mae'r brydles yn cael ei thrin fel prydles ariannu. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi ariannu, yn glir o daliadau ariannu, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi eu cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig neu gyfnod eu prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen ariannu, a godir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r ymrwymiad sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.10 Eiddo buddsoddi**
Mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur yn ôl ei werth teg. Y prisiad gwerth teg yw ei werth cyfredol ar y farchnad yn ei ddefnydd presennol. Cafodd holl eiddo buddsoddi Cofrestrfa Tir EM eu cynnwys yn y trosglwyddiad Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2021.

**1.11 Asedau anniriaethol**
Nodir asedau anniriaethol yn ôl cost hanesyddol llai amorteiddiad cronedig a cholledion amhariad cronedig fel dirprwy ar gyfer gwerth teg, gan nad yw marchnad weithredol yn bodoli ar gyfer asedau anniriaethol yr adran. Gelwir y driniaeth hon hefyd yn Gost Amnewid Wedi ei Dibrisio.

*Adolygiad blynyddol o Oes Economaidd Ddefnyddiol o Asedau Anniriaethol*
Yn 2021-22, cynhaliodd Cofrestrfa Tir EM ei hadolygiad blynyddol o Oesau Economaidd Defnyddiol Asedau Anniriaethol yn unol ag IAS 38 *Asedau Anniriaethol*. Defnyddiodd adolygiad Cofrestrfa Tir EM y ddau ddangosydd mewnol a hefyd meincnodi ei Oesau Economaidd Defnyddiol yn erbyn y rhai a ddefnyddir mewn sefydliadau tebyg yn y sector cyhoeddus. O ganlyniad, gwnaeth Cofrestrfa Tir EM y newidiadau canlynol i Oesau Economaidd Defnyddiol:

| | Oes newydd | Hen oes |
|---|---|---|
| Meddalwedd pwrpasol a ddatblygwyd yn fewnol | 10 mlynedd | 5 mlynedd |
| Asedau data | 15 mlynedd | 10 mlynedd |

*Pridiannau Tir Lleol*
Cwblhaodd Cofrestrfa Tir EM y gwaith o adeiladu a datblygu cofrestr gyfrifiadurol i gadw data Pridiannau Tir Lleol yng Ngorffennaf 2018. Ar 31 Mawrth 2022, ychwanegwyd y data sy'n gysylltiedig ag 23 awdurdod lleol at y gofrestr ac mae'n cael ei ddefnyddio (2020-21: 13 awdurdod lleol).

O dan IAS 38, cyfalafwyd costau datblygu ar gyfer dau ased ar wahân: cronfa ddata i ddal y wybodaeth; a'r data, y mae angen eu glanhau, eu digido a'u mudo i'r gronfa ddata hon. Ar ôl dechrau gwasanaeth y gofrestr, caiff y cydrannau hyn eu hamorteiddio dros eu hoesau defnyddiol priodol sef:

| | |
|---|---|
| Cofrestr Pridiannau Tir Lleol | 10 mlynedd |
| Data Pridiannau Tir Lleol | 15 mlynedd |

*Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd*
Mae asedau anniriaethol a gafaelwyd ar wahân yn cael eu dangos yn ôl cost hanesyddol. Mae'r costau a gafwyd i gaffael a dechrau defnyddio'r asedau hyn wedi eu cyfalafu. Mae'r rhain yn cynnwys costau contractwyr, deunyddiau, costau llafur i'w priodoli'n uniongyrchol a chostau gorbenion i'w priodoli'n uniongyrchol. Mae trwyddedau meddalwedd wedi eu cynnwys yn ôl cost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd prif ffrâm | 5 mlynedd |
| System meddalwedd | 10 mlynedd |
| Trwyddedau meddalwedd | Yn unol â chytundebau trwydded |

Mae agwedd Cofrestrfa Tir EM at ddatblygu meddalwedd wedi ei nodi yn Nodyn 1.12.

*E-ddiogelwch, porthol a Business Gateway*
Roedd asedau E-ddiogelwch, porthol a Business Gateway i gyd wedi cael eu hamorteiddio'n llawn erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol, ond wedi eu cynnwys yn y cyfrifon am eu bod yn dal i gael eu defnyddio.

**1.12 Asedau sy'n cael eu Hadeiladu**
Delir yr holl Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu am gost. Mae Cofrestrfa Tir EM yn cydnabod tri chategori o Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu: Diriaethol, Anniriaethol – Pridiannau Tir Lleol, ac Anniriaethol – Arall. Mae'r dosbarthiadau hyn o asedau yn gysylltiedig â chyfalafu costau Pridiannau Tir Lleol yn ystod y flwyddyn, gwelliannau rheoli achos, mudo o'r brif ffrâm i gwmwl a morgais digidol. Mae rhagor o fanylion am forgais digidol ar gael ar GOV.UK (chwiliwch am 'HM Land Registry Digital Mortgage Service Contingent Liability').

*Anniriaethol arall – Costau datblygu meddalwedd*
Yn unol ag IAS 38, cyfalafir gwariant ar ddatblygu seilwaith TG newydd (gan gynnwys costau trydydd parti a chostau uniongyrchol ymdrech staff mewnol). Caiff costau datblygu sydd i'w priodoli'n uniongyrchol i gynllunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw a reolir gan Gofrestrfa Tir EM eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir gofynion IAS 38.

Mae'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol. Cydnabyddir gwariant datblygu arall nad yw'n bodloni'r meini prawf hyn fel treuliau a gafwyd. Nid yw costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae'r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

Cofnodir gwariant a gafwyd wrth ddatblygu meddalwedd fel ased anniriaethol sy'n cael ei adeiladu ac yna caiff ei drosglwyddo i'w ddefnyddio fel ased anniriaethol pan fydd y meddalwedd hwnnw a'r data cysylltiedig ar gael gan Gofrestrfa Tir EM i'w chwsmeriaid (naill ai fel rhan o'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol neu Arall).

Mae costau datblygu meddalwedd yn cael eu categoreiddio fel asedau sy'n cael eu hadeiladu o fewn Nodyn 9.

*Anniriaethol – Pridiannau Tir Lleol*

Mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithio gydag awdurdodau lleol amrywiol i drosglwyddo eu data pridiannau tir i blatfform digidol Cofrestrfa Tir EM.

*Asedau Digidol Trawsnewid*

Asedau meddalwedd digidol a ddatblygwyd o waith o fewn Cyfarwyddiaeth Trawsnewid Cofrestrfa Tir EM.

*Diriaethol-arall*

Mae'r maes hwn yn adlewyrchu ffrydiau gwaith eraill Cofrestrfa Tir EM gan gynnwys datblygu seilwaith TG.

**1.13 Amhariad asedau anghyfredol**

Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw'r ased yn cael ei gario am swm wedi ei ailbrisio, mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio, yn ôl maint y gronfa wrth gefn ailbrisio sy'n berthnasol i'r ased, gydag unrhyw swm dros ben wedi ei nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Os ceir unrhyw arwydd felly, amcangyfrifir swm adenilladwy yr ased er mwyn pennu graddfa'r golled amhariad. Y swm adenilladwy yw'r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth mewn defnydd.

Ar gyfer asedau sy'n cael eu datblygu, cynhelir adolygiad blynyddol i gadarnhau bod yr asedau hyn yn parhau i fodloni'r meini prawf mesur o fewn IAS 38 *Asedau Anniriaethol*.

**1.14 Symiau derbyniadwy masnach**

Nid yw symiau derbyniadwy masnach yn cario unrhyw log a chânt eu datgan yn ôl eu gwerth enwol wedi ei leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau annealladwy. Mae'r darpariaethau amhariad hyn yn cael eu cofnodi mewn treuliau gweinyddu yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Cymerir bod y swm sy'n cario o symiau derbyniadwy masnach yn fras amcan o werth teg.

Os disgwylir casglu symiau derbyniadwy o fewn blwyddyn neu lai, cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

**1.15 Arian parod ac arian parod cyfatebol**

Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian parod a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a banciau masnachol. Mae'r banc masnachol ac adneuon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn gronfeydd sydd ar gael ar unwaith. Caeodd Cofrestrfa Tir EM bob cyfrif banc masnachol yn ystod y flwyddyn, felly mae'r holl gronfeydd yn eistedd o fewn Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar ddiwedd y flwyddyn.

**1.16 Symiau taladwy masnach**

Mae symiau taladwy masnach yn ymrwymiadau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae symiau taladwy masnach wedi eu datgan yn ôl eu gwerth enwol. Ystyrir bod swm cario symiau taladwy masnach yn fras amcan o werth teg.

Mae cyfrifon taladwy wedi eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

**1.17 Darpariaethau**

Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol ac adeiladol sy'n ansicr o ran eu hamseru neu swm ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr ar y dyddiad hwnnw o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r ymrwymiad. Gan fod effaith disgowntio yn amherthnasol, caiff ei chynnwys fel rhan o'r ailbrisiad i'r ddarpariaeth honno yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'i datgelu ar linell ar wahân. Codir darpariaethau ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. (Mae manylion pellach, gan gynnwys sensitifrwydd, i'w gweld yn Nodyn 14).

**1.18 Cronfa Indemniad**

Mae Atodlen 8 Deddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM indemnio trydydd partïon yn erbyn colled a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwlio a dogfennau a gollwyd gan Gofrestrfa Tir EM. Mae'r rhan fwyaf o hawliadau indemniad Cofrestrfa Tir EM yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i ffugio dogfennau megis pridiannau. Yn wir mae twyll/ffugio fel arfer yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r taliadau indemniad, ac nid yw'r flwyddyn hon yn eithriad. O dan Atodlen 8 i'r Ddeddf, mae hawliau statudol gan Gofrestrfa Tir EM i adennill y taliadau hyn gan drydydd partïon, os yw'r trydydd partïon ar fai, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, am y golled.

Fel ar y dyddiad cyfrifyddu cyfredol, mae taliadau am hawliadau yn y dyfodol yn ansicr o ran eu hamseru a'u swm. Mae'r Gronfa Indemniad wedi ei sefydlu ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r ymrwymiad. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei gosod ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a adroddwyd ond heb eu setlo, yn ogystal â hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd. Mae'r amcangyfrif o gost hawliadau yn cynnwys y treuliau a gafwyd wrth setlo'r hawliadau hynny.

Mae swm sy'n cario y Gronfa Indemniad yn deillio o farnau beirniadol, amcangyfrifon a rhagdybiaethau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Adolygir yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol hyn yn chwarterol gan Gofrestrfa Tir EM, wedi ei chefnogi gan ei hactiwari annibynnol, sef Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Ar ôl y dyddiad cyfrifyddu, cynhelir adolygiad pellach o'r hawliadau a dderbyniwyd gan Gofrestrfa Tir EM (hyd at y dyddiad y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) er mwyn gweld a yw'r Gronfa Indemniad wedi ei phrisio'n briodol o hyd. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi'r gwerthoedd setlo tebygol ar gyfer hawliadau cyfredol a hawliadau yn y dyfodol yn erbyn y Gronfa Indemniad. Rhoddir manylion pellach am y Gronfa Indemniad yn Nodyn 14.2 o'r adroddiad hwn.

**1.19 Rhwymedigaethau digwyddiadol**

Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf darpariaethau wedi eu dosbarthu'n rhwymedigaethau digwyddiadol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldebau statudol Cofrestrfa Tir EM fel yr yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr (gweler Nodyn 15).

**1.20 TAW**

Mae Cofrestrfa Tir EM yn cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Allan Gwasanaethau Trysorlys EM. Ar gyfer gweithgarwch anstatudol – sef gweithgarwch busnes – codir TAW a'i hadennill yn ôl rheolau TAW fasnachol. Codir TAW anadenilladwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghostau prynu wedi eu cyfalafu asedau anghyfredol. Os yw treth wrth werthu yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth wrth brynu, nodir y symiau yn glir o TAW.

# 2 Segmentau gweithredu

## 2.1 Segmentau gweithredu

| 2021-22 | Busnes fel Arfer £'000 | Costau Canolog £'000 | Prosiectau £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir | 3,984 | – | – | 3,984 |
| Adnoddau Dynol | 8,279 | – | 1,774 | 10,053 |
| Cyllid a Gwasanaethau Busnes | 13,191 | 25,852 | 894 | 39,937 |
| Gweithrediadau | 206,137 | – | 12,901 | 219,038 |
| Cyfreithiol a Sicrwydd | 20,638 | 4,960 | – | 25,598 |
| Y Gyfarwyddiaeth Trawsnewid | 2,705 | (1,777) | 8,733 | 9,661 |
| Digidol, Data a Thechnoleg | 43,679 | 501 | 9,383 | 53,563 |
| **Cyfanswm** | **298,613** | **29,536** | **33,685** | **361,834** |
| **Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 3,408 | – | – | **3,408** |
| Cyllid a Gwasanaethau Busnes | 7,265 | (3) | 591 | **7,853** |
| Gweithrediadau | 11,102 | 84,199 | 2,999 | **98,300** |
| Cyfreithiol a Sicrwydd | 186,389 | – | 8,083 | **194,472** |
| Y Gyfarwyddiaeth Trawsnewid | 19,377 | 3,049 | – | **22,426** |
| Digidol, Data a Thechnoleg | 2,080 | 3,651 | 3,479 | **9,210** |
| | 37,209 | 490 | 11,226 | **48,925** |
| **Cyfanswm** | **266,830** | **91,386** | **26,378** | **384,594** |

Pennir Segmentau Gweithredu yn unol ag IFRS 8 *Segmentau Gweithredu* yn seiliedig ar ba wybodaeth a gyflwynir at ddibenion gwneud penderfyniadau i'r Prif Benderfynwr Gweithredu. Prif Benderfynwr Gweithredu Cofrestrfa Tir EM yw'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae strwythur Cofrestrfa Tir EM yn golygu bod yr holl asedau a gynhwysir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn eu hanfod yn cael eu defnyddio ar gyfer gweinyddiaeth gyffredinol a budd Cofrestrfa Tir EM yn ei chyfanrwydd. O ganlyniad, nid ydynt yn cael eu dosrannu i segmentau gweithredu yn y tabl uchod.

Nodir y disgrifiad ar gyfer pob segment gweithredu isod:

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Prif Gofrestrydd Tir**
Mae'r gyfarwyddiaeth yn gweithio i gynnal a gwella enw da Cofrestrfa Tir EM ar ran y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir trwy gyfathrebu corfforaethol, llywodraethu, polisi a swyddogaethau budd-ddeiliaid effeithiol.

**Adnoddau Dynol**
Mae Adnoddau Dynol yn gweithio i helpu Cofrestrfa Tir EM i gyflawni ei blaenoriaethau gweithredol a sefydliadol, a meithrin capasiti a gallu sefydliadol i gwrdd â heriau newydd.

**Cyllid a Gwasanaethau Busnes**
Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes yn cynnwys Rheoli Cyfleusterau, Cyllid, Archwilio Mewnol, Grŵp Masnachol, Cynllunio a Pherfformiad Strategol a Mewnwelediad, Data, Tystiolaeth a Chymorth Dadansoddol.

**Gweithrediadau**
Prif swyddogaeth y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau yw cofrestru tir a darparu lefel gynaliadwy o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid, wedi ei fesur yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol.

**Cyfreithiol a Sicrwydd**
Mae Cyfreithiol a Sicrwydd yn gweithio i ddiogelu cywirdeb y gofrestr, gan sicrhau bod gennym y rheolau, y gorchmynion, y cyfarwyddiadau a'r hysbysiadau yn eu lle i weithredu'n effeithiol.

**Y Gyfarwyddiaeth Trawsnewid**
Mae'r Gyfarwyddiaeth Trawsnewid yn llunio ac yn cydlynu'r gweithgaredd trawsnewid sy'n digwydd ar draws yr holl gyfarwyddiaethau eraill.

**Digidol, Data a Thechnoleg**
Mae'r gyfarwyddiaeth Digidol Data a Thechneg yn gyfrifol am: adeiladu gwasanaethau digidol newydd; diffinio a gweithredu strategaeth ddata Cofrestrfa Tir EM; datblygu cynhyrchion data; a rheoli, cynnal a datblygu'r holl dechnoleg y mae staff yn ei defnyddio.

**Ffrydiau gwariant**
Rhennir y ffrydiau gwariant yn dri chategori: busnes fel arfer; costau canolog; a phrosiectau. Bwriad yr isadran hon yw dangos costau rhedeg y gyfarwyddiaeth, y tasgau ychwanegol sy'n cael eu cwblhau gan y gyfarwyddiaeth (prosiectau), a gwahanu'r costau rhedeg canolog ar gyfer Cofrestrfa Tir EM (costau canolog).

**Costau Canolog**
Mae'r categori hwn yn cynnwys eitemau megis croniadau gwyliau staff, costau eiddo, dibrisio, amorteiddio, darpariaethau ac amhariadau sy'n cael eu monitro gan un gyfarwyddiaeth ond y gellid eu dosrannu ar draws y sefydliad. Ceir esboniadau isod ar gyfer yr anghysondebau mwyaf arwyddocaol sy'n codi yn y categori costau canolog.

Yn 2021-22, mae £231k o gostau canolog mewn Gwasanaethau Cyllid a Busnes yn cynnwys grant cyfalaf mewn nwyddau ar gyfer yr asedau gwaddol sy'n cael eu trosglwyddo i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth, yn dilyn trosglwyddo tir, ac adeiladau rhydd-ddaliol Cofrestrfa Tir EM a'r rhan fwyaf o'i hadeiladau prydles hir yn 2020-21 am £52.75m.

**Amrywiant rhwng Nodyn 2. Segmentau Gweithredu a'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net**
Cyflwynir y segmentau gweithredu a ddangosir uchod yn glir o refeniw (gweler Nodyn 3).

## 3 Nwyddau a gwasanaethau

### 3.1 Incwm gweithredu

| | Nodyn | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | | (2,704) | (2,780) |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **(2,704)** | **(2,780)** |

### 3.2 Costau eraill

| **Eitemau arian parod** | Nodyn | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau TG | | 19,934 | 16,065 |
| Costau llety | | 13,838 | 17,271 |
| Ffïoedd proffesiynol | | 11,478 | 10,160 |
| Costau staff eraill gan gynnwys hyfforddiant | | 5,386 | 4,992 |
| Taliadau a baich Pridiannau Tir Lleol | | 4,909 | 134 |
| Costau storio ffeiliau | | 4,230 | 4,121 |
| Costau arolwg a sganio | | 4,230 | 3,695 |
| Hurio peiriannau | | 2,872 | 2,792 |
| Costau Tribiwnlys haen gyntaf | | 2,756 | 3,141 |
| Costau postio ac argraffu | | 1,813 | 1,449 |
| Costau telathrebu | | 1,792 | 1,746 |
| Cynnal a chadw swyddfa | | 1,101 | 1,143 |
| Tâl am brydlesi gweithredu – adeiladau | 10 | 6 | 1,627 |
| Hysbysebu a marchnata | | 847 | 805 |
| Costau eraill | | 1,373 | 1,250 |
| **Cyfanswm gwariant arian parod** | | **76,565** | **70,391** |
| **Eitemau heb fod yn arian parod** | | | |
| Darpariaeth indemniad a thaliadau ar gyfer indemniad gan gynnwys costau cyfreithiol | 14 | 4,960 | 3,049 |
| Cyfalaf grant mewn nwyddau | SoPS 2 | 231 | 52,752 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a berchenogir | 7 | 4,360 | 6,570 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a brydlesir | 7, 10 | 6,104 | 603 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 8 | 1,309 | 4,632 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | 7 | 501 | 2,200 |
| Tâl yr archwilydd – ffi archwilio | 3.3 | 106 | 106 |
| **Cyfanswm gwariant heb fod yn arian parod** | | **17,571** | **69,912** |
| **Cyfanswm Costau Eraill** | | **94,136** | **140,303** |

### 3.3 Tâl yr Archwilydd

Mae Tâl yr Archwilydd yn ffi dybiannol yn y ddwy flwyddyn ariannol a delir trwy'r Broses Gyflenwi, sydd wedi ei dadansoddi fel a ganlyn:

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Archwiliad Cyfrifon Adnoddau | 86 | 86 |
| Archwiliad Cyfrifon Datganiad Ymddiriedolaeth | 20 | 20 |
| **Cyfanswm y ffi dybiannol** | **106** | **106** |

# 4 Gwybodaeth am weithwyr

## 4.1 Costau staff

| | 2021-22 | | | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | Staff parhaol £'000 | Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyflogau | 197,359 | 1,390 | **198,749** | 177,533 | 2,415 | **179,948** |
| Costau nawdd cymdeithasol | 19,933 | 123 | **20,056** | 17,258 | 165 | **17,423** |
| Costau pensiwn eraill | 50,088 | 295 | **50,383** | 45,798 | 566 | **46,364** |
| | **267,380** | **1,808** | **269,188** | **240,589** | **3,146** | **243,735** |

## 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan Gofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2021-22 | | | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm | Staff parhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Uwch reolwyr | 7 | – | **7** | 8 | – | **8** |
| Gweithrediadau | 4,671 | 17 | **4,688** | 4,303 | 24 | **4,327** |
| Prif Swyddfa | 684 | 15 | **699** | 567 | 8 | **575** |
| Digidol, Data a Thechnoleg | 672 | 6 | **678** | 548 | 45 | **593** |
| | **6,034** | **38** | **6,072** | **5,426** | **77** | **5,503** |

**4.3** Mae hawliau cyflog a phensiwn y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cofrestrfa Tir EM wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 77 i 79.

Nid yw'r costau staff yn Nodyn 4.1 yn cynnwys y costau staff hynny sydd wedi eu cyfalafu fel rhan o asedau anniriaethol. Yn ystod 2021-22 cyfalafwyd £11.0m (2020-21: £5.9m) o gostau staff ar gyfer adeiladu'r asedau anniriaethol hyn.

## 4.4 Pensiynau

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn alpha – yn gynlluniau buddion wedi eu diffinio aml-gyflogwr heb eu cyllido ond ni all Cofrestrfa Tir EM nodi ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actwari'r cynllun, Adran Actiwari'r Llywodraeth, y PCSPS ar 31 Mawrth 2021, gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 27 Ionawr 2022. Gallwch weld manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2021-22, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £50.1m yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (2020-21: £46.8m) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n cronni yn ystod 2021-22 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £0.40m i un darparwr pensiwn budd-ddeiliaid penodedig.

Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac wedi amrywio o 8% i 14.75%.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £9,258, sef 0.5% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad ar farwolaeth y gweithwyr hyn mewn gwasanaeth neu eu hymddeoliad ar sail afiechyd.

Y cyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £0.04m. Y cyfraniadau a ragdalwyd ar y dyddiad hwnnw oedd £0.

Roedd saith unigolyn wedi ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd; roedd y cyfanswm rhwymedigaethau pensiwn cronedig yn y flwyddyn yn gyfanswm o £27,923 (2020-21: £13,669).

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 80 i 81 a Nodyn 1.7.

## 5 Incwm ariannu

| | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| Llog a dderbyniwyd ar adneuon banc | – | 19 |
| Llog a dderbyniwyd ar brydlesi | 51 | – |
| | **51** | **19** |

## 6 Treuliau ariannu: Prydlesi ariannu

| | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Llog ar ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu** | **1,280** | **575** |

## 7 Eiddo, offer a chyfarpar

Yn dilyn mabwysiadu IFRS 16 o 1 Ebrill 2021 ymlaen, fel yr eglurir yn Nodyn 1.8, mae asedau a ddosbarthwyd yn flaenorol fel eiddo, offer a chyfarpar a ddelir o dan brydlesi ariannu wedi eu hailddosbarthu fel asedau hawl defnyddio a chânt eu datgelu o dan Nodyn 10.

### 7.1 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir rhydd-ddaliol<br>£'000 | Adeiladau rhydd-ddaliol<br>£'000 | Adeiladau prydlesol<br>£'000 | Asedau cysylltiedig â TG<br>£'000 | Offer a chyfarpar arall<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
| Ar 1 Ebrill 2021 | – | – | – | 90,721 | 2,501 | **93,222** |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 4,956 | 80 | 5,036 |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | – | – | 552 | – | 552 |
| Amhariad | – | – | – | (501) | – | (501) |
| Gwarediadau | – | – | – | (6,984) | (264) | (7,248) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | – | – | – | **88,744** | **2,317** | **91,061** |
| **Dibrisiad cronedig** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | – | – | – | 69,252 | 2,079 | **71,331** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | – | – | 4,239 | 121 | **4,360** |
| Gwarediadau | – | – | – | (6,502) | (34) | **(6,536)** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **–** | – | – | **66,989** | **2,166** | **69,155** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2022** | – | – | – | **21,755** | **151** | **21,906** |

## 7.2 Cost neu brisiad

| | Eiddo | | | Offer a chyfarpar | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tir rhydd-ddaliol £'000 | Adeiladau Rhyddddaliol £'000 | Adeiladau prydlesol £'000 | Asedau cysylltiedig â TG £'000 | Offer a chyfarpar arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 12,255 | 54,162 | 13,448 | 83,086 | 5,865 | **168,816** |
| Trosglwyddiad o eiddo buddsoddi | 80 | 2,122 | 1,112 | – | – | **3,314** |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 3,745 | 518 | **4,263** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | – | – | 4,293 | – | **4,293** |
| Ailbrisiad | (1,170) | (3,392) | 2,078 | – | – | **(2,484)** |
| Amhariad | (105) | (2,095) | – | – | – | **(2,200)** |
| Gwarediadau | (11,060) | (50,797) | (16,638) | (403) | (3,882) | **(82,780)** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | – | – | – | **90,721** | **2,501** | **93,222** |
| **Dibrisiad cronedig** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | – | 19,964 | 6,161 | 63,773 | 4,101 | **93,999** |
| Trosglwyddiad o eiddo buddsoddi | – | 60 | 124 | – | – | **184** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | 1,277 | 603 | 5,881 | 291 | **8,052** |
| Ailbrisiad | – | (481) | (397) | – | – | **(878)** |
| Gwarediadau | – | (20,820) | (6,491) | (402) | (2,313) | **(30,026)** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **–** | – | – | **69,252** | **2,079** | **71,331** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2021** | **–** | – | – | **21,469** | **422** | **21,891** |

Gweler Nodyn 1.8 am fanylion y polisi cyfrifyddu eiddo, offer a chyfarpar.

Gweler Nodyn 1.13 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.

Gweler Nodyn 7.3 am fanylion eiddo buddsoddi.

Gwerth marchnadol tir ac adeiladau ar y dyddiad trosglwyddo (31 Mawrth 2021) i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth oedd £51.2m, gan arwain at werth llyfr net dim ar gyfer Cofrestrfa Tir EM. Trosglwyddwyd £0.2m pellach o asedau peiriannau ac offer gwaddol i Astudiaeth Eiddo'r Llywodraeth ar 30 Tachwedd 2021, gan arwain hefyd at werth llyfr net dim ar gyfer Cofrestrfa Tir EM.

## 7.3 Eiddo buddsoddi

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | – | 3,130 |
| Trosglwyddo i dir ac adeiladau | – | (3,130) |
| Ailbrisio yn ystod y flwyddyn | – | – |
| Ailddosbarthu asedau | – | – |
| Gwarediadau | – | – |
| **Ar 31 Mawrth** | **–** | **–** |

Mae eiddo buddsoddi yn cynnwys nifer o eiddo a brydlesir i drydydd partïon naill ai'n rhannol neu'n llwyr. Trosglwyddwyd yr eiddo buddsoddi hyn i Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2021. Mae rhagor o wybodaeth am brydlesi sy'n weddill Cofrestrfa Tir EM i'w gweld yn Nodyn 10.

Penderfynwyd ar werthoedd teg eiddo buddsoddi gan briswyr eiddo annibynnol allanol sydd â'r cymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn lleoliadau a chategorïau'r eiddo a brisir.

# 8 Asedau anniriaethol
## 8.1 Cost neu brisiad

| | E-ddiogelwch, porthol a Business Gateway £'000 | Pridiannau Tir Lleol £'000 | Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2021 | 27,424 | 21,771 | 47,718 | **96,913** |
| Ychwanegiadau | – | – | 837 | **837** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | 3,636 | 21,255 | **24,891** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **27,424** | **25,407** | **69,810** | **122,641** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 27,424 | 8,788 | 38,951 | **75,163** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | 1,346 | (37) | **1,309** |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **27,424** | **10,134** | **38,914** | **76,472** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2022** | **–** | **15,273** | **30,896** | **46,169** |

## 8.2 Cost neu brisiad

| | E-ddiogelwch, porthol a Business Gateway £'000 | Pridiannau Tir Lleol £'000 | Ailddatganwyd: Meddalwedd a thrwyddedau meddalwedd £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2020 | 27,424 | 19,172 | 40,097 | **86,693** |
| Ychwanegiadau | – | – | 770 | **770** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | – | 2,599 | 6,851 | **9,450** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **27,424** | **21,771** | **47,718** | **96,913** |
| Amorteiddio | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2020 | 27,424 | 5,137 | 37,970 | **70,531** |
| Codwyd amdano yn y flwyddyn | – | 3,651 | 981 | **4,632** |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **27,424** | **8,788** | **38,951** | **75,163** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2021** | – | **12,983** | **8,767** | **21,750** |

Gweler Nodyn 1.12 am fanylion y polisi cyfrifyddu asedau anniriaethol.

Mae Ffigurau 2020-21 wedi eu hailddatgan i wahanu Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu sydd bellach i'w gweld yn Nodyn 9, a bu'n destun Archwiliad.

# 9 Asedau sy'n cael eu hadeiladu

| | Diriaethol | Anniriaethol | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau eraill £'000 | Pridiannau Tir Lleol £'000 | Trawsnewid Asedau Digidol £'000 | Ail-ddatganwyd: Asedau eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **2021-22** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 1,058 | 3,085 | 14,277 | 6,442 | **24,862** |
| Ychwanegiadau | 1,051 | 10,826 | 16,561 | 7,433 | **35,871** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | (552) | (3,636) | (20,643) | (612) | **(25,443)** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth** | **1,557** | **10,275** | **10,195** | **13,263** | **35,290** |
| **2020-21** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 767 | 989 | 5,392 | 4,327 | **11,475** |
| Ychwanegiadau | 4,584 | 4,185 | 15,735 | 3,007 | **27,511** |
| Asedau y dechreuwyd eu defnyddio | (4,293) | (2,089) | (6,850) | (892) | **(14,124)** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth** | **1,058** | **3,085** | **14,277** | **6,442** | **24,862** |

Gweler Nodyn 1.13 am fanylion y polisi cyfrifyddu amhariad.

## 10 Prydlesi

Fel yr esbonnir yn Nodyn 1.9, mabwysiadodd Cofrestrfa Tir EM IFRS 16 *Prydlesi* o 1 Ebrill 2021. Fel y caniateir gan FReM, mae Cofrestrfa Tir EM wedi ei roi ar waith gan ddefnyddio'r dull dal i fyny cronnus, heb ailddatgan ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r rhan fwyaf o brydlesi a gydnabyddir fel lesoedd gweithredu hyd at 31 Mawrth 2021 bellach yn cael eu cydnabod fel asedau prydles hawl defnyddio, gyda'r costau cysylltiedig yn cael eu cydnabod yn Nodiadau 10.2.

### 10.1 Asedau prydles hawl defnyddio

| | Adeiladau<br>£'000 |
|---|---|
| Cost neu brisiad | |
| IAS 17 i IFRS 16 | 4,597 |
| Ychwanegiadau | 71,742 |
| **Ar 31 Mawrth** | **76,339** |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ebrill | – |
| Prydlesi sydd wedi trosi | 2,084 |
| Prydlesi IFRS 16 | 4,783 |
| **Ar 31 Mawrth** | **6,867** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth** | **69,472** |

Mae asedau hawl defnyddio Cofrestrfa Tir EM a dibrisiant yn ystod y flwyddyn yn cael eu gwrthbwyso gan gyfrifyddu'r prydleswr fel a ganlyn:

| | £'000 |
|---|---|
| Trosi IAS 17 i IFRS 16: Gostyngiad mewn Gwerth Asedau | (4,002) |
| Trosi IAS 17 i IFRS 16: Gwrthbwyso dibrisiant | 763 |
| **Trosi IAS 17 i IFRS 16: Cyfanswm prydleswr** | **(3,239)** |
| **Cyfanswm gwerth asedau hawl defnyddio Cofrestrfa Tir EM** | **66,233** |

### 10.2 Rhwymedigaethau prydles: Gwerth presennol isafswm taliadau prydles

| | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau taladwy o dan brydlesi ariannu** | | |
| O fewn blwyddyn | 5,765 | 310 |
| Yn yr all i'r bumed flwyddyn | 21,990 | 1,714 |
| Ar ôl pum mlynedd | 46,415 | 1,985 |
| **Cyfanswm isafswm taliadau prydles** | **74,170** | **4,009** |
| Cyfredol | 5,765 | 310 |
| Anghyfredol | 68,405 | 3,699 |
| **Cyfanswm** | **74,170** | **4,009** |

### Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | Cyfanswm<br>£’000 |
|---|---|
| Dibrisiant | 6,867 |
| Taliadau Ariannu: Llog ar ymrwymiadau o dan brydlesi ariannu | 1,280 |
| Incwm Cyllid: Llog a dderbyniwyd ar brydlesi | (51) |
| Prydlesi gwerth isel a thymor byr | 6 |
| | **8,102** |

### Symiau a gydnabyddir yn y Datganiad o Lifoedd Arian Parod

| | Cyfanswm<br>£’000 |
|---|---|
| Taliadau Cyllid: Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 1,280 |
| Incwm Cyllid: Llog a dderbyniwyd ar brydlesi | (51) |
| **Ad-daliadau o’r prifswm ar brydlesi** | **1,229** |

### 10.3 Cofrestrfa Tir EM fel prydleswr

Ar 31 Mawrth mae’r taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol o dan brydlesi na ellir eu dileu yn dderbyniadwy fel a ganlyn:

| | 2021-22<br>£’000 | 2020-21<br>£’000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 617 | – |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | 1,634 | – |
| Ar ôl pum mlynedd | 1,120 | – |
| | **3,371** | **–** |

Nid yw hyn yn cynnwys isbrydlesi lle mae cyfnod y brydles yn llai na 12 mis neu lle mae rhent blynyddol yn cael ei ystyried yn werth isel (gweler Nodyn 1.9).

## 10.4 Cysoni o ymrwymiad prydles weithredol IAS 17 ar 31 Mawrth 2021 i rwymedigaeth prydles agoriadol IFRS 16 ar 1 Ebrill 2021

Mae'r tabl hwn yn cysoni swm ymrwymiadau prydles weithredu Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2021, a ddangosir yn Nodyn 10.2 i rwymedigaethau'r brydles ar 1 Ebrill 2021, yn union ar ôl mabwysiadu IFRS 16. Wedi hynny, mae'r eitemau cysoni sylweddol yn addasiad ar gyfer yr effaith o ddisgowntio ac ar gyfer asesiadau gwahanol o gyfnod y brydles (adlewyrchodd yr ymrwymiad prydles weithredu blaenorol symiau sy'n daladwy yn ystod cyfnod y brydles na ellir ei ddileu, tra bod cyfnod prydles IFRS 16 yn adlewyrchu asesiad Cofrestrfa Tir EM o'r tebygolrwydd y bydd yn ymestyn y brydles neu opsiynau dileu).

Mae rhwymedigaethau prydles agoriadol yn fwy nag asedau hawl defnyddio agoriadol oherwydd mae rhai eiddo yn cael eu his-osod felly mae'r ased yn cael ei ddosbarthu fel derbyniadwy, ac mae croniadau prydles weithredu a gydnabyddir o dan IAS 17 yn cael eu dad-gydnabod a'u didynnu o'r ased hawl defnyddio pan fydd IFRS 16 yn weithredol.

| | £'000 |
|---|---|
| **Prydlesi gweithredu a ddatgelwyd ar 31 Mawrth 2021** | 4,866 |
| Newid mewn gwerth mewn prydlesi gweithredu | 18 |
| Prydlesi gweithredu islaw meini prawf cydnabod IFRS 16 | (6) |
| **Gwerth y brydles weithredu ar 1 Ebrill 2021** | **4,878** |
| Effaith disgowntio | (281) |
| Rhwymedigaeth prydles ariannu bresennol | 4,009 |
| **Rhwymedigaeth prydles ariannu ar 1 Ebrill 2021** | **8,606** |
| Prydlesi ariannu a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth | 71,742 |
| **Cyfanswm gwerth cyfalaf prydlesi ariannu** | **80,348** |
| Ad-daliad cyfalaf o brydlesi yn ystod y flwyddyn | (6,178) |
| **Rhwymedigaeth prydles ariannu ar 31 Mawrth 2022** | **74,170** |

## 11 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | 23,474 | – |
| Newid net mewn balansau arian parod | 7,740 | 23,474 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **31,214** | **23,474** |
| | | |
| **Roedd y balans ar 31 Mawrth yn cael ei gadw yn** | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 31,214 | 23,498 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | – | (24) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **31,214** | **23,474** |

Asedau ariannol Cofrestrfa Tir EM yw balansau banc ac arian parod, a masnach a symiau derbyniadwy eraill, sy'n cynrychioli'r risg credyd mwyaf posibl mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd i'w briodoli'n bennaf i fasnach a symiau derbyniadwy eraill ac mae wedi ei ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn glir o lwfansau am symiau derbyniadwy amheus, wedi eu hamcangyfrif gan y rheolwyr yn seiliedig ar brofiadau blaenorol ac asesiad o'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae balansau banc Cofrestrfa Tir EM yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Yn 2020-21, cadwyd cronfeydd cyfyngedig o fewn cyfleusterau bancio masnachol ond mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu cau erbyn hyn.

Mae'r balans 'Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw' yn cynnwys 'Arian parod sy'n cael ei gludo', gyda'r cyfrifon banc cysylltiedig mewn credyd ar ddiwedd y flwyddyn.

## 12 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

### 12.1 Cyfredol

| | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy masnach | – | – |
| Symiau derbyniadwy eraill | 5,197 | 1,845 |
| Hawl Defnyddio: Ad-daliad yn y flwyddyn | (817) | – |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 8,522 | 3,594 |
| | **12,902** | **5,439** |
| Hawl Defnyddio: Dyledwyr | 1,394 | – |
| | **14,296** | **5,439** |

Mae'r 'Hawl Defnyddio: Ad-daliad yn y flwyddyn' wedi ei gynnwys yn gywir yn y nodyn 'Symiau derbyniadwy'. Y rheswm am hyn yw oherwydd pan fydd y prydleseion yn gwneud taliad, mae'r balans hwn yn lleihau, sy'n cael ei wrthbwyso yn erbyn yr 'Hawl Defnyddio: Dyledwyr', felly dylid cyflwyno'r rhain gyda'i gilydd i ddarparu dealltwriaeth gyflawn o'r trafodion sylfaenol.

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer darparu gwasanaethau yw 5.3 diwrnod (2020-21: 4.2 diwrnod). Ni chodir unrhyw log ar y symiau derbyniadwy.

Mae'r rhenti derbyniadwy yn cael eu derbyn a'u cyfrif amdanynt cyn y cyfnod meddiannu ac mae'r tebygolrwydd o beidio â chasglu rhenti a bod yn agored i risg credyd wedi cael ei bennu'n anarwyddocaol o ran risg cyffredinol, gyda'r asesiadau hyn heb eu newid yn sgil effaith y coronafeirws (COVID-19).

### 12.2 Anghyfredol

| | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr Hawl Defnyddio | 2,608 | – |
| Symiau derbyniadwy eraill | 64 | 128 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 300 | 344 |
| | **2,972** | **472** |

Bernir bod symiau sy'n cario masnach a symiau derbyniadwy eraill yn fras amcan o'u gwerthoedd teg.

## 13 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

### 13.1 Cyfredol

| | Nodiadau | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Symiau taladwy masnach | | 1,912 | 969 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | | 5,476 | 5,165 |
| Symiau taladwy eraill | | 5,154 | 4,859 |
| Croniadau | | 27,679 | 26,348 |
| CFER Incwm sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | 309 | 377 |
| Symiau a ryddhawyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer Cyflenwad ond heb eu gwario ar 31 Mawrth | 11 | 30,905 | 23,097 |
| | | **71,435** | **60,815** |
| Ymrwymiadau net o dan brydlesi cyllid – adeiladau | 10 | 5,765 | 310 |
| | | **77,200** | **61,125** |

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymerir ar gyfer pryniannau masnach yw 3.4 diwrnod (2020-21: 2.4 diwrnod). Bernir bod y symiau sy'n cario o symiau taladwy masnach yn fras amcan o'u gwerthoedd teg.

### 13.2 Anghyfredol

| | Nodiadau | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Ymrwymiadau net o dan brydlesi cyllid – adeiladau | 10 | 68,404 | 3,699 |
| | | **68,404** | **3,699** |

## 14 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

### 14.1 Cynlluniau rhyddhau cynnar ac eraill

| | 2021-22 Ymddeoliad cynnar ac eraill £'000 | 2020-21 Ymddeoliad cynnar ac eraill £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 60 | 522 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | – | – |
| Ailbrisiad o ddarpariaeth | – | (4) |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (7) | (458) |
| Darpariaeth a adferwyd heb ei defnyddio | – | – |
| **Ar 31 Mawrth** | **53** | **60** |
| Wedi ei gynnwys mewn rhwymedigaethau cyfredol | 53 | 60 |
| Wedi ei gynnwys mewn rhwymedigaethau anghyfredol | – | – |
| | **53** | **60** |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yn rhoi buddion ymddeol i weithwyr penodol. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Cofrestrfa Tir EM yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun. Cyfanswm y taliadau yn y flwyddyn oedd £0.0m, a darparwyd ar gyfer £0.5m ohono o fewn y ddarpariaeth ymddeoliad cynnar yng nghyfrifon 2021-22 (2020-21: Taliadau £0.0m a Darpariaeth o £0.5m). Codir cyfanswm y rhwymedigaeth pensiwn hyd at oedran ymddeol arferol ar gyfer pob gweithiwr i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn ymddeol yn gynnar ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Caiff taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig y gweithiwr sydd wedi ymddeol tan oedran ymddeol arferol eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Mae darpariaethau eraill yn gysylltiedig â chostau cau a dadfeiliad.

### 14.2 Cronfa Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gofrestrfa Tir EM i indemnio am golledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yr yswiriwr statudol o deitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM. Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad am hawliadau hysbys a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR).

| | 2021-22 | | | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darpariaeth heb ei setlo £'000 | Darpariaeth IBNR £'000 | Cyfanswm £'000 | Darpariaeth heb ei setlo £'000 | Darpariaeth IBNR £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 7,700 | 62,900 | **70,600** | 6,500 | 66,700 | **73,200** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 5,780 | – | **5,780** | 5,629 | – | **5,629** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (5,780) | – | **(5,780)** | (5,629) | – | **(5,629)** |
| Ailbrisiad hawliadau | (100) | – | **(100)** | 1,200 | – | **1,200** |
| Ailbrisiad IBNR | – | (700) | **(700)** | – | (3,800) | **(3,800)** |
| **Ar 31 Mawrth** | **7,600** | **62,200** | **69,800** | **7,700** | **62,900** | **70,600** |

Yn dilyn adolygiad actiwari gan Adran Actwari'r Llywodraeth, mae'r gronfa mewn perthynas â hawliadau wedi eu hadrodd ond heb eu setlo (Darpariaeth Ddyledus) wedi lleihau yn 2021-22 gan £0.1m (2020-21: Cynnydd o £1.2m). Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (Ddarpariaeth IBNR) wedi gostwng yn 2020-21 gan £0.7m (2020-21: gostyngiad o £3.8m).

Y rheswm am y gostyngiad o £0.1m mewn hawliadau dyledus yw'r cynnydd mewn hawliadau sy'n cael ei wrthbwyso gan ostyngiad mewn patrymau setlo hawliadau, gostyngiad yn y gost gyfartalog fesul hawliad a newid yng nghyfradd ddisgownt Trysorlys EM.

Roedd y symudiad £0.7m yn y Ddarpariaeth IBNR o ganlyniad i'r niferoedd uwch o hawliadau disgwyliedig sy'n cael ei wrthbwyso gan ostyngiad mewn patrymau setlo hawliadau a chyfradd ddisgownt Trysorlys EM.

Mae'r Ddarpariaeth Ddyledus ar gyfer hawliadau a dderbyniwyd ond sydd heb eu setlo eto yn amcangyfrif a chan ei bod yn cynnwys rhagfynegi taliadau yn y dyfodol, mae'r symiau terfynol sy'n cael eu talu ar gyfer yr hawliadau hyn yn ansicr. Y prif ansicrwydd yw:

— cyfran yr hawliadau dyledus a gaiff eu talu yn y pen draw;
— gwerth y taliadau sy'n cael eu gwneud; ac
— effaith unrhyw farnau cyfreithiol.

Gall presenoldeb hawliadau dyledus mawr ychwanegu'n sylweddol at yr ansicrwydd hwn.

Mae'r Ddarpariaeth IBNR yn fwy ac yn fwy ansicr o'i hanfod na'r Ddarpariaeth Ddyledus. Yn wahanol i'r Ddarpariaeth Ddyledus, sy'n seiliedig ar wybodaeth am hawliadau presennol, mae'r ddarpariaeth IBNR yn cynnwys hawliadau posibl a allai gael eu gwneud o ganlyniad i wallau sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r gofrestr o ganlyniad i weithgarwch diweddaru o ddydd i ddydd (naill ai trwy dwyll a ffugio neu wall gweinyddol). Y prif ansicrwydd yn y Ddarpariaeth IBNR yw:

— ni wyddys nifer y gwallau heb eu hadrodd sydd yn y gofrestr ar hyn o bryd;
— ar ba adeg yn y dyfodol y bydd y gwallau hyn yn cael eu darganfod a'r hawliadau'n cael eu gwneud; a
— beth fydd cost yr hawliadau cyfatebol.

Gall gymryd sawl blwyddyn i adrodd am hawliadau ac yna eu setlo.

Wrth amcangyfrif y Ddarpariaeth IBNR, mae'r actiwari yn rhagamcanu nifer ac amseriad adroddiadau hawliadau yn y dyfodol a maint cyfartalog hawliadau, gan ddefnyddio rhagdybiaethau am batrymau setlo hawliadau, effeithiau disgwyliedig unrhyw farnau cyfreithiol y gwyddys amdanynt a chwyddiant hawliadau. Yna caiff llifoedd arian parod amcanestynedig ar gyfer hawliadau yn y dyfodol eu disgowntio i werth presennol net ar y dyddiad cyfrifyddu gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio rhagnodedig Trysorlys EM.

Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata hawliadau hanesyddol, lwfans ar gyfer tueddiadau diweddar ac ystyried effeithiau posibl ffactorau sylfaenol megis maint gweithgarwch Cofrestrfa Tir EM a nifer y teitlau cofrestredig. Darparwn fewnbwn i'r actiwarïaid ar y rhagdybiaethau hyn, yn seiliedig ar wybodaeth y tîm cyfreithiol sy'n ymdrin â'r hawliadau.

**Ansicrwydd yn y darpariaethau – dadansoddi sensitifrwydd**

Mae gwerthoedd Darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn ddarostyngedig i werth setliad terfynol ansicr yn y dyfodol, ar gyfer hawliadau y gwyddys amdanynt a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR). Gallai'r ansicrwydd yng ngwerth hawliadau heb eu setlo arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth arfaethedig. Mae amrywiaeth o senarios wedi cael eu hystyried mewn perthynas â'r rhagdybiaethau ynghylch:

— cyfran yr hawliadau sy'n setlo am sero;
— maint yr hawliad ar gyfartaledd;
— cyfradd disgownt ragnodedig Trysorlys EM;
— nifer yr hawliadau a dderbynnir; a'r
— gyfradd chwyddiant.

Ystyriwyd y senarios hyn ar eu pennau eu hunain ac ar y cyd fel y dangosir yn y tabl dadansoddi sensitifrwydd isod.

Ar sail y gwaith dadansoddi hwn:

— mae'n rhesymol i ragweld y gallai gwerth rhwymedigaethau fod tua £7.6m (Darpariaeth Ddyledus) neu £62.2m (Darpariaeth IBNR).
— mae'n bosibl, mewn senarios ffafriol iawn y gallai gwerth rhwymedigaethau fod cyn lleied â £7.3m (Darpariaeth Ddyledus) a £42.9m (Darpariaeth IBNR).

Rydym hefyd wedi ystyried senarios niweidiol eithafol lle mae gwerth rhwymedigaethau gymaint â £7.9m (Darpariaeth Ddyledus) a £82.7m (Darpariaeth IBNR). Mae natur benagored tymor hir indemniad statudol yn golygu nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r rhwymedigaeth fwyaf posibl. Fodd bynnag, credwn fod tebygolrwydd senarios fel hyn yn fach.

Gall graddfa'r ansicrwydd ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol fod yn wahanol i'r hyn a ddangosir yma. Gall hyn fod am nifer o resymau, er enghraifft, oherwydd bod proffil hawliadau wedi newid neu oherwydd bod y rhagolygon o ran tueddiadau hawliadau yn y dyfodol wedi newid.

Ar ddyddiadau cyfrifyddu yn y dyfodol, dylid disgwyl:

— y bydd y Ddarpariaeth Ddyledus yn amrywio yn dibynnu ar nifer yr hawliadau sy'n cael eu hadrodd y pryd hynny, yn enwedig hawliadau mawr;
— os bydd popeth arall yn gyfartal, bydd y Ddarpariaeth IBNR yn cynyddu dros amser oherwydd grymoedd chwyddiant; a
— bydd y Ddarpariaeth Heb ei Setlo a'r Ddarpariaeth IBNR yn arbennig o sensitif i nifer a gwerth hawliadau twyll a ffugio oherwydd dyma'r categori o hawliadau mwyaf arwyddocaol yn ariannol.

Y Ddarpariaeth Cronfa Indemniad o £69.8m yw ein hamcangyfrif gorau. Yn ogystal, mae gwerthoedd Darpariaethau'r Gronfa Indemniad yn y dyfodol yn agored i ansicrwydd cynhenid.

## Dadansoddiad sensitifrwydd

| | 2021-22 Darpariaeth Ddyledus Uchafswm £m | 2021-22 Darpariaeth Ddyledus Lleiafswm £m | 2021-22 Symudiad canran % |
|---|---|---|---|
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth y gellir ei ragweld yn rhesymol – gweler Nodyn 14.2) | 7.6 | 7.6 | 0% |
| **Effaith senarios** | | | |
| **Cyfradd disgownt:** | | | |
| 1. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | (0.3) | | –4% |
| 2. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | | 0.3 | 4% |
| **Costau setlo** | | | |
| 3. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall | 0.5 | | 6% |
| 4. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau gwall | | (0.5) | -6% |
| 5. Cynyddu costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll | 0.1 | | 1% |
| 6. Gostwng costau setlo ar gyfer y flwyddyn ddatblygu gyntaf gan 5% ar gyfer hawliadau twyll | | (0.1) | -1% |
| **Senarios ffafriol eithafol** | | | |
| (2) + (4) + (6) | | 7.3 | |
| **Senarios niweidiol eithafol** | | | |
| (1) + (3) + (5) | 7.9 | | |

| | 2021-22 Uchafswm Darpariaeth IBNR £m | 2021-22 Lleiafswm Darpariaeth IBNR £m | 2021-22 Symudiad canran cynnydd % | 2021-22 Symudiad canran gostyngiad % |
|---|---|---|---|---|
| Darparwyd yn y cyfrifon hyn (gwerth y gellir ei ragweld yn rhesymol – gweler Nodyn 14.2) | 62.2 | 62.2 | 0 | 0 |
| **Effaith senarios** | | | | |
| **Senarios ffafriol ond rhagweladwy** | | | | |
| **Cyfran hawliadau dim** | | | | |
| 1. Newid y gyfran hawliadau dim ar gyfer hawliadau athreuliol gan +/- 5% | 2.5 | (2.5) | 4% | –4% |
| 2. Newid y gyfran hawliadau dim ar gyfer hawliadau mawr gan +/- 5% | 1.9 | (1.9) | 3% | –3% |
| **Cost gyfartalog yr hawliad** | | | | |
| 3. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau gwall athreuliol gan +/- 10% | 2.5 | (2.5) | 4% | -4% |
| 4. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau gwall mawr gan +/- 10% | 1.9 | (1.9) | 3% | -3% |
| 5. Newid cost gyfartalog yr hawliad ar gyfer hawliadau twyll athreuliol gan +/- 10% | 0.6 | (0.6) | 1% | -1% |
| 6. Newid cost gyfartalog yr hawliad gan +/- 10% ar gyfer hawliadau twyll mawr | 0.6 | (0.6) | 1% | -1% |
| **Cyfradd disgownt** | | | | |
| 7. Cynyddu cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | | (2.5) | | -4% |
| 8. Gostwng cyfradd disgownt ragnodedig y Trysorlys gan 0.5% y flwyddyn | 3.1 | | 5% | |
| **Y nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR** | | | | |
| 9. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR athreuliol gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2017/18 | 0.6 | | 1% | |
| 10. Gostwng nifer yr hawliadau IBNR athreuliol a ragamcanir gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2017/18 | | (0.6) | | -1% |
| 11. Cynyddu'r nifer amcanestynedig o hawliadau IBNR mawr gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2017/18 | 0.6 | | 1% | |
| 12. Gostwng nifer amcanestynedig yr hawliadau IBNR mawr gan 10% ar gyfer blynyddoedd digwyddiad er 2017/18 | | (0.6) | | -1% |
| **Chwyddiant hawliadau yn y dyfodol** | | | | |
| 13. Cynyddu chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1% | 6.2 | | 10% | |
| 14. Gostwng chwyddiant hawliadau tybiedig yn y dyfodol gan 1% | | (5.6) | | -9% |
| **Senarios ffafriol eithafol** | | | | |
| (1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(7)+(10)+(12)+(14) | | 42.9 | | |
| **Senarios niweidiol eithafol** | | | | |
| (1)+(2)+(3)+(4)+(5)+(6)+(8)+(9)+(11)+(13) | 82.7 | | | |

## 15 Rhwymedigaethau digwyddiadol

### 15.1 Indemniad

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gofrestrfa Tir EM i indemnio am golledion sy'n deillio o wallau neu hepgoriadau yn y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys gwallau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yr yswiriwr statudol o deitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM. Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer yr hawliadau hyn o dan ei Chronfa Indemniad ar gyfer hawliadau y gwyddys amdanynt a hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd (IBNR) (gweler Nodyn 14.2) yn seiliedig ar lwyddiant tebygol hawliadau.

Ar 31 Mawrth 2022, mae gwerth hawliadau indemniad sy'n aros i'w prosesu a wnaed i Gofrestrfa Tir EM i'w weld isod. Amcangyfrifir mai gwerth setlo'r hawliadau hyn sydd wedi eu cynnwys yn y ddarpariaeth Cronfa Indemniad yw £7.6m (gweler nodyn 14.2) (2020-21: £7.7m).

| Gwallau neu hepgoriadau | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| Camgymeriadau | 4,442 | 9,903 |
| Twyll a ffugio | 14,576 | 16,267 |
| | **19,018** | **26,170** |

### 15.2 Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Ar 31 Mawrth 2022, nid oedd gan Gofrestrfa Tir EM unrhyw achos tribiwnlys cyflogaeth, yr ystyrir eu bod yn rhwymedigaethau digwyddiadol.

## 16 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf | 14,571 | 55 |
| **Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn** | **14,571** | **55** |

Mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau cyfalaf yn 2021-22 yn cael ei ysgogi gan gynnydd Rhaglen Pridiannau Tir Lleol Cofrestrfa Tir EM. Mae'r rhaglen hon yn rhan o Bortffolio Prosiectau Mawr y Llywodraeth, y mae Cofrestrfa Tir EM yn derbyn cyllid wedi ei neilltuo ar ei gyfer. Mae Cofrestrfa Tir EM wedi cynnwys yn ei gyfalaf ymrwymiadau sydd wedi eu cynnwys o fewn contractau a lofnodwyd cyn 31 Mawrth 2022, nad ydynt eisoes wedi eu hadlewyrchu mewn nodiadau eraill i'r cyfrifon hyn. https://www.gov.uk/government/publications/hmlr-government-major-projects-portfolio-data-2021

| Rhaglenni | 2021-22<br>£'000 |
|---|---|
| Pridiannau Tir Lleol | 13,719 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 852 |
| | **14,571** |

## 17 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau Partïon Cysylltiedig*, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu am drafodion partïon cysylltiedig.

Yn ystod 2021-22, cafodd Cofrestrfa Tir EM nifer o drafodion perthnasol ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans, Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ac Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth.

Nid yw unrhyw Aelodau Bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â Chofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad Tâl yn darparu gwybodaeth am ddigolledu rheolaeth allweddol.

## 18 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 *Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

# Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM 2021-22

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EM i baratoi, ar gyfer bob blwyddyn ariannol, Ddatganiad Ymddiriedolaeth ("y Datganiad") yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Mae'r Datganiad i'w baratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddo roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y ffïoedd a'r taliadau, a'r gwariant cysylltiedig a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon a'r datganiad ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon fel cyfanwaith yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn Nhrysorlys EM wedi penodi Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Cofrestrfa Tir EM yn Swyddog Cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EM, i'w gweld yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr Cofrestrfa Tir EM yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

## Datganiad Llywodraethu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM rwy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n cefnogi cyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EM, gan ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EM.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu ac yn dilyn egwyddorion llywodraethu da yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM. Mae'r Datganiad Llywodraethu, sy'n cwmpasu pob agwedd ar Cofrestrfa Tir EM, gan gynnwys y rhai a adroddir yma yn y Datganiad Ymddiriedolaeth hwn, wedi ei ddarparu yn yr Adroddiad Atebolrwydd (tudalennau 65 i 75).

Simon Hayes

**Simon Hayes**
Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
8 Gorffennaf 2022

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedolaeth Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel ar 31 Mawrth 2022;
- Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall a'r Datganiad Llifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2022 a'i refeniw net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (UK) (ISAs UK), y gyfraith sy'n gymwys, a Nodyn Ymarfer 10 *Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig*. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran *Cyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol* yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf hefyd wedi dewis cymhwyso'r safonau moesegol sy'n berthnasol i endidau rhestredig. Rwyf yn annibynnol ar Gofrestrfa Tir EM yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cofrestrfa Tir EM o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth arwyddocaol ar allu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Cofrestrfa Tir EM wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a thystysgrif ac adroddiad fy archwilydd. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall heblaw i'r graddau a ddatgenir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu fy ngwybodaeth a gafwyd trwy gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos fel arall fel petai wedi ei cham-ddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, fod camddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall honno, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn ni, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staffio sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a ddyroddwyd o dan Ddeddf y Ganghellor ac Adrannau Archwilio 1921; ac

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf y Ganghellor ac Adrannau Archwilio 1921.
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Yn sgîl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gofrestrfa Tir EM a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr

Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd arno ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

— nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
— nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan Gofrestrfa Tir EM neu nid yw manylion digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
— nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a manylion cyfrifyddu; neu
— nid yw rhai datgeliadau o dâl a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM wedi eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a manylion cyfrifyddu; neu
— nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

— cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
— paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adroddiadau ariannol cymwys ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
— sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
— rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiad ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall; ac
— asesu gallu Cofrestrfa Tir EM i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adrannau'r Ganghellor ac Archwilio 1921.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gwblheir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn sylweddol os yw'n rhesymol i ddisgwyl y gallant ddylanwadu, yn unigol neu ar y cyd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**I ba raddau y barnwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll**

Rwy'n llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

**Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll**

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, cafodd y canlynol eu hystyried:

— natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Cofrestrfa Tir EM.
— holi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cofrestrfa Tir EM a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cofrestrfa Tir EM mewn perthynas â:
  – nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  – canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; a'r
  – rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Cofrestrfa Tir EM sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Cofrestrfa Tir EM â Deddf y Ganghellor ac Adrannau Archwilio 1921 a Rheoli Arian Cyhoeddus.
— trafod gyda'r tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn Cofrestrfa Tir EM ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodion cymhleth a thuedd mewn amcangyfrifon rheoli. Yn debyg i bob archwiliad o dan ISAs (DU), mae hefyd yn ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Rwyf hefyd yn sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cofrestrfa Tir EM yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu yn unol â nhw, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu sydd wedi cael effaith sylfaenol ar weithrediadau Cofrestrfa Tir EM. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921, Rheoli Arian Cyhoeddus, Deddf Cofrestru Tir 2002, Rheolau Cofrestru Tir 2003, Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir 1972 ac unrhyw gyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a deddfwriaeth treth berthnasol.

**Ymateb archwilio i risg a nodwyd**
O ganlyniad i gyflawni'r uchod, roedd y gweithdrefnau a ddilynais i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

— adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;

— holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r cwnsler cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

— darllen ac adolygu cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau mewnol ac archwilio; ac

— wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a luniwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Hefyd, cyfathrebais ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o fy nhystysgrif.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**
Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cynhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sydd â chyfrifoldeb llywodraethu am, ymysg pethau eraill, cwmpas ac amseru arfaethedig yr archwiliad a chasgliadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol yn y rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies** **11 Gorffennaf 2022**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiad ymddiriedolaeth

# Datganiadau ariannol

## Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw Ffïoedd a Thaliadau** | | | |
| Cofrestru teitl | 2 | 307,023 | 226,042 |
| Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | 2 | 7,279 | 6,269 |
| Pridiannau Tir Lleol | 2 | 408 | 225 |
| **Cyfanswm Refeniw Ffïoedd a Thaliadau** | | **314,710** | **232,536** |
| **Incwm masnachol** | | | |
| Incwm o weithgareddau masnachol | 2 | 4,219 | 3,857 |
| **Cyfanswm Incwm Masnachol:** | | **4,219** | **3,857** |
| **Cyfanswm refeniw ac incwm arall** | | **318,929** | **236,393** |
| **Gwariant** | | | |
| Dyledion eraill wedi eu dileu | 3.3 | (52) | (22) |
| Dyledion drwg wedi eu dileu | 3.3 | 4 | (12) |
| **Cyfanswm gwariant** | | **(48)** | **(34)** |
| **Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol** | 5 | **318,881** | **236,359** |

Ni chafodd unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig eu cyfrif amdanynt y tu allan i'r Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall uchod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 130 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn.

# Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2022

| | Nodyn | 2021-22<br>£’000 | 2020-21<br>£’000 |
|---|---|---|---|
| **Mae symiau derbyniadwy yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy eraill | 3.1 | 3,073 | 1,361 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | | 152,909 | 100,508 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **155,982** | **101,869** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy | 4.1 | – | – |
| Refeniw gohiriedig | 4.1 | 148,402 | 96,998 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **148,402** | **96,998** |
| **Asedau cyfredol net** | | **7,580** | **4,871** |
| **Cyfanswm asedau net** | | **7,580** | **4,871** |
| Cynrychiolwyd gan: | | | |
| **Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol** | 5 | **7,580** | **4,871** |

Mae’r nodiadau ar dudalennau 128 i 130 yn ffurfio rhan o’r datganiad hwn.



**Simon Hayes**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
8 Gorffennaf 2022

# Datganiad o lifoedd arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

| | Nodiadau | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | A | 368,574 | 287,980 |
| Arian parod a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | 5 | (316,173) | (207,566) |
| **Cynnydd(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn** | | **52,401** | **80,414** |
| **Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian** | | | |
| **A: Cysoni'r llif arian parod net i'r symudiad mewn cronfeydd net** | | | |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | SoCNE | 318,881 | 236,359 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy | 3.1 | (1,711) | 1,513 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau | 4.1 | 51,404 | 50,108 |
| Cynnydd(gostyngiad) yn y darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau | | – | – |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **368,574** | **287,980** |
| **B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net** | | | |
| Cynnydd(gostyngiad) mewn arian parod yn y cyfnod hwn | | 52,401 | 80,414 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill (Arian Parod Net yn y Banc) | | 100,508 | 20,094 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth (Balans Wrth Gau)** | | **152,909** | **100,508** |
| **Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw yn:** | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | | 152,909 | 100,508 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | **152,909** | **100,508** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 130 yn ffurfio rhan o'r datganiad hwn..

# Nodiadau i'r Datganiad Ymddiriedolaeth

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Sail cyfrifyddu

Paratoir y Datganiad Ymddiriedolaeth yn unol â:

— Llawlyfr Adrodd Ariannol 2021-22 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, yn arbennig Pennod 8.2 sy'n delio â refeniw'r Gronfa Gyfunol a Datganiadau Ymddiriedolaeth. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys o fewn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u dehonglir ar gyfer y sector cyhoeddus; a'r

— cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM o dan adran 2 (3) o Ddeddf y Trysorlys ac Adrannau Archwilio 1921.

Disgrifir y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Ymddiriedolaeth isod. Defnyddiwyd y polisïau cyfrifyddu yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a gynhwysir yn y datganiadau hyn yw'r llifoedd arian hynny y mae Cofrestrfa Tir EM yn eu trin ar ran y Gronfa Gyfunol a lle mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phrif adran.

Mae'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei chynnwys yn y datganiadau hyn ac yn y nodiadau wedi ei thalgrynnu i'r £'000 agosaf.

### 1.2 Newidiadau mewn polisi cyfrifyddu a datgeliadau

Ni fu unrhyw newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod adrodd. Safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd wedi eu cyhoeddi ond heb fod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill 2021 a heb eu mabwysiadu'n gynnar:

— bydd IFRS 17 *Contractau Yswiriant* yn weithredol o 1 Ionawr 2023 ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus. Rhagwelir na chaiff y safon adrodd hon unrhyw effaith gyfrifyddu ar Gofrestrfa Tir EM oherwydd ni ddelir unrhyw gontractau yswiriant o'r fath.

### 1.3 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y Datganiad Ymddiriedolaeth o dan y confensiwn cost hanesyddol. Mae paratoi'r cyfrifon yn unol ag IFRS yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol (gweler Nodyn 1.6). Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r rheolwyr arfer eu barn yn y broses o gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu.

### 1.4 Cydnabod refeniw

Mae ffïoedd a thaliadau yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg y symiau a dderbynnir ac yn unol ag IFRS 15. Mae ffïoedd a thaliadau yn deillio o Orchymyn Ffi Cofrestru Tir 2013 (https://www.legislation.gov.uk/uksi/2013/3174/made). Mae'r rhain wedi eu cynnwys o fewn datganiadau ariannol y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu. Cydnabyddir incwm yn glir o unrhyw ad-daliadau ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau, neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus yn cael ei rhoi gan gwsmeriaid.

Mae incwm cofrestru teitl a Phridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cael ei gydnabod pan dderbynnir cais a gwblhawyd. Os nad yw cais wedi ei gwblhau, mae'r swm a dderbynnir yn cael ei drin fel ffi ymlaen llaw, waeth beth fo'r math o gais. Mae pob math o gais yn cael ei gyfrif amdano yn gyson. Mae'r symiau tâl cysylltiedig a dderbynnir am wasanaethau sydd heb eu darparu yn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni yn cael eu cofnodi wedi hynny fel rhwymedigaethau contract a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

Cydnabyddir incwm ar ôl i'r ymrwymiad perfformiad contract o dan IFRS 15 gael ei fodloni, hynny yw ar ôl i'r gofrestr gael ei diweddaru'n llawn ar ôl derbyn cais.

### 1.5 Symiau derbyniadwy

Dangosir symiau derbyniadwy yn glir o amhariadau yn unol â gofynion IFRS 9. Mae symiau derbyniadwy yn cael eu dad-gydnabod pan fydd yr hawliau i dderbyn llifoedd arian o'r asedau wedi dod i ben.

### 1.6 Barnau ac amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth, mae Cofrestrfa Tir EM yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Mae'r maes barn mwyaf arwyddocaol wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn yn ymwneud â chydnabod refeniw a chyfrifo'r balans refeniw gohiriedig, sy'n gofyn am farn ynghylch canran y gwaith a gwblhawyd ar gyfer ceisiadau sydd heb eu prosesu. Mae'r maes barn mwyaf arwyddocaol wrth baratoi'r Datganiad Ymddiriedolaeth hwn yn ymwneud â chydnabod refeniw a chyfrifo'r balans refeniw gohiriedig, sy'n gofyn am farn ynghylch canran y gwaith a gwblhawyd ar gyfer ceisiadau sydd heb eu prosesu.

### 1.7 Amhariad ar golledion dyled a chredyd

Dangosir symiau derbyniadwy yn glir o amhariadau yn unol â gofynion FReM ac IFRS 9. Mae gwerth teg symiau derbyniadwy yn cael ei bennu trwy wneud amhariad i leihau gwerth sy'n cario symiau derbyniadwy i'r llif amcangyfrifedig o ad-daliadau yn y dyfodol.

Nid yw Cofrestrfa Tir EM yn agored i risg credyd o dan *Offerynnau Ariannol* IFRS 7.

### 1.8 Incwm Derbyniadau Ychwanegol y Cronfa Gyfunol Amrywiol

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus, mae gan Drysorlys EM bwerau i gyfarwyddo y gall incwm sydd wedi ei gynnwys mewn Amcangyfrif adrannol ac a gymeradwywyd gan y Senedd gael ei gadw a'i ddefnyddio gan yr adran. Gwneir hyn trwy gymhwyso'r incwm hwn yn erbyn costau penodol (adnoddau neu gyfalaf) yn yr Amcangyfrif hwnnw. Pan fydd Cofrestrfa Tir EM yn derbyn incwm y tu allan i'r awdurdod hwnnw, rhaid ildio'r arian parod i'r Gronfa Gyfunol.

## 2. Refeniw ac incwm arall

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| **Ffïoedd a thaliadau** | | |
| Cofrestru teitl | 307,023 | 226,042 |
| Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol | 7,279 | 6,269 |
| Pridiannau Tir Lleol | 408 | 225 |
| **Cyfanswm ffïoedd a thaliadau** | **314,710** | **232,536** |
| **Incwm masnachol** | | |
| Incwm o weithgareddau masnachol | 4,219 | 3,857 |
| **Cyfanswm Incwm Masnachol** | **4,219** | **3,857** |
| **Cyfanswm Refeniw ac Incwm Arall** | **318,929** | **236,393** |

## 3. Symiau derbyniadwy
### 3.1 Symiau derbyniadwy cyfredol

| | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau derbyniadwy | 3,078 | 1,373 |
| Darpariaeth ar gyfer dyled amheus | (5) | (12) |
| **Symiau derbyniadwy cyn amhariad** | **3,073** | **1,361** |
| llai amhariadau amcangyfrifedig | – | – |
| **Cyfanswm y symiau derbyniadwy ar 31 Mawrth** | **3,073** | **1,361** |

Mae symiau derbyniadwy yn cynrychioli'r swm sy'n ddyledus gan drethdalwyr a busnesau lle mae anfonebau neu alwadau eraill am daliad wedi eu cyhoeddi ond heb eu talu ar 31 Mawrth 2022. Caiff dyledion eu dileu dim ond pan fydd dyledwr yn cael ei ddiddymu, yn fethdalwr neu yn nwylo'r diddymwr a bernir nad oes modd adennill y ddyled trwy unrhyw fodd pellach.

Mae derbyniadau cais unigol yn cael eu prosesu dim ond pan fydd y ffi berthnasol wedi cael ei chyfrif amdani. Mae'r cyfanswm i'w gasglu yn cael ei ledaenu dros nifer uchel o gwsmeriaid gwahanol gyda ffïoedd gwerth isel cysylltiedig. Yn unol â hynny, mae'r tebygolrwydd o beidio â chasglu ffïoedd a bod yn agored i risg credyd wedi cael ei bennu'n anarwyddocaol o ran risg cyffredinol, gyda'r asesiadau hyn heb eu newid yn sgil effaith y coronafeirws (COVID-19).

### 3.2 Symiau derbyniadwy anghyfredol
Nid yw unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

### 3.3 Colledion credyd

| | Nodyn | 2021-22 £'000 | 2020-21 £'000 |
|---|---|---|---|
| Dyledion eraill wedi eu dileu | | (52) | (22) |
| Dyled ddrwg wedi ei dileu | | 4 | – |
| **Cyfanswm** | | **(48)** | **(22)** |

# 4. Symiau taladwy a refeniw gohiriedig

## 4.1 Symiau taladwy cyfredol

| | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy | – | – |
| Refeniw gohiriedig | 148,402 | 96,998 |
| **Cyfanswm symiau taladwy a refeniw gohiriedig ar 31 Mawrth** | **148,402** | **96,998** |

Symiau taladwy yw'r symiau a sefydlwyd fel rhai sy'n ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle gwneir taliad wedi hynny. Mae refeniw gohiriedig yn cynnwys incwm ar gyfer ffïoedd a dalwyd yn y flwyddyn gyfredol sy'n ymwneud â chyfnodau ariannol yn y dyfodol.

## 4.2 Symiau taladwy anghyfredol

Nid yw unrhyw symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

# 5. Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol

| | Nodyn | 2021-22<br>£'000 | 2020-21<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar y Gronfa Gyfunol ar 1 Ebrill** | | **4,872** | **(23,921)** |
| Refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyfunol | SOCNE | 318,881 | 236,359 |
| Llai'r swm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | | (316,173) | (207,566) |
| **Balans ar y Cyfrif Cronfa Gyfunol ar 31 Mawrth** | | **7,580** | **4,872** |

# 6. Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau Partïon Cysylltiedig*, fel y'i dehonglir gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu am drafodion partïon cysylltiedig.

Nid yw unrhyw Aelodau Bwrdd, neu aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â Chofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Adroddiad Tâl yn darparu gwybodaeth am ddigolledu rheolaeth allweddol.

# 7. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 *Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl diwedd y flwyddyn yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r cyfrifon yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau dilynol i'w hadrodd.

Nid yw'r atodiadau yn destun archwiliad ariannol.

# Atodiad A

## Maint o waith a llwythi gwaith 2021-22 a 2020-21

### Ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl math a dull derbyn

| | 2021-22 | | | 2020-21 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd** | **Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein** | **% y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein** | **Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd** | **Ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein** | **% y ceisiadau/ cynhyrchion a dderbyniwyd trwy wasanaethau ar-lein** |
| Diweddariadau cofrestr swmpus | 1,380,627 | – | – | 281,575 | – | – |
| Cyfanswm ceisiadau ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 38,057,004 | 36,655,082 | 96.32 | 31,766,162 | 30,731,661 | 96.74 |
| **Cyfanswm ceisiadau/ cynhyrchion** | **39,437,631** | **36,655,082** | **92.94** | **32,047,737** | **30,731,661** | **95.89** |
| Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus | 4,985,794 | 4,570,809 | 91.68 | 4,026,204 | 3,714,169 | 92.25 |
| Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol | 21,967,047 | 21,870,855 | 99.56 | 19,325,983 | 19,238,451 | 99.55 |
| Ceisiadau gwasanaethau ymholiadau | 11,104,163 | 10,213,418 | 91.98 | 8,413,975 | 7,779,041 | 92.45 |
| **Cyfanswm** | **38,057,004** | **36,655,082** | **96.32** | **31,766,162** | **30,731,661** | **96.74** |
| **Ceisiadau safonol ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus** | | | | | | |
| Cofrestriadau cyntaf | 81,007 | – | – | 63,843 | – | – |
| Prydlesi gwaredol cyntaf | 187,424 | 180,702 | 96.41 | 140,863 | 134,854 | 95.73 |
| Trosglwyddiadau o ran o dir cofrestredig | 215,016 | 204,663 | 95.19 | 166,722 | 156,938 | 94.13 |
| Deliadau â'r cyfan o dir cofrestredig | 4,502,347 | 4,185,444 | 92.96 | 3,654,776 | 3,422,377 | 93.64 |
| **Cyfanswm** | **4,985,794** | **4,570,809** | **91.68** | **4,026,204** | **3,714,169** | **92.25** |
| **Cynhyrchion gwasanaethau rhagarweiniol** | | | | | | |
| Copïau swyddogol[1] | 18,305,941 | 18,227,450 | 99.57 | 16,296,002 | 16,226,566 | 99.57 |
| Chwiliadau swyddogol | 2,898,708 | 2,897,065 | 99.94 | 2,346,285 | 2,344,743 | 99.93 |
| Chwiliadau swyddogol o'r map mynegai[1] | 762,398 | 746,340 | 97.89 | 683,696 | 667,142 | 97.58 |
| **Cyfanswm** | **21,967,047** | **21,870,855** | **99.56** | **19,325,983** | **19,238,451** | **99.55** |
| **Ceisiadau gwasanaethau ymholiadau** | | | | | | |
| Gweld y gofrestr | 5,833,865 | 5,833,865 | 100.00 | 5,417,240 | 5,417,240 | 100.00 |
| Gweld cynllun teitl | 1,168,672 | 1,168,672 | 100.00 | 1,117,284 | 1,117,284 | 100.00 |
| Gweld dogfen | 42,210 | 42,210 | 100.00 | 41,008 | 41,008 | 100.00 |
| Gohebiaeth | 194,194 | 155,263 | 79.95 | 214,430 | 150,944 | 70.39 |
| Ymholiadau ffôn | 851,812 | – | – | 571,448 | – | – |
| Lawrlwythiadau MapSearch | 3,013,410 | 3,013,410 | 100.00 | 1,052,565 | 1,052,565 | 100.00 |
| **Cyfanswm** | **11,104,163** | **10,213,420** | **91.98** | **8,413,975** | **7,779,041** | **92.45** |

Ar gyfer y testun ategol gweler drosodd.

Mae'r tabl uchod yn amlinellu'r gweithgareddau trafodaethol am y flwyddyn, ynghyd â chymariaethau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Yn y flwyddyn ariannol hon cwblhawyd mwy na 39 miliwn o geisiadau, gan fodloni gofynion Deddf Cofrestru Tir 2002. Mae'r rhain yn ffurfio craidd ein gweithgareddau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys manylion ein cynnydd tuag at ddarparu gwasanaeth electronig, mewn perthynas â'r gwahanol fathau o geisiadau a dderbyniwn. Ac eithrio diweddariadau cofrestr swmpus, cynyddodd cyfran y ceisiadau a dderbyniwyd yn electronig dros 96%.

Mae diweddariadau cofrestr swmpus yn grwpiau o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i Gofrestrfa Tir EM ac sy'n effeithio ar nifer fawr o deitlau cofrestredig, megis banc yn newid y cyfeiriad ar gyfer gohebu ar bob un o'i bridiannau cofrestredig. Mae lefelau derbyn ceisiadau o'r fath yn gyfnewidiol eu natur ac felly cânt eu nodi ar wahân i fathau eraill o geisiadau er mwyn osgoi ystumio'r data.

Nodyn: Gall cais am gopi swyddogol arwain at ddarparu mwy nag un gofrestr a/neu gynllun teitl.

Gall cais am chwiliad o'r map mynegai arwain at ddatgelu mwy nag un rhif teitl. Am y rheswm hwn mae nifer y cofrestri/cynlluniau teitl neu nifer y rhifau teitl a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio fel metrig yn hytrach na nifer y ceisiadau eu hunain. Cynhyrchion a enwyd yw'r rhain.

# Atodiad B

## Maint o waith a llwythi gwaith Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 2021-22 a 2020-21

### Yr Adran Pridiannau Tir

Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972.

Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, achosion arfaethedig, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi eu cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir. Mae'r adran hefyd yn cynnal y Mynegai Enwau Perchnogion. Gellir chwilio'r mynegai hwn dim ond os oes gennych yr awdurdod priodol ac fe'i defnyddir i bennu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal yn erbyn unigolion neu gwmnïau.

Mae rhai elfennau o gyfrifon cwsmeriaid hefyd yn cael eu rheoli yn yr Adran Pridiannau Tir.

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2021-22 | Ailddatganwyd: Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2020-21 |
|---|---:|---:|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 10,628 | 13,284 |
| Dileadau | 3,643 | 3,134 |
| Chwiliadau swyddogol | | |
| – Chwiliadau llawn | 122,069 | 112,738 |
| – Chwiliadau wedi eu cyfyngu i ansolfedd | 1,777,050 | 1,521,105 |
| Copïau swyddfa | 17,822 | 15,674 |
| **Cyfanswm** | **1,931,212** | **1,665,935** |

### Yr Adran Credydau Amaethyddol

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

| Math o gais | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---:|---:|
| Cofrestriadau newydd | 405 | 210 |
| Dileadau a chywiriadau | 705 | 420 |
| Chwiliadau | 1,724 | 1,243 |
| **Cyfanswm** | **2,834** | **1,873** |

# Atodiad C

## Data hanesyddol cynaliadwyedd

### Data carbon (tunelli)

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli o CO2 cyfatebol)** | | | | | | | |
| Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpasau 1 a 2 | 3,186 | 3,828 | 3,900 | 4,885 | 5,142 | 6,818 | 7,835 |
| Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy | 850 | 646 | 525 | 1,824 | 1,688 | 1,710 | 1,195 |
| Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpasau 1 a 2 (wedi gwaredu elfennau adnewyddadwy) | 2,336 | 3,182 | 3,375 | 3,061 | 3,454 | 5,108 | 6,640 |
| Allyriadau gros teithio cwmpas 3 | 230 | 30 | 645 | 460 | 528 | 510 | 557 |
| **Cyfanswm gros yr allyriadau a adroddwyd** | **3,416** | **3,859** | **4,545** | **5,345** | **7,361** | **7,328** | **8,392** |
| **Dangosyddion anariannol (mWh)** | | | | | | | |
| Trydan: wedi ei brynu (grid, gwres a phŵer cyfunol, ac anadnewyddadwy) | 4,436 | 2,901 | 8,757 | 11,994 | 12,478 | 12,808 | 12,956 |
| Trydan: adnewyddadwy | 3,681 | 1,326 | 1,896 | – | – | – | – |
| Nwy | 7,984 | 6,909 | 6,657 | 6,528 | 6,659 | 5,774 | 7,325 |
| Ffynonellau ynni eraill | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm ynni** | **16,101** | **11,137** | **17,310** | **18,522** | **19,137** | **18,582** | **20,281** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | | | | |
| Gwariant ar ynni | 1,626 | 1,779 | 2,102 | 1,943 | 1,788 | 1,485 | 1,641 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau achrededig (er enghraifft Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 333 | 24 | 1,222 | 1,305 | 1,193 | 1,231 | 1,222 |

### Gwastraff sy'n codi (tunelli)

| Gwastraff | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol** | | | | | | | |
| Gwastraff peryglus | 0 | 0 | – | – | 6 | 3 | 1.6 |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | | | | | | | |
| Gwastraff tirlenwi | 0 | 4 | 20 | 40 | 29 | 13 | 31.9 |
| Gwastraff wedi ei ailddefnyddio/ ailgylchu | 247 | 194 | 651 | 966 | 986 | 1,028 | 1,604 |
| Ynni o wastraff | 104 | 101 | 123 | 163 | 26 | 5 | 6.6 |
| **Cyfanswm y gwastraff sy'n codi** | **354** | **299** | **794** | **1,169** | **1,047** | **1,049** | **1,644** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | | | | |
| Gwastraff peryglus | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff heb fod yn beryglus | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff tirlenwi | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff wedi ei ailddefnyddio/ ailgylchu | – | – | – | – | – | – | – |
| Gwastraff a losgwyd | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm costau gwastraff** | **84** | **99** | **138** | **75** | **147** | **129** | **212** |

### Lleihau dŵr (metrau ciwbig)

| Dŵr | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 | 2017-18 | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)** | | | | | | | |
| Defnydd | | | | | | | |
| Wedi ei gyflenwi | 20,978 | 18,492 | 41,829 | 41,548 | 41,130 | 34,967 | 36,395 |
| Wedi ei dynnu | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm defnydd** | **20,978** | **18,492** | **41,829** | **41,548** | **41,130** | **34,967** | **36,395** |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | | | | | | | |
| **Cyfanswm costau cyflenwad** | **100** | **134** | **201** | **164** | **139** | **152** | **173** |

# Atodiad Ch

## Cronfa Indemniad

Yn 2021-22 talwyd £6,955,380 ar gyfer 598 o hawliadau, o'i gymharu ag £5,444,362 ar gyfer 540 o hawliadau yn 2020-21. Roedd y taliad mwyaf eleni ar gyfer gwall yn y gofrestr lle roeddem wedi hepgor cofnod o hysbysiad, ac roedd y taliad hwn yn £1,292,084. Mae gwerthoedd talu eleni i fyny o'r flwyddyn ddiwethaf ac mae nifer yr hawliadau a dalwyd ychydig yn uwch hefyd.

Uchafswm gwerth cofnodedig yr hawliadau a dalwyd oedd £11,119,820 ond cafodd y rhain eu setlo am £6,955,380 gan arbed £4,164,440. Yn ystod y flwyddyn cafodd 173 o hawliadau eraill oedd wedi eu prisio am £1,587,480 eu setlo am ddim gwerth. O'r rhain roedd saith ohonynt ar gyfer twyll ac yn werth £806,605. Y flwyddyn hon derbyniwyd 784 o hawliadau newydd gan roi cyfanswm o £5,018,716, gan gynnwys 29 o hawliadau twyll wedi eu prisio am £3,060,698.

Adenillwyd £934,738 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £93,243 y flwyddyn ddiwethaf. Gall y ffigurau digolledu amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, gan adlewyrchu cydadwaith anrhagweladwy o elfennau cyfreithiol a ffeithiol a fydd yn pennu dichonoldeb unrhyw ddigolledu.

| Natur yr hawliad | Nifer yr hawliadau | Colled safonol (£) | Costau (£) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Stent teitlau cofrestredig | 58 | 74,168 | 302,242 | 5.70 |
| Gwallau/hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 72 | 3,254,501 | 315,032 | 54.04 |
| Gwallau cynlluniau amrywiol | 3 | 0 | 7,147 | 0.11 |
| Twyll a ffugio | 21 | 1,995,760 | 434,238 | 36.79 |
| Chwiliadau swyddogol (cynlluniau) | 5 | 34,700 | 6,531 | 0.62 |
| Gwallau methdaliad | 0 | 0 | 0 | 0.00 |
| Chwiliadau swyddogol (cyfreithiol) | 3 | 8,663 | 6,893 | 0.24 |
| Copïau swyddogol | 0 | 0 | 0 | 0.00 |
| Gwallau mewn chwiliadau o'r map mynegai | 1 | 0 | 660 | 0.01 |
| Gwallau mewn darnau wedi eu ffeilio | 236 | 1,624 | 51,421 | 0.80 |
| Colli dogfennau/gwallau gweinyddol | 198 | 45,391 | 60,316 | 1.60 |
| Gwallau Pridiannau Tir | 1 | 0 | 6,000 | 0.09 |
| **Cyfanswm** | **598** | **5,414,807** | **1,190,480** | **100** |

| | |
|---|---|
| Taliad gros | £6,605,287 |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawl ddigolledu statudol Cofrestrfa Tir EM | £934,738 |
| **Indemniad net** | **£5,670,549** |